



Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Cyfnod Ymgynghori Cychwynnol: Cynrychiolaethau

Cyfrol 7: 9701-9899

BCW-9701/ [REDACTED] / Cil-y-coed

Rwy'n teimlo bod ein cynrychiolydd presennol yn gweithio'n galed droson ni ac rwy'n teimlo bod gennyn ni fwy yn gyffredin ag etholwyr o fewn Dwyrain Casnewydd. Faswn i'n poeni y byddai'r ardal ddaearyddol fawr y bydden ni'n rhan ohoni yn golygu y cawn ni ein colli i raddau helaeth o fewn ffin llawer mwy o faint.

BCW-9702/ [REDACTED] / Corwen

Nid wy'n credu bod y ffiniau newydd yn addas at eu diben. Rwy'n eu gwrthwynebu'n llwyr. Rydych yn gosod fy nghartref i mewn i ardal arall nad oes ganddo unrhyw gysylltiad â hi [felly] yn fy natgysylltu rhag etholaeth y mae ein gwreiddiau ynddi. Rhag eich cywilydd am geisio camlywio pleidleisiau yn y ffordd yma. Mae hyn yn ddemocrataidd.

BCW-9703/ [REDACTED] / Bae Colwyn

Mae Llandrillo-yn-Rhos yn perthyn yn bendant iawn yng Nghlwyd ac NID Aberconwy. Fel y gwelwch o'r cyfeiriad post yn unig mae'n gysylltiedig, ac wedi bod erioed, â Bae Colwyn. Ar ben hynny os ydych chi'n byw yn Llandrillo-yn-Rhos yr ardal ysgol i'r plant yw Ysgol Uwchradd Eirias sydd ym Mae Colwyn oni bai eich bod yn dewis addysg amgen ar gyfer eich plentyn.

Os yw'r ymgynghoriad hwn o ddifrif am wrando ar bobl Llandrillo-yn-Rhos yna a wnewch chi sicrhau bod llinell y ffin yn ein gosod yng Nghlwyd.

BCW-9704/ [REDACTED] / Pont-y-pŵl

Credaf fod rhai o'r ardaloedd hyn yn rhy fach a bod ganddynt ormod o arweinwyr cyngor/rheolwyr a dim digon o weithwyr allan yn y maes yn gweithio wyneb yn wyneb â'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu gan fod gan gynghorau ormod o benaethiaid a rhy ychydig o Indiaid.

Byddem yn gweld arbedion ariannol uwch petawn yn lleihau'r cynghorau ymhellach yn ôl i'r hen ardaloedd cyngor o'r 1980au a chapio cyflog gweithwyr cyngor i fod yn llai na chyflog prif weinidog cymru.

BCW-9705/ [REDACTED] / Bargoed

Ail-lunio llinellau'r ffin ac unwaith eto mae Bargoed yn cael bargaen wael. Mae angen rhoi arian i mewn i'r ardal nid ei phensilio i mewn i ardal arall.

BCW-9706/ [REDACTED] / Rhyl



CYNGOR TREF Y
RHYL
 TOWN COUNCIL

Our Ref / Ein Cyf:

Your Ref / Eich Cyf:

Date / Dyddiad:

Town Mayor / Maer y Dref: Councillor / [REDACTED]

Town Clerk / Clerc y Dref: Mr [REDACTED]

Arolwg ffiniau seneddol 2022

Yn ddiweddar, bu Cyngor y Dref yn ystyried y cynigion drafft a gyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghori a dymunir gwneud y sylwadau canlynol mewn perthynas ag etholaeth arfaethedig Clwyd.

Bydd y cynnig yn arwain at wahanu trefi'r Rhyl a Phrestatyn a'u gosod mewn etholaethau etholiadol gwahanol, gyda'r Rhyl yn dod yn rhan o etholaeth Clwyd, a Phrestatyn yn ymuno ag etholaeth ddiwygiedig Delyn.

Nid yw aelodau Cyngor y Dref yn credu bod hyn yn briodol, am y rhesymau canlynol:

Yn hanesyddol, datblygodd Rhyl a Phrestatyn fel chwaer-drefi gwyliau (gan eu marchnata bob amser fel un gyrchfan). Bu cysylltiad erioed rhwng y trefi hyn, gan ddychwelyd yr un Aelod Seneddol. Nid oes unrhyw rwystr gwyrdd neu unrhyw wahaniad arall rhwng y ddau anheddiad trefol hyn. Os bydd y cynigion yn cael eu gweithredu, yn ymarferol, bydd eiddo sydd drws nesaf i'w gilydd yn ethol Aelodau Seneddol gwahanol. Mae'r Cyngor yn hawlio y bydd hyn yn creu dryswch ac anghyfleustra i etholwyr ac yn diddymu/chwalu'r hunaniaeth/cysylltiadau ar y cyd presennol rhwng y cymunedau.

I'r gorllewin i'r Rhyl, mae Afon Clwyd yn llifo i'r môr trwy aber y Foryd. Bu'r afon hon erioed yn rhwystr naturiol rhwng y Rhyl a'r cymunedau i'r gorllewin. Dyma hefyd y ffin llywodraeth leol bresennol. Trwy gysylltu'r Rhyl tua'r gorllewin â chymunedau Bae Cinmel, Tywyn, ac Abergele, collir y gwahaniad naturiol hwn. O ran mynd ymhellach i'r gorllewin, ni fu Rhyl erioed yn gysylltiedig ag ardal Bae Colwyn, a bydd y cynnig, o bosibl, yn creu etholaeth a fydd, ym marn y Cyngor, yn brin o ran cydlyniant cymunedol neu unrhyw berthynas rhwng etholwyr.

Yr eiddoch yn gywir

Clerc y Dref

[REDACTED]

[REDACTED]

[REDACTED]

[REDACTED]

BCW-9707/ [REDACTED] / Llandudno

Oddi wrthm: [REDACTED]

Anfonwyd: 2021-09-23 23:35

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Cynigion Drafft Comisiwn Ffiniau Cymru

Annwyl Feistri,

Rwyt yn ymateb i Gynigion Drafft Comisiwn Ffiniau Cymru gyda chyfeiriad penodol at Etholaeth Aberconwy a hoffwn wneud y pwyntiau canlynol:

Fel y mae'n sefyll mae gan Gymru 40 AS yn San Steffan a 60 Aelod o'r Senedd. Mae hynny'n 100 o gynrychiolwyr seneddol, sydd ymhell uwchlaw'r gynrychiolaeth seneddol i boblogaeth gymaradwy yn Lloegr. Mae'r anghysondeb hwn yn atresymol ac mae'n gwneud synwyr llwyr i leihau niter yr AS San Steffan o 40 i 32 yng Nghymru.

Mae'n cynnig cadarn i symud tuag at gydraddoli'n tras niter yr etholwyr ym mhob etholaeth tel y bydd gan bleidlais yr yn gwerth yn tras. Mae'n anomali o ran y ffiniau presennol bod gan Arton boblogaeth o 40,000 a chan rai o etholaethau Caerdydd fwy na 70,000 ac eto mae'r ddwy yn dychwelyd yn AS i San Steffan. Nid yw'n bosibl cael niteroedd sydd yn union yr un peth ym mhob etholaeth ond mae cael goddefiant cul o gwmpas cytartaledd yn dewis amgen perffaith dderbyniol. I weithio tuag at hyn yng Ngogledd Cymru mae'n gwneud synwyr llwyr i rannu Arton rhwng Meirion Dwytor ac Aberconwy.

Mae cysylltiadau cymunedol yn ystyriaeth i Gomisiwn Ffiniau Cymru ond ni allant tod yr ystyriaeth bennat. Byddai dwy gymuned tach Tre-garth a Bethesda yn honni mai a Bangor y mae eu cysylltiad naturiol, set y ganoltan boblogaeth *fwyat* yn etholaeth bersennol Arton, ac mae hynny'n wir. Fodd bynnag, ni all hynny tod yn rheswm dros gadw etholaeth Arton ac mae'n golygu y bydd yn rhaid eu huno ag un arall. Gan eu bod ill dwy yn eistedd i'r gorllewin o Fangor mae'n rhesymegol eu huno ag Aberconwy. Roedd Bangor yn rhan o etholaeth Aberconwy o'r blaen tan adolygiad blaenorol o'r ffiniau telly nid oes unrhyw reswm pam na ddylai tynd yn 61 iddi.

Yn ddiau bydd y Pleidiau Gwleidyddol sy'n teimlo eu bod yn cael eu hantanteisio gan y newidiadau artaethedig yn ceisio gwrthod y newidiadau hyn. Cyffindwylo fyddai hynny, sy'n hynod o annymunol ac yn tanseilio gwaith Comisiwn Ffiniau Cymru a hyder y cyhoedd yn y broses. Rhaid ymwrthod yn gryf rhag hynny a dylai budd y cyhoedd gymryd blaenoriaeth dros tuddiant unrhyw Blaid Wleidyddol.

Am y rhesymau hynny, rwy'n cetnogi cynigion Comisiwn Ffiniau Cymru yn gryf am etholaeth newydd Aberconwy a gobeithiat yn ddiffuant y cant eu cyftwyno.

Yr eiddoch yn gywir,

[REDACTED]



BCW-9708/ David Jones AS/ Gorllewin Clwyd**Y Gwir Anrhydeddus David Jones AS
Gorllewin Clwyd****HOUSE OF COMMONS
Westminster
LONDON
SW1A 0AA**

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Caerdydd
CF24 0BL

Trwy'r e-bost yn unig

28 Hydref 2021

Annwyl Syriaid,

Bûm yn Aelod Seneddol ar gyfer etholaeth Gorllewin Clwyd er 2005.

Hoffwn wrthwynebu cynigion cychwynol y Comisiwn mewn perthynas ag etholaethau seneddol newydd Clwyd ac Aberconwy. Gofynnaf i'r Comisiwn ystyried y sylwadau canlynol – sydd wedi'u seilio ar fy ngwybodaeth bersonol hirsefydlog a manwl am yr ardal sy'n ffurfio fy etholaeth gyfredol – a diwygio ei gynigion yn unol â hynny.

Mae fy mhrif wrthwynebiad yn ymwneud â'r cynnig i gynnwys ward Llandrillo-yn-Rhos ("Rhos") yn etholaeth newydd Aberconwy yn hytrach nag yng Nghlwyd.

Mae ward Rhos yn rhan annatod o dref Bae Colwyn, y cynigir cynnwys y gweddill ohoni yn etholaeth newydd Clwyd. Mae'r ward yn ethol wyth o gynghorwyr i Gyngor Tref Bae Colwyn. Pe byddai'r cynigion cychwynol yn cael eu mabwysiadu, canlyniad hynny yw y byddai cynrychiolaeth Cyngor Tref Bae Colwyn yn San Steffan yn cael ei rhannu, gyda'r mwyafrif o ardal y Cyngor wedi'i gynnwys yn etholaeth Clwyd, a Rhos yn ffurfio rhan o Aberconwy.

Nodaf y gallai'r Comisiwn ystyried unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu chwalu drwy newid etholaethau. Yn bwysig, nodaf hefyd o'r nodiadau i'r cynigion cychwynol fod y Comisiwn o'r farn bod ffiniau cymunedol presennol yn debygol o fod wedi cael eu creu i gydnabod cysylltiadau lleol, a'u bod felly'n debygol o adlewyrchu cysylltiadau lleol. Mae hynny'n wir â Chyngor Tref Bae Colwyn. Pe na fyddai Rhos yn cael ei chynnwys yn etholaeth newydd Clwyd, byddai cysylltiadau lleol rhwng y ward honno a wardiau eraill y Cyngor Tref yn cael eu chwalu a byddai cyfanrwydd ardal y Cyngor yn cael ei ddinistrio. Rwy'n argymhell y byddai hynny'n annerbyniol.

Mae ardal y Cyngor Tref yn adlewyrchu un gytref ddi-dor sy'n ymestyn o Benmaenrhos yn y dwyrain i Landrillo yn Rhos yn y gorllewin. Nant afon Ganol yw ffin orllewinol y gytref honno, gan gynnwys ward Rhos.

Afon Ganol yw'r ffin rhwng siroedd hanesyddol Sir Ddinbych a Sir Gaernarfon hefyd, a siroedd defodol presennol Clwyd a Gwynedd. Ni ddylid anwybyddu'r arwyddocâd hanesyddol hwnnw, gan ei fod yn adlewyrchu ac yn amlygu'r cysylltiadau lleol hirsefydlog a'r ymdeimlad o gymuned sy'n bodoli yn yr ardal. Mae Rhos yn rhan annatod o gytref Bae Colwyn, yn ddaearyddol ac yn ddiwylliannol, a dylid ei chynrychioli yn y Senedd mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r statws hwnnw.

Mae Rhos wedi'i gwahanu oddi wrth Fae Penrhyn, y cynigir yn briodol iddo ffurfio rhan o etholaeth newydd Aberconwy, gan afon Ganol, gan 'Ietem las' agored, annatblygedig caeau Fferm Dinarth, a'r cwrs golff. Felly, mae llinell derfyn glir, weladwy rhwng cytref Bae Colwyn a'r hyn y gellir ei ddisgrifio fel cytref Llandudno, y mae Bae Penrhyn yn ffurfio rhan ohoni.

Nid oes unrhyw linellau terfyn mewnol o fewn ffiniau tref Bae Colwyn ei hun. Mae Rhos a ward gyfagos Rhiw yn ymdoddi i'w gilydd yn ddi-dor i greu un ardal adeiledig. Yn wir, mae strydoedd adeiledig Francis Avenue, Kenelm Road a Cayley Promenade wedi'u lleoli'n rhannol yn Rhos ac yn rhannol yn Rhiw. Mae pob un ohonynt yn rhan o dref Bae Colwyn. Byddwn yn argymhell y byddai'n annerbyniol dinistrio cyfanwydd y dref yn y modd arfaethedig.

Caiff y cysylltiadau diwylliannol lleol, a'r ffaith bod Rhos yn rhan annatod o dref Bae Colwyn, eu hamlygu ymhellach gan sefydliadau Bae Colwyn sydd wedi'u lleoli yn ward Rhos. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Clwb Criced Bae Colwyn;
- Clwb Rygbi Bae Colwyn; a
- Chlwb Hwyllo Bae Colwyn.

Ar ben hynny, mae Clwb Rotari Bae Colwyn yn cynnal ei gyfarfodydd yn nhafarn Rhos Fynach yn Rhos, ac mae Cynghrair Cyfeillion Ysbyty Bae Colwyn yn cyfarfod yng Nghanol Gymunedol Parkway yn Rhos.

Mae llawer o blant o oed ysgol gynradd o'r Rhos yn mynychu Ysgol Pen y Bryn yn ward Rhiw, Bae Colwyn.

Mae plant ysgol uwchradd o'r Rhos naill ai'n mynychu Ysgol Eirias neu Ysgol Bryn Elian, y mae'r ddwy ohonynt wedi'u lleoli ym Mae Colwyn.

Mae llawer o enghreifftiau tebyg eraill sy'n dangos bod Rhos yn rhan gwbl annatod o Fae Colwyn, y mae ganddi'r cysylltiadau cryfaf posibl â hi. Byddwn yn cynnig y byddai'n wrthnysig chwalu'r cysylltiadau hynny drwy roi Rhos yn ardal etholaeth newydd Aberconwy, y mae ganddi gysylltiadau gwannach a llai niferus â hi, boed hynny'n wleidyddol, yn gymdeithasol neu'n ddiwylliannol.

Rwyf o'r farn bod yr effaith arfaethedig ar gyfanwydd Bae Colwyn ac ardal Cyngor Tref Bae Colwyn yn annerbyniol, ac rwy'n galw ar y Comisiwn i ddiwygio ei gynigion cychwynol er mwyn sicrhau na chaiff y cyfanwydd hwnnw ei beryglu.

Hoffwn gyflwyno'r cynigion amgen canlynol ar gyfer etholaethau newydd Clwyd ac Aberconwy:

Dylai Clwyd gynnwys y wardiau canlynol:

Llandrillo-yn-Rhos; Mochdre; Rhiw; Glyn; Eirias; Colwyn; Llysfaen; Llanddulas; Pentre Mawr; Abergele Pensarn; Tywyn; Bae Cinmel; Gorllewin y Rhyl; Dwyrain y Rhyl; De-orllewin y Rhyl; De'r Rhyl; De-ddwyrain y Rhyl; Rhuddlan; Bodelwyddan; Gele; Gorllewin Llanelwy; Dwyrain Llanelwy; Trefnant; Betws-yn-rhos.

Dylai Aberconwy gynnwys y wardiau canlynol:

Bryn; Pandy; Pant-yr-afon / Penmaenan; Capelulo; Conwy; Gogarth; Deganwy; Marl; Tudno; Craig-y-Don; Penrhyn; Llansanffraid; Pensarn; Caerhun; Trefriw; Eglwysbach; Betws-y-coed; Gower; Crwst; Uwch Conwy; Llangernyw; Uwchaled; Llansannan; Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch; Efenechdyd; Dinbych Uchaf; Canol Dinbych; Dinbych Isaf; Llandyrnog.

A wnewch chi gydnabod fy ngwrthwynebiad, os gwelwch yn dda? Byddaf yn falch o ohebu ymhellach a mynychu unrhyw wrandawriad.

Yr eiddoch yn gywir

Y Gwir Anrhydeddus David Jones AS

BCW-9709/ Darren Millar AS/ Gorllewin Clwyd

Oddi wrth: Millar, Darren (Aelod o'r Senedd | Member of the Senedd)

Anfonwyd: 28 Hydref 2021 11:52

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Arolwg 2023 o Etholaethau Seneddol – Cynigion Cychwynnol

Annwyl Gomisiynwyr,

Rwy'n ysgrifennu atoch yn dilyn cyhoeddiad y cynigion cychwynnol ar gyfer Arolwg 2023 o'r Etholaethau Seneddol yng Nghymru.

Rwyf wedi nodi cynigion y Comisiwn ar gyfer gogledd Cymru â diddordeb, ac mae'n rhaid i mi fynegi pryder ynghylch ffiniau etholaeth arfaethedig Clwyd, yr wyf wedi cynrychioli rhan helaeth ohoni yn y Senedd am y 14 mlynedd diwethaf.

Mae'r cynigion cychwynnol yn ymwneud â Bae Colwyn yn rhannu'r gymuned rhwng dwy etholaeth, gyda ward Llandrillo-yn-rhos wedi'i lleoli yn etholaeth arfaethedig Aberconwy, tra bydd yr holl rannau eraill o Fae Colwyn wedi'u lleoli yn etholaeth Clwyd. Mae rhannu'r gymuned yn y modd hwn yn tanseilio'r polisi a ddatganwyd gan y Comisiwn, sef *'peidio â rhannu cymunedau presennol pan fydd yn datblygu cynigion ac argymhellion ar gyfer etholaethau seneddol, oni bai nad oes unrhyw ddatrysiad arall ar gael'*.

Gellir dangos bod ward Llandrillo-yn-rhos yn rhan annatod o gymuned Bae Colwyn drwy'r cysylltiadau gwleidyddol, cymdeithasol, diwylliannol a daearyddol cryf canlynol:

- Mae'r ward yn rhan o Gyngor Tref Bae Colwyn
- Mae llawer o sefydliadau pwysig Bae Colwyn, gan gynnwys Clwb Criced Bae Colwyn, Clwb Hwyllo Bae Colwyn a Chlwb Rygbi Bae Colwyn, wedi'u lleoli yn Llandrillo-yn-rhos
- Mae preswylwyr lleol yn Llandrillo-yn-rhos yn gleifion i feddygon teulu a deintyddion ym Mae Colwyn
- Mae Ysbyty Cymuned Bae Colwyn yn cynnig gwasanaethau i gleifion yn Llandrillo-yn-rhos
- Mae plant o'r ward yn mynychu ysgolion cynradd ac uwchradd ym Mae Colwyn
- Mae llyfrgell Bae Colwyn yn gwasanaethu Llandrillo-yn-rhos
- Mae Clwb Rotari Bae Colwyn a Chynghrair Cyfeillion Ysbyty Bae Colwyn yn cynnal eu cyfarfodydd yn Llandrillo-yn-rhos

- Mae Grŵp Treftadaeth Bae Colwyn yn hyrwyddo hanes a threftadaeth Llandrillo-yn-rhos fel rhan o Fae Colwyn
- Mae'r ward yn cael ei wasanaethu gan Orsaf Drefnau Bae Colwyn
- Mae Llandrillo-yn-rhos yn rhan o un gytref drefol ynghyd â gweddill Bae Colwyn
- Mae Afon Ganol, sy'n llifo rhwng wardiau Llandrillo-yn-rhos a Phenrhyn, yn ffin bwysig a hanesyddol rhwng trefgorddau Bae Colwyn a Llandudno, ac fe'i defnyddiwyd i ddiffinio ffiniau gweinyddol a gwleidyddol ers degawdau

O ystyried yr uchod, byddwn yn ddiolchgar pe gallech gofrestru fy ngwrthwynebiad cryf i leoli Llandrillo-yn-rhos mewn etholaeth wahanol i weddill Bae Colwyn, ac rwy'n erfyn arnoch i ddiwygio eich cynigion i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Er fy mod yn gwerthfawrogi y bydd newid eich cynigion yn cael effaith ddilynol ar etholaethau eraill, nid wyf yn credu y bydd yr heriau y bydd y newidiadau hyn yn eu creu yn anorchfygol, o ystyried maint y wardiau eraill sy'n ffinio ar etholaethau arfaethedig Clwyd ac Aberconwy ar hyn o bryd.

Hyderaf fod y cyflwyniad hwn yn ddefnyddiol ac edrychaf ymlaen at weld cynigion diwygiedig y Comisiwn maes o law.

Yn gywir,

Darren



BCW-9710 / [REDACTED] / Cil-y-coed

Achos pryder a siom mawr i mi yw y bydd y cynigion yn arwain at golli etholaeth Dwyrain Casnewydd o ganlyniad i'w huno â Sir Fynwy. Mae Jessica Morden wedi bod yn Aelod Seneddol eithriadol dros Ddwyrain Casnewydd am nifer o etholiadau ac mae wedi cydgysylltu â John Griffiths, Aelod Senedd Casnewydd yn dda i sicrhau bod pryderon ac anghenion ei hetholaeth yn lleol ac yn genedlaethol yn cael eu bodloni. Credaf y bydd gofynion etholwyr Senedd y DU a Senedd Cymru yn cael eu lleihau'n ddifrifol os bydd y ffiniau hyn yn cael eu newid.

Mae swyddogion presennol Aelodau Senedd y DU a Senedd Cymru yn deall ac yn ymdrin â sefyllfaoedd isorweddol yr ardal leol a'r cylch ac yn gwybod bod angen i unrhyw newidiadau sy'n cael eu cyflwyno dderbyn statws cymdeithasol ac economaidd y mwyafrif yn hytrach na'r lleiafrif. Gyda'r ystod o grwpiau ethnig o fewn yr etholaeth mae'r AS presennol yn fwy profiadol ac mae ganddi berthynas ardderchog â phreswylwyr. Bydd cydberthynas o'r fath bron yn amhosibl ei disodli ac nid yw'r AS presennol dros Sir Fynwy yn gyfarwydd â gallu gweithio gyda phreswylwyr ar draws ystod eang o grwpiau ethnig o'r tu allan i'w etholaeth a deall eu hanghenion. Rhaid i ni allu sicrhau y caiff pob etholwr ei gynrychioli o fewn yr adolygiad hwn.

BCW-9711 / [REDACTED] / Gelli Pentre

Rwy'n cytuno â'r newidiadau sy'n cael eu cynnig ar gyfer Etholaeth Rhondda

BCW-9712 / [REDACTED] / Yr Wyddgrug

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 28 October 2021 14:27

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Ffin Arfaethedig Alun a Glannau Dyfrdwy

Annwyl Syr/Madam

Hoffwn i roi ychydig o sylwadau ar y ffin arfaethedig ar gyfer etholaeth seneddol Alun a Glannau Dyfrdwy.

Ar hyn o bryd mae Sir y Fflint wedi'i rhannu rhwng etholaethau Delyn ac Alun a Glannau Dyfrdwy.

Mae'r Wyddgrug, y dref sirol, yn Nelyn. Mae rhy ychydig o etholwyr gan y ddwy etholaeth i barhau heb eu newid a bydd angen i o leiaf un o'r etholaethau gael ei rhannu rhwng 2 sir. Mae wedi cael ei gynnig bod Delyn yn cymryd i mewn nifer o ardaloedd yn Sir Ddinbych, ond nid yw'n glir i mi pam mae angen i Alun a Glannau Dyfrdwy gynnwys Brymbo a Mwynglawdd o Fwrdeistref Sirol Wrecsam. Nid oes gan yr ardaloedd hyn unrhyw gysylltiad arbennig â gweddill Alun a Glannau Dyfrdwy.

I wneud yn iawn am yr etholwyr a gaiff eu colli drwy beidio â chymryd Brymbo a Mwynglawdd i mewn, rwy'n cynnig bod Alun a Glannau Dyfrdwy yn ogystal yn mabwysiadu Llaneurgain a Neuadd Llaneurgain oddi wrth Delyn. Mae gan y rhain gysylltiadau cryf ag Ewloe a Phenarlâg sydd eisoes yn Alun a Glannau Dyfrdwy. Nid oes ganddynt gysylltiadau â'r Wyddgrug sy'n gryfach nag unrhyw fan arall yn Alun a Glannau Dyfrdwy. (Er enghraifft rwy'n byw yn Alun a Glannau Dyfrdwy, ond yr Wyddgrug yw'r dref yr edrychwn tuag ati – dyna lle gwnawn ni'r rhan fwyaf o'n siopa, lle aeth fy merch i'r ysgol gynradd ac uwchradd, ac ati)

Mae'r holl newidiadau arfaethedig eraill i Alun a Glannau Dyfrdwy yn edrych yn synhwyrol.

Cofion Cynnes

[REDACTED]

BCW-9713 / [REDACTED] / Cil-y-coed

Rwy'n credu y dylid gadael llonydd i'r ffin. Rwy'n byw yma ers 4 blynedd ac rwy'n hoffi'r ffaith bod gennym ni AS sy'n weithgar gyda'r gymuned leol. Mae'r ardal leol yn bwysig i'n AS ac mae'n mynd ati i helpu i gadw'r ffordd o fyw.

Yn brsonol rwy'n credu bod y dewis amgen yn golygu y cawn ni ein hanwybyddu.

BCW-9714 / [REDACTED] / Conwy

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 28 October 2021 14:39

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Ffiniau Etholiadol ..Bae Colwyn / Llandrillo-yn-Rhos

Pwnc – Parthed Newidiadau Ffiniau Etholiadol Arfaethedig mewn perthynas â Bae Colwyn a Llandrillo-yn-Rhos

I bwy bynnag a fynno wybod

Rwyf wedi sylwi ar fwriad i newid ffiniau ardal etholiadol Gorllewin Clwyd i eithrio Llandrillo-yn-Rhos o'r ardal sy'n cwmpasu gweddill Bae Colwyn.. Dymunaf godi gwrthwynebiad i'r cynnig hwnnw am y bu Llandrillo-yn-Rhos yn rhan hanfodol o Fae Colwyn erioed a'i fod yn wrthnysig iddi gael ei chynrychioli yn y senedd fel rhan o etholaeth wahanol.

Mae'r ardal Hen Golwyn i Landrillo-yn-Rhos wedi cael ei hadnabod fel Bae Colwyn erioed. Mae Llandrillo-yn-Rhos yn rhan o gais Bae Colwyn i Cymru yn Ei Blodau a Britain in Bloom, byddai'n anarferol iawn i Ffin yr Etholaeth adlewyrchu bod Bae Colwyn wedi'i darnio mewn materion cyhoeddus mor bwysig.

Mae sefydliadau gan Fae Colwyn sydd wedi'u lleoli yn Llandrillo-yn-Rhos, fel Clwb Criced Bae Colwyn, Clwb Hwyllo Bae Colwyn a Chlwb Rygbi Bae Colwyn.

Pa aelod Seneddol fasai'n cynrychioli Llandrillo-yn-Rhos yn Cymru yn Ei Blodau er enghraifft, mae'n nonsens rhannu cymuned yn y modd yma. Dylai Llandrillo-yn-Rhos aros yn rhan o Orllewin Clwyd a dylai'r Ffin aros wrth Glwb Golff Llandrillo-yn-Rhos.

Beth am fater Glan y Môr, pa wleidydd fasai'n lloïo ar ran Llandrillo-yn-Rhos, rhywun gwahanol i weddill Bae Colwyn?

Dylai fod ymagwedd fwy cysylltiedig at faterion lleol ym mhroses yma'r ffiniau, nid popeth ydy'r niferoedd. Rwy'n gwybod mai'r syniad cyfan yw cydraddoli niferoedd etholwyr ond Bae Colwyn yw Llandrillo-yn-Rhos.. wedi bod erioed, mae'n rhan o ymdeimlad y Gymuned dros yr ardal.

Mae'r Rhyl ar y llaw arall yn gysylltiedig â Phrestatyn ...

Yr eiddoch yn gywir

[REDACTED]

BCW-9715/ [REDACTED] / Ystradgynlais

Os oes rhaid cynnwys Cwm Tawe gydag etholaeth wledig mor enfawr, rwy'n credu y dylai'r enw fod yn fwy cynhwysol. Mae Ystradgynlais a gweddill Cwm Tawe yn anweledig yn yr enw "Brycheiniog a Maesyfed" ac nid yw'r rhan fwyaf o'r cwm yn Sir Frycheiniog hyn yn oed. Byddai enw mwy cynhwysol yn rhywbeth fel: "De Powys a Chwm Tawe".

BCW-9716 / [REDACTED] / Corwen

Etholwr De Clwyd presennol

Rwy'n meddwl ei bod yn gwbl warthus mai Glyndŵr a Maldwyn fydd ein hetholaeth ni bellach.

Rydym ni'n ardal cyngor Gogledd-ddwyrain Cymru, ac eto bydd ein hetholaeth i raddau helaeth yn ardal y Canolbarth.

Mae'n edrych pe bawn wedi cael ein masnachu mewn ffordd gwbl fathemategol, heb ystyried ein 'hardal'.

Bydd trigolion Corwen, Llangollen ac ardaloedd Wrecsam yn teimlo'r un peth hefyd.

Roedd ffiniau sirol a mapiau etholaeth presennol i fod i gael eu hystyried wrth lunio'r ffiniau newydd; nid yw'n ymddangos bod hynny wedi digwydd yn yr achos hwn.

Nid oes gennym ni unrhyw ymlyniad naturiol i ranbarth yma'r Canolbarth. Wrecsam yw ein prif dref, a 'Chlwyd' yn ganolfan weinyddol.

Mae gan etholaethau De Clwyd, Dyffryn Clwyd, Gorllewin Clwyd a Wrecsam etholaeth gyfan o 218,019 a dylen nhw gael eu cyfuno'n 3 etholaeth â chyfartaledd o 72,673 o etholwyr.

Byddai hyn yn adlewyrchu ein hardal ddaearyddol, ac ardal y cyngor, yn well.

BCW-9717/ [REDACTED] / Gelli Pentre

Mae Plaid Lafur Etholaeth Rhondda yn cytuno â'r newidiadau ffin arfaethedig sy'n effeithio ar ardal Rhondda

BCW-9718/ [REDACTED] / Llangynnwr

Mae'n gwbl warthus rhoi Llangynnwr i mewn gyda Llanelli. Rydym ni tua milltir o Dref Caerfyrddin a 17 milltir o Lanelli. Ble yn y byd mae'r synwyr yn hynny? Rwy'n gwybod bod gan y Cyngor Cymuned Lleol gysylltiadau agos â'r Cyngorau Tref a Sir fel ei gilydd a bod partneriaeth weithio ragorol.

Byddem ni'n cael ein colli a'n hanghofio os cawn ein symud i Lanelli. Allwch chi ddyfalu ble byddai'r holl arian yn mynd. Ydy Cyngor Tref Llanelli yn mynd i dorri'r gwair ym mharc Llangynnwr Park? Ydyn nhw'n mynd i godi ein coed Nadolig o gwmpas y Plwyf? Mae gennym ni fynediad i'r cyfleusterau hyn ar garreg ein drws felly anodd credu'r cynnig i'n gosod gyda thref 17 filltir i ffwrdd. Mae'n arswydus meddwl am y fath beth.

Mae'n amlwg nad oedd pwy bynnag a benderfynodd ar gam o'r fath yn adnabod yr ardal maen nhw'n delio â hi neu fydden nhw wedi gwybod bod Llangynnwr a Thref Caerfyrddin fel un.

BCW-9719/ [REDACTED] / Cil-y-coed

Rydym yn methu cael Cil-y-coed wedi'i hamsugno i mewn i etholaeth Sir Fynwy, mae angen iddi aros fel y mae. Ar hyn o bryd mae gennym ni AS llafur sy'n cynrychioli'r ardal, bydd cael cynrychiolydd Ceidwadol dros Cil-y-coed yn ofnadwy.

BCW-9720/ [REDACTED] / Penarth

Mae ochr dde bellaf De Caerdydd a Phenarth (Llaneirwg/Trowbridge) yn afresymegol, ac wedi bod felly, gan ei bod yn rhannu'r cymunedau lleol yn 3 etholaeth. Mae'n edrych yn anghywir ac er ei bod yn fwy na thebyg yn diwallu'r niferoedd sy'n ofynnol, mae'n rhy ddatgysylltiedig rhag gweddill yr etholaeth (lleoliad a chysylltiadau trafndiaeth). Yn fy marn i dylai'r ffin ddod i ben wrth Afon Rhymni.

BCW-9721/ [REDACTED] / Sir Fynwy

Mae'n amlwg mai ymgais yw hwn gan y ceidwadwyr i gynyddu a chadw eu seddi yn senedd y DU.

Prin bod hwn yn undeb ragor, does dim llais gan Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon mewn beth sy'n mynd ymlaen ac os gwrthwynebwn mae'n cael ei drechu gan Loegr beth bynnag.

Peidiwch â symud ein AS Llafur dros Ddwyrain Casnewydd. Dim ond AS Llafur fu gennyn ni yma erioed ac nawr mae cynnig y cawn ni sedd geidwadol ddiogel.

Ond beth yw pwynt gwrthwynebu byddwch chi'n anwybyddu dymuniadau pawb y naill ffordd neu'r llall. Well i ni gael mwy o ddatganoli i wneud yn iawn am y cipio pwerau yma. Go brin bod hyn yn ddemocratiaeth.

BCW-9722/ [REDACTED] / Wrecsam

Nid yw hyn yn gwneud unrhyw synwyr o gwbl, oni ddylai ardal Wrecsam ac ardal Rhiwabon i Acre-fair i gyd fod yn etholaeth Wrecsam? Gofynnwch i unrhyw berson lleol synhwyrol am eu syniadau. Mae'n rhaid bod pwy bynnag a benderfynodd ar yr ardaloedd dynodedig hyn fod wedi derbyn darlun doniol ei olwg a phensil lliw llachar i dynnu llinellau pert arno cyn cael ei gasglu o'r feithrinfa.

BCW-9723/ [REDACTED] / Machynlleth

Yn ddiwylliannol mae ardal Machynlleth a Bro Ddyfi yn cyd-fynd yn llawer gwell â naill ai Ceredigion neu Ddwyfor Meirionydd. Ychydig iawn sydd gan Fachynlleth yn gyffredin â'r rhan fwyaf o etholaeth newydd Glyndŵr/Sir Faldwyn – caiff ei hanwybyddu eto o'r Trallwng ac nawr o ardal Wrecsam. Mae canolbwynt yr etholaeth newydd yma mor bell i ffwrdd ohonon ni, yn ddaearyddol ac yn ddiwylliannol nid yw'n taro deuddeg

BCW-9724/ [REDACTED] / Conwy

Oddi wrth:

[REDACTED]

Anfonwyd: 28 Hydref 2021 17:47

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Gwrthwynebu etholaethau Seneddol arfaethedig newydd Clwyd ac Aberconwy

[REDACTED]

28.10.2021

Annwyl Syr/Madam,

Hoffwn wrthwynebu i gynnig y Comisiwn i gynnwys Llandrillo-yn-Rhos yn etholaeth newydd Aberconwy, gan fed Llandrillo-yn-Rhos yn rhan annatod o Fae Colwyn, ac odref Bae Colwyn.

Byddai'n ffurfio gwahaniaeth annaturiol iawn cymuned Llandrillo-yn-Rhos rhag Bae Colwyn, efo rhan o ardal glan y mor (sy'n cael ei thrin fel bae cyfan at ddiben yr hellwaith atal llifogydd a morwrol) yn dod o dan etholaeth arall. Er enghraifft, yn Llandrillo-yn-Rhos y mae Clwb Hwyllo hanesyddol Bae Colwyn, ac mae eu ty clwb a'u llithrffordd lansio yn Llandrillo-yn-Rhos. Hefyd mae Clybiau Rygbi a Chriced Bae Colwyn yn yr un modd wedi'u lleoli yn Llandrillo-yn-Rhos.

Mae gan Gyngor Tref Bae Colwyn wyth Cynghorydd Llandrillo-yn-Rhos, a byddai torri'r cysylltiadau hyn yn newid Cyngor y Dref yn llwyr. Er enghraifft, mae'r Cynghorwyr Tref yma yn cymryd rhan mewn ymgynghoriadau Atal Llifogydd ar hyn obryd sy'n effeithio ar hell ardal glan mor Bae Colwyn.

Nid oes ffin elgur rhwng y ddwy ardal newydd arfaethedig, ac mae'n bosib y bydd llinellau ffin newydd yn rhedeg i lawr canal strydoedd, yn hytrach na'r ffin bresennol, sy'n dilyn llinellau hanesyddol, sef Afan Ganol a mannau agored meysydd Dinarth ar hyn o bryd. Mae hyn yn ei wahanu rhag Bae Penrhyn, cymuned sy'n gysylltiedig erioed a thref Llandudno.

Mae Llandrillo-yn-Rhos bob amser wedi gweld ei hun fel rhan o gymuned Bae Colwyn, ac mae'r preswylwyr yn defnyddio meddygfeydd, yr Ysbyty Cymunedol lleol, a Chanolfan Ddydd Llys Elian sy'n gofalu am ein cleifion dementia lleol. Mae demograffeg oedrannus Llandrillo-yn-Rhos yn gwneud y cysylltiadau cymunedol ac iechyd hyn yn hynod o bwysig.

Mae cynifer o resymau hanesyddol a chyfredol bod y cynnig i rannu'r cymunedau hyn yn anghywir, a gofynnaf yn barchus i chi ailystyried y cynigion am y llawer o resymau sydd wedi'u rhoi.

Yr eiddoch yn gywir,



BCW-9725/ [REDACTED] / Gogledd Cymru

Ymateb Rhanbarth Gogledd Cymru y Blaid Geidwadol i Gynigion Cychwynnol Comisiwn Ffiniau Cymru ar gyfer Adolygiad 2023 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru.

Crynodeb Cyffredinol

Mae'r rheidrwydd i gael cydraddoldeb etholiadol i holl etholwyr ledled y DU yn hanfodol a chefnogwn ni'r nod yma. Cefnogwn y nod o gadw'r 650 o etholaethau seneddol presennol a derbyniwn y bydd hyn yn arwain at Gymru'n disgyn i 32 etholaeth seneddol, (lleihad o 8 o'r 40 presennol). Derbyniwn hefyd y bydd cryn dipyn o newid anochel o ganlyniad mewn llawer o'r etholaethau presennol. Yr eithriad yw Ynys Môn, gan ei bod wedi'i hamddiffyn o dan Atodlen 2 Adran 6 o Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd).

Yn yr ymateb hwn byddwn ni ond yn ystyried etholaethau sydd yn ardal ddaearyddol etholaethau presennol Aberconwy, Arfon, Alun a Glannau Dyfrdwy, De Clwyd, Gorrlewin Clwyd, Delyn, Dyffryn Clwyd, Wrecsam, Ynys Môn

Enwi etholaethau

Mae'r ail-lunio'r ffiniau yma yn berthnasol i ffiniau Seneddol San Steffan yn unig, a bydd y cysylltiad ag etholaethau Senedd Cymru yn cael ei dorri o hyn ymlaen. Rydym ni felly'n awgrymu y dylai'r holl etholaethau gael eu hail-enwi i osgoi dryswch yn y dyfodol.


Os na fydd y newid cynhwysfawr hwn yn cael ei fabwysiadu, hoffem ni awgrymu enwau amgen am etholaeth Delyn ta beth. Mae'r etholaethau newydd arfaethedig yn cwmpasu dwy dref fawr, sef Prestatyn a Rhuthun, sy'n newid yr etholaeth yn sylweddol ac mae'n ymddangos y byddai enw newydd yn briodol. Ein hawgrym ni am enw newydd yw Dwyrain Clwyd

Cynigion ar gyfer yr etholaethau Unigol

Dwyfor Meirionnydd	Cefnogi
Aberconwy	Cefnogi
Clwyd	<p>Cefnogi mewn egwyddor.</p> <p>Ac eithrio yr hoffem ni dynnu ward Llanfair DC</p>
Delyn	Cefnogi
Alun a Glannau Dyfrdwy	<p>Nid ydym yn cefnogi cynnwys wardiau Brymbo a Mwynglawdd yn Alun a Glannau Dyfrdwy.</p> <p>Mae'r wardiau yma dan awdurdodaeth cyngor sir Wrecsam, ac yn teimlo cysylltiadau cymunedol cryf â thref Wrecsam. Nid oes ganddynt unrhyw gysylltiadau cymunedol ag unrhyw rai o'r trefi a phentrefi yn etholaeth bresennol Alun a Glannau Dyfrdwy.</p> <p>Mae cynnwys y 2 ward yma'n mynd yn groes i'r rheol ynglŷn â chysylltiadau ag awdurdodau lleol.</p>
Wrecsam	<p>Nid ydym yn cefnogi'r cynnig presennol.</p> <p>Credwn fod angen i wardiau Brymbo a Mwynglawdd gael eu cynnwys yn etholaeth Wrecsam am fod ganddynt cysylltiadau cymunedol cryf â chyffiniau wardiau yn Wrecsam.</p> <p>Hefyd awgrymwn tynnu wardiau Pant, Johnstown a wardiau Gogledd Ponciau De Ponciau a Rhos ward Ponciau. Awgrymwn rannu ward Ponciau rhwng dwy etholaeth. Mae'r ward yn cynnwys rhan o ddwy gymuned sydd ar wahân i'w gilydd yn llwyr. Mae gofod agored clir rhwng cymunedau Rhosllanerchrugog ac Esclus. Byddem ni felly'n cynnwys yn Wrecsam wardiau Aber-oer a Phentre Bychan cymuned Esclus o fewn ward Ponciau. Er nad yw'n ddelfrydol hollti ward mae hwn yn rhaniad rhesymegol, sylwch nad ydym ni yn y newid hwn yn hollti cymunedau. Credwn fod yr anfantais yma'n cael ei lliniaru gan y gwelliant sylweddol mewn cysylltiadau llywodraeth leol ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam</p>



Cyngor Dinas
Bangor
City Council



Comisiwn Ffiniau Cymru
Llawr Gwaelod, Tŷ Hastings
Fitzalan Court
Caerdydd
CF24 0BL

28ain Hydref 2021

Annwyl Syr/Madam,

Par: Arolwg Seneddol 2023

Diolch am y cyfle i gyfrannu i Arolwg Seneddol 2023. Mae Cyngor y Ddinas yn mynegi ei wrthwynebiad cryf i'r cynnig i rannu Bangor rhwng etholaethau Aberconwy a Dwyfor Meirionnydd. Mae Bangor yn cynrycholi mwy na ffiniau'r ddinas ac mae'r preswylwyr lleol yn teimlo'n gryf fod cymuendau Pentir a Phenrhosgarnedd yn rhan o Fangor, ac yn cynnwys Ysbyty Gwynedd. Mae rhaniad artiffisial rhwng y cymunedau hyn yn gwanhau Bangor, yn rhannu pobl o fewn yr un Awdurdod Lleol, ac nid yw'n rhesymegol.

Mae'r ffaith fod yn rhaid i bob etholaeth newydd fod rhwng 69,724 a 77,062 o etholwyr yn eithrio'r boblogaeth sylweddol o fyfyrwyr yn y ddinas, ac mae'n gwanhau eu llais yn y broses ddemocrataidd. Ni ddylai Bangor gael llai o lais oherwydd natur fyrhoedlog y gymuned fyfyrwyr.

Drwy golli wyth Aelod Seneddol, bydd llai o lais gan Gymru yn San Steffan ac ymhellach, bydd llais Bangor yn wannach fyth o ganlyniad i'r newid ffiniau arfaethedig. Pwyswn ar y Comisiwn i ailystyried y cynigion a chadw Bangor gyda'i gilydd yn un uned.

Yn gywir,
Cyng Owen J Hurcum,
Maer Bangor, Cyngor Dinas Bangor

BCW-9727 / [REDACTED] / Caldicot

Nid wyf am i'r ffiniau cyfredol ar gyfer Caldicot (Dwyrain Casnewydd) i symud i Gwsgwent Sir Fynwy. Cafodd tref Caldicot ei hadeiladu a'i phoblogi gan weithlu gwaith dur Llanwern yn [Awdurdod] Lleol Casnewydd, ac yn hanesyddol rwyf o'r farn y dylai aros o fewn etholaeth Dwyrain Casnewydd.

BCW-9728 / [REDACTED] / Llanrhystud

Mae hwn yn syniad hurt. Mi fydd yn parlysu Ceredigion, mae'n ddigon mawr yn barod.

BCW-9729 / [REDACTED] / Abertawe

Annwyl Foneddigion

Rwy'n ysgrifennu'r cynnig hwn fel un o drigolion lleol Sgeti, yn ogystal â Llywodraethwr ar ddwy ysgol yn ardal Gorllewin Abertawe. Rwyf hefyd yn aelod gweithgar o gymunedau Mwslimaidd Abertawe ac ar hyn o bryd yn llywodraethwr Mosg Prifysgol Abertawe ac yn aelod o bwyllgor rheoli Canolfan Gymunedol Sgeti, a Chanolfan Gymunedol Islamaidd Cymru yn ogystal ag aelod oes o gymdeithas India De Cymru. Rwy'n hyderus y gwnewch ystyried fy nghynnig, rwyf hefyd yn gweithio ym Mhrifysgol Abertawe ble rwy'n rheoli perthnasau allanol ar gyfer y sefydliad gyda llywodraethau tramor ac asiantaethau cyllido yn Asia ac ar gyfandir Affrica.

Mae fy nghynnig ac yn benodol opsiwn 1, yn seiliedig ar y canlynol:


- Mae'n gydlynol yn ddaearyddol ac yn cwrdd â'r rhan fwyaf o feini prawf allweddol Comisiwn Ffiniau i Gymru;
- Mae'n cadw diwylliant hanesyddol ac economaidd-gymdeithasol ochr orllewinol Abertawe fel ardal a gydnabyddir yn ddaearyddol. Byddai'r niwed i fodolaeth ddiwylliannol yr ochr orllewinol yn ddinistriol i'r gymuned, i grwpiau lleol ac i dreftadaeth yr ardal.
- Mae'n cynnwys pob maes allweddol megis y ddwy brifysgol, llety myfyrwyr, gwasanaethau allweddol y Cyngor, datblygiad adfywio allweddol megis canol y ddinas, cyfleustra gwasanaethau, a chysylltiadau lleol gyda'i gilydd yn braf gyda'i gilydd ac o dan un etholaeth.
- Byddai'n cyd-fynd yn dda gyda chynrychiolaeth etholaethau'r Senedd.
- Mae'r holl wardiau yma'n ffitio'n naturiol gyda'i gilydd, ac wedi alinio'n agos gyda'i gilydd.
- Mae wardiau Sgeti, Uplands a'r Castell yn ardaloedd ble mae llawer iawn o drigolion Mwslimaidd Abertawe yn byw, ac mi fyddai'r Mosg Canolog, Mosg Shia a'r Ganolfan Gymunedol Islamaidd arfaethedig newydd i gyd yn yr ardal ddaearyddol yma. Hyd yn hyn mae'r gymuned Fwslimaidd wedi eu cynrychioli gan un Aelod

Seneddol ac AS. Mae niter *tawr* o grwpiau lleiatritol eraill yn byw yn y wardiau yma a byddai'n drueni pe byddem yn eu rhannu'n ddwy etholaeth wahanol.

- Mae'r cynnig hwn yn darparu'r ffit orau ar gyfer etholaeth dretol/wledig sydd ddim yn rhannu ardal dretol allweddol Abertawe yn ddwy etholaeth wahanol.
- Mae gan yr elusen lleol, *Faith and Families*, sydd ar hyn o bryd yn cael eu hariannu gan gyrff rhanbarthol a chenedlaethol, lawer o ganoltannau yng Ngorllewin Abertawe. Byddai'r ffiniau a awgrymir ar hyn o bryd yn golygu eu bod yn cael eu rhannu ar draws dwy etholaeth, ac telly dwy ardal ranbarthol a fyddai'n effeithio ar eu cyllid.
- Byddai'r gwrthgynnig sy'n cael ei wneud yn eu dwyn yn 61 i mewn i etholaeth Gorllewin Abertawe a Gwyr. Mae yna sawl eglwys, teml, mosg / prosiect elusen ar yr ochr orllewinol a fyddai'n methu allan ar gyfleoedd cyllid cymunedol Abertawe, cyllid maent yn ei dderbyn ar hyn o bryd, petaent i symud i etholaeth y Canol a'r Dwyrain.
- Mae Campws Prifysgol Bae Abertawe wedi ei leoli yng Ngorllewin Coedffranc - byddai dwyn hwn i mewn i etholaeth Dwyrain a Chanel Abertawe yn golygu bod y brifysgol yn gorwedd o *tewn* etholaeth dinas gan wneud synnwyr yn ddaearyddol.
- Rwy't hefyd wedi tratod y cynnig hwn, yn enwedig 'Opsiw'n 1', gyda llywodraethwyr ysgol, cymdeithas rhieni ac athrawon, uwch reolwyr Prifysgol Abertawe ac Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe ac unigolion allweddol eraill yn y cymunedau ac maent yn llwyr getnogi'r cynnig diwygiedig hwn. Os bydd angen, rwy'n hapus i dretnu iddynt siarad gyda chi trwy gyfrwng rhithiol.

Rwy'n mawr obeithio y gwnewch chi ystyried Opsiw'n 1 tel y ffit orau ac etholaeth a fydd yn parhau i *tod* yn *gartret* cadarn i'n cymunedau.

Unwaith yn rhagor, diolch yn *tawr*



Opsiwn 1 a ffafir

Cynnig amgen yw bod:

Byddai gan etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr 76,071 o bleidleiswyr (75214 + 26,738 – 25,881) gyda dadansoddiad fel y nodir isod:

1. Ychwanegu Uplands (10,834), Y Castell (10,312), a Townhill (5592), sy'n 26,738 o bleidleiswyr at etholaeth arfaethedig Comisiwn Ffiniau i Gymru, Gorllewin Abertawe a Gŵyr.
2. Gan dynnu Penyrheol (4,621), Casllwchwr Isaf (1,795), Casllwchwr Uchaf (2,146), Gorseinon (3,340), Pontybrenin (3,506) a Coked (10,473) sy'n 25,881 o bleidleiswyr o etholaeth arfaethedig Comisiwn Ffiniau i Gymru, Gorllewin Abertawe a Gŵyr.

Mae hyn yn golygu y byddai gan etholaeth newydd Canol a Gogledd Abertawe 75,342 o bleidleiswyr (76199 –26,738+ 25,881).

Cynnig amgen yw:

Y byddai gan etholaeth newydd Gorllewin Abertawe a Gŵyr 74653 o bleidleiswyr (75214 - 13452 + 12891) gyda dadansoddiad fel y nodir isod:

1. Ychwanegu Pontarddulais (4,954), Mawr (1,438), Llangyfelach (3,946), a Penllergaer (2,553), sy'n 12891 o bleidleiswyr i etholaeth arfaethedig Comisiwn Ffiniau i Gymru, Gorllewin Abertawe a Gŵyr.
2. Gan dynnu Sgeti (11,304) a Mayals (2,148), sy'n 13452 o bleidleiswyr o etholaeth arfaethedig Comisiwn Ffiniau i Gymru, Gorllewin Abertawe a Gŵyr.

Mae hyn yn golygu y byddai gan etholaeth newydd Canol a Gogledd Abertawe 76760 o bleidleiswyr (76199 -13452 +1289).

BCW-9730 / [REDACTED] / Llanelli

Rwyf wedi gweld y ffin newydd ac o'i deall yn gywir, nid ydym ni bellach dan Sir Gaerfyrddin? Felly hip-hip-hwrê, mae gennym ni ein tref yn ôl, yw hynny'n gywir? Newyddion gwych os felly.

BCW-9731 / Sarah Atherton AS / Wrecsam

At ei gilydd, mae'r newidiadau arfaethedig i ffiniau ac etholaeth newydd Wrecsam yn gydbwysedd da rhwng cynyddu maint y sedd i weddu i'r ystod etholwyr sy'n angenrheidiol, cynnal cysylltiadau cymunedol a diwylliannol, ac ystyriaethau daearyddol.

Fodd bynnag, awgrymaf y dylai etholaeth Wrecsam gynnwys wardiau Brymbo a'r Mwynglawdd, sydd ill dwy yn rhan o ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, ac ni ddylai gynnwys wardiau Pant, Johnstown a De Ponciau.

Dylai Brymbo a'r Mwynglawdd fod yn sedd Wrecsam oherwydd bod gan y ddwy ward gysylltiadau diwylliannol, economaidd a chymunedol lleol â thref Wrecsam ac etholaeth bresennol Wrecsam. Mae ganddynt hefyd gysylltiadau cymunedol agos â wardiau Coedpoeth, Bryn Cefn a Gwenfro, y cynigir eu bod yn rhan o sedd newydd Wrecsam. Felly, byddai ychwanegu Brymbo a'r Mwynglawdd yn cefnogi ymdrech y Comisiwn Ffiniau i warchod cysylltiadau cymunedol â chysylltiadau ag awdurdodau lleol.

Er y byddai'r cynnig hwn yn rhannu Ponciau rhwng dwy etholaeth, mae'r ward yn cynnwys dwy gymuned sydd ar wahân i'w gilydd. Mae cynnwys wardiau Johnstown, Pant a De Ponciau yn etholaeth newydd Sir Drefaldwyn a Glyndŵr yn gwneud synnwyr o ystyried eu cysylltiadau presennol â wardiau De Clwyd, y cynigir eu bod yn rhan o'r etholaeth newydd honno.

Felly, byddai hyn yn gwneud etholaeth o 73,636.

BCW-9732 / [REDACTED] / Wreccsam

Rwyf wedi cael golwg ar eich cynnig i newid ffiniau, ac rwy'n credu ei fod yn absŵrd. Does gennym ni ddim byd o gwbl yn gyffredin gydag Alun a Glannau Dyfrdwy, yn hanesyddol rydym ni'n hollol wahanol yn ieithyddol ac yn ddiwylliannol. Mae'r ardal hon yn ardal 50/50 o siaradwyr Cymraeg a Saesneg, o fewn ein pentref ni. Mae hyn yn ymdrech i ddiystyru ymhellach a chael gwared ar ein diwylliant a'n hanes. Dim diolch yn fawr, fe arhoswn ni fel ag ydym.

BCW-9733 / [REDACTED] / Wreccsam

Rwy'n byw yn Y Waun.

Fel cymuned mae gennym ni gysylltiadau naturiol gyda Chroesoswallt - 5 milltir i ffwrdd a Wreccsam - 10 milltir i ffwrdd.

Rwy'n cymryd bod y Ffin rhwng Cymru a Lloegr ar waelod fy ngardd yn ffin nad oes modd ei chroesi i'r dibenion hyn felly fedrwn ni ddim bod yn rhan o *Greater Oswestry*.

Rydym ni YN rhan o CBS Wreccsam ac yn naturiol mae gennym ni gysylltiadau gyda darpar brif ddinas wych Gogledd Ddwyrain Cymru.

Mae'n iawn fod gennym ni ein AS ein hunain fel rhan o Dde Clwyd, sydd yn ei hanfod yn "Dde Wreccsam Wledig".

Y cynnig nawr yw i'n rhoi ni yn 'Sir Drefaldwyn a Glyndŵr'.

Ond nid ydym ni'n rhan o Sir Drefaldwyn ac nid ydym ni'n rhan o Glyndŵr. Nac eisiau bod ychwaith.

Mae'r etholaeth arfaethedig yn ymestyniad enfawr o Ganolbarth Cymru nad oes gan Y Waun unrhyw gysylltiad â hi – ac yn wir unrhyw gysylltiadau trafndiaeth credadwy. Nid wyf yn deall sut mae disgwyl i unrhyw AS gwmpasu'r ardal gyfan. Nac yn wir sut mae unrhyw blaid wleidyddol i drefnu eu hunain ynddi.

Mi fyddai'r Waun yn ymwthiad bychan yn y Gogledd Ddwyrain eithaf. Ymhell iawn o ganolfannau naturiol Y Trallwng a'r Drenewydd. Mi fyddem ni mor angof ag yr ydym nawr gan Gaerdydd.

Rwy'n llwyr gefnogi etholaethau o faint cyfartal yn y DU drwyddi draw. Gyda datganoli fe allech chi ddadlau dros gael hyd yn oed llai o ASau o Gymru.

Os na fedrwn ni fod yn rhan o etholaeth ar wahân credadwy, gadewch inni fod yn rhan o Wreccsam.

BCW-9734 / [REDACTED] / Casnewydd

Rwy'n credu y bydd y newidiadau arfaethedig o drosglwyddo'r Pilgwenlli, Stow Hill a Shaftesbury i Ddwyrain Casnewydd yn beth da ar gyfer trigolion yr ardaloedd hynny. Mae gan y wardiau yma'r un materion canol dinas â wardiau Maendy, Sain Silian a Beechwood Isaf, felly mae'n gwneud synnwyr yn wleidyddol, yn gymdeithasol ac yn economaidd i alinio'r ardaloedd yma o Orllewin Casnewydd i Ddwyrain Casnewydd.

BCW-9735 / [REDACTED] / Bangor

Rwy'n credu ei bod yn ofnadwy bod dinas Bangor i gael ei rhannu'n 2 etholaeth wahanol. Dydy o'n gwneud dim synnwyr. Mae'n annhebygol y bydd yr un blaid yn cynrychioli'r ddwy ran ac ni fydd yna gynllun cydlynol ar gyfer y ddinas yn ei chyfanrwydd. Mae'n syniad hurt.

BCW-9736 / [REDACTED] / Wrecsam

Nid oes gan Fwlchgwyn unrhyw gysylltiadau naturiol gyda Glannau Dyfrdwy. Mae plant yn mynd i ysgolion WRECSAM. Mae trigolion yn defnyddio meddygon ac ysbytai WRECSAM. Mae'r holl drafnidiaeth gyhoeddus yn troi o amgylch Wrecsam, ac yn wir nid oes gennym unrhyw gysylltiad â Glannau Dyfrdwy.

Nid oes unrhyw rinweddau yn y cynnig hwn.

BCW-9737 / [REDACTED] / Casnewydd

Dylai wardiau canol dinas Casnewydd fod mewn un etholaeth. Ar hyn o bryd mae'r afon Wysg yn rhannu'r wardiau canol dinas yn ddwy etholaeth wahanol. Felly, mae dau Aelod Seneddol yn cynrychioli trigolion gyda'r un materion. Mae Pilgwenlli yng Ngorllewin Casnewydd yn adlewyrchu Maendy yn Nwyrain Casnewydd. Felly mae'n ymddangos mai un etholaeth Dwyrain a Chanol Casnewydd yw'r ffordd iawn i fynd.

BCW-9738 / [REDACTED] / Dinas Powys

Llawer gormod o Aelodau Seneddol o hyd. Ni ddylid bod wedi cynyddu nifer y cynrychiolwyr etholedig ar gyfer datganoli, ond eu rhannu rhwng San Steffan a Chaerdydd. Mae gwleidyddion ychwanegol yn golygu bod mwy o arian yn cael ei ddargyfeirio o wasanaethau rheng blaen i beth sydd yn y bôn yn bennau parablus dibwrpas.

BCW-9739 / [REDACTED] / Bangor

Yn anffodus mae'r llinellau ar y map yn edrych fel petaent wedi eu lluniadu gan blentyn 5 oed. Ni fedraf i yn fy myw gredu bod rhywun yn ystyried tynnu llinell drwy ganol Dinas Bangor. Mae'r Ddinas wedi cael ei difetha yn y blynyddoedd diwethaf gan y ddibyniaeth ormodol ar boblogaeth dymhorol o fyfyrwyr, ac fe gaiff ei dinistrio'n gyfan gwbl drwy gael ei rannu'n 2 ranbarth cyngor gwahanol. Os yw hyn i fynd rhagddo ni fydd Bangor yn bodoli mwyach fel Dinas. Hefyd, nid oes ystyriaeth wedi ei rhoi i gymunedau Tal y Bont, Tregarth a Bethesda gyda'r bwriad i'w gwneud yn rhan o Gonwy. Mi gânt eu hynysu'n gyfan gwbl fel cymunedau Cymreig traddodiadol dlawd wrth iddynt ddod yn rhan o Gonwy mwy llewyrchus tu hwnt i gadwyn mynyddoedd y Carneddau. Mae gennym ni affinedd a gwerthoedd sy'n gyffredin gyda hen gymunedau eraill yn ardal y chwareli fel Llanberis, ond dim byd o gwbl yn gyffredin â Chonwy/Llandudno. Bydd ein llais a'n treftadaeth yn cael ei aberthu os yw'r llinell fympwyol yma ar fap i gael ei defnyddio, sy'n edrych fel petai wedi ei luniadu mewn gwirionedd i wneud i'r ffigurau weddu yn hytrach na gydag unrhyw werthfawrogiad o'r cymunedau a gaiff eu heffeithio. Mae Gwynedd yn rhanbarth Cymreig bach, ac i'r dwyrain ohonom mae sawl rhanbarth cyngor sydd wedi eu Seisnigaidd sy'n rhannu gwell economïau a threftadaeth. Bydd dwyn cymunedau bychan i ymylon y cymunedau hyn cael effaith andwyol ar gymunedau tlawd sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd.

BCW-9740 / [REDACTED] / Pontllanfraith

Mae hyn yn ymgais sinigaidd i ddylanwadau ar ganlyniad yr etholiad nesaf o blaid y Torïaid drwy newid y ffiniau etholiadol.

Bydd Cymru yn brin o gynrychiolaeth sydd ei angen yn fawr iawn arnom yn San Steffan o ganlyniad i'r cynigion hyn. Yn ychwanegol, mae gan lai o ASau fwy o etholwyr i'w gwasanaethu, sy'n ymddangos yn gam anghrediniol am fod mwy o bobl angen cymorth oherwydd toriadau i fudd-daliadau, cynnydd mewn trethi, Covid-19, dibyniaeth ar fanciau bwyd, argyfwng hinsawdd a lluo o bethau eraill y mae'r weinyddiaeth bresennol yn San Steffan yn fwriadol methu â gweithredu arnynt.

Nid yw'r newidiadau hyn yn angenrheidiol ac nid oes eu hangen.

BCW-9741 / [REDACTED] / Wrecsam

Mae newid y ffiniau presennol i'r ffiniau arfaethedig yn ymddangos fel datrysiad enfawr o blaid y Torïaid. Dychmygwch eich bod yn byw ym Mrymbo a'ch bod yn rhan o Alun a Glannau Dyfrdwy. Beth yw'r siawns nad yw'r newidiadau yma yn dod o Lywodraeth Cymru ond yn hytrach o San Steffan?

BCW-9742 / [REDACTED] / Yr Wyddgrug

Nid wyf yn credu y byddai'r lleihad yma o fudd i bobl Cymru. Nid yw'r ymddangos yn iawn y dylai'n cynrychiolaeth gael ei wanhau ymhellach yn San Steffan. Hefyd, mae ein cynrychiolwyr yn dod yn fwy pellennig a phell, ac nid ydyn nhw bellach yn rhan o'n cymuned. Ni ddylid bwrw ymlaen â hyn. Mae'n ymgais wleidyddol i gipio pleidleisiau er mwyn lleihau effaith pleidlais yr unigolyn.

Plaid Lafur Pontypridd Pontypridd Labour Party

Ymgynghoriad Adolygiad Ffiniau San Steffan 2023

Cyflwyniad gan Blaid Lafur Etholaeth Pontypridd

Mae PLE Pontypridd yn croesawu'r cyfle i gyfannu at yr ymgynghoriad. Er ein bod yn sylweddoli i'r penderfyniad i gynyddu nifer yr etholwyr ym mhob etholaeth, ac felly leihau'r nifer o etholaethau yng Nghymru, gael ei wneud gan Lywodraeth y DU, hoffem gofnodi'n gyhoeddus ein gwrthwynebiad i'r ddeddfwriaeth hon, sydd yn lleihau'n sylweddol lais a dylanwad pobl Cymru yn San Steffan.

O ddweud hynny, rydym yn cytuno'n fras fod y ffin arfaethedig ar gyfer etholaeth San Steffan newydd Pontypridd yn briodol ac rydym yn falch bod y cynnig yn corffori awgrymiadau a wnaed gennym ni yn yr adolygiad blaenorol, yn arbennig y penderfyniad i gynnwys Cilfynydd a Glyncoch, y mae eu cymunedau wedi uniaethu'n hanesyddol gyda thref Pontypridd.

Fodd bynnag, rydym yn anfodlon gyda'r penderfyniad i symud Ffynnon Taf i etholaeth Gogledd Caerdydd, Pontyclun i etholaeth Gorllewin Caerdydd a Thonyrefail i etholaeth Y Rhondda. Mae'r tair cymuned yma'n uniaethu'n gryf iawn gyda Thaf-Elái a'u cyngor yw Cyngor Rhondda Cynon Taf.

Bydd y ffin etholaethol Pontypridd (San Steffan) newydd yn wahanol iawn i'r etholaeth Pontypridd (San Steffan) bresennol. Yn ein barn ni rysâit ar gyfer dryswch yw hyn sy'n wir ar gyfer y rhan fwyaf o'r etholaethau yng Nghymru. Rydym ni o'r farn y bydd y diffyg eglurder yn anochel yn cael effaith andwyol ar ymgysylltiad pleidleiswyr - yn gyfan gwbl groes i'r hyn rydym yn ceisio ei gyflawni. Nodwn yn yr Alban fod gan yr etholaethau 'MP' ac 'MSP' enwau gwahanol er mwyn osgoi dryswch o'r fath.

Awgrymwn yn gryf fod yr adolygiad hwn yn mynd i'r afael â'r broblem sylfaenol yma yn gynnar yn y dydd. Gan ddefnyddio Pontypridd fel enghraifft, rydym o'r farn bod 'Pontypridd' yn enw priodol ar gyfer yr etholaeth San Steffan, ac y dylai etholaeth y Senedd gael ei hailenwi'n 'Pontypridd a Thaf Elái'. Mewn ardaloedd eraill, mae'n bosib y byddai'n fwy priodol ail-enwi'r etholaeth San Steffan.

Yn dilyn ymlaen o'r pwynt hwn, mae ffiniau newydd yn gofyn am ymarfer cyfathrebu ac ymgysylltu cynhwysfawr gyda'r etholwyr. Byddem yn gofyn i'r comisiwn yn ymrwymo i raglen sy'n cynnig eglurder i drigolion ynghylch ffiniau ar bob lefel, h.y. Awdurdod Lleol, Y Senedd a San Steffan. Credwn ei bod yn hanfodol bod yr etholwyr yn deall sut mae'r 'darlun llawn' wedi newid o ganlyniad i'r adolygiad hwn, nid dim ond un rhan o'r darlun.

Yn gywir,

28 Hydref 2021

BCW-9744 / [REDACTED] / Rhuthun

Rwy'n credu ei bod hi'n hurt y bydd Dyffryn Clwyd, sy'n anelu am statws AHNE, yn Nelyn.

BCW-9745 / [REDACTED] / Bethesda

Rwy'n pryderu y bydd symud Bethesda o etholaeth Arfon i Aberconwy yn cael effaith niweidiol ar yr ardal - yn enwedig y Gymraeg. Mae Bethesda wedi hen gefnogi ASau sy'n parchu'r Gymraeg ac sydd yn deall ei phwysigrwydd yn y gymuned. Drwy ein symud ni o Arfon i etholaeth newydd sydd â chyfran uwch o bobl nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg, rydym yn llawer mwy tebygol o gael ein cynrychioli gan AS na fydd yn gosod yr un pwysigrwydd ar yr iaith.

Rwyf hefyd yn methu'n llwyr â deall y rhesymeg tu ôl i symud Bethesda i etholaeth wahanol i'r rhan fwyaf o weddill trigolion Gwynedd, ein hardal awdurdod lleol. Mae'r rhan helaeth o ardal arfaethedig Aberconwy i gynnwys ardaloedd yn Sir Conwy, gan wneud Bethesda a'r ardaloedd cyfagos yn allanolynnau o fewn yr etholaeth.

BCW-9746 / [REDACTED] / Bangor

Rwy'n credu bod cyplysu ardal Bangor/ Bethesda efo Llandudno/ Conwy yn cyplysu dwy ardal efo diwylliant a diwylliant ieithyddol tra wahanol.

BCW-9747 / [REDACTED] / Penmaenmawr

Da iawn, llai o ASau i arbed rhywfaint o arian. Mae mynd yn ôl poblogaeth rifiadol yn swnio'n deg. Beth bynnag, aeth ein AS i'r ysgol gyda rhai o fy ffrindiau a chydweithwyr ym Mangor.

BCW-9748 / [REDACTED] / Caerdydd

Mae hyn yn ymgais amlwg i leihau ASau'r wrthblaid a chynyddu'r rhai Torïaidd.

BCW-9749 / [REDACTED] / Wrecsam

23 Barry	76531 Bro Morgannwg	Gibbonsdown	3827
23 Barry	76531 Bro Morgannwg	Buttrills	4447
23 Barry	76531 Bro Morgannwg	Baruc	6080
23 Barry	76531 Bro Morgannwg	Illtyd	6242
23 Barry	76531 Bro Morgannwg	Dyfan	4170
23 Barry	76531 Bro Morgannwg	Sully	3696
23 Barry	76531 Bro Morgannwg	Plymouth	4584
23 Barry	76531 Bro Morgannwg	Stanwell	3365
23 Barry	76531 Bro Morgannwg	St. Augustine's	5318
23 Barry	76531 Bro Morgannwg	Cornerswell	4069
23 Barry	76531 Bro Morgannwg	Llandough	1578
23 Barry	76531 Bro Morgannwg	Dinas Powys	6388
23 Barry	76531 Bro Morgannwg	Wenvoe	2915
23 Barry	76531 Bro Morgannwg	Rhoose	5796
24 Bridgend	75327 Pen-y-bont	Coychurch Lower	1160
24 Bridgend	75327 Pen-y-bont	Coity	3006
24 Bridgend	75327 Pen-y-bont	Brackla	8276
24 Bridgend	75327 Pen-y-bont	Oldcastle	3783
24 Bridgend	75327 Pen-y-bont	Newcastle	4287
24 Bridgend	75327 Pen-y-bont	Morfa	3210
24 Bridgend	75327 Pen-y-bont	Pendre	1654
24 Bridgend	75327 Pen-y-bont	Litchard	2080
24 Bridgend	75327 Pen-y-bont	Cefn Glas	1360
24 Bridgend	75327 Pen-y-bont	Llangewydd and Brynhyfryd	1878
24 Bridgend	75327 Pen-y-bont	Pen-y-fai	1853
24 Bridgend	75327 Pen-y-bont	Bryntirion, Laleston and Merthyr Mawr	6574
24 Bridgend	75327 Pen-y-bont	Newton	3035
24 Bridgend	75327 Pen-y-bont	Porthcawl East Central	2580
24 Bridgend	75327 Pen-y-bont	Porthcawl West Central	2967
24 Bridgend	75327 Pen-y-bont	Rest Bay	1990
24 Bridgend	75327 Pen-y-bont	Nottage	2741
24 Bridgend	75327 Bro Morgannwg	Peterston-super-Ely	1855
24 Bridgend	75327 Bro Morgannwg	Cowbridge	5240
24 Bridgend	75327 Bro Morgannwg	St. Athan	2765
24 Bridgend	75327 Bro Morgannwg	Llantwit Major	7939
24 Bridgend	75327 Bro Morgannwg	Llandow/Ewenny	2362
24 Bridgend	75327 Bro Morgannwg	St. Bride's Major	2732
25 Ogmore	74137 Pen-y-bont	Hendre	3175
25 Ogmore	74137 Pen-y-bont	Penprysg	2474
25 Ogmore	74137 Pen-y-bont	Felindre	2087
25 Ogmore	74137 Pen-y-bont	Blackmill	1839
25 Ogmore	74137 Pen-y-bont	Ogmore Vale	2357
25 Ogmore	74137 Pen-y-bont	Blaengarw	1333
25 Ogmore	74137 Pen-y-bont	Nant-y-moel	1745
25 Ogmore	74137 Pen-y-bont	Pontycymer	1773
25 Ogmore	74137 Pen-y-bont	Bryncethin	1261
25 Ogmore	74137 Pen-y-bont	Bryncoch	1757
25 Ogmore	74137 Pen-y-bont	Sarn	1786
25 Ogmore	74137 Pen-y-bont	Ynysawdre	2748
25 Ogmore	74137 Pen-y-bont	Llangeinor	887
25 Ogmore	74137 Pen-y-bont	Bettws	1595
25 Ogmore	74137 Pen-y-bont	Cefn Cribwr	1180
25 Ogmore	74137 Pen-y-bont	Aberkenfig	1868
25 Ogmore	74137 Pen-y-bont	Liangynwyd	2351
25 Ogmore	74137 Pen-y-bont	Maesteg West	4327
25 Ogmore	74137 Pen-y-bont	Maesteg East	3741
25 Ogmore	74137 Pen-y-bont	Caerau	4795
25 Ogmore	74137 Rhondda Cynon Taf	Brynna	3616
25 Ogmore	74137 Rhondda Cynon Taf	Llanharan	2819
25 Ogmore	74137 Rhondda Cynon Taf	Llanharry	3221
25 Ogmore	74137 Rhondda Cynon Taf	Pont-y-clun	6061
25 Ogmore	74137 Rhondda Cynon Taf	Gilfach Goch	2437
25 Ogmore	74137 Pen-y-bont	Pyle	5545
25 Ogmore	74137 Pen-y-bont	Cornelly	5359
26 Merthyr Tydfil & Aberdare	74805 Merthyr Tydfil	Plymouth	4096
26 Merthyr Tydfil & Aberdare	74805 Merthyr Tydfil	Bedlinog	2977
26 Merthyr Tydfil & Aberdare	74805 Merthyr Tydfil	Treharris	5270
26 Merthyr Tydfil & Aberdare	74805 Merthyr Tydfil	Merthyr Vale	2798
26 Merthyr Tydfil & Aberdare	74805 Merthyr Tydfil	Cyfarthfa	5457
26 Merthyr Tydfil & Aberdare	74805 Merthyr Tydfil	Dowlais	5014
26 Merthyr Tydfil & Aberdare	74805 Merthyr Tydfil	Gurnos	3477
26 Merthyr Tydfil & Aberdare	74805 Merthyr Tydfil	Park	3296
26 Merthyr Tydfil & Aberdare	74805 Merthyr Tydfil	Penydarren	3818
26 Merthyr Tydfil & Aberdare	74805 Merthyr Tydfil	Town	5998
26 Merthyr Tydfil & Aberdare	74805 Merthyr Tydfil	Vaynor	2880
26 Merthyr Tydfil & Aberdare	74805 Rhondda Cynon Taf	Rhigos	1370
26 Merthyr Tydfil & Aberdare	74805 Rhondda Cynon Taf	Hirwaun	3167
26 Merthyr Tydfil & Aberdare	74805 Rhondda Cynon Taf	Pen-y-waun	1973
26 Merthyr Tydfil & Aberdare	74805 Rhondda Cynon Taf	Aberdare West/Llwydcoed	7404

26 Merthyr Tydfil & Aberdare	74805 Rhondda Cynon Taf	Aberdare East	4909
26 Merthyr Tydfil & Aberdare	74805 Rhondda Cynon Taf	Aberaman North	3609
26 Merthyr Tydfil & Aberdare	74805 Rhondda Cynon Taf	Aberaman South	3541
26 Merthyr Tydfil & Aberdare	74805 Rhondda Cynon Taf	Cwmbach	3751
27 Rhondda & Mountain Ash	76898 Rhondda Cynon Taf	Ynysybwl	3433
27 Rhondda & Mountain Ash	76898 Rhondda Cynon Taf	Abercynon	4441
27 Rhondda & Mountain Ash	76898 Rhondda Cynon Taf	Penrhiwceiber	4056
27 Rhondda & Mountain Ash	76898 Rhondda Cynon Taf	Mountain Ash East	2254
27 Rhondda & Mountain Ash	76898 Rhondda Cynon Taf	Mountain Ash West	3123
27 Rhondda & Mountain Ash	76898 Rhondda Cynon Taf	Cymmer	3977
27 Rhondda & Mountain Ash	76898 Rhondda Cynon Taf	Porth	4282
27 Rhondda & Mountain Ash	76898 Rhondda Cynon Taf	Ynysir	2380
27 Rhondda & Mountain Ash	76898 Rhondda Cynon Taf	Tylorstown	3054
27 Rhondda & Mountain Ash	76898 Rhondda Cynon Taf	Ferndale	3114
27 Rhondda & Mountain Ash	76898 Rhondda Cynon Taf	Maerdy	2283
27 Rhondda & Mountain Ash	76898 Rhondda Cynon Taf	Trealaw	2895
27 Rhondda & Mountain Ash	76898 Rhondda Cynon Taf	Pen-y-graig	3929
27 Rhondda & Mountain Ash	76898 Rhondda Cynon Taf	Tonypandy	2686
27 Rhondda & Mountain Ash	76898 Rhondda Cynon Taf	Cwm Clydach	1987
27 Rhondda & Mountain Ash	76898 Rhondda Cynon Taf	Llwyn-y-pia	1637
27 Rhondda & Mountain Ash	76898 Rhondda Cynon Taf	Ystrad	4285
27 Rhondda & Mountain Ash	76898 Rhondda Cynon Taf	Pentre	3902
27 Rhondda & Mountain Ash	76898 Rhondda Cynon Taf	Treorchy	5693
27 Rhondda & Mountain Ash	76898 Rhondda Cynon Taf	Treherbert	4158
27 Rhondda & Mountain Ash	76898 Rhondda Cynon Taf	Tonyrefail East	4433
27 Rhondda & Mountain Ash	76898 Rhondda Cynon Taf	Tonyrefail West	4896
28 Neath	72938 Castell-nedd Port Talbot	Neath East	4468
28 Neath	72938 Castell-nedd Port Talbot	Neath South	3694
28 Neath	72938 Castell-nedd Port Talbot	Cimla	3107
28 Neath	72938 Castell-nedd Port Talbot	Neath North	2931
28 Neath	72938 Castell-nedd Port Talbot	Bryn and Cwmavon	5220
28 Neath	72938 Castell-nedd Port Talbot	Pelelenn	936
28 Neath	72938 Castell-nedd Port Talbot	Cymmer	2011
28 Neath	72938 Castell-nedd Port Talbot	Tonna	2072
28 Neath	72938 Castell-nedd Port Talbot	Resolven	2387
28 Neath	72938 Castell-nedd Port Talbot	Glyncorrwg	792
28 Neath	72938 Castell-nedd Port Talbot	Gwynfi	879
28 Neath	72938 Castell-nedd Port Talbot	Blaengwrach	1491
28 Neath	72938 Castell-nedd Port Talbot	Glynneath	2577
28 Neath	72938 Castell-nedd Port Talbot	Aberdulais	1712
28 Neath	72938 Castell-nedd Port Talbot	Crynant	1508
28 Neath	72938 Castell-nedd Port Talbot	Seven Sisters	1554
28 Neath	72938 Castell-nedd Port Talbot	Onllwyn	935
28 Neath	72938 Castell-nedd Port Talbot	Dyffryn	2447
28 Neath	72938 Castell-nedd Port Talbot	Bryn-coch South	4547
28 Neath	72938 Castell-nedd Port Talbot	Cadoxton	1365
28 Neath	72938 Castell-nedd Port Talbot	Bryn-coch North	1787
28 Neath	72938 Castell-nedd Port Talbot	Allt-wen	2023
28 Neath	72938 Castell-nedd Port Talbot	Cwmllynfell	921
28 Neath	72938 Castell-nedd Port Talbot	Godre'r graig	1514
28 Neath	72938 Castell-nedd Port Talbot	Gwaun-Cae-Gurwen	2220
28 Neath	72938 Castell-nedd Port Talbot	Lower Brynamman	1040
28 Neath	72938 Castell-nedd Port Talbot	Pontardawe	4283
28 Neath	72938 Castell-nedd Port Talbot	Rhos	1997
28 Castell-Nedd	72938 Castell-nedd Port Talbot	Trebanos	1092
28 Castell-Nedd	72938 Castell-nedd Port Talbot	Ystalyfera	2169
28 Castell-Nedd	72938 Swansea	Clydach	5821
28 Castell-Nedd	72938 Swansea	Mawr	1438
29 Swansea East & Port Talbot	70754 Castell-nedd Port Talbot	Coedffranc West	3587
29 Swansea East & Port Talbot	70754 Castell-nedd Port Talbot	Coedffranc Central	2892
29 Swansea East & Port Talbot	70754 Castell-nedd Port Talbot	Coedffranc North	1811
29 Swansea East & Port Talbot	70754 Swansea	Llansamlet	11107
29 Swansea East & Port Talbot	70754 Castell-nedd Port Talbot	Briton Ferry West	2033
29 Swansea East & Port Talbot	70754 Castell-nedd Port Talbot	Briton Ferry East	2148
29 Swansea East & Port Talbot	70754 Castell-nedd Port Talbot	Tai-bach	3643
29 Swansea East & Port Talbot	70754 Castell-nedd Port Talbot	Margam	2309
29 Swansea East & Port Talbot	70754 Castell-nedd Port Talbot	Port Talbot	4342
29 Swansea East & Port Talbot	70754 Castell-nedd Port Talbot	Sandfields East	5038
29 Swansea East & Port Talbot	70754 Castell-nedd Port Talbot	Baglan	5383
29 Swansea East & Port Talbot	70754 Castell-nedd Port Talbot	Sandfields West	4917
29 Swansea East & Port Talbot	70754 Castell-nedd Port Talbot	Aberavon	4048
29 Swansea East & Port Talbot	70754 Abertawe	Bonymaen	5391
29 Swansea East & Port Talbot	70754 Abertawe	Morrison	12105
30 Swansea Central	70169 Abertawe	Cwmbwrla	5622
30 Swansea Central	70169 Abertawe	Mynyddbach	6625
30 Swansea Central	70169 Abertawe	Penderry	7397
30 Swansea Central	70169 Abertawe	Castle	10312
30 Swansea Central	70169 Abertawe	Uplands	10834
30 Swansea Central	70169 Abertawe	Townhill	5592
30 Swansea Central	70169 Abertawe	Landore	4821
30 Swansea Central	70169 Abertawe	Sketty	11304
30 Swansea Central	70169 Abertawe	St. Thomas	5514

30 Swansea Central	70169 Abertawe	Mayals	2148
31 Gower	73215 Abertawe	Gower	2990
31 Gower	73215 Abertawe	Bishopston	2743
31 Gower	73215 Abertawe	Fairwood	2278
31 Gower	73215 Abertawe	Pennard	2229
31 Gower	73215 Abertawe	Penclawdd	2932
31 Gower	73215 Abertawe	Gowerton	3978
31 Gower	73215 Abertawe	Kingsbridge	3506
31 Gower	73215 Abertawe	Upper Loughor	2146
31 Gower	73215 Abertawe	Lower Loughor	1795
31 Gower	73215 Abertawe	Newton	2894
31 Gower	73215 Abertawe	Oystermouth	3313
31 Gower	73215 Abertawe	West Cross	5142
31 Gower	73215 Abertawe	Gorseinon	3340
31 Gower	73215 Abertawe	Penyrheol	4621
31 Gower	73215 Abertawe	Dunvant	3494
31 Gower	73215 Abertawe	Killay South	1857
31 Gower	73215 Abertawe	Killay North	2031
31 Gower	73215 Abertawe	Pontardulais	4954
31 Gower	73215 Abertawe	Llangyfelach	3946
31 Gower	73215 Abertawe	Penllergaer	2553
31 Gower	73215 Abertawe	Cockett	10473

BCW-9767 / [REDACTED] / Casnewydd

Dylech chi fod yn onest. Dydy r etholaeth newydd ddim yn un sy n gwneud synnwyr. Mae Casnewydd a Chaerffili yn wahanol iawn, yn eu diwylliant ac yn eu cymeriad. Nid broses o degwch etholiadol mohoni ond ffordd o sicrhau mwyafrif seneddol I r Toriaid yn y dyfodol. Nid ein map ni mo fe ond map cywilyddus y jerrymanderers.

BCW-9768 / [REDACTED] / Casnewydd

Fy mhrif wrthwynebiad i'r cynnig cychwynnol yw colli'r ffin ddaearyddol a roddir gan Afon Wysg rhwng Dwyrain a Gorllewin Casnewydd, sy'n arwain at ffin sy'n rhannu cymunedau trefol yng ngorllewin y ddinas. Disgrifir cynnig arall, gyda chyfiawnhad sy'n cyfeirio at ffactorau statudol, yn y ffeil pdf a atodir. Mae cwmpas y cynnig amgen hwn yn cynnwys Mynwy, Dwyrain Casnewydd, Gorllewin Casnewydd a Chaerffili.

Cafodd cynnig manwl ei fapio trwy ddefnyddio Plan Builder, ac y mae ffeil json ar gael o wneud cais – ond ni fyddai'r safle hon yn derbyn ffeil json fel atodiad.

GWRTH GYNNIG – FFINIAU ETHOLAETH NEWYDD I FYNWY, TORFAEN, DWYRAIN CASNEWYDD, GORLLEWIN CASNEWYDD, ISLWYN A CHAERFFILI

Dan y gwrthgynnig hwn, fel gyda Chynnig Cychwynnol y Comisiwn Ffiniau, caiff 6 etholaeth bresennol Caerffili, Islwyn, Torfaen, Gorllewin Casnewydd, Dwyrain Casnewydd a Mynwy i 5, sydd oll yn bodloni terfynau maint etholaethau. Crëir etholaeth gyfun newydd o Islwyn / Torfaen, yn hytrach na Gorllewin Casnewydd / Caerffili yng nghynnig y CFf. Mae'r cyfiawnhad isod, gan gyfeirio at y ffactorau statudol a ddiffinnir yn y Canllaw i'r Adolygiad (Cyfeiriad 1).

I gyfyngu ar gwmpas y gwrthgynnig, nid yw'r ffiniau rhwng y 6 etholaeth hon a enwir ac etholaethau eraill wedi eu newid o gynnig cychwynnol y CFf.

Atodir ffeil json y gellir ei hagor trwy ddefnyddio'r erfyn plan builder sy'n diffinio'r cynnig hwn yn fanwl. Mae Ffig. 1 yn llun sgrin o plan builder - [Plan Builder 2020](#) (boundaryassistant.org)

Cyfeiriad at y Ffactorau Statudol

1 *“Bydd ystyriaethau daearyddol arbennig a all gael effaith ar ffiniau etholaethau yn ymwneud yn bennaf â daearyddiaeth megis mynyddoedd, bryniau, llynnoedd, afonydd, aberoedd ac ynysoedd.”*

Mae'r cynnig hwn yn cadw'r ffin ddaearyddol glir a roddir gan yr afon Wysg, rhwng Gorllewin Casnewydd a Dwyrain Casnewydd. Nid yw hyn yn wir am gynnig cychwynnol y CFf a dyma un o'r prif ffactorau sy'n cyfiawnhau'r cynnig amgen hwn.

2 *“Ffiniau llywodraeth leol a chysylltiadau lleol – Gall y Comisiwn ystyried ffiniau llywodraeth leol wrth ddatblygu ei gynigion”*

Ymddengys mai mapio ffiniau etholaethol diwygiedig Mynwy a Thorfaen i'w prif gynghorau presennol oedd yn ffactor a sbardunodd gynnig cychwynnol y CFf, ac y mae ffiniau'r etholaethau arfaethedig newydd yn cyfateb yn union i rai Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Mae maint etholaethol y Cynghorau Sir hyn hwylus iawn yn bodloni'r gofyniadau am etholaethau newydd. Fodd bynnag, o ganlyniad uniongyrchol, er mwyn ateb y gofyniad am faint etholaethol Dwyrain Casnewydd, rhwyddwedd y symud ffin Dwyrain Casnewydd / Gorllewin Casnewydd i'r gorllewin o Afon Wysg, trwy ardal boblog o'r ddinas. Yr wyf i'n dadlau fod cynnal ffin ddaearyddol Afon Wysg, ac osgoi ffin etholaethol mewn cymuned drefol yn bwysicach nac asio gyda ffin weinyddol – gan nodi hefyd nad yw etholaethau seneddol presennol Mynwy a Thorfaen yn cyd-fynd â'u prif gynghorau.

3 *“Ffiniau etholaethau presennol – Bwriada'r Comisiwn barchu etholaethau presennol lle mae modd gwneud hynny”.*

Dan gynnig cychwynnol y CFf, byddai cyfanswm o 21 ward cynghorau lleol yn symud i etholaeth wahanol (yn achos Caerffili / Gorllewin Casnewydd, symud allan o'r etholaeth gyfun newydd). Dan y cynnig hwn, 22 fyddai'r nifer hwnnw (yn achos Islwyn / Torfaen, symud allan o'r etholaeth gyfun newydd). Felly nid yw'r cynnig hwn yn sylweddol waeth na gwell na chynnig cychwynnol y CFf yn erbyn y maen prawf hwn.


- 4 *“Yr anghyfleusterau sy’n dilyn newidiadau o’r fath – Bydd y Comisiwn yn ceisio lleihau’r anghyfleustra trwy greu etholaethau sydd yn ystyried ffiniau llywodraeth leol a thrwy ddefnyddio cymunedau cyfan a wardiau etholiadol cyfan lle bo modd”.*

Mae’r naill gynneg a’r llall yn creu etholaethau o wardiau etholiadol cyfan. Fodd bynnag, mae cynneg y CFF, yn enwedig yn Ninas Casnewydd, yn cyflwyno ffiniau etholaethol mewn cymunedau trefol. Ymhlith enghreifftiau mae:
Heol Caerau / Cilgant Caerau– un ochr yn Nwyrain Casnewydd, a’r llall yng Ngorllewin Casnewydd /Caerffili.

Ardal Harlequin Drive / Barrack Hill (ffin ward Shaftesbury / Allt-yr-yn). Tai ar yr un stryd yn cael eu rhannu rhwng Dwyrain / Gorllewin Casnewydd.

Cyfeiriad 1: ‘Canllaw Comisiwn Ffiniau 2023 i’r Adolygiad’, Mawrth 2021 Ffeil

Atodiad: Cynneg a mgenn GS.json



Yr etholaethau, maint etholaethau a wardiau a gynhwysir yw:

1	Gorllewin Casnewydd	73885
W05000851	Parc Tredegar	3329
W05000838	Gaer	6543
W05000833	Allt-yr-yn	7088
W05000839	Graig	5053
W05000847	Y Tŷ-Du	9421
W05000929	Gorllewin Rhisga	3973
W05000928	Dwyrain Rhisga	4611
W05000850	Stow Hill	3384
W05000836	Betws	5656

W05000845	Pilgwenlli	5174
W05000849	Shaftesbury	3778
W05000844	Marshfield	4897
W05000843	Malpas	6114
W05000776	Llantarnam	4864

2 Dwyrain Casnewydd 73586

W05000841	Llysweri	9110
W05000852	Victoria	5121
W05000848	St. Julians	6287
W05000835	Beechwood	5611
W05000834	Alway	5931
W05000846	Ringland	5968
W05000842	Llanwern	3544
W05000814	Mill	2256
W05000827	The Elms	2523
W05000820	Rogiet	1365
W05000840	Langstone	3878
W05000831	West End	1456
W05000825	Hafren	1325
W05000802	Green Lane	1482
W05000798	Dewstow	1404
W05000792	Castell Caldicot	1768
W05000837	Caerllion	6603
W05000995	Dwyrain Llanyrafon a Phonthir	1803
W05000996	Gorllewin Llanyrafon	1946
W05000772	De Croesyceiliog	1460
W05000993	Gogledd Croesyceiliog	2745

3 Torfaen ac Islwyn 72169

W05000999	Snatchwood	1819
W05000790	Wainfelin	1847
W05000782	Pontnewynydd	1129
W05000787	Trefethin	2463
W05000920	Crumlin	4332
W05000721	Argoed	2035
W05000925	Penmaen	4219
W05000736	Newbridge	4892
W05000719	Abercarn	4139
W05000773	Cwmyniscoy	987
W05000783	Pont y Pŵl	1438
W05000769	Brynwern	1295
W05000784	St. Cadog a Phenygarn	1341
W05000780	Panteg	5828
W05000994	Greenmeadow	2028
W05000998	Pontnewydd	5186
W05000724	Y Coed Duon	6330
W05000919	Cefn Fforest	2845
W05001001	Cwmbrân Uchaf	4207

W05001000	St Dials	3317
W05000774	Fairwater	3918
W05000788	Two Locks	4715
W05000770	Coed Efa	1859

4 Caerffili 71422

W05000930	St. James	4267
W05000723	Bedwas, Trethomas a Machen	7902
W05000921	Llanbradach	3239
W05000931	St. Martins	6582
W05000720	Cwm Aber	4655
W05000926	Penyrheol	9021
W05000923	Morgan Jones	5636
W05000922	Maesycwmer	1811
W05000750	Ystrad Mynach	4067
W05000924	Pengam	2760
W05000745	St. Cattwg	5579
W05000730	Hengoed	4055
W05000749	Ynysddu	2978
W05000927	Pontllanfraith	6343
W05000726	Crosskeys	2527

5 Mynwy 73498

W05000796	Crucorney	1773
W05000813	Maerdy	1430
W05000793	Cantref	1668
W05000808	Llanfoist Fawr	1971
W05000807	Llanelly Hill	3286
W05000812	Llanwenarth Ultra	1128
W05000803	Grofield	1308
W05000794	Castle	1611
W05000818	Priory	1546
W05000804	Lansdown	1644
W05000795	Croesonen	1609
W05000811	Llantilio Crossenny	1527
W05000810	Llanofer	1781
W05000815	Mitchel Troy	985
W05000800	Drybridge	3034
W05000816	Overmonnow	1662
W05000799	Dixton gydag Osbaston	1968
W05000832	Wyesham	1701
W05000829	Trelech United	2249
W05000819	Rhaglan	1618
W05000821	St. Arfan	1304
W05000823	St. Kingsmark	2346
W05000824	St. Mary's	1539
W05000805	Larkfield	1484
W05000822	St. Christopher	1756
W05000828	Thornwell	1961

W05000826	Shirenewton	1850
W05000797	Devauden	1228
W05000806	Llanbadog	1099
W05000801	Goetre Fawr	2045
W05000830	Brynbuga	1930
W05000809	Llangybi Fawr	1477
W05000817	Porthsgiwet	1885
W05000997	New Inn	4777
W05000768	Blaenafon	4575
W05000992	Abersychan	5044
W05000791	Caerwent	1699

BCW-9769 / [REDACTED] / Wreccsam

Ni ellir caniatáu i'r newidiadau ffin yma ddigwydd. Bydd dim ond yn lleihau ein hunaniaeth a'n lleisiau Cymreig, yn ogystal â lleihau ein cynrychiolaeth yn San Steffan.

BCW-9771 / [REDACTED] / Wreccsam

Fe glywais fod Bwlchgwyn i gael ei symud i Gyngor Alun a Glannau Dyfrdwy. Rwy'n credu bod hynny'n annheg am nad ydym wedi cael ein hysbysu ynghylch hyn. Nid democratiaeth yw hyn am ein bod yn cael ein hysbysu ein bod yn symud heb ofyn am ein barn.

Ni ddylem gael ein symud am fod Wreccsam yn 4 milltir i ffwr. Rwy'n defnyddio'r canolfannau ailgylchu lleol ac mae fy mhiant yn defnyddio'r ysgolion uwchradd yn Wreccsam.

BCW-9772/ [REDACTED] / Ynys Môn

Rhaid i Ynys Môn aros fel etholaeth ynddi ei hun am fod ganddi ei gofynion penodol ei hun.

BCW-9773/ [REDACTED] / Y Bari

Credaf mai'r ffin rhwng Etholaeth Seneddol Bro Morgannwg ac Etholaeth De Caerdydd a Phenarth ddylai fod y ffin sydd yno ar hyn o bryd, sy'n gwahanu Cyngor Sir Bro Morgannwg oddi wrth Gyngor Dinas Caerdydd.

BCW-9774/ [REDACTED] / Pontyclun

Cytuno'n llwyr!!! Mae hwn yn newid rhesymegol, yr ydym wedi hir aros amdano, ac ni all ddigwydd yn ddigon buan.

BCW-9775/ [REDACTED] / Bangor

Fel cymuned does gan Fangor fawr yn gyffredin gyda'r cymunedau Dwyreiniol mwy eu maint yn yr ardal arfaethedig. Bydd pleidleisiau o'r poblogaethau mwy mewn cymunedau fel Llandudno yn tra-arglwyddiaethu mewn unrhyw etholiad, sy'n golygu na fydd gan etholwyr Bangor gyfle teg i ethol pobl sy'n eu cynrychioli nhw (rydym ni eisoes wedi cael profiad o hyn, oherwydd yn flaenorol roedd Bangor yn arfer gorwedd yn rhanbarth Aberconwy). Byddai'n llawer gwell inni fod yn y rhanbarth gorllewinol ochr yn ochr â Chaernarfon.

BCW-9776/ [REDACTED] / Prestatyn

Er nad oes gennyf unrhyw broblem gyda'r newidiadau i'r ffin arfaethedig heblaw am y rhai a nodaf isod, nid wyf yn hoffi'r enw Delyn.

Mae Delyn yn enw gafodd ei fathu yn y 1970au ar gyfer yr awdurdod lleol newydd a ffurfiwyd drwy uno'r Fflint, Yr Wyddgrug a Threffynnon.

I mi, enw gwell fyddai Dwyrain Clwyd gyda'r Rhyl, Bae Cinmel ac ati yn etholaeth Gorllewin Clwyd. Ni fu Prestatyn erioed yn Nelyn.

O ran y ffiniau, nid wyf yn credu y dylai'r Fflint gael ei chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig. Mae gan Y Fflint fwy o gysylltiadau â Chei Cononah, Shotton a Queensferry na gyda'r ardaloedd mwy gwledig i'r gorllewin. Yn hanesyddol, Maes Glas oedd y man terfyn ble roedd yr ardal orllewinol yn dechrau, gyda'r ffin rhwng Dwyrain Sir y Fflint a Gorllewin Sir y Fflint yn gorwedd yno.

Mae'r Fflint a Bagillt yn rhannu llawer o'r un gwasanaethau gyda threfi i'r dwyrain gan gynnwys eu prif Ysbyty yng Nghaer ac mae eu golygon tua'r dwyrain. Does dim cysylltiadau rhwng ardaloedd diwydiannol Y Fflint a Bagillt a'r ardaloedd gwyliau, mwy gwledig, i'r de a'r gorllewin.

BCW-9777/ [REDACTED] / Bae Colwyn

Na. Na. Na.

Bydd y newid yn niweidiol i'r hyn ydyw nawr.

Nid yw'r newid o gwmpas byth a beunydd yma yn ddim mwy na gwastraff arian.

BCW-9778/ [REDACTED] / Abertawe

Mae'r penderfyniad i leihau cyfran yr etholaethau San Steffan ddaw o Gymru yn erydiad o amddiffyniad cyfansoddiadol hirsefydlog yr oedd gennym fel lleiafrif cenedlaethol bach yng Nghyd-destun y Deyrnas Unedig.

Mae yna ddiffyg cyfreithloned yn y broses yma, am nad yw pobl Cymru wedi cydsynio i'r colli amddiffyniad yma.

Felly dylai'r Comisiwn naill ai:

1. Darparu cynnig amgen i gadw deugain o seddau gyda ffiniau newydd i adlewyrchu'r newid demograffig a symudiadau poblogaeth
Neu os nad yw hyn yn bosib
2. Cynnig ein bod yn cadw at y ffiniau presennol.
Os nad yw hyn yn bosib
3. Gwrthod â chymryd y cynnig i Senedd y DU fel bo cyfle yn cael ei roi iddynt ailfeddwl.

BCW-9779/ [REDACTED] Bwlchgwyn

Helo,

Fel un sydd yn byw ym Mwlchgwyn rydym wastad yn defnyddio gwasanaethau cyngor ac ardal leol Wreccsam.

Nid yw hi'n gwneud fawr o synnwyr rhannu'r trefniadau presennol - bydd angen inni deithio ymhellach i gael defnyddio gwasanaethau allweddol.

Ar hyn o bryd mae neuadd bentref Bwlchgwyn yn gaffaeliad allweddol i'r gymuned (yn enwedig ar gyfer pobl ifanc). Rydym ar hyn o bryd yn datrys y berchnogaeth - fodd bynnag does fawr o gynnydd wedi ei wneud gan CBSW. Bydd hyn yn cymhlethu pethau ymhellach. Mae gwir angen datrys hyn i sicrhau nad yw'r dadfeilio. Mae grantiau ar gael unwaith i'r berchnogaeth gael ei datrys.

Yn gywir

BCW-9780/ [REDACTED] / Wreccsam

Rwy'n credu bod y newid arfaethedig yn hollol hurt. Mae Bwlchgwyn 4 milltir o ganol tref Wreccsam ac nid ger Glannau Dyfrdwy o gwbl.

BCW-9781/ [REDACTED] / Cydweli

Y dref agosaf a'r un y mae'r holl bentrefwyr yn teithio iddi i siopa ac ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yw Caerfyrddin. Nid yw'n gwneud fawr o synnwyr i gael Llanelli fel ein ward ac mae'n ymddangos mwy fel ymdrech i ffitio'r ffiniau o amgylch ble maen nhw'n gweithio o ran nifer y boblogaeth yn hytrach nag unrhyw gysylltiad gwirioneddol rhwng y pentref a'i dref etholaethol.

BCW-9782/ [REDACTED] / Llanrwst

Annwyl Syr/Fadam,

Rwy'n ysgrifennu i fynegi fy nghefnogaeth i'r ffin arfaethedig.

Fel rhywun sy'n byw yn Llanrwst, rwy'n credu bod y gymuned a Dyffryn Conwy â chysylltiad gyda Dyffryn Ogwen a Bethesda. Yn ychwanegol at y cyswllt da ar hyd y briffordd, yr ydym yn debyg mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys cryfder yr iaith Gymraeg a phwysigrwydd cynyddol twristiaeth i'n hardaloedd. Er enghraifft, mae gan Zip World atyniadau o bwys ym Metws y Coed a Bethesda, ac y mae Bethesda a Llanrwst ar ffin Parc Cenedlaethol Eryri.

Yr eiddoch yn gywir,

[REDACTED]

BCW-9783/ [REDACTED] / Cyffordd Llandudno

Buaswn i'n cefnogi'r newid i ffin Aberconwy, am ei fod yn gwneud synnwyr sicrhau fod gan bob etholaeth nifer tebyg o drigolion.

Rwy'n deall fod angen etholaethau mwy yng Nghymru.

Mae'r newidiadau a gynigir i Aberconwy yn gwneud ardal estynedig, ond mae gan yr ardal fwy hon ffiniau naturiol ac y mae'n debyg i'r hyn a fu yn y gorffennol.

Rwyf yn sicr, wrth i'r boblogaeth gynyddu, y bydd angen adolygiadau yn y dyfodol.

Bydd y ffin newydd, fydd yn cynnwys Bangor, yn ychwanegu mwy o gymunedau Cymraeg eu hiaith a sefydliad Addysg Uwch, nad oes ganddi ar hyn o bryd.

BCW-9784/ [REDACTED] / Llandrindod

A yw'n synhwyrol ychwanegu'r ardal o gwmpas Pontardawe ac i'r de-orllewin o Ystradgynlais i etholaeth Brycheiniog a Maesyfed, gan y buaswn yn dychmygu fod y trigolion yma â mwy o gysylltiad ag Abertawe na'r canolbarth gwledig? Oni fyddai'n fwy priodol symud ffin Brycheiniog a Maesyfed tua'r gogledd, o gofio'r diddordebau a rennir gan bobl yn y rhan hon o Gymru.

BCW-9785/ [REDACTED] / Aberystwyth

Yr wyf yn gyfforddus gyda ffin arfaethedig newydd Ceredigion Preseli. Mae angen i ni leihau "ôl troed" gwleidyddion, yn genedlaethol a lleol.

BCW-9786/ [REDACTED] / Rhuthun

Mae'n rhyfedd iawn nad yw Rhuthun wedi ei chynnwys yng Nghlwyd. Mae Rhuthun yn Nyffryn Clwyd. Mae'n edrych fel gêm o rifau yn unig i gynnwys Rhuthun yn nelyn. Ail-ystyriwch, os gwelwch yn dda

BCW-9787/ [REDACTED] / Bangor

Rwyf ar hyn o bryd yn byw yn Arfon ond cefais fy magu yn Nwyfor. Mae dau broffil gwahanol iddynt - un yn fwy trefol, a'r llall yn fwy gwledig. Byddai'r ffin arfaethedig a gynigir yn colli hunaniaeth y naill a'r llall yn y Senedd a San Steffan. Ymhellach, byddai Bangor yn colli ei hunaniaeth trwy ddod yn rhan o Aberconwy ac yn cael ei boddi gan broffil gwahanol Llandudno a Chonwy. Agenda Doriaidd yw hyn i wahaniaethu yn erbyn bywyd gwledig. Gadewch y ffiniau yng Nghymru fel y maent.

BCW-9788/ Robin Millar AS/ Conwy

Rwy'n cefnogi'r ffiniau arfaethedig ar gyfer etholaeth Aberconwy.

Cefais fy ngeni a'm magu ym Mangor ac rwy'n byw o fewn ffin etholaeth Aberconwy (2021).

Rwy'n cefnogi'r cynigion ar gyfer ymestyn ffin yr etholaeth a chadw ei henw am y rhesymau canlynol:

1. Roedd angen ymestyn yr ôl troed presennol i gyflawni'r maint etholaeth sy'n ofynnol gan y llywodraeth.
2. Yr unig opsiynau i wneud hynny oedd trwy ymestyn i'r gorllewin (gan gynnwys aneddiadau Bangor, Bethesda a'r pentrefi o'u hamgylch), i'r dwyrain (gan gynnwys Llandrillo-yn-Rhos, Mochdre) ac i'r de (gan gynnwys wardiau gwledig llai poblog i fyny ochr ddwyreiniol Dyffryn Conwy).
3. Mae morlin gogleddol gogledd-orllewin Cymru wedi'i nodweddu gan gyfres o gymunedau arfordirol sy'n gorgyffwrdd ac sydd â chysylltiad hanesyddol â'i gilydd (e.e. Deganwy a Chonwy, Llanfairfechan a Phenmaenmawr, Llandudno a Bae Penrhyn, Bae Penrhyn a Llandrillo-yn-Rhos ac ati). Mae ffiniau arfaethedig yr etholaeth yn gwarchod y perthnasoedd unigryw hynny.
4. Mae'r cynigion hefyd yn adlewyrchu cymeriad y gefnwlad wledig trwy gynnwys dyffrynnoedd Nant Ffrancon a Dyffryn Conwy, sydd wedi'u cysylltu trwy Gapel Curig, a rhannau uchaf dalgylch Conwy, y mae'r mwyafrif ohono o fewn Parc Cenedlaethol Eryri.
5. Mae'r ardaloedd daearyddol hyn – y llain arfordirol a'r gefnwlad wledig – a'r cymunedau ynddynt yn unigryw ac yn wahanol, ond wedi'u cysylltu gan wasanaethau modern, trwy hanes a thrwy economïau lleol hen sefydledig fel twristiaeth (ers y cyfnod Fictoraidd) a ffermio.
6. Mae'r cynigion ar gyfer yr etholaeth hefyd yn adlewyrchu cysylltiadau trafndiaeth sy'n dilyn llwybrau sydd wedi bodoli ers canrifoedd, fel yr A5.
7. Bydd yr etholaeth estynedig yn cynnwys rhannau o ddwy ardal awdurdod lleol – Gwynedd a Chonwy. Am y rhesymau a roddwyd uchod, nid wyf o'r farn bod hyn yn rhwystr. Mae'r cynigion hefyd yn dwyn i gof hen Etholaeth Conwy (a ddiddymwyd yn 2010).
9. Mae'r etholaeth estynedig yn parhau i ganolbwyntio ar Ddyffryn Conwy a gellir adnabod y sedd yn rhwydd trwy gadw ei henw, sef, Aberconwy.

BCW-9789/ [REDACTED] / **Anhysbys**

From: [REDACTED]

Sent: 31 Hydref 2021 13:22

To: BCW <bcw@boundaries.wales>

Subject: Cynigion Ffiniau Seneddol - Clwyd a Delyn

Annwyl Syr/Fadam,

Cyfeiriaf at eich cynigion yng nghyswllt ail-lunio etholaethau Seneddol yng ngogledd Cymru. Dylwn ddweud i gychwyn mai fy newis i fuasai creu etholaeth fyddai'n cynnwys y wardiau presennol sydd yn awdurdod unedig Sir Ddinbych gan y byddai hyn yn cydymffurfio orau gyda'r sbardunau allweddol o gynnal cysylltiadau â'r strwythurau gwleidyddol presennol. Yn anorfod, bydd dryswch ymysg pleidleiswyr pan fyddant mewn un etholaeth am etholiadau San Steffan ac etholaeth wahanol i'r Senedd a threfniant gwahanol eto fyth i etholiadau sirol. Mae'n debyg fod y dewis hwn wedi ei wrthod ar y sail y byddai'n cael effaith sylweddol ar etholaethau eraill y gogledd, er fy mod yn meddwl y dylid ystyried y dewis hwn fel yr un mwyaf synhwyrol. Ar y rhagdyb nad yw hwn yn ddewis sydd ar gael i ni, buaswn yn gwneud y sylwadau canlynol am ddwy sedd arfaethedig Clwyd a Delyn.

Cyn belled ag y mae sedd arfaethedig Clwyd dan sylw, buaswn yn cytuno'n gyffredinol â'r darpariaethau. Y mae cyswllt clir rhwng cymunedau'r Rhyl a Bae Cinmel, Towyn, Abergele etc. ac y mae'n gwneud synnwyr eu cynnwys mewn un sedd. Buaswn yn awgrymu, fodd bynnag, na ddylid cynnwys cymuned Llanfair DC yn y sedd hon ond ei chynnwys yn y sedd a ddiffinnir ar hyn o bryd fel Delyn. Er mwyn cynnal cysylltiadau hanesyddol gydag enwau seddi, buaswn yn argymhell i'r sedd hon gadw enw Gorllewin Clwyd.

Cyn belled ag y mae sedd arfaethedig Delyn yn y cwestiwn, rwy'n meddwl, yn yr achos hwn, fod nifer o anghysonderau yn y cynigion ac awgrymaf y canlynol i hwyluso yn well amcanion cynnal cysylltiadau cymunedol lleol a chysylltiadau gyda ffiniau'r awdurdodau lleol fel y maent ar hyn o bryd.

1. O ran yr enw, yn gymharol ddiwedd ar y daeth yr enw Delyn i fod, heb berthynas hanesyddol a'r ardal - cyfuniad o'r ddwy afon Dyfrdwy ac Alun ydyw. Buaswn yn argymhell felly ail-enwi'r etholaeth hon yn Ddwyrain Clwyd, fyddai'n gefeillio gyda Gorllewin Clwyd nesaf ati.
2. Dylid cynnwys cymuned Llanfair DC yn y sedd hon yn hytrach na "Chlwyd" oherwydd y mae'r holl gysylltiadau cymunedol, addysgol, masnachol a chymdeithasol â thref Rhuthun, y bwriedir iddi fod yn sedd "Delyn".
3. Dylai cymunedau Argoed, Coed-Llai a New Brighton yn yr etholaeth hon yn hytrach na'u symud i Alun a Glannau Dyfrdwy, oherwydd bod yr holl gysylltiadau cymunedol, masnachol, addysgol a chymdeithasol gyda thref yr Wyddgrug, y bwriedir iddi fod yn yr etholaeth hon.
4. Dylai cymunedau Llandrillo a Chorwen fod yn yr etholaeth hon yn hytrach na'r hyn a gynigir oherwydd bod y cymunedau hyn yn agosach yn ddiwylliannol, cymdeithasol ag ati â thref Rhuthun, ac y byddai hyn yn cadw'r cysylltiad â Sir Ddinbych.

5. Dylid symud cymunedau'r Fflint a Bagillt o'r cynigion hyn a'u cynnwys yn hytrach yn sedd Glannau Dyfrdwy. Y Maes-glas oedd ffin hanesyddol hen seddi Dwyrain/ Gorllewin Sir y Fflint, oherwydd bod hyn yn doriad clir rhwng yr arfordir mwy diwydiannol o Fagillt, trwy'r Fflint ac ymlaen i Lannau Dyfrdwy, a'r arfordir mwy gwledig a thwristaidd o'r Maes-glas ymlaen i Brestatyn a thu hwnt.

Gobeithio y byddwch yn ystyried y pwyntiau hyn wrth lunio eich argymhellion terfynol.

Yr eiddoch yn gywir,



BCW-9790/ Cyng. Sheryl Evans/ Gogledd Aberaman

From: [REDACTED]
Sent: 31 Hydref 2021 16:31
To: BCW <bcw@boundaries.wales>
Cc: Enquiries <enquiries@boundaries.wales>
Subject: Newidiadau arfaethedig i Gwm Cynon

Hi

Hoffwn wrthwynebu'n gryf y cynnig i ddileu Cwm Cynon oddi ar y map. Os am greu etholaeth newydd, yna awgrymaf ei galw yn Merthyr Tudful a Chwm Cynon AC NID Merthyr Tudful ac Aberdâr.

Mae trigolion yn hynod falch o'u treftadaeth ddiwylliannol a hanesyddol.

Awgrymaf yn garedig hefyd y dylid cynnwys fy ward i, sef Gogledd Aberaman, yn etholaeth newydd Merthyr Tudful ac Aberdâr neu Ferthyr Tudful a Chwm Cynon am y rhesymau a ganlyn:-

1. Mae llif y traffig yn wastad wedi bod o Aberaman a Godreaman i Aberdâr. I gyrraedd Pontypridd bydd yn rhaid i ni ddal i deithio i Aberdâr i fynd ar gludiant cyhoeddus i deithio i Bontypridd.
2. CF44 y pob cod post yn fy ward i – codau post Aberdâr. Mae ein cyfeiriadau oll yn Aberaman, Aberdâr a Godreaman, Aberdâr. Byddai newid ffin f'etholaeth i Bontypridd yn ddryslyd iawn i fy nhrigolion, a byddai'n golygu caledi ariannol petae angen iddynt ymweld â'u AS.
3. Mae Aberdâr 10 munud o bellter cerdded o Gogledd Aberaman. Fe gymer 3awr a 45 munud i gerdded i Bontypridd.
4. Mae mwy o gysylltiad gan Gogledd Aberaman a'i thrigolion â chymuned/treftadaeth Aberdâr na Phontypridd. Pentref bach mewn hen ardal lofaol ydym ni, a llawer o'r trigolion heb fod yn gyrru, na defnyddio'r rhyngwyd, etc. Yr ydym yn ardal ddifreintiedig ond gydag ysbryd cymunedol gwych.
5. Ysbyty'r Tywysog Siarl ym Merthyr Tudful yw ein hysbyty lleol, sydd 6.7 milltir i ffwrdd. Os bydd ein ffin yn newid, bydd disgwyl i ni fynd i Ysbyty Brenhinol Morgannwg ym Mhontypridd, sydd 17.6 milltir i ffwrdd.
6. Mae Gogledd Aberaman yn union gyferbyn â Chwmbach sydd WEDI ei chynnwys ym Merthyr Tudful ac Aberdâr. Pam hynny?
7. Mae Chwmbach a Gogledd Aberaman yn rhannu ardal o wlypdir cymunedol, a'r ddwy ardal yn ffinio â'r Afon Cynon. Felly mae cynnwys Chwmbach yn y ffin newydd a pheidio â chynnwys Gogledd Aberaman yn hollol annheg.

Gofynnaf yn barchus i chi unwaith eto ystyried cadw Gogledd Aberaman gydag Aberdâr mewn unrhyw newid arfaethedig.

Diolch

Cynghorydd Sheryl Evans

BCW-9791/ [REDACTED] / Anhysbys

From: [REDACTED]

Sent: 31 Hydref 2021 17:50

To: BCW <bcw@boundaries.wales>

Subject: Ffiniau etholaethau seneddol y DU – Cyflwyniad i'r ymgynghoriad

Par UK Ffiniau etholaethau seneddol y DU – Cyflwyniad i'r ymgynghoriad

Bûm yn byw ym Mhrestatyn 1986 - 2002 ac yn yr ugain mlynedd ers hynny rwyf wedi cadw cysylltiadau agos â'r ardal. Mae hyn nid yn unig yn gymdeithasol ond hefyd trwy fusnes - mae fy ngyrfa mewn eiddo yn ymestyn dros Swydd Gaer a gogledd Cymru, felly rwyf yn parhau i ymddiddori'n frwd yn y rhanbarth cyfan.

Rwy'n cefnogi'r fras y newidiadau arfaethedig, gan ganolbwyntio ar y seddi a gynigir fel Delyn, Clwyd, Alun a Glannau Dyfrdwy ac i raddau llai De Clwyd. Fodd bynnag, mae rhai newidiadau y teimlaf yn gryf y dylid eu hystyried a'u gwneud.

Yn gyntaf, rwy'n cwestiynau'r enw 'Delyn', o gofio cyfansoddiad arfaethedig y sedd. Yr wyf yn teimlo'n gryf nad yw'r enw hwn yn wir briodol ac nad yw'n cysylltu â mwyafrif helaeth yr etholwyr, yn enwedig o gofio fod Prestatyn a Rhuthun yn y sedd arfaethedig newydd. Nid oed dy naill na'r llall yn hen ddosbarth Delyn yng Nghlwyd (1974 tan 1996).

Fel y gwyddoch, mae'n siŵr, ffurfiwyd Bwrdeistref Delyn trwy uno Bwrdeistref y Fflint gyda dosbarthiadau trefol Treffynnon a'r Wyddgrug, a Dosbarth Gwledig Treffynnon. Ffurfiwyd yr enw trwy gyfuno enwau prif afonydd yr ardal, Dyfrdwy ac Alun. Arferai Prestatyn fod yn Nosbarth Rhuddlan yng Nghlwyd, gyda Rhuthun a'r ardaloedd gwledig yn Nosbarth Glyndŵr yng Nghlwyd.

Hyd yn oed heddiw yn 2021, flynyddoedd wedi ad-drefnu cynghorau, yn rhyfedd iawn mae llawer o ganfyddwyr codau post yn dal i gyfeirio at Glwyd ac adlewyrchir pwysigrwydd y gair hwn i hunaniaeth leol yn y bwriad i ddefnyddio 'Clwyd' am y sedd i'r gorllewin. Ymddengys yn fwy rhesymol felly i ail-enwi 'Delyn' yn Ddwyrain Clwyd ac i sedd 'Clwyd' ddefnyddio'r teitl presennol 'Gorllewin Clwyd'.

Rwy'n teimlo ei bod yn bwysig mynd i'r afael a hunaniaeth leol, cymunedau a diwylliannau wrth weithio allan y ffiniau newydd, yn hytrach na dim ond gweld beth sy'n edrych yn rhesymol ar fap.

Yn benodol, buaswn yn nodi'r canlynol.

O ran Clwyd fel y'i cynigir, yr wyf yn cytuno fod cysylltiadau cryf rhwng Rhyl a Bae Cinmel /Towyn ac y mae'r newid hwn yn hollol synhwyrol. Byddai rhesymeg o'r fath hefyd yn cefnogi creu'r etholaeth arfaethedig sy'n asio Prestatyn gyda Gronant, Gwaunysgor, Talacre, Llanasa a Threlawnyd.

Mae cysylltiadau pendant, er nad rhai cryf, rhwng Fflint /Bagillt ddiwydiannol ac ardaloedd Sir y Fflint a Sir Ddinbych i'r de a'r gorllewin. Yr oedd ffin hen etholaethau Gorllewin/Dwyrain Sir y Fflint (1950-1983) yn rhedeg trwy'r Maes-Glas, ffin naturiol rhwng ardaloedd mwy gwledig gorllewinol Sir y Fflint a'r ardal fwy diwydiannol o'r Maes-Glas trwodd at y Fflint, ar hyd aber afon Dyfrdwy.

Mae'r ardal o gwmpas y Maes-Glas yn bwynt pendant lle mae pobl yn edrych at ardal y ffin ar Lannau Dyfrdwy, Swydd Gaer a Glannau Mersi am waith, mwynderau a gwasanaethau cyhoeddus, megis yr ysbyty aciwt lleol yng Nghaer. Mae modd ail-gyflwyno'r ffin hon, a buaswn i'n dadlau y dylid gwneud hynny.

Byddai'n gwneud synnwyr i Argoed, Coed-Llai a New Brighton aros yn yr un sedd â'r Wyddgrug, oherwydd agosrwydd amlwg y cysylltiadau cymunedol. Byddai hyn hefyd yn dod a'r fantais o gadw Alun a Glannau Dyfrdwy yn un endid, er gyda rhai ardaloedd wedi eu hychwanegu ati.

Byddai'n synhwyrol cynnwys Corwen a Llandrillo ochr a Rhuthun am ei fod yn cadw ardaloedd yn Sir Ddinbych ynghyd, felly dylai'r rhain gael eu cynnwys yn yr hyn a gynigir fel 'Delyn' ac yr wyf i wedi awgrymu 'Dwyrain Clwyd'.

I grynhoi, yn yr hyn a enwch chi fel Delyn (ac a gynigir i fel Dwyrain Clwyd) buaswn i'n ychwanegu'r canlynol;

Argoed, Corwen, Coed-Llai, Llandrillo, Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern, New Brighton


A buaswn yn symud Dwyrain Bagillt, Gorllewin Bagillt, Castell y Fflint, Fflint Coleshill, Fflint Oakenholt a Fflint Trelawny.

Trwy wneud hyn, dylech fedru cadw rhifau'r etholaethau yn unol â'r hyn y mae'n rhaid i chi greu.

Yr eiddoch yn gywir




***ZOZ3 Arolwg Ffiniau
Etholaethau Seneddol -
Ymateb personol i gynigion
cychwynnol ar gyfer tair
etholaeth newydd arfaethedig
yn Abertawe***



SWANSEA

SCALE - 1:100,000 (A3)
Kilometres



© Crown Copyright 2000
Comptrols - West Gloucesters
September 2020

OGL

Cynnwys:	Tudalen
Cyflwyniad	3
Map o gynnis CFfG ar gyfer Canol a Gogledd Abertawe	4
Mawr a Phontarddulais	5
Penlle'r-gaer a Llanyfelach	6
St Thomas	7
Bôn-y-maen a Llansamlet	8
Ffiniau wardiau newydd o fis Mai 2022	9
Goblygiadau i Gastell-nedd a ChwmTawe	10
Tybiaeth 'y ward gyfan'	11
Sylwadau Cyffredinol	12
Casgliad	13
Atodiad 1: Amlinelliad o fap o'r cynnis newydd wedi'i dynnu â llaw	14

Cyflwyniad

Mae'r Comisiynwyr i'w canmol am ba mor gydgysylltiedig yw eu cynlluniau ar gyfer y tair etholaeth newydd a fydd yn cynnwys, neu'n cynnwys yn llwyr, Dinas a Sir Abertawe. Mae'n anochel, o ystyried y rhychwant etholiadol y mae'n rhaid i'r Comisiynwyr weithredu ynddo, fod yn rhaid i o leiaf un etholaeth groesi i awdurdod lleol cyfagos, yn y cynnig hwn, Castell-nedd Port Talbot. Nid yw hyn yn wahanol i'r trefniadau etholaethol presennol, lle nad yw'r ffin rhwng y ddau awdurdod lleol yn berffaith o ran rhychwant yr etholaethau presennol.

Mae'r Comisiynwyr wedi pennu sedd Gŵyr a Gorllewin Abertawe resymegol sy'n cyfateb i raddau helaeth i'r hyn y mae pobl lleol yn ei ystyried yn Gŵyr (h.y. yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ynghyd â'r Mwmbwls a Thre-gŵyr). Cânt eu cefnogi gan y ffaith bod holl hen wardiau Dyffryn Lliw yn un aelod neu ddau aelod. Yn hen ardal Abertawe, fodd bynnag, mae llawer o wardiau tipyn yn fwy, ac o ganlyniad mae'r gwrthodiad i'w rhannu, a orfodwyd ar eu hunain, yn gyfyngiad difrifol ar yr amcanion eraill y dylai'r Comisiynwyr fod yn eu hystyried.

Mae'r cyflwyniad hwn yn canolbwyntio ar wella'r ffin ddwyreiniol sydd wedi'i chynnig ar gyfer Canol a Gogledd Abertawe er mwyn cynnwys elfennau allweddol o ganol y ddinas sy'n pontio afon Tawe, yn bennaf; y glannau, cyffiniau stadiwm Liberty a'r brif ardal fusnes (a elwir yn lleol yn 'ardal fenter'). Mae'n creu etholaeth drefol fwy cain, gryno, ddinesig, sy'n canolbwyntio ar ganol y ddinas gyda'r M4 (fwy neu lai) fel ffin ogleddol yr aneddiad.

Y cynnig craidd yw cyfnewid wardiau Mawr, Pontarddulais, Penlle'r-gaer a hanner gogleddol ward Llangyfelach o Ganol Abertawe a'r Gogledd i sedd arfaethedig Castell-nedd a Dwyrain Abertawe; er mwyn gallu cynnwys elfennau craidd eraill o ganol y ddinas.

*(Etholfraint
Tŷ'r
Cyffredin yn
unig)*

I Mewn

5777 (5514) **St Thomas**

551 **FK2 DE Bôn-y-maen**

5390 **FB, FC, FD DE Llansamlet**

11718

*(Etholfraint Tŷ'r
Cyffredin yn unig)*

ALLAN:

5024 (4954) **Pontarddulais**

1464 (1438) **Mawr**

2687 (Z553J) **Penlle'r-gaer**


2125 **CG1 a CG2 DE**

11300 **Llangyfelach**


Rwyf yn ddyledus iawn i Alison O'Hara o uned wasanaethau democrataidd Dinas a Sir Abertawe am roi rhifau etholwyr y Dosbarthiadau Etholiadol i mi ar gyfer y Dyddiad Dethol. Dylid nodi bod y cyfansymiau hyn ar gyfer POB etholwr cofrestredig ar y Dyddiad Dethol. Mae etholfraint Tŷ'r Cyffredin wedi'i chyfyngu i'r rhai 18 oed a hŷn ac nid yw'n cynnwys gwladolion y tu allan i'r DU, Iwerddon neu'r Gymanwlad a all bleidleisio mewn etholiadau eraill. Er cymhariaeth, lle maent ar gael, rhoddir y ffigurau hyn drwy wefan Comisiwn Ffiniau i

Gymru ar gyfer wardiau cyfan, mewn cromfachau *italig llwyd*. Mae'r gwahaniaethau (i'r graddau y gallaf ddarganfod o'r data sydd ar gael i mi) yn ymddangos yn ansylweddol ac yn gymharol wastad ledled yr holl wardiau dan sylw.

Swansea Central and North (Canol a Gogledd Abertawe)




Af ymlaen i drafod pob ward gyfan neu ardal bleidleisio unigol yn benodol cyn troi at sylwadau mwy cyffredinol. Dechreuaf gyda'r rhai yr wyf yn cynnig eu cyfnewid i etholaeth Castell-nedd a Dwyrain Abertawe (yr wyf yn awgrymu eu bod yn cael eu hailenwi'n 'Castell-nedd a Chwm Tawe') cyn ystyried ardaloedd Canol y Ddinas.



Mawr

Mae gan Mawr fwy yn gyffredin â wardiau gwledig garw, hardd a gwasgaredig eraill Castell-nedd a Chwm Tawe na sedd yng Nghanol y Ddinas. Mae Craig Cefn Parc yn y bôn yn estyniad o Glydach.

Mae gan bentref bach Felindre dafarn o'r enw The Shepherd's Inn, sy'n crynhoi'r diwydiant lleol yn deg.



Pontarddulais

Mae Pontarddulais yn dref fach hunangynhwysol sydd wedi'i lleoli yn union i'r gogledd o Gyffordd 48 yr M4.

Un gornel orllewinol Sir Forgannwg, mae Pontarddulais wedi bod yn nodwedd ar y brif ffordd i Sir Gaerfyrddin a thu hwnt ers canrifoedd. Mae gan y dref ei chyfleusterau manwerthu a hamdden ei hun, ysgol uwchradd a meddygon teulu.

I'r graddau y mae'n edrych y tu allan, mae'n gwneud hynny o leiaf gymaint gyda chyfleusterau y tu allan i'r dref ar hyd goridor yr M4; ac i Drostre, Llanelli, Rhydaman a Chaerfyrddin gymaint â chanol

Abertawe.


Atgynhychwyd o ddogfen electronig wedi'i hyrwyddo gan



siopa. Mae hyn yn llawer o gymdogaeth
drefol yn anad dim, heb unrhyw gysylltiad
â'r ardaloedd i'r gogledd o'r M4.



St Thomas



Drwy wahanu Canol Abertawe o'i Dociau mae'r Comisiwn yn anwybyddu'r rheswm sylfaenol pam y datblygodd Abertawe i fod yn ddinas yn y lle cyntaf. Tyfodd Abertawe o'i dociau ac mae hi yn ei hanfod yn ddinas forol debyg i Gaerdydd, Bryste a Lerpwl. Yn ystod y ddau ddegawd diwethaf, mae Associated British Ports wedi rhyddhau swm sylweddol o dir yn bennaf o amgylch doc Tywysog Cymru i'w ailddatblygu. Gelwir hyn nawr yn SA1 a gyda dau gysylltiad newydd i gerddwyr dros yr afon, mae'n borth i Abertawe ar gyfer cyrraedd drwy Ffordd Fabian. At ddibenion y llywodraeth leol, mae datblygiad SA1 a'r Marina (hen ddoc y De) yn cael eu tynnu o wardiau St Thomas a'r Castell, yn y drefn honno, a'u cyfuno i ward newydd y Glannau o fis Mai 2022. Trafodir hyn ymhellach ar dudalen 10. Mae trigolion St Thomas yn edrych, i raddau helaeth, tuag at ganol Abertawe ar gyfer siopa, gwasanaethau cyhoeddus a chyflogaeth.


Mae campws newydd Jersey Marine o Brifysgol Abertawe ychydig y tu allan i Ddinas a Sir Abertawe (yn yr un modd ag Amazon; nawr ein cyflogwr sector preifat mwyaf) ac maent eisoes yn trawsnewid strydoedd teras traddodiadol St Thomas, Port Tenant a Pharc Grenfell wrth i dai amlfeddiannaeth gael eu creu a darpar brynwyr gynyddu prisiau. Ymhen amser, mae'n amlwg y bydd yn denu poblogaeth lawer iau, mwy parod i symud na'r trigolion sydd ganddi ar hyn o bryd, sydd wedi ymgartrefu'n bennaf ac yn gynhenid yn Abertawe (neu Gymru).

Er ar ymyl ardal yr awdurdod unedol; nid yw St Thomas yn ward naill ffordd neu'r llall. Mae'r ward

union yng nghanol Abertawe.

Mae llethrau Bryn Cilfái yn darparu seibiant naturiol rhwng wardiau St Thomas a Bôn-y-maen nid oes modd adeiladu arnynt.





Bôn-y-maen

Mae Bryn Cilfái yn cynnig seibiant naturiol rhwng St Thomas a Bôn-y-maen. Mae cefn Bôn-y-maen yn rhedeg oddi yno, heibio i Glwb Rygbi ac Ysgol Gyfun Cefn Hengoed gydag ystâd cyngor enfawr yn mynd i lawr y bryn i ochr Abertawe ac yn disgyn i Sgiwen ar y llaw arall.

Wrth iddo fynd yn is, mae ystâd Bôn-y-maen yn uno i'r stoc dai fwy cymysg o Winch-Wen; islaw mae afon Tawe Stadiwm Liberty a Pharc Manwerthu Morfa.

Gerllaw Parc Manwerthu Morfa mae datblygiad tai diweddar sy'n cael ei farchnata fel y 'Chwarter Copr' mewn teyrnged i hanes Morfa. Dyma'r Dosbarth Etholiadol FK2 yr wyf yn awgrymu ei ychwanegu at sedd Ganol Abertawe. Mae'n wahanol yn ddaeryddol i weddill Ward Bôn-y-maen ac nid yw'n rhannu unrhyw gysylltiadau cymunedol â Bôn-y-maen. Mae ei gysylltiadau â'i barc manwerthu cyfagos (lle mae ganddo ei Orsaf Bleidleisio), Stadiwm Liberty, ynghyd â'r Hafod, Glandŵr a Chanol y Ddinas drwy'r A4217.

O fewn cyfyngiadau cynnig cytbwys, ni welaf unrhyw ffordd o wasgu unrhyw un o ddosbarthiadau etholiadol Bôn-y-maen y tu hwnt i FK2. Mae hyn yn cynnal coridor ar hyd y Tawe ac yn cysylltu â'r sedd newydd.

Llanamlet

Fel Llangyfelach, mae ward Llanamlet yn cael ei rhannu gan yr M4, gyda Glais a Gellifedw i'r gogledd a Llanamlet ei hun i'r dde, yn rhedeg ar hyd Ffordd Peniel Green (A48) gyda'r orsaf reilffordd a thai ymhellach i'r de y tu ôl i archfarchnad Tesco mewn ardal o'r enw Trallwn. Mae pentref Tregof yn ddatblygiad mwy modern rhwng yr A48 a'r M4 heb lawer o gysylltiadau â gweddill Llanamlet. Byddai rhannu'r grŵp hwn o ddosbarthiadau etholiadol yn arwain at ffin anniben ac artiffisial. Mae eu cynnwys yn rhoi ffin ogleddol daclus sy'n mynd ar hyd yr M4 (tan



ymchwydd ystâd Cymrhydyceirw/
Ysbyty ac Ysgol Uwchradd Treforys
dros yr afon Tawe). Mae'n cynnwys
prif ardal manwerthu a busnes
Abertawe ac mae'n osgoi ffin od o
dan Dreforys.



Ffiniau wardiau newydd o fis Mai 2022

O dan Gymal 6 o Ddeddf Etholaethau Seneddol 2019, mae Rheol 5 wedi'i diwygio (gyda newid canlyniadol i Reol 9). Erbyn hyn, mae'n ofynnol i Gomisiynau Ffiniau ystyried ffiniau "arfaethedig" llywodraethau lleol yn hytrach na dim ond y rhai sy'n bodoli ar ddyddiad yr arolwg (1 Rhagfyr 2020). Fel y mae'r nodiadau esboniadol yn eu dweud:

"mae ffin llywodraeth leol yn "arfaethedig" ar ddyddiad yr arolwg os yw'r ffin wedi'i phennu ar y dyddiad hwnnw mewn darpariaeth o brif ddeddfwriaeth neu is-ddeddfwriaeth ond nad yw'r ddarpariaeth honno mewn grym eto." (p9)

Ymddengys i mi mai bwriad y Senedd DU oedd (yn ddarostyngedig i'r ystodau poblogaeth yn Rheol 2) i roi mwy o hyblygrwydd i'r Comisiynau Ffiniau ddefnyddio ffiniau gweinyddol lleol sydd ar fin dod i rym. Dylai hyn, mewn egwyddor, ei gwneud yn haws i'r Comisiynau argymhell ffiniau etholaethau sy'n cyd-fynd â ffiniau wardiau lleol perthnasol; a ddylai yn ei dro efelychu'r gwaith o weinyddu etholiadau a lleihau dryswch i bleidleiswyr.

Dylai'r Comisiynwyr gydnabod y bydd nifer o newidiadau i'r wardiau a drafodir uchod yn cael eu gweithredu. Gwnaed y [Gorchymyn](#) ym mis Medi 2021 a daw'r ffiniau newydd i rym yn etholiadau mis Mai 2022.

Mae'n amlwg nad oedd y ffiniau newydd yn Abertawe yn bodoli mewn deddfwriaeth ar ddyddiad dechrau'r arolwg hwn. Felly, ni all fod yn ofynnol yn gyfreithiol i'r Comisiwn eu hystyried. Awgrymaf, fodd bynnag, y byddai'n synhwyrol ac yn gwbl unol â bwriad y Senedd i'r Comisiynwyr eu hystyried yn eu trafodaethau yn y dyfodol yn hytrach na'u diystyru ar y pwynt technegol hwn yn unig.

Mae'n werth darllen [Adroddiad Terfynol](#) llawn Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ar Abertawe, ond mae dwy elfen benodol y byddwn yn tynnu sylw'r Comisiwn hwn atynt.

Yn gyntaf, mae ward newydd sbon "Y Glannau" wedi'i sefydlu, gan gysylltu hen ddoc y De (Marina) â datblygiad doc Tywysog Cymru (SA1) gan dorri'r cysylltiadau presennol â chymunedau'r Castell, Sandfields, St Thomas, Port Tennant a Pharc Grenfell.

Yn ail, mae ward etholiadol bresennol Llangyfelach yn cael ei rhannu'n ddau yn debyg i'r cynnig hwn gyda ward un aelod Pontlliw a Thircoed; er bod ychwanegu cymuned wledig Felindre o Fawr i ward newydd un aelod Llangyfelach yn ymestyn rhychwant daearyddol y ward newydd gryn dipyn ymhellach i'r Gogledd o'r M4 nag y mae fy nghynnig i yn ei wneud.

Yn eu cynigion drafft cychwynnol, argymhellodd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru hefyd y dylid rhannu ward bresennol Llansamlet ar hyd llinell yr M4. Fodd bynnag, cafodd y cynnig hwn ei hepgor o argymhellion terfynol Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn dilyn sylwadau beirniadol gan y cynghorwyr ar y pryd.



Mae hawl gan y Comisiynwyr benderfynu i ba raddau y gallant, ac y dylent, fynd o ran adlewyrchu yn eu cynigion eu hunain y newidiadau i wardiau Abertawe a fydd wedi digwydd erbyn i'r etholaethau seneddol newydd ddod i rym. Fel cam cyntaf, rwy'n awgrymu bod data'r boblogaeth yn cael ei ystyried a bod rhestr gynhwysfawr o ddewisiadau sy'n cydymffurfio â Rheol 2 ar gyfer adlewyrchu ffiniau'r wardiau newydd yn cael ei llunio gan ysgrifenyddiaeth Comisiwn Ffiniau i Gymru i'w hystyried yn ystod y cam nesaf.

Goblygiadau ar gyfer Castell-nedd a (Dwyrain) Cwm Tawe

Pe bai'r cynnig hwn yn cael ei fabwysiadu, byddai etholaeth Castell-nedd yn cynnwys cymunedau Bôn-y-maen, Gellifedw a Glais o etholaeth bresennol Dwyrain Abertawe; y mae pob un ohonynt yn cysylltu â Sgiwen a'r M4. Byddai'n ennill Clydach, Mawr a wardiau'r M4/Dosbarthiadau Pleidleisio o Benrhyn Gŵyr. Byddai'r M4 i raddau helaeth yn ffurfio ffin ddeheuol amlwg gyda Gorllewin Abertawe a Gŵyr a'r sedd Ganolog wedi'u cywasgu'n fwy erbyn hyn. Bydd y draffordd hefyd yn hwyluso cyfathrebu cyflym i Aelod Senedd Castell-nedd a Chwm Tawe gyda'r etholwyr yn y gorllewin. Byddai cynnwys Clydach ynghyd â Bôn-y-maen, Gellifedw a Glais yn yr un sedd hefyd yn dod â chydlynid i Gwm Tawe, gan osod y cyfan o fewn un sedd. Mae'r trefniadau etholiadol presennol yn darnio'r cwm rhwng Castell-nedd, Gŵyr a Dwyrain Abertawe yn dilyn llif yr afon. Byddai'r cynnig hwn yn grwpio'r cymunedau hyn sydd â chysylltiad daearyddol a chymdeithasol gyda'i gilydd. At hynny, byddai Gellifedw a Glais hefyd yn gysylltiedig â Sgiwen gyfagos, gan adlewyrchu cysylltiadau lleol a phatrymau teithio.

I'r graddau y mae'r Gymraeg yn cael ei siarad fel iaith gyntaf (mamiaith) yn awdurdod lleol Abertawe mae'n dueddol o fod yng ngogledd y Ddinas a'r Sir lle bydd rhywun yn gweld cyfraddau sy'n debycach i'r rhai yng Nghastell-nedd. Er nad yw nifer sylweddol o aelwydydd yn ardal Canol Abertawe yn siarad Saesneg fel eu prif iaith, nid oes gwell ganddynt, fel rheol, gyfathrebu yn hytrach yn awtomatig drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gan fod y cynnig hwn yn lleihau etholaeth Castell-nedd a Dwyrain Abertawe (Cwm Tawe) ychydig yn agosach at darged Rheol 2, ni ddylai arwain at wahardd unrhyw addasu arall ar ffiniau gydag Aberafan neu Aberhonddu y gallai'r Comisiynwyr ddymuno eu hystyried yng Ngham 2.

Swansea East and Neath (Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd)



© Crown copyright and database rights [2021] OS [100047875]



Tybiaeth y wardiau cyfan

Mae Comisiynwyr Ffiniau i Gymru yn ffodus o'u cymharu â'u cymheiriaid mewn mannau eraill, gan fod gan y ward ganolrif yng Nghymru etholaeth is nag mewn rhannau eraill o'r DU. Fel arfer, mae wardiau yn cynrychioli cymunedau eang o ddiddordeb ac ar y cyfan, maent yn eithaf adnabyddus ac yn ennyn cefnogaeth leol. Mae ystyriaethau ymarferol hefyd. Byddai rhannu wardiau yn arwain at lawer mwy o gyfle i lunio dewisiadau ar ddechrau arolwg a fyddai'n defnyddio llawer o adnoddau. Felly, nid yw'n syndod bod y Comisiwn, yn eu cynigion cychwynol, wedi dewis ystyried dewisiadau wardiau cyfan yn unig.

Mae'n rhaid cydnabod, fodd bynnag, fod hyn yn arwain at annhegwch posibl yn y dinasoedd mawr, lle mae wardiau etholiadol ar gyfartaledd yn llawer mwy. Mae'r wardiau mwyaf hyd at bymtheg gwaith maint y rhai lleiaf. Yn y rhan fwyaf o Gymru, nid oes angen rhannu wardiau er mwyn i'r Comisiwn gael amrywiaeth eang o ddewisiadau o fewn yr amrywiaeth a ganiateir i'w hystyried yn erbyn meini prawf eilaidd fel cysylltiadau lleol. Gyda throthwy Rheol 2 o 5 y cant, mae wardiau o dros 8,000 yn cynnig heriau penodol. Mae rhannu ward gyda 15,000 o etholwyr yn fusnes gwahanol i rannu un gyda 1,500. Yn hen ardal Abertawe mae'n gosod cyfyngiadau mor ddifrifol fel y mae angen edrych ar unedau llai petai rhywun yn gobeithio gwella ar argymhellion cychwynol drwy roi sylw i ystyriaethau daearyddol penodol.

Er nad yw'n ofyniad cyfreithiol (ac eithrio yng Ngogledd Iwerddon tan 2011), bu'n arfer ers tro gan bedwar Comisiwn Ffiniau'r DU i beidio â rhannu wardiau. Ers 2007 fodd bynnag, mae Comisiwn Ffiniau'r Alban wedi rhannu wardiau'n aml. Yn argymhellion terfynol Arolwg 2018, er gwaethaf eu gwrthwynebiad penodol i wneud hynny, yn y pen draw, rhannodd Comisiwn Ffiniau Lloegr tua dwsin o wardiau.

Mae dosbarthiadau pleidleisio yn cael eu creu gan awdurdodau etholiadol lleol i helpu i weinyddu etholiadau mewn wardiau sy'n rhy fawr i'w gwasanaethu gan un man pleidleisio. Gan nad ydynt yn adrannau etholiadol eu hunain, mae'r broses o'u pennu ar lefel awdurdod lleol yn dueddol o fod yn gydsyniol ac yn gymharol amhartïol, ac mae wedi'i seilio'n bennaf ar yr adeiladau sydd ar gael sy'n addas i'w defnyddio fel Gorsafoedd Pleidleisio. Eu mantais fawr dros godau post neu ardaloedd allbwn y cyfrifiad yw bod y data angenrheidiol ar gyfer yr etholaeth eisoes wedi'i gynnwys yn yr un gofrestr ar gyfer y Dyddiad Dethol â'r hyn sydd wedi'i ddefnyddio gan y Comisiwn.

Cyflwynaf dri chwestiwn a allai llywio'r Comisiynwyr Ffiniau yng Nghymru wrth ystyried y rhaniadau ward arfaethedig. Y cyntaf, yw dewis arall sydd ar gael nad yw'n rhannu wardiau ac sydd yr un mor foddhaol? Os mai Ydyw yw'r ateb, yna mae'n bosibl y gellir gwrthod rhannu'r ward. Yn ail, a yw'r cynnig yn lleihau rhannu wardiau neu'n ei wneud ar raddfa eang? Yn gyffredinol, mae rhannu wardiau ar raddfa eang yn annymunol. Yn drydydd, a oes gan y ward sy'n cael ei rannu unrhyw linellau clir y gellir eu rhannu ar eu hyd? Os mai Nac oes yw'r ateb, ac mae rhannu wardiau yn dal i fod yn angenrheidiol er gwell, dylid ystyried rhannu ward gwahanol.

Mae'r unig ddewisiadau eraill ar gyfer ward cyfan y gallaf eu gweld a fyddai'n cynnwys craidd canol y ddinas mewn modd a all gael ei ddarparu o fewn Rheol 2 yn cynnwys cyfnewid tair neu bedair ffordd gyda'r ddwy etholaeth gyfagos ac mewn un model, Sir Frycheiniog a Sir Faesyfed hefyd. Mae pob un o'r rhain yn codi eu cymhlethdodau eu hunain.

Mae'r cynnig yr wyf wedi'i amlinellu yn hollti dwy ward sy'n croesi traffordd yr M4. Pa gysylltiadau lleol bynnag a oedd gan y ddwy ochr 50 mlynedd yn ôl, cawsant eu chwalu bell yn ôl i raddau helaeth gan y rhwystr y mae traffordd yn ei greu. Mae tai yn nosbarth etholiadol sengl Bôn-y-maen yr wyf yn cynnig eu hychwanegu ond wedi'u hadeiladu yn ystod y 15 mlynedd diwethaf ochr yn ochr â Stadiwm Liberty, ac maent wedi'u hynysu'n ddaearyddol ac nid oes ganddynt unrhyw gysylltiadau cymunedol â gweddill ward Bôn-y-maen sy'n werth sôn amdanynt. Mae'n cyflawni nod allweddol yn y cynnig sy'n cysylltu St Thomas, Llansamlet a Glandŵr. Felly, rwy'n honni bod y tri rhaniad yn bodloni'r meini prawf sydd wedi'u disgrifio uchod. Dylid ystyried amgylchiadau Canol Abertawe yn rhai eithriadol a chymhellol lle y gellir, am unwaith, gyfiawnhau rhannu ward.

Sylwadau Cyffredinol

Byddai'r cynnig wedi'i amlinellu uchod yn arwain at etholaeth 'Ganolog' fwy cydlynol sy'n cynnwys y rhan fwyaf o nodweddion y Ddinas a chraidd adnabyddadwy Abertawe; gyda ffin glir i'r gogledd, y môr i'r de, afon Tawe a Bryn Cilfái i'r dwyrain. Nid wyf eisiau cynnig newidiadau i'r ffin â sedd Gorllewin Abertawe a Gŵyr, ond byddaf yn gwneud rhai arsylwadau cyffredinol.

Gan ddechrau yn y Gogledd mae'r ffin newydd arfaethedig (ar ôl hepgor Penlle'r-gaer, Tircoed, Pontlliw, Pontarddulais a Mawr) gyda Gorllewin Abertawe a Gŵyr yn dilyn y ffin bresennol ar hyd wardiau Penderi a Chwmbwrla yn y Dwyrain a Cocyd yn y Gorllewin. Mae hyn yn torri strydoedd yng Nghadle ac yn creu ffin od yng Ngendros ar hyd Ffordd Pentregethin. Mae'r cymunedau hyn yn cyd-fynd yn fwy naturiol â'u cymdogion i'r Dwyrain, ond gallai eu cynnwys heb derfyniad cydbwysu dorri terfyn 77602 Rheol 2 ar y boblogaeth. Gallai ffin Townhill â Chocyd elwa ar gael ei haddasu o amgylch Gars Avenue i ystyried y datblygiad tai newydd.

Mae ffin Townhill a'r Uplands wedi'i diffinio'n eithaf clir gan y topograffi a gan natur y stoc dai wrth i rywun symud o'r Lonau Edwardaidd deiliog tuag at y brics coch trefol o'r cyfnod rhwng y ddau ryfel byd. Mae gan rannau'r Uplands i'r gogledd o Ffordd Gŵyr/ Ffordd Walter y tu ôl i Barc Cwmdoncyn lawer iawn yn gyffredin â'u cymdogion yn y Sgeti ac wedi gwrthsefyll y mewnlifiad o fyfyrwyr sydd wedi digwydd i'r de a ledled Brynmill. Byddai cyfnewid dosbarth etholiadol WV yng ngogledd yr Uplands ar gyfer WN yn ne'r Sgeti yn uno campws y Brifysgol â'r ardal y mae ei myfyrwyr wedi'i choloneiddio i bob pwrpas a gyda gwahaniaeth o ychydig dros 200, nid yw'n effeithio ar uchafswm 77602 Rheol 2.



Mae'r unig [wrthgynnig](#) arall yr wyf yn ymwybodol ohono yn ceisio cyfnewid yr un wardiau â mi (er, ward Llangyfelach gyfan; ond dim ond Pontlliw a 'phentref' Tircoed sydd gen i i'r gogledd o'r M4) i'r cyfeiriad arall i newid Sgeti a Mayals o Orllewin Abertawe a Gŵyr i sedd Canol a Gogledd Abertawe. Er mai fy mwriad i yw helpu i greu etholaeth drefol gywasgedig wedi'i chanoli'n gadarn ar lan orllewinol y Tawe, mae'n ymddangos mai'r cymhelliad dros hyn yw ei chyfeirio ymhellach i'r gorllewin. Er gwaethaf ei rinweddau, mae'r cynnig hwn yn anwybyddu'r cysylltiadau clir rhwng Llangyfelach a Threforys a Mynydd-bach; er nad oes modd disgrifio un o'r tair ward traffordd yr M4 hyn o ddifrif yn 'wledig' fel y mae. At hynny, mae'n anwybyddu'r ffaith bod ward Mayals yn amlwg yn edrych tuag at y Mwmbwls a Gŵyr. Mae'n rhan o Gyngor Cymuned y Mwmbwls ac mae dalgylch ei ysgol gynradd y tu mewn i ddalgylch Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt (nid Yr Esgob Gore) yn gyfan gwbl.



Casgliad

Mae Rheol 2 yn cynrychioli tir newydd. O ystyried y cyfyngiad rhifol diweddar, y mae Senedd y DU wedi'u gosod ar gwmpas y pedwar Comisiwn Ffiniau, mae'n ddyletswydd ar Gomisiynwyr Cymru i ailystyried y gwahanol gynseiliau eraill sydd wedi llywio eu rhagflaenwyr wrth iddynt weithredu eu dyletswyddau statudol. Ar ôl gosod Rheol 2 ar y llyfr statud, mae'n ymddangos yn weddol glir i mi mai bwriad Senedd y DU hefyd oedd y dylai'r pedwar Comisiwn Ffiniau fod yn rhydd i hollti wardiau, pe baent yn hollol sicr bod amgylchiadau'n gofyn am hynny; a gan ystyried newidiadau i ffiniau wardiau, dylid ei ychwanegu'n benodol at eu cylch gwaith.

Rwyf yn cydymdeimlo â'r cyfyng-gyngor y mae Comisiynwyr Cymru yn ei wynebu wrth benderfynu rhwng cynrychiolaethau anghymarus. Rwyf yn sicr y byddant yn gwneud hyn sydd yn cyflawni eu mandad orau o fewn y gyfraith yn ôl eu tyb nhw. Gobeithiaf y byddant yn myfyrio'n ofalus ar y pwyntiau uchod wrth ystyried eu cynigion eilaidd.

Rwy'n fodlon i'r cyflwyniad uchod gael ei gyfieithu a'i gyhoeddi gan y Comisiwn ac iddo gael ei atgynhyrchu, gyda phriodoliad, yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan unrhyw drydydd parti sydd â diddordeb. Rwyf yn barod, mewn egwyddor, i gefnogi'r cynnig hwn yn bersonol pryd bynnag y bydd y Comisiynwyr yn cyhoeddi dyddiadau ar gyfer gwrandawiadau cyhoeddus.

Er mwyn i hwn fod ar gof, yr wyf yn aelod o'r Blaid Lafur a'r Blaid Gydweithredol, er nad oes gennyf swyddi ar hyn o bryd yn y naill na'r llall ac mae gennyf brofiad sylweddol o gynnal etholiadau yn Abertawe ac mewn mannau eraill.

Yn gywir



Atodiad Un:

Map amlinellol bras wedi'i dynnu â llaw o wrthgynnig.





BCW-9793/ [REDACTED] Plaid Lafur Cwm Cynon /Cwm Cynon

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 01 Tachwedd 2021 09:24

At: Comisiwn Ffiniau i Gymru <bcw@boundaries.cymru>

Pwnc: Ymateb Plaid Lafur Cwm Cynon i'r Adolygiad Ffiniau

Annwyl Syr/Fadam,

Fy enw i yw Matthew a fi yw Ysgrifennydd Plaid Lafur Cwm Cynon. Rwyf wedi atodi ymateb Plaid Lafur Cwm Cynon i Adolygiad y Comisiwn Ffiniau cyn y dyddiad cau ar 3 Tachwedd 2021. Cytunwyd ar yr ymateb hwn gan yr aelodau yng Nghyfarfod yr Holl Aelodau yn ddiweddar.

Yn gywir

[REDACTED]
Ysgrifennydd Plaid Lafur Cwm Cynon

30 Hydref 2021

Comisiwn Ffiniau i Gymru

Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
Caerdydd
CF24 0BL

Annwyl Syr/Fadam,

PARTHED: Newid ffiniau 2023 ar gyfer Cwm Cynon, De Cymru

- 1 Fel Ysgrifennydd Plaid Lafur Cwm Cynon, rwy'n ysgrifennu ar ran ein haelodau mewn ymateb i'r ymgynghoriad cychwynol ynghylch y newid arfaethedig i ffiniau seneddol.
 - 1.1 Ers eich cyhoeddiad ar 8 Medi 2021 rydym wedi cynnal ymchwiliad dwys i effaith y newid ac mae'r aelodau bellach wedi cwrdd i ystyried y canlyniad. Mewn cyfarfod llawn o'r aelodau a gynhaliwyd ar 29 Hydref 2021, y penderfyniad unfrydol oedd eich hysbysu bod ein sefydliad yn gwrthwynebu pob agwedd ar y cynnig cychwynol.
 - 1.2 Nid yn unig y mae'r cynnig cychwynol i dorri Cwm Cynon yn ei hanner, hollti cymunedau agos, creu dad-aliniad â ffiniau Seneddol lleol a phresennol Cymru ac amharu ar ddemocratiaeth ar sail "ffigurau" yn annheg o'i gymharu â newidiadau etholaethol eraill, ond mae hefyd yn rhoi'r argraff i drigolion y dyffryn hwn mai dim ond "rhifau mewn blwch" ydyn nhw. Cytunwn yn gryf mai dim ond un cyfeiriad sydd ar gyfer unrhyw ffin ac mae hynny o'r gogledd i'r de sydd wedi'i sefydlu droeon.
 - 1.3 Er bod ychydig o le i rai rhannau yn ne'r cwm gael eu cynnwys yn etholaeth Pontypridd, byddai symud unrhyw wardiau i'r gogledd o Ynysybwl yn golygu na fyddai ganddynt y seilwaith gwasanaethau sy'n ofynnol gan fwyafrif y trigolion i gael mynediad derbynol i Aelod Seneddol. Byddai Aberpennar ac Aberaman a wardiau cyfagos eraill yn cael eu hynysu ac yn debygol o gael eu hamddifadu o unrhyw fuddsoddiad ariannol buddiol. Mae gwahanu Cwmbach o Aberaman yn gwbl anymarferol gan fod cysylltiad agos rhwng wardiau a chymunedau cyfagos o'r crud i'r bedd.
 - 1.4 Yn yr un modd, bydd symud Aberdâr a gogledd y cwm i etholaeth Aberdâr a Merthyr yn arwain at yr un canlyniadau niweidiol â'r cynnig ar gyfer y de. Yn y pen draw, bydd datblygiad yr A465 yn gwneud Merthyr yn fwy hygyrch mewn car ond ni fu ystyriaeth o'r gwasanaeth rheilffordd nad yw'n bodoli a'r seilwaith bysiau cyfyngedig.

- 2 Hoffem ddiolch i'r comisiwn am eu hymdrech i ymgymryd â'r cynigion hyn gan ein bod yn cydnabod bod hon yn dasg anodd. Rydym yn dadlau ei fod y tu allan i'r cylch disgwyliadau a osodir ar y comisiwn i ddatblygu a meddu ar wybodaeth helaeth am gymhlethdodau pob etholaeth. Yn hyn o beth, mae llwyddiant unrhyw gynrig yn dibynnu ar gydweithio a deialog agored gydag etholaethau a'r cyhoedd yn ehangach.
- 2.1 Fel etholaeth, ar ôl clywed llawer o dystiolaeth a thrafodaethau, rydym wedi dod i'r casgliad y bydd y cynigion cychwynnol yn arwain at ganlyniad annerbyniol i bobl Cwm Cynon. At hynny, credwn y gallai'r comisiwn fod wedi tanbriso'r materion hynny sy'n ymwneud ag ystyriaethau statudol ac arbennig o ffurfio ffiniau etholaethau. Rydym yn croesawu'r cyfle i rannu'r pryderon hyn â chi fel a ganlyn.
- 2.2 Nodwn ar t.88 o'r cynigion cychwynnol, o dan gynigion newydd y Rhondda, fod y Comisiwn yn datgan:
"Mae cysylltiadau trafndiaeth da... sy'n dilyn y dyffryn o'r gogledd i'r de, ac sy'n cadw uniondeb a hunaniaeth y cwm".
 Credwn yn gryf mai'r ffordd orau o wasanaethu pobl Cwm Cynon fyddai drwy ailadrodd y dull hwn. Fel gyda'r Rhondda, mae seilwaith a rhwydwaith trafndiaeth Cwm Cynon yn ogystal â'r afon yn rhedeg o'r gogledd i'r de. Mae arwyddocâd yr ystyriaethau daearyddol i'w weld yn y seilwaith presennol. Ceir tir mynyddig ar ddwy ochr yr A4059 a'r rhwydwaith rheilffyrdd sy'n rhedeg drwy ganol y cwm o gyfeiriad y gogledd i'r de. Mae'r seilwaith trafndiaeth fel rhydveli wrth gysylltu'r teulu o aneddiadau ledled y cwm. Mae hygyrchedd y cwm wedi'i bennu gan ei natur ddaearyddol.
- 3 Yn anffodus, mae'r cynigion cychwynnol yn codi rhwystr gweinyddol, gwleidyddol, anghyfleus a dryslyd drwy ganol Cwm Cynon. Bydd canlyniad rhannu Cwm Cynon, gan gynnwys y dref fwyaf poblog yn RhCT a'i roi o fewn ffiniau awdurdodau lleol eraill yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyhoedd a chynrychiolwyr etholedig deithio draw i etholaeth y Rhondda ar gyfer materion llywodraeth leol ac o ganlyniad teithio i Ferthyr Tudful ar gyfer materion seneddol.
- 3.1 Y ffiniau llywodraeth leol ar gyfer Cwm Cynon yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Er mwyn parchu uniondeb Cwm Rhondda a sicrhau bod yr etholaeth arfaethedig yn parchu ffiniau CBS RhCT, nodir bod etholaeth arfaethedig y Rhondda yn symud o'r gogledd i'r de. Felly rydym wedi ystyried mai'r ffordd orau o wasanaethu pobl Cwm Cynon fydd drwy ailadrodd y dull hwn.
- 4 Creodd hanes a chau'r diwydiant cloddio glo yng Nghwm Cynon gymunedau ynysig a blymiodd i amddifadedd dwfn. Mae'r cymunedau hyn bellach yn wynebu ynysu pellach, tarfu ar y teulu, colli gwasanaethau yn ogystal â'r rhai sy'n wynebu caledi tebyg gan effeithio'n negyddol ar yr ysbryd cymunedol y mae Cwm Cynon yn ymfalchio ynddo.

- 4.1 Mae'r cynigion yn awgrymu gwahanu canol a rhan isaf Cwm Cynon o'r gogledd ac uno â Phontypridd. Fodd bynnag, mae anghenion etholwyr yr etholaethau sy'n uno yn wahanol.
- 4.2 Canfu Mynegai Amddifadedd Lluosog diweddaraf Cymru (2019) fod dros 51% o'r ACEHI yng Nghwm Cynon ymysg yr 20% uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru o'i gymharu â 22% o'r ACEHI yn Etholaethau presennol Pontypridd sydd yn yr 20% uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
- 4.3 Mae cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf hyd at 2021 yn tynnu sylw at y gwahaniaethau rhwng Cwm Taf a Chwm Cynon a'r angen am ddull strategol gwahanol i sicrhau bod unigolion y cymoedd yn cael cyfle cyfartal i gyflawni eu potensial.
- 4.4 Mae'r adroddiad yn dangos sut y mae'r crynodiad uchaf o amddifadedd yn ogystal ag amddifadedd iechyd yn Rhondda Cynon Taf wedi'i leoli yn y cymoedd canolog a gogleddol (Cynon), a bod y cymoedd canolog a gogleddol yn profi lefel uchel o amddifadedd, esgeulustod a lefelau is o weithgarwch economaidd.
- 4.5 Mae gan dde'r awdurdod lleol, i'r de o Ynysybwl i lawr i Bontypridd a'r ardaloedd cyfagos weithgarwch economaidd uwch na'r cyfartaledd, lefelau is o amddifadedd a phoblogaeth sy'n cynyddu.
- 4.6 Felly, rydym yn pryderu bod rhoi dwy o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig o Gwm Cynon a Merthyr o fewn ffin seneddol Aberdâr a Merthyr yn haeddu ystyriaeth bellach, yn enwedig o ran llwyth gwaith yr AS a ddewisir.
- 4.7 At hynny, cyfradd farwolaethau o bob achos ar gyfer Cwm Cynon yw 1,381-1,248 fesul 100,000 o drigolion sy'n cymharu'n anffafriol â chyfartaledd Cymru o 1037 mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf hanesyddol a 972 ledled Cymru. Mae cymunedau glofaol Cwm Cynon yn wynebu pwysau iechyd ychwanegol oherwydd eu gorffennol diwydiannol nad ydynt yn bodoli mewn cymunedau nad ydynt yn rhai glofaol.
- 4.8 Mae Cwm Cynon yn ardal o gysylltiadau cymunedol unigryw. Mae cydblethiad y teulu o aneddiadau drwy'r cwm yn rhan o hanes, diwylliant ac economi'r cwm. Mae'r comisiwn wedi nodi yn y cynigion y bydd yn osgoi rhannu cymunedau sy'n bodoli eisoes wrth ddatblygu ei argymhellion. Yn anffodus, mae'r cynigion ar hyn o bryd yn rhannu Cwm Cynon. Er nad yw hyn yn fwriadol, mae'r bwriad ar hyn o bryd i rannu cymunedau yn ymddangos yn eithaf annheg o ystyried y dewisiadau amgen sydd ar gael sy'n cynnal Cwm Cynon.
- 4.9 Yr hyn yr ydym yn tynnu sylw ato yw gwahanol anghenion y ddwy etholaeth a'r dull arbenigol sydd ei angen ar Gwm Cynon. Mae angen dull un pwyslais ar Gwm Cynon i ddatrys problemau tlodi yn sgil caledi hanesyddol yn ogystal â chynnal yr ymdeimlad cryf o falchder cymunedol y mae Cwm Cynon, er gwaethaf ei heriau, yn meddu arno.
- 5 I gloi, er ein bod yn datblygu cynigion i gadw'r rhan fwyaf o Gwm Cynon gyda'i gilydd, rydym yn gwrthwynebu'n gryf y cynnig cychwynol fel y'i

cyhoeddwyd ar 8 Medi 2021 ac yn galw ar y Comisiwn Ffiniau i weithio gyda'n sefydliad a thrigolion Cwm Cynon i gadw'r ffin ddi-dor bresennol.



Plaid Lafur Cwm Cynon

Gweler **Atodiad Un** isod - **Tystiolaeth a Gymerwyd**

Atodiad Un – Tystiolaeth a Gymerwyd

Aberpennar

- * Mae trigolion yn gwrthwynebu'r newidiadau cychwynnol ac yn dymuno cadw'r sefyllfa bresennol ac maent yn bendant nad ydynt eisiau mynd i etholaeth Pontypridd
- * Mae'r diwylliant a'r digwyddiadau chwaraeon yn Aberpennar yn wahanol i'r rhai ym Mhontypridd a Merthyr ac maent yn rhan bwysig o'r cwm cyfan felly bydd unrhyw newidiadau yn effeithio ar aelodaeth o nifer o sefydliadau
- * Os bydd Aberpennar yn mynd yn atodiad i Bontypridd, fel y bydd, yna canfyddir y bydd cyllid yn mynd yn fwy cyfyngedig nag y mae ar hyn o bryd
- * Bydd amharu ar deyrngarwch cymunedol a bydd yn mynd yn ddryslyd os nad oes gan Gwm Cynon ei AS ei hun

Aberaman

- * Mae gwrthdaro mawr rhwng codau post CF44 a CF45 yn y ddwy ward llywodraeth leol bresennol, a bydd unrhyw darfu pellach ar ffiniau yn gwaethygu'r dryswch
- * Mae trigolion yn defnyddio'r gwasanaethau yn Aberdâr
- * Mae seilwaith trafniadaeth yn wan p'un a yw'n mynd i Bontypridd neu Ferthyr Tudful ac mae'r cynnydd mewn costau teithio y tu hwnt i gyllideb mwyafrif yr aelwydydd
- * Mae trigolion, yn enwedig y rhai sy'n byw yn rhannau uchaf y cwm, yn pryderu ynglŷn â'r gallu i fynd at AS naill ai ym Mhontypridd neu ym Merthyr Tudful
- * Mae gan Gwm Cynon ddiwylliant penodol, a bydd amharu arno
- * Mae trigolion yn pryderu y bydd effaith ar fewnfuddsoddiad i'r ardal ac y bydd mwy o fusnesau yn cau yn nhref Aberdâr gan y gallai mwy gau a symud i Bontypridd
- * Mae canfyddiad y bydd y strwythur ward newydd yn mynd yn fwy ynysig nag ydyw yn awr
- * Mae trigolion wedi gofyn a wnaed unrhyw asesiadau risg cyn cyhoeddi'r cynigion cychwynnol
- * Mae'r ward hon yn dymuno aros fel Cwm Cynon o'r gogledd i'r de ond os nad dyma'r sefyllfa bresennol yna mae'n rhaid i Aberaman aros gydag Aberdâr
- * Gyda'r amddifadedd parhaus a'r cysylltedd gwael mae galw cynyddol am y gallu hanfodol i fynd at AS lleol
- * Mae pryderon mawr y bydd y gallu i gael gafael ar ofal gan feddygon teulu a gofal sylfaenol sydd eisoes yn cael ei danariannu yn dirywio hyd yn oed yn fwy

Aberdâr

- * Mae'r pandemig wedi dangos pa mor agos yw'r cymunedau ac mae unrhyw newidiadau sy'n dileu'r enw "Cynon" yn gwbl annerbyniol
- * Mae RhCT yn rhan o wasanaethau canolog y cwm a thrwy gael gwared ar yr AS yn rhan o'r strwythur hwnnw bydd yn effeithio ar gydlyniant a chysylltedd ar draws pob grŵp oedran
- * Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o drigolion ddibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus a gyda dim ond bysiau'n rhedeg i Ferthyr Tudful nid yw'r gost o orfod dal dau neu fwy (e.e. Cwmbach i Aberdâr yna Aberdâr i Ferthyr Tudful) yn hyfyw yn ariannol
- * Mae natur ddaearyddol y cwm o'r gogledd i'r de ac nid oes unrhyw aliniad â Phontypridd na Merthyr Tydfil
- * Bydd y dryswch a gaiff ei greu ar gyfer swyddogion etholedig a thrigolion ar draws tair gweinyddiaeth yn rhoi cymaint o straen ar fywydau preswylwyr fel bod y cwestiwn yn cael ei ofyn a yw llywodraeth y DU neu hyd yn oed y Comisiwn Ffiniau yn deall bywyd yn y cymoedd neu'n poeni am bobl a'u teuluoedd
- * Byddai gan y swyddogion etholedig lleol amserlen bron yn amhosibl wrth ymdrin â gwahanol ffiniau ac eto mae'r cynnig cychwynnol yn hurt
- * Bydd dryswch hefyd gan y bydd cartrefi mewn rhai wardiau yn yr un stryd mewn gwahanol etholaethau

Penywaun

- * Mae Penywaun yn ardal o amddifadedd uchel, perchnogaeth car isel a lefel uchel o hawliadau am brydau ysgol am ddim
- * Bydd preswylwyr yn cael eu hynysu os collir cefnogaeth AS hawdd ei gyrraedd
- * Nid yw canran fawr yn gallu fforddio mynediad addas i'r rhyngwyd / offer TG i ganiatáu cyfarfodydd o bell
- * Mae teithio i Ferthyr yn ofnadwy a bydd yn parhau oherwydd yr amharu mawr a achosir gan ddatblygiad yr A465 na ddisgwylir ei gwblhau erbyn 2023
- * Bydd Aberdâr fel canol tref yn colli ei hymreolaeth ac yn dod yn atodiad i Ferthyr gan effeithio ar gyllid a datblygiad i'w thrigolion
- * Ni fydd trigolion yn cydweddu â Merthyr gan fod rhwystr diwylliannol rhwng y ddwy dref ac ni fydd y diwylliant hwn sydd wedi'i wreiddio'n hanesyddol yn newid
- * Cyngor sy'n cynnwys RhCT, AS sy'n cynrychioli Cwm Cynon sy'n cynnwys Aberdâr ond bydd Aberdâr yn cael ei rannu i Ferthyr
- * A wnaiff y Comisiwn Ffiniau egluro sut y bydd hyn yn cael ei esbonio yn glir i drigolion? Bydd y cynnig cychwynnol hwn yn sicr yn achosi dryswch heb unrhyw reswm dilys na synhwyrol dros wneud hynny pan fo trigolion eisoes dan lawer o bwysau
- * Bydd hanes Cwm Cynon yn cael ei golli am byth, cymuned gyfan yn cael ei dileu a chenedlaethau o deuluoedd yn cael eu hanghofio

BCW-9794/ [REDACTED] / Casnewydd



Comisiwn Ffiniau i
Gymru Ty Hastings
Llys
Fitzalan
Caerdydd
CF24 OBL

30 Hydref 2021

Annwyl

Syr/Madam

Pa: Comisiwn Ffiniau (Cymru) - Cynnig Cychwynnol a Gwrth-gynnig Gorllewin Casnewydd

Diolch am eich cynigion cychwynnol. Hyderaf y gall y sylwadau canlynol gael eu hystyried yn y ddau ymgynghoriad arfaethedig pellach.

Yng Nghasnewydd, mae'n ymddangos bod y ffordd y gwnaeth y Comisiwn ymgymryd a'i dasg yn groes i'r meini prawf statudol dynodedig. Er enghraifft, lle'r wyfi'n byw mewn ardal drefol boblog ar gornel Stow Hill a Chaerau Crescent (heel ochr, fach yw'r ail), mae'r ffin newydd arfaethedig rhwng Dwyrain Casnewydd a'r etholaeth newydd yn golygu y bydd cymdogion ar un ochr i'r cilgant mewn etholaeth Seneddol wahanol i'r llall. Mae'r mater yma yr un mer berthnasol, e.e., i Harlequin Drive a Heel Caerdydd, ac i raddau llai, mae gwaredu ward Shaftesbury i Ddwyrain Casnewydd hefyd yn creu'r sefyllfa hon.

Nid oes cyswllt hanesyddol na pherthnasedd rhwng Casnewydd a Chaerffili. Maent yn gymunedau gwahanol iawn. A ellid rhoi ystyriaeth i wardiau Islwyn gael eu rhannurhwng Caerffili a Gorllewin Casnewydd? Byddai'n sicr yn gwneud hynny o ran cysylltiadau lleol, daearyddiaeth, hanes a hunaniaeth, gan fed cyswllt llawer cryfach rhwng etholwyr yn y ddwy etholaeth nag yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn Ffiniau. Byddai'r cynnig hwn yn bodloni meini prawf y Comisiwn ynghylch maint etholaethau. Ystyriaeth bellach yw bod cymunedau ar hyd ochr a gerllaw Cwm Rhymni wedi tueddu i edrych tuag at Gaerdydd, lie mae'r cymunedau i'r dwyrain o Ddyffryn Sirhywi i mewn i Went wedi edrych, ac yn dal i edrych, tua Chasnewydd.

Oran meini prawf y Comisiwn ei hun, rwy'n siwr y byddai'r cynnig uchod yn arwainat ganlyniad llawer mwy derbyniol yn ogystal a chryfhau'r berthynas rhwng dinasyddion a chynrychiolaeth etholedig yn San Steffan.

Yn olaf, un pwynt hanfodol ynghylch y broses. Rwyf wedi ceisio siarad gyda

sawl dwsin o gymdogion ynglyn a'r cynigion cychwynnol yma a'u hannog i ymateb a/neugynnwys eu barn yn yr ymateb hwn. Er cryn dipyn o brofiad o ddatblygu/ymgysylltu

cymunedol, bu hyn yn gryn drafferth am amryw resymau. Pleidleiswyr yn anghyfarwydd â gwaith y Comisiwn. Faint o fanylion sydd ynghlwm wrtho. Diffyg mynediad i offer TG a gallu i ddefnyddio'r 'offer' a gaiff eu darparu. Anhawster ystyried yr effaith ar gynrychiolaeth etholedig i'r dyfodol. Anawsterau sy'n codi yn sgil Covid-19 o ran siarad wyneb yn wyneb neu fynd i gyfarfodydd i wneud hynny. Byddwn yn argymhell ymgymryd â rhyw fath o broses 'Cymuned o Ymholi' i sicrhau bod ystod deg o farn yn cael ei hystyried cyn i benderfyniadau terfynol gael eu gwneud, a byddai llawer yn croesawu dull gweithredol o ymgysylltu â sefydliadau lleol, gan gynnwys ysgolion.

Yn gywir,



BCW-9795/ Nick Thomas- Symonds AS/ Torfaen

Ysgrifennaf fel AS Torfaen i ymateb i'r cynigion cychwynnol ar gyfer newidiadau i etholaeth Seneddol Torfaen.

Cefnogaf y cynigion cychwynnol ar gyfer etholaeth Torfaen. Maen nhw'n golygu bod y ffiniau Seneddol yn cydffinio â ffiniau Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, gan gywiro anghysondeb yn sgil y ffaith bod wardiau Croesyceiliog a Llanyrafon y tu allan i etholaeth Seneddol Torfaen, sy'n aml yn achosi dryswch i breswylwyr sy'n byw yn yr ardaloedd hyn. Nodaf hefyd fod gan wardiau Croesyceiliog a Llanyrafon gysylltiad hanesyddol a lleol cryfach ag etholaeth Torfaen na Threfynwy.

BCW-9796/ [REDACTED] / Caerdydd

Mae'r ffiniau wedi'u llunio mewn ffordd fel fy mod i'n byw yn ngogledd Caerdydd, ond rwyf wedi fy nosbarthu fel De Caerdydd a Phenarth! Mae'n cymryd 40 munud dda i fynd o ble rwy'n byw i Benarth. Mae hyn wedi'i drefnu i geisio diogelu Gogledd Caerdydd i fod yn ardal fwy cefnog a pheidio â chael pobl dlawd ynddi.

O ran lleihau nifer yr etholaethau yng Nghymru, mae hyn yn achos o gipio pŵer i Loegr a'r Torïaid. Mae deddfau'n dal i gael eu cymhwyso ar ein cyfer gan San Steffan, ac mae lleihau nifer y bobl sy'n cynrychioli materion Cymru yno yn annerbyniol. Naill ai ni ddylai San Steffan lywodraethu Cymru o gwbl neu dylem gadw ein holl ASau.

BCW-9797 / [REDACTED] / Y Fenni

Newidiwch enw Sir Fynwy i Gwent Fach, i adlewyrchu'r ffaith ein bod yng Nghymru.

BCW-9798 / [REDACTED] / Dinas Powis

Cefnogaf uchelgais y Comisiwn Ffiniau i leihau nifer yr etholaethau seneddol o 40 i 32 a gwerthfawrogaf yr angen i wneud newidiadau i'r ffiniau. Fodd bynnag, rwyf wedi fy synnu gan y cynigion sy'n awgrymu symud Dinas Powys o Fro Morgannwg i Dde Caerdydd a Phenarth.

I ddechrau, nodaf mai targed y Comisiwn yw i bob sedd seneddol fod rhwng 69,724 a 77,062. Gyda Dinas Powys wedi'i chynnwys ym Mro Morgannwg, nifer yr etholwyr yw 76,814, sydd yn unol â'r targed. Rwyf felly'n ei chael yn anodd deall pam fod y cynigion hyn wedi'u cyflwyno.

Mae Dinas Powys bob amser wedi troi i gyfeiriad y Barri (yn hytrach na Phenarth) o ran cysylltiadau cymunedol a hanes cenedlaethau.

Roedd wastad nifer o ddisgyblion o'r Barri yn yr ysgol gynradd a fynychais i, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint Andras. Roedd hyn am mai Saint Andras oedd ysgol agosaf yr Eglwys yng Nghymru i lawer o drigolion y Barri.

Gallech nodi hefyd bod cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus rhwng y Barri a Dinas Powys yn gryf iawn. Gyda nifer o wasanaethau trên a bws yn cysylltu'r ddwy gymuned. Ond nid oes cyswllt trên uniongyrchol rhwng Dinas Powys a Phenarth. Mae hyn yn golygu bod mwy o bobl yn troi i'r Barri ar gyfer siopa, cymdeithasu a gweithgareddau cymunedol.

Er bod practis meddyg teulu yn Ninas Powys, mae'r gwasanaeth y tu allan i oriau'n cael ei ddarparu yn y Barri. At hynny, mae'r Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty'r Barri yn golygu'n aml nad oes angen teithio i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys yng Nghaerdydd.

Mae nifer o wasanaethau allweddol y cyngor, gan gynnwys casglu sbwriel, materion cynllunio, gwasanaethau cymdeithasol a materion priffyrdd, oll yn canolbwyntio ar y Barri a Gwenfô. Pan gafwyd llifogydd yn Ninas Powys ym mis Rhagfyr 2019, roedd hyn hefyd yn golygu mai o'r Barri a Gwenfô y daeth yr holl wasanaethau cymorth.

Mae llawer o'r sefydliadau cymunedol gwirfoddol yn Ninas Powys yn gysylltiedig â Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg, sydd unwaith eto'n seiliedig yn y Barri.

Mae gan Ddinas Powys dreftadaeth bêl-droed gref, sy'n rhan o gynghrair Bro Morgannwg. Mae timau chwaraeon y Fro, y mae nifer o blant Dinas Powys yn rhan ohonynt, yn seiliedig yn y Barri.

Yn y gorffennol, daeth timau ieuenctid clwb rygbi Dinas Powys i ben, ac ymunodd y chwaraewyr yn naturiol/hanesyddol â'r Barri fel y dewis arall cyntaf.

Mae plant o Ddinas Powys yn mynychu Coleg y Barri i dderbyn eu haddysg ôl-16, oherwydd cysylltiadau trafndiaeth ac agosrwydd.

Mae nifer o gwmnïau mawr yn seiliedig yn y Barri, gan gynnwys Dow Corning, sy'n cyflogi cyfran fawr o drigolion Dinas Powys.

Am y rhesymau niferus hyn credaf mai afresymegol fyddai tynnu Dinas Powys o Fro Morgannwg. Ar ôl byw a gweithio ym Mro Morgannwg am dros 23 mlynedd, y Barri yw cymuned ehangach naturiol Dinas Powys ac nid oes modd anwybyddu'r cysylltiadau hanesyddol.

Llawer o ddiolch.

BCW-9799 / [REDACTED] / Llangollen

Mae pobl Llangollen wedi dioddef llawer o heriau fel tref ar ymyl Sir Ddinbych. Cynhaliwyd llawer o ymgyrchoedd i symud Llangollen i Gyngor Sir Wrecsam. Wrecsam yw'r unig dref y mae gan Llangollen gyswllt trafniadaeth gyhoeddus â hi. Mae llawer o drigolion Llangollen yn gweithio yn Wrecsam, ac yn Wrecsam y mae unrhyw wasanaethau nad ydynt ar gael yn Llangollen. Gwnewch Llangollen a'r Waun yn rhan o Wrecsam.

BCW-9800 / [REDACTED] / Wrecsam

MAE'R SYNIAD Y BYDDAI BRYMBO YN RHAN O ALUN A GLANNAU DYFRDWY YN HURT A CHWBL AFRESYMEGOL, HEB SŌN AM YR OCHR WEINYDDOL. YDY'R RHAI SY'N GWNEUD Y PENDERFYNIADAU HYN YN GWYBOD UNRHYW BETH AM HANES BRYMBO? MAE'N RHAN GYNHENID O DREFTADAETH DDIWYDIANNOL WRECSAM.

BCW-9801 / [REDACTED] / Caerffili

Rwy'n gwrthwynebu i Ffos y Gerddinen, Treharris a'r pentrefi o amgylch gael eu rhoi yn rhan 'estynwlad' ffiniau Merthyr!

Mae dwy ffin y naill ochr a'r llall i ni sy'n debygol o rannu buddion cyffredin ynghylch materion lleol.

Mae ein pentrefi mewn perygl o gael eu hanwybyddu pe byddai angen cymorth arnom ar fater lleol na fyddai efallai'n flaenoriaeth i brif ardal leol Merthyr.

Dylai ffiniau cynrychioliadol fod yn seiliedig ar gymorth ymarferol i'r boblogaeth yn yr ardal ac nid rhyw gyfartaledd damcaniaethol ar sail cyfrifiadau neu ddadansoddiad cyfrifiadurol.

Da chi, cofiwch fod y ffiniau yma'n effeithio ar bobl a'r cymorth allai fod ei angen arnynt.

BCW-9802 / [REDACTED] / Llangollen

Mae Llangollen yn ffitio'n naturiol gyda Wreccsam.

Mae pobl yn teithio i'r cyfeiriad yna ac yn defnyddio cyfleusterau fel yr ysbyty a siopau.

Nid yw bod yn Sir Ddinbych yn gwneud llawer o synnwyr ond mae'n dal i fod yn well na'r etholaeth arfaethedig newydd yma.

Prin iawn yw'r cysylltiadau â chanolbarth a gorllewin Cymru ac mae maint ac amrywioldeb yr ardal arfaethedig yn enfawr.

BCW-9803 / [REDACTED] / Wreccsam

Teimlaf fod gennym fwy yn gyffredin â Wreccsam nag sydd â Sir Drefaldwyn neu Glyndŵr. Gofynnaf i chi edrych eto ar hyn gan ein bod yn gweld mwy o werth mewn bod yn gysylltiedig â phobl sydd gerllaw yn hytrach na gwneud Wreccsam yn llai. Yn sicr, gyda'r ffaith eu bod nhw'n ceisio am statws dinas a dinas diwylliant, mae ei gwneud yn llai yn hytrach na'n fwy am gael effaith negyddol. Mae Wreccsam yn well opsiwn.

BCW-9804 / [REDACTED] / Abertawe

Fel Cynghorydd Cyngor Dinas a Sir Abertawe dros ward Fairwood, sy'n byw yn y Crwys, ac wedi fy magu yng Nghilâ Uchaf, rwyf yn amlwg yn gyfarwydd iawn â daearyddiaeth a chymdeithaseg yr ardal. Mae'r ddau bentref yma ar ymyl dwyreiniol etholaeth bresennol Gŵyr. O dan y cynnig ar gyfer Gorllewin Abertawe a Gŵyr, byddant i bob pwrpas yn aros yn eu hamgylchedd cymdeithasegol presennol.

Mewn perthynas â'r newid etholaethol arfaethedig, bydd y ddau bentref yma yn gweddu'n gyfforddus iawn ynddo.

Wrth deithio i'r dwyrain, bydd y trigolion yn naturiol yn teithio naill ai drwy Gilâ, Dyfnant neu Dregŵyr.

Bydd trigolion y ddau bentref yn defnyddio Cilâ i siopa'n yr archfarchnad leol, a gall trigolion y Crwys, yn benodol, hefyd wneud yr un peth yn Nhregŵyr yn ogystal.

At hynny, bydd trigolion y Crwys neu Gilâ Uchaf, wrth deithio i'r dwyrain i siopa yn Abertawe, neu'i chanolfannau siopa ar gyrion y ddinas, naill ai'n mynd drwy Gilâ, Dyfnant neu Dregŵyr.

Mae'r modd y mae heddlua wedi'i drefnu'n lleol yn cydnabod strwythur cymdeithasegol yr ardal, yn y modd y mae rhingyll Heddlu De Cymru yn gofalu am y Gŵyr, Cilâ a Dyfnant yn ogystal â'r Mwmbwls, Sgeti ac ardal West Cross.

Mae cyfarfodydd lleol Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT) yn cwmpasu ardaloedd y Crwys, Cilâ Uchaf, Cilâ a Dyfnant, am eu bod yn ffurfio ardal gydlynol. At hynny, mae trefniadau presennol Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi'i sefydlu i gwmpasu'r un ardal.

O ganlyniad, yn fy marn i, mae ffiniau newydd Gorllewin Abertawe a Gŵyr yn gwneud synnwyr llwyr i'r cymunedau hyn.

Yr unig newid fyddwn i'n ei wneud fyddai ailenwi'r etholaeth arfaethedig yn Gŵyr a Gorllewin Abertawe, gan ei bod yn cynnwys mwyafrif etholaeth flaenorol Gŵyr a lleiafrif etholaeth Gorllewin Abertawe.

BCW-9805 / [REDACTED] / Dinas Powis

Rwy'n dychryn o wybod bod Dinas Powys yn cael ei gynnwys mewn etholaeth gyda Chaerdydd. Mae Dinas Powys yn rhan o Fro Morgannwg ac nid yw'n addas i gael ei gwasanaethu gan AS dinas. Cymuned wledig ydym sydd â chysylltiadau cryf â'r Barri a'r Bont-faen. Caiff ein buddiannau eu gwasanaethu orau gan AS sy'n ymroi i faterion gwledig.

Ni ddeallaf sut mae disgwyl i AS dinas gynrychioli etholaeth mor amrywiol, os daw pethau i hynny. Nid ydym yn uniaethu â Chaerdydd.

BCW-9806/ [REDACTED] / Pen-y-bont

Nid wyf yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig. Gwnaf y sylwadau hyn gan fod gen i brofiad uniongyrchol o'r cyswllt rhwng trigolion Dinas Powys â swyddfeydd y Barri ym Mro Morgannwg.

Cyfreithiwr ydw i sy'n arbenigo mewn Cyfraith Addysg a Gofal. Mae fy mhraectis yn seiliedig yn Etholaeth Bro Morgannwg. Mae'r holl benderfyniadau'n ymwneud ag Addysg a Gofal Cymdeithasol i bobl sy'n byw yn Ninas Powys yn cael eu gwneud yn y Barri ym Mro Morgannwg. Mae hyn yn cynnwys pob penderfyniad yn ymwneud â Derbyniadau Ysgol, Darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig neu Ofal Cymdeithasol. Gyda'r fath benderfyniadau o bwys yn cael eu gwneud yn y Barri, mae'n dilyn mai â'r Barri ym Mro Morgannwg y mae cysylltiadau agosaf trigolion Dinas Powys.

Mae mynychu cyfarfodydd rheolaidd ar y materion hyn yn hawdd i drigolion sy'n teithio o Ddinas Powys i'r Barri. Mae hwylustod y teithio a'r mynediad yn ystyriaethau pwysig i deuluoedd sydd ag anawsterau'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig a gofal. Yn aml, maen nhw'n deuluoedd sydd ag ymrwymadau gofal anodd sy'n cymryd llawer o amser, gydag aelodau'r teulu sydd â nifer o anabledau. Mae hwylustod mynediad a threfniadau teithio yn bwysig iddynt. Rwyf o'r farn y bydd y newidiadau arfaethedig yn achosi rhwystr i'r hwylustod yma o ran mynediad ac felly nid yw er budd gorau'r gymuned.

Deallaf fod yr etholaeth o'r maint cywir, felly o ystyried y cysylltiadau sydd wedi'u nodi uchod, nid yw gwneud y newidiadau arfaethedig hyn yn ymddangos yn angenrheidiol.

Oddi wrth: Shereen Williams [REDACTED]

Anfonwyd: 01 Tachwedd 2021 15:07

I: [REDACTED]

Pwnc: BCW-9806 - Eglurhad

Annwyl [REDACTED]

Diolch am anfon eich sylwadau am y cynigion ynghylch Etholaethau Seneddol. Yn gyffredinol, bydd y Comisiwn yn anfon ymateb o gydnabyddiaeth i gadarnhau bod sylwadau wedi'u derbyn a byddwn yn prosesu'r sylwadau.

Ysgrifennaf atoch yn uniongyrchol gan fy mod eisiau rhoi eglurhad mai cynigion ar gyfer yr Etholaethau Seneddol yn unig yw'r rhain ac y bydd ffiniau Awdurdodau Lleol yn aros yr un peth.

Ni fydd unrhyw wasanaethau'n ymwneud ag amwynderau lleol, y dreth gyngor, ysbytai, bysiau, gwasanaethau cymdeithasol ac ati yn cael eu heffeithio gan y newidiadau yma. Bydd hyn yn parhau i gael ei reoli a'i gyflawni gan Gyngor Bro Morgannwg.

Shereen

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 01 Tachwedd 2021 16:03

I: Shereen Williams [REDACTED]

Pwnc: RE: BCW-9806 - Eglurhad

Annwyl Shereen

Diolch am eich e-bost a'ch eglurhad. Rwyf yn gwerthfawrogi'r pwyntiau a wnewch y bydd y gwasanaethau'n parhau i gael ei wneud gan yr awdurdod lleol ac na fyddant yn newid.

Y pwynt yr wyf am ei bwysleisio yw y bydd trigolion Dinas Powys a'u Haelod Seneddol yn gweithio ar draws ffiniau i drafod gyda Chyngor y Fro ar faterion Addysg a Gofal, er mai Caerdydd fydd eu prif ffocws. Mae hyn yn ddryslyd i deuluoedd pan fydd ganddynt wahanol ganolfannau gweinyddol ar gyfer gwahanol agweddau ar eu bywyd.

Nodaf fod y Crynodeb o Broses Adolygiad 2023 yn dynodi y caiff ystyriaeth ei rhoi i:

- Ddaearyddiaeth ffisegol
- Hygyrchedd
- Cysylltiadau Lleol
- Anhwylustod a allai godi yn sgil newidiadau i etholaethau

Mae fy mhryderon yn berthnasol i'r ystyriaethau yma.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech chi ychwanegu hyn i'r ymgynghoriad i roi eglurhad o fy mhryderon (h.y. eich e-bost i mi a fy ymateb).

Llawer o ddiolch



BCW-9807/ [REDACTED] / Caerffili

Ymateb i'r Comisiwn Ffiniau - Caerffili

Ysgrifennaf fel un o drigolion Caerffili, cynllunydd tref wedi ymddeol, ac ymgynghorydd cymunedol. Fel myfyriwr cynllunio, roedd fy niddordeb ymchwil mewn economeg ofodol a theori lle canolog. Yn ystod fy ngyrfa, roeddwn yn Gyfarwyddwr Cyngor Defnyddwyr Cymru, yn ymgyrchu i rymuso pobl i sicrhau'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Yn fwy diweddar, rwyf wedi cynnal archwiliadau cymunedol a chynlluniau adfywio i awdurdodau lleol ledled de a de-ddwyrain Cymru. Rwyf bellach yn Ysgrifennydd Canolfan Glowyr Caerffili, sy'n darparu gwasanaethau a gweithgareddau i bobl ymhell y tu hwnt i Fasn Caerffili. Dangosodd y profiadau hyn i mi mor bwysig yw synnwyr pobl o le a hunaniaeth leol i sut maent yn gweithredu a'u llesiant. Yn ymarferol, dangosodd yr angen i gadw pethau'n syml a newid pethau'n unig pan fydd mantais amlwg wedi'i phrofi.

Gallaf ddeall yr angen i gynyddu maint etholaethau ond nid yw'r cynigion i blethu Caerffili rywfodd i mewn i Orllewin Casnewydd yn gwneud synnwyr. Y rhan fwyaf o ddiwrnodau, byddaf yn siarad gyda phobl leol am eu bywydau bob dydd. Mae hyn yn awgrymu wrthyf i fod y rhan fwyaf o bobl yn falch o Gaerffili, bod ganddynt synnwyr cryf o hunaniaeth leol, a phrin y mae ganddynt unrhyw beth i'w wneud â Chasnewydd.

Fel 'lle canolog' mae gan Gaerffili ddalgylch sy'n cynnwys Cwm Aber, Cwm Rhymni (yn arbennig hyd at Fargoed), ac yn draddodiadol mae gan Gaerffili a Choed-duon wasanaethau sy'n ategu'i gilydd – darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol, cyfleusterau siopa, cysylltiadau trafniadaeth da. Mae llawer o bobl leol yn teithio'n rheolaidd i Goed-duon, Ystryd Mynach a Bargoed i weld perthnasau, mynd i siopa neu i'r sinema, neu i gwrdd â ffrindiau, ac mae yno synnwyr cryf o gydlynid rhwng yr aneddiadau hyn a Chaerffili.

Byddai'n gwneud mwy o synnwyr ehangu'r etholaeth drwy gofleidio ei chefnwlad, gan gynnwys Pontllan-fraith a Choed-duon yn hytrach nag ychwanegu cyfran o 'lle canolog' arall ar ffurf Gorllewin Casnewydd. Caf yr argraff mai un opsiwn yn unig sydd wedi'i ystyried pan fyddai opsiynau eraill yn cyd-fynd yn well â'r hyn y byddai pobl Caerffili yn ei hoffi.

Roeddwn yng Nghaerdydd wedi i Gabalfa gael ei darnio ac wedi i Tiger Bay gael ei glirio. Mewn llawer o ffyrdd nid yw'r cymunedau yma erioed wedi gallu ailsefydlu eu hunaniaeth ac mae rhannau o'u treftadaeth gymdeithasol wedi'u colli am byth.

Mae treftadaeth gymdeithasol Canolfan Glowyr Caerffili yn cysylltu'n agos â haelioni'r 10,000 o lowyr a weithiodd yn y 29 pwll ar draws Cwm Rhymni – mae Canolfan Glowyr 'Caerffili a'r Ardal' yn eithriadol o bwysig i'n hymdrechion cymunedol. Mae atgofion pobl a'u synnwyr o hunaniaeth yn helpu i sicrhau bod ein

cymunedau'n gydnerth.

Sefydlwyd Canolfan Glowyr Caerffili i'r Gymuned am fod yr ysbyty lleol am gau heb ymgynghori'n ddigonol â phobl leol ynglŷn â'r hyn roedden nhw eisiau. Rwy'n credu mai'r disgwyliad oedd y byddai'r newidiadau'n mynd rhagddynt yn ddiwrthwynebiad – digwyddom ni glywed mewn pryd. Yn yr un modd, mae'r rhan fwyaf o'r drafodaeth ynglŷn â'n ffiniau seneddol wedi'i chynnal heb yn wybod i aelodau ein cymuned. Ar eu rhan nhw gofynnaf am gyfle i gynnal dadl drylwyr cyn i fomentwm newid gychwyn a chyn i un opsiwn ymwreiddio. Byddwn yn fwy na hapus i drefnu i Ganolfan y Glowyr gynnal hyn.

 Tachwedd 1 2021

BCW-9808/ Cyng George Carroll- Cyngor Bro Morgannwg / Bro Morgannwg**Oddi wrth:** Carroll, George D (Cyngh) [REDACTED]**Afnonwyd:** 01 Tachwedd 2021 10:56**I:** BCW <bcw@boundaries.wales>**Pwnc:** Adolygiad Etholaethau Seneddol 2023

Annwyl Syr neu Fadam

Ysgrifennaf atoch ynglŷn â'r uchod, yn rhinwedd fy swydd fel Arweinydd Grŵp y Ceidwadwyr ar Gyngor Bro Morgannwg. Gweler isod ymateb y Grŵp i'r newidiadau arfaethedig i ffiniau etholaethau seneddol ym Mro Morgannwg.

Fel grŵp, rydym yn gyffredinol gefnogol i gynigion y Comisiwn ar gyfer Bro Morgannwg. Fodd bynnag, mae gennym bryderon difrifol ynglŷn â'r cynnig i dynnu ward Dinas Powys o etholaeth Bro Morgannwg.

Mae gan Ddinas Powys gysylltiadau agosach â'r Barri a Gwenfô nag â Phenarth a de Caerdydd, ac felly mae'r newidiadau arfaethedig yn amhriodol.

Rydym wedi derbyn sylwadau gan drigolion Dinas Powys nad ydynt yn credu bod y cynnig hwn yn adlewyrchu cysylltiadau cymunedol, ac rydym yn rhannu'r pryderon hyn.

O ganlyniad, rydym yn cynnig bod Dinas Powys yn lle hynny yn cael ei chadw yn etholaeth Bro Morgannwg. Fel y byddwch yn ymwybodol, etholaeth Bro Morgannwg yw'r unig un yng Nghymru sydd â nifer yr etholwyr sy'n cyd-fynd â'r cwota arfaethedig. Bydd etholaeth heb ei newid felly o fudd i lywodraethu effeithiol ac yn adlewyrchu cysylltiadau cymunedol yn well.

Diolch am roi o'ch amser i ystyried ein sylwadau.

Cofion gorau,

Cyngh George Carroll

Ar ran Grŵp y Ceidwadwyr ar Gyngor Bro Morgannwg

Y Cynghorydd George Carroll



Comisiwn Ffiniau i Gymru
Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
Caerdydd
CF24 0BL

1 Tachwedd 2021

Annwyl Foneddigion,


Mae'n bleser mawr gennyf amgáu Ymateb Plaid Geidwadol Cymru i Gynigion Cychwynnol y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar gyfer Arolwg 2023 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru.

Edrychwn ymlaen at gymryd rhan yn ail gam yr ymgynghoriad maes o law.

Yr eiddoch yn gywir,

[Redacted]
[Redacted]
Cadeirydd
Plaid Geidwadol Cymru





**Ymateb Plaid Geidwadol Cymru i Gynigion Cychwynnol
y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar gyfer Arolwg 2023 o
Etholaethau Seneddol yng Nghymru**

CYNNWYS

1. Crynodeb Cyffredinol *t2 – 3*
2. Crynodeb o Gynigion y Blaid Geidwadol ar gyfer 32 Etholaeth yng Nghymru *t4 – 5*
3. Cynigion Manwl *t6 – 46*
 - 3.1 Aberafan Porthcawl *t6 – 7*
 - 3.2 Aberconwy *t8 – 9*
 - 3.3 Alun a Glannau Dyfrdwy *t10 – 11*
 - 3.4 Blaenau Gwent a Rhymni *t12*
 - 3.5 Aberhonddu a Maesyfed *t13 – 14*
 - 3.6 Pen-y-bont *t15 – 16*
 - 3.7 Caerfyrddin *t17 – 18*
 - 3.8 Canol Caerdydd *t19*
 - 3.9 Gogledd Caerdydd *t20*
 - 3.10 De Caerdydd a Phenarth *t21*
 - 3.11 Gorllewin Caerdydd *t22*
 - 3.12 Ceredigion Preseli *t23*
 - 3.13 Clwyd *t24*
 - 3.14 Delyn *t25 – 26*
 - 3.15 Dwyfor Meirionydd *t27*
 - 3.16 Islwyn *t28*
 - 3.17 Llanelli *t29*
 - 3.18 Merthyr Tudful ac Aberdâr *t30*
 - 3.19 Canol a De Sir Benfro *t31*
 - 3.20 Sir Fynwy *t32*
 - 3.21 Maldwyn a Glyndŵr *t33 – 34*
 - 3.22 Dwyrain Casnewydd *t35*
 - 3.23 Gorllewin Casnewydd a Chaerffili *t36*
 - 3.24 Pontypridd *t37*
 - 3.25 Rhondda *t38*
 - 3.26 Canol a Gogledd Abertawe *t39*
 - 3.27 Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd *t40*
 - 3.28 Gorllewin Abertawe a Gŵyr *t41*
 - 3.29 Torfaen *t42*
 - 3.30 Bro Morgannwg *t43*
 - 3.31 Wrecsam *t44 – 45*
 - 3.32 Ynys Môn *pt46*

4. Casgliad *t47*

Atodiad A: Cydberthyniad y cynigion amgen o ran awdurdodau lleol yng Nghymru *t48*

Atodiad B: Cyfansoddiad yr etholaethau arfaethedig mewn perthynas ag etholaethau presennol
t49 – 53

Atodiad C: Rhestr fanwl o'r 32 etholaeth a gynigiwn *t54 – 93*

Ymateb Plaid Geidwadol Cymru i Gynigion
Cychwynnol y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar gyfer
Arolwg 2023 o Etholaethau Seneddol yng
Nghymru

Pennod 1: Crynodeb Cyffredinol

- 1.1 Cefnogwn y gostyngiad yn nifer yr etholaethau o 40 i 32.
- 1.2 Nodwn fod etholaeth Ynys Môn wedi'i gwarchod o dan Atodlen 2 Adran 6 Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd). Felly, byddwn yn cefnogi ac yn derbyn yr etholaeth hon fel y mae ar hyn o bryd.
- 1.3 Byddwn yn cyfeirio trwy gydol y ddogfen hon at Reol 5 Atodlen 2 y Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddi yn Neddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd)
- Nodwn fod cynigion y Comisiwn yn cymryd hyn i ystyriaeth ac yn cydymffurfio'n fras, gan gofio'r newidiadau sy'n ofynnol er mwyn gwneud gostyngiad o wyth yn nifer yr etholaethau yng Nghymru.
- Fodd bynnag, byddwn yn cynnig newidiadau sy'n gwella'r sefyllfa ymhellach fyth mewn perthynas â Rheol 5, yn benodol Rheol 5 (1) b, ffiniau llywodraeth leol.
- 1.4 Nodwn fod 38 o'r 40 etholaeth bresennol yng Nghymru â nifer eu hetholwyr sy'n is na'r cwota; mae un etholaeth, Bro Morgannwg, o fewn cwota, ac mae un etholaeth, De Caerdydd a Phenarth, â nifer sy'n uwch na'r cwota. Byddwn yn cadw'r un etholaeth honno sydd o fewn y cwota yn ddigyfnewid yn unol â'r diffiniad ym Mhennod 4.4 y Llyfryn Cynigion Cychwynnol. Mae hyn yn gwella'r sefyllfa o dan Reol 5 (1) c mewn cyferbyniad â chynigion y Comisiwn.
- 1.5 Nodwn a chefnogwn yn llawn y cynnig bod chwe phrif gyngor wedi'u cynnwys yn gyfan gwbl o fewn etholaethau newydd. Ni fyddwn yn newid y sefyllfa hon. Mae hyn yn cydymffurfio â Rheol 5 (1) b.
- 1.6 Nodwn y dywedir yn Llyfryn Cynigion Cychwynnol y Comisiwn, Pennod 4, Adran 5, y byddai 16 o etholaethau presennol wedi'u cynnwys yn gyfan gwbl o fewn etholaethau newydd. Hoffwn nodi bod y llyfryn yn enwi Islwyn fel un o'r etholaethau dan sylw, ond nid yw hyn yn wir. Rydym ninnau hefyd yn cynnig bod 15 etholaeth yn cwrdd â'r maen prawf hwn. Byddem yn cynnwys Pen-y-bont a Bro Morgannwg yn ogystal, ond nid Gogledd Caerdydd na Gorllewin Caerdydd.
- 1.7 Cefnogwn y cynigion yn llawn ar gyfer 11 o'r etholaethau arfaethedig.
- 1.8 Cefnogwn gyfansoddiad tair etholaeth arall ond cynigiwn enwau amgen ar gyfer dwy o'r rhain a dynodiad gwahanol ar gyfer un ohonynt.
- 1.9 Mewn 17 etholaeth, cynigiwn gyfansoddiad gwahanol i'r etholaeth.

- 1.10 Mae ein cynigion yn gwella'r sefyllfa o dan Reol 5 (1) b yn sylweddol. Mae tri awdurdod lleol yn cynnwys un etholaeth yn llai (Caerffili, Rhondda Cynon Taf a Wrecsam) ac mae tair etholaeth yn cynnwys un awdurdod lleol yn llai (Alun a Glannau Dyfrdwy, Gogledd Caerdydd a Merthyr Tudful ac Aberdâr).
- 1.11 Mae ein cynigion hefyd yn gwella'r sefyllfa o dan Reol 5 (1) c wrth i dros 12,000 yn llai o etholwyr newid i etholaeth arall. Maent hefyd yn gwella'r sefyllfa o dan Reol 5 (1) d wrth i ni adfer nifer o gysylltiadau lleol.
- 1.12 Byddwn nawr yn crynhoi ein cynigion, ac yna edrych yn fanylach ar bob etholaeth arfaethedig gan gynnwys pam ein bod yn ei chefnogi neu'n cynnig dewis amgen.

Pennod 2: Crynodeb o Gynigion y Blaid Geidwadol ar gyfer 32 Etholaeth yng Nghymru.

Cynnig y Comisiwn	Nifer yr Etholwyr	Safbwynt y Blaid Geidwadol	Newid Enw	Nifer ddiwygiedig yr Etholwyr
Aberafan Porthcawl	76792	Ad-drefnu fel Aberafan Maesteg	Aberafan Maesteg	77058
Aberconwy	69909	Cefnogi		69909
Alun a Glannau Dyfrdwy	74144	Yr etholaeth bresennol ond ychwanegu'r Fflint a Bagillt		75695
Blaenau Gwent a Rhymni	71079	Cefnogi		71079
Aberhonddu a Maesyfed	72113	Cefnogi		72113
Pen-y-bont	74388	Ad-drefnu fel yr etholaeth bresennol ond ychwanegu pum ward Ogwr		74122
Caerfyrddin	70606	Ychwanegu Llangynnwr		72683
Canol Caerdydd	74486	Hepgor Llanrhymni a Thredelerch, ychwanegu Riverside		69813
Gogledd Caerdydd	71143	Hepgor Ystum Taf a Ffynnon Taf, ychwanegu Llanrhymni		70054
De Caerdydd a Phenarth	70246	Hepgor Dinas Powys, ychwanegu Tredelerch		70394
Gorllewin Caerdydd	73947	Hepgor Riverside, ychwanegu Ystum Taf		70318
Ceredigion Preseli	76269	Cefnogi		76269
Clwyd	76380	Hepgor Llanfair DC	Gorllewin Clwyd	74550
Delyn	76074	Hepgor y Fflint a Bagillt, ychwanegu Llanfair DC, Argoed, Coed Llai, New Brighton, Corwen, Llandrillo	Dwyrain Clwyd	74192
Dwyfor Meirionydd	71962	Cefnogi		71962
Islwyn	70735	Ychwanegu Nelson		74298
Llanelli	71972	Hepgor Llangynnwr		69895
Merthyr Tudful ac Aberdâr	71218	Hepgor Nelson, Cwmbach, ychwanegu Aberaman x2		71054
Canol a De Sir Benfro	74614	Cefnogi		74614
Sir Fynwy	72681	Cefnogi		72681


Maldwyn a Glyndŵr	72363	Hepgor Corwen, Llandrillo, ychwanegu Pant, Johnstown a wardiau Gogledd Ponciau, De Ponciau a Rhos yn ward Ponciau	Maldwyn a De Clwyd	76484
Dwyrain Casnewydd	76159	Cefnogi		76159
Gorllewin Casnewydd a Chaerffili	74394	Cefnogi		74394
Pontypridd	71237	Hepgor Aberaman x2, ychwanegu Ffynnon Taf, Cwmbach		70693

Rhondda	71684	Cefnogi		71684
Canol a Gogledd Abertawe	76199	Newid o etholaeth fwrdeistrefol i etholaeth sirol.		76199
Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd	75641	Cefnogi	Castell-nedd a Dwyrain Abertawe	75641
Gorllewin Abertawe a Gŵyr	75214	Cefnogi	Gŵyr a Gorllewin Abertawe	75214
Torfaen	70591	Cefnogi		70591
Bro Morgannwg	70426	Ychwanegu Dinas Powys		76814
Wrecsam	75596	Hepgor Pant, Johnstown a wardiau Gogledd Ponciau, De Ponciau a Rhos yn ward Ponciau, ychwanegu Brymbo, Mwynglawdd		73636
Ynys Môn	52415	Sedd warchoddedig		52415

Pennod 3: Cynigion Manwl

1. Aberafan Porthcawl

- 1.1 Nid ydym yn cefnogi etholaeth arfaethedig Aberafan Porthcawl.
- 1.2 Cytunwn y dylai'r 13 ward ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn yr etholaeth hon fod yn graidd i etholaeth â wardiau o Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
- 1.3 Fodd bynnag, credwn fod y wardiau Pen-y-bont ar Ogwr a gynigir yn rhai anghywir. Byddem yn parhau i gysylltu wardiau Porthcawl â Phen-y-bont ar Ogwr lle mae ganddynt gysylltiadau llawer gwell na'r hyn sydd ganddynt ag Aberafan a Phort Talbot.
- 1.4 Nodwn fod yr etholaeth arfaethedig yn cynnwys wardiau Cefn Glas, a Llangewydd a Brynhyfryd. Mae'r wardiau hyn yn rhan o dref Pen-y-bont ar Ogwr ac mae cysylltiadau pwysig yn cael eu torri wrth wahanu'r wardiau hyn oddi wrth Ben-y-bont ar Ogwr.
- 1.5 Felly, byddem yn cynnwys 15 ward ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sydd ar hyn o bryd yn rhan o etholaeth bresennol Ogwr. Sef wardiau Betws, Melin Ifan Ddu, Blaengarw, Bryncethin, Bryncoch, Caerau, Llangeinor, Llangynwyd, Dwyrain Maesteg, Gorllewin Maesteg, Nant-y-moel, Bro Ogwr, Pontycymer, Sarn ac Ynysawdre.
- 1.6 Credwn fod hyn yn darparu etholaeth â ffurf well, a nodwn fod cysylltiadau cymunedol da, er enghraifft, rhwng Maesteg a ward Bryn a Chwmafan, a wardiau y Cymer a Chaerau.
- 1.7 Byddai 77,058 o etholwyr yn ein hetholaeth arfaethedig a byddem yn awgrymu'r enw Aberafan Maesteg, ac y byddai'n etholaeth sirol.




YCHWANEGU Betws, Melin Ifan Ddu, Blaengarw, Bryncethin, Bryncoch, Caerau, Llangeinor, Llangynwyd, Dwyrain Maesteg, Gorllewin Maesteg, Nant-y-moel, Bro Ogwr, Pontycymer, Sarn, Ynysawdre.

HEPGOR Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr, Cefn Glas, Corneli, Llangewydd a Brynhyfryd, Newton, Notais, Canol Dwyrain Porthcawl, Canol Gorllewin Porthcawl, y Pîl, Rest Bay


2. Aberconwy

- 2.1 Cefnogwn etholaeth arfaethedig Aberconwy â 69,909 o etholwyr.
- 2.2 Cefnogwn gynnwys holl etholaeth bresennol Aberconwy yn y sedd hon. Mae hyn yn cydymffurfio â Rheol 5 (1) c.
- 2.3 Cefnogwn gynnwys 12 o wardiau Gwynedd sydd yn etholaeth Arfon, sy'n ffurfio Bangor a wardiau i'r dwyrain. Cafodd Bangor ei chynnwys mewn etholaeth Conwy flaenorol ac rydym yn nodi'r cysylltiadau trafnidiaeth cryf ar hyd ffordd yr A55 rhwng Bangor a Chonwy.
- 2.4 Cefnogwn y pedair o wardiau Bwrdeistref Sirol Conwy yn etholaeth bresennol Gorllewin Clwyd sydd wedi'u cynnwys yn y sedd hon.
- 2.5 Nodwn fod cynnwys ward Llandrillo-yn-Rhos yn torri cysylltiadau gan ei bod yn rhan o Gyngor Tref Bae Colwyn ac mae ganddi gysylltiadau â Bae Colwyn.
- 2.6 Fodd bynnag, mae Llandrillo-yn-Rhos yn gymuned ar wahân ac mae'n cysylltu ar hyd yr arfordir â Bae Penrhyn a Chraig-y-Don.
- 2.7 Mae unrhyw ddewis arall yn lle Llandrillo-yn-Rhos yn debygol o fod yn waeth o dan y Rheolau, gan dorri cysylltiadau lleol eraill a chael cysylltiadau gwaeth o bosibl â llywodraeth leol. Credwn mai cynnwys Llandrillo-yn-Rhos o fewn Aberconwy yw'r opsiwn lleiaf gwaethaf.
- 2.8 Pe cynigir unrhyw newid a fyddai'n cadw'r ward gyda Bae Colwyn, byddem yn ei ystyried yn ofalus a phe bai'n gwella'r sefyllfa o dan y Rheolau, mae'n bosibl y gallem fabwysiadu'r newid hwnnw.
- 2.9 Felly, cefnogwn etholaeth arfaethedig Aberconwy.



3. Alun a Glannau Dyfrdwy

- 3.1 Nid ydym yn cefnogi etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy fel y'i cynigir.
- 3.2 Cefnogwn gynnwys holl etholaeth bresennol Alun a Glannau Dyfrdwy yn y sedd. Mae hyn yn gwneud synnwyr llwyr ac yn cydymffurfio â Rheol 5 (1) c.
- 3.3 Fodd bynnag, nid ydym yn cytuno ar y pum ward sydd wedi'u hychwanegu at yr etholaeth bresennol.
- 3.4 Yn benodol, er bod yr holl etholaeth ar hyn o bryd o fewn un awdurdod lleol, sef Sir y Fflint, mae'r cynnig hefyd yn cynnwys dwy o wardiau Sir Wrecsam, sef Brymbo a Mwynglawdd. Mae'r wardiau hyn o dan awdurdod lleol arall ac ni fyddem yn eu cynnwys.
- 3.5 Ni fyddem yn cynnwys wardiau Argoed, Coed Llai a New Brighton yn Sir y Fflint. Mae gan y wardiau hyn gysylltiadau agos â'r Wyddgrug ac mae eu cynnwys mewn etholaeth wahanol i'r Wyddgrug yn torri cysylltiadau lleol yn groes i Reol 5 (1) d.
- 3.6 Yn lle hynny, byddem yn cynnwys pedair ward y Fflint a dwy ward Bagillt yn etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy. Mae'n amlwg bod y wardiau hyn yng Nglannau Dyfrdwy, maent yn cysylltu'n dda â gweddill yr etholaeth, ac mae ganddynt gysylltiadau arbennig o agos â Chei Conna oherwydd ffordd yr A548.
- 3.7 Felly, byddem yn cynnig etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy sy'n cynnwys 33 ward sydd oll o fewn Sir y Fflint. Mae hyn yn cydymffurfio'n well â Rheol 5 (1) b na'r cynigion presennol.
- 3.8 Byddai 75,695 o etholwyr yn ein hetholaeth sirol arfaethedig Alun a Glannau Dyfrdwy.




YCHWANEGU Dwyrain Bagillt, Gorllewin Bagillt, Castell Y Fflint, Coleshill Y Fflint, Oakenholt Y Fflint, Trelawny Y Fflint

HEPGOR Argoed, Brymbo, Coed Llai, Mwynglawdd, New Brighton


4. Blaenau Gwent a Rhymni

- 4.1 Cefnogwn etholaeth sirol arfaethedig Blaenau Gwent a Rhymni â 71,079 o etholwyr.
- 4.2 Cefnogwn gynnwys holl etholaeth bresennol Blaenau Gwent sydd hefyd yn gydffiniol â'r awdurdod lleol. Felly, mae hyn yn cydymffurfio'n well â Rheol 5 (1) b ac c.
- 4.3 Cefnogwn gynnwys pob un o'r pum ward ym Mwrdeistref Sirol Caerffili sydd yn etholaeth Merthyr Tudful a Rhymni ar hyn o bryd.
- 4.4 Hefyd, cefnogwn gynnwys tair ward Aberbargoed ym Mwrdeistref Sirol Caerffili sydd yn etholaeth Islwyn ar hyn o bryd, a Bargoed a Gilfach sydd yn etholaeth Caerffili ar hyn o bryd.
- 4.5 Wrth gynnwys yr holl wardiau mewn yr un etholaeth arfaethedig, rydych yn uno cymuned Bargoed mewn un etholaeth yn hytrach na'i rhannu rhwng dwy etholaeth.
- 4.6 Cefnogwn yr etholaeth arfaethedig hon sydd â chysylltiad da ac sy'n creu etholaeth gydlynus.




5. Aberhonddu a Maesyfed

- 5.1 Cefnogwn etholaeth sirol arfaethedig Aberhonddu a Maesyfed â 72,113 o etholwyr.
- 5.2 Cefnogwn gynnwys holl etholaeth bresennol Brycheiniog a Sir Faesyfed yn yr etholaeth hon. Mae Powys yn cynnwys tair rhan hanesyddol ac mae'n rhesymegol cadw pob un ohonynt yn gyfan a pheidio â rhannu unrhyw un o'r tair rhan. Mae cadw Aberhonddu a Maesyfed yn gyfan yn rhesymegol ac yn cydymffurfio â Rheol 5 (1) c.
- 5.3 Credwn fod y Comisiwn wedi dewis yr union wardiau priodol i'w cynnwys yn Aberhonddu a Maesyfed. Cefnogwn ychwanegu naw o wardiau Castell-nedd Port Talbot sydd oll yn rhan o etholaeth bresennol Castell-nedd.
- 5.4 Mae gan Bontardawe, Ystalyfera a'r wardiau eraill gysylltiadau da ag ardal Ystradgynlais ac maent yn debyg o ran natur a chymeriad. Mae cysylltiadau cyfathrebu da ar hyd ffordd yr A4067.
- 5.5 Etholaeth bresennol Brycheiniog a Sir Faesyfed yw'r fwyaf yng Nghymru a Lloegr, a bydd yr etholaeth arfaethedig yn parhau felly. Wrth gynnwys yr ardal gymharol gryno hon o Fwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, byddwch yn symud i gyfyngu ar ehangu'r etholaeth. Mae'n annhebygol y byddai unrhyw ychwanegiadau eraill yn darparu ardal lai o faint i'w hychwanegu at etholaeth Aberhonddu a Maesyfed.
- 5.6 Nid ydym wedi cynnig enw amgen ar gyfer Aberhonddu a Maesyfed. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod dros 17,000 o etholwyr yn cael eu hychwanegu at yr etholaeth bresennol ac, os oes angen cydnabod yr ardal hon yn yr enw, ni fyddai gennym unrhyw wrthwynebiad.
- 5.7 Felly, cefnogwn etholaeth arfaethedig Aberhonddu a Maesyfed.



6. Pen-y-bont

- 6.1 Nid ydym yn cefnogi etholaeth arfaethedig Pen-y-bont.
- 6.2 Credwn fod y cynigion ar gyfer Pen-y-bont yn aflonyddu llawer gormod ar yr etholaeth seneddol bresennol.
- 6.3 Byddem yn cymryd etholaeth bresennol Pen-y-bont ar Ogwr ac yn ychwanegu ati yn hytrach na rhannu'r sedd yn ddwy, gan ddileu'r etholaeth i bob pwrpas.
- 6.4 Mae llai na 40% o etholaeth bresennol Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i chynnwys yn etholaeth arfaethedig Pen-y-bont. Byddem ni'n cynnwys 100% o'r etholaeth bresennol.
- 6.5 Felly, byddai pob un o'r 63,338 o etholwyr yn yr etholaeth bresennol sy'n cynrychioli 20 ward ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cael eu cynnwys yn ein hetholaeth arfaethedig Pen-y-bont. Mae hyn yn cydymffurfio'n llawer gwell â Rheol 5 (1) c na chynigion y Comisiwn.
- 6.6 Rydym yn adfer y cysylltiadau rhwng Porthcawl a Phen-y-bont ar Ogwr, ac yn benodol yn ailgysylltu Cefn Glas, a Llangewydd a Brynhyfryd, sy'n rhan o Ben-y-bont ar Ogwr, â dwy o wardiau Pen-y-bont ar Ogwr. Felly, rydym yn adfer cysylltiadau lleol yn sylweddol, gan gydymffurfio'n well â Rheol 5 (1) d.
- 6.7 Gwerthfawrogwn fod angen cynyddu nifer yr etholwyr yn etholaeth bresennol Pen-y-bont ar Ogwr, ac felly byddem yn cynnwys y pump o wardiau Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sydd wedi'u cynnwys yn etholaeth Ogwr ar hyn o bryd.
- 6.8 Byddem yn cynnwys wardiau Felindre, Hendre a Phenprysg i'r dwyrain o Ben-y-bont ar Ogwr a wardiau Cefn Cribwr ac Abercynffig i'rogledd o Ben-y-bont ar Ogwr.
- 6.9 Byddai 74,122 o etholwyr yn ein hetholaeth sirol Pen-y-bont. Credwn fod hon yn etholaeth fwy rhesymegol a chydlynus na'r etholaeth Pen-y-bont a gynigir yn y cynigion cychwynnol.




YCHWANEGU Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr, Cefn Glas, Corneli, Llangewydd a Brynhafryd, Newton, Notais, Canol Dwyrain Porthcawl, Canol Gorllewin Porthcawl, y Pîl, Rest Bay

HEPGOR Betws, Melin Ifan Ddu, Blaengarw, Bryncethin, Bryncoch, Caerau, Llangeinor, Llangynwyd, Dwyrain Maesteg, Gorllewin Maesteg, Nant-y-moel, Bro Ogwr, Pontycymer, Sarn, Ynysawdre

7. Caerfyrddin


- 7.1 Cynigiwn un newid bach i etholaeth Caerfyrddin. Byddem yn ychwanegu ward Llangynnwr yn Sir Gaerfyrddin sydd yn etholaeth bresennol Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr.
- 7.2 Cefnogwn yn llawn y cynnig i rannu awdurdod lleol Sir Gâr yn ddwy etholaeth gyfan. Mae hyn yn cydymffurfio â Rheol 5 (1) b.
- 7.3 Cefnogwn gynnwys pob un o'r 10 ward sydd yn etholaeth bresennol Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro sydd o dan awdurdod lleol Sir Gâr.
- 7.4 Cefnogwn gynnwys pob un o'r 23 ward yn etholaeth bresennol Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, y mae'r Comisiwn yn cynnig eu cynnwys yn etholaeth Caerfyrddin.
- 7.5 At y 33 ward hyn, byddem yn ychwanegu un ward arall, sef Llangynnwr.
- 7.6 Mae gan ward Llangynnwr gysylltiadau â wardiau Abergwili a Llanddarog a fyddai'n cael eu torri o dan gynigion y Comisiwn a'u hadfer o dan ein cynigion ni, gan gydymffurfio'n well â Rheol 5 (1) d.
- 7.7 Mae gan ward Llangynnwr gysylltiad agos â Chaerfyrddin hefyd, ac mae'n gweddu'n well mewn etholaeth sy'n cynnwys y dref. Mae'r ward yn cynnwys nifer o gyfleusterau Caerfyrddin megis yr orsaf reilffordd, prif swyddfa barseli'r post, yr orsaf heddlu, a rhan o'r ganolfan siopa. Yn ogystal, mae'r ward yn ffurfio datblygiad trefol cyffiniol sy'n cysylltu â De Tref Caerfyrddin.
- 7.8 Byddai 72,683 o etholwyr yn ein hetholaeth sirol arfaethedig Caerfyrddin.



YCHWANEGU Llangynnwr

8. Canol Caerdydd

- 8.1 Cynigiwn etholaeth Canol Caerdydd sy'n cynnwys yr etholaeth bresennol ynghyd â ward Riverside.
- 8.2 Cytunwn y dylid cadw etholaeth bresennol Canol Caerdydd ddi-dor. Mae hyn yn cydymffurfio â Rheol 5 (1) c.
- 8.3 Fodd bynnag, nid ydym yn cytuno y dylid ychwanegu Llanrhymni a Thredelerch at yr etholaeth.
- 8.4 Byddem yn ychwanegu un ward yn unig, sef Riverside, at yr etholaeth bresennol.
- 8.5 Mae Riverside yn ward yng nghanol Caerdydd gyda chyfleusterau canolog a chysylltiadau cyfathrebu da â ward Cathays. Er ei bod ar ochr arall yr afon, mae canol Caerdydd yn unedig ar draws yr afon.
- 8.6 Byddai 86.2% o'n hetholaeth arfaethedig yn deillio o'r etholaeth bresennol yn hytrach nag 80.8% yn y cynigion cychwynnol. Mae hyn yn welliant o dan Reol 5 (1) c.
- 8.7 Byddai 69,813 o etholwyr yn ein hetholaeth fwrdeistrefol arfaethedig Canol Caerdydd.




YCHWANEGU Riverside

HEPGOR Llanrhymni, Thredelerch

9. Gogledd Caerdydd

- 9.1 Ni fyddem yn cynnwys wardiau Ffynnon Taf ac Ystum Taf yng Ngogledd Caerdydd. Fodd bynnag, byddem yn cynnwys ward Llanrhymni.
- 9.2 Felly, byddai Gogledd Caerdydd yn cynnwys wardiau sydd o dan awdurdod lleol Caerdydd yn unig, yn wahanol i gynigion y Comisiwn sy'n cynnwys un o wardiau Rhondda Cynon Taf hefyd. Felly, mae ein cynnig yn cydymffurfio'n well â Rheol 5 (1) b.
- 9.3 Rydym yn cynnwys ward Llanrhymni, gan nodi bod ganddi gysylltiadau agos â'r Hen Laneirwg. I gydnabod hynny, mae Argymhellion Terfynol Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, yn eu harolwg o drefniadau etholiadol Dinas a Sir Caerdydd, yn cyfuno ward etholiadol Llanrhymni â chymuned yr Hen Laneirwg.
- 9.4 Er nad y wardiau hyn yw'r wardiau y mae'r arolwg hwn yn seiliedig arnynt, dangosir y cysylltiadau yn glir rhwng yr ardaloedd hyn, a byddai'n gyfleus yn y dyfodol i'r wardiau hyn fod yn eu lle ar gyfer etholiadau lleol 2022.
- 9.5 Derbyniwn fod Ystum Taf yn rhan o'r etholaeth bresennol ac nid ydym yn cynnwys yr etholaeth gyfan yn ein hetholaeth arfaethedig. Fodd bynnag, credwn fod hyn yn cael ei liniaru wrth gynnwys un awdurdod lleol yn unig yn yr etholaeth, a chydabyddir y cysylltiadau agos rhwng Llanrhymni a'r Hen Laneirwg.
- 9.6 Mae 70,054 o etholwyr yn ein hetholaeth fwrdeistrefol arfaethedig Gogledd Caerdydd.




YCHWANEGU Llanrhymni

HEPGOR Ystum Taf, Ffynnon Taf

10. De Caerdydd a Phenarth

- 10.1 Rydym yn cynnig bod yr etholaeth yn cynnwys ward Tredelerch ond nid ward Dinas Powys.
- 10.2 Etholaeth bresennol De Caerdydd a Phenarth yw'r unig etholaeth yng Nghymru â nifer ei hetholwyr sy'n uwch na'r cwota.
- 10.3 Rydym yn derbyn bod yn rhaid lleihau maint yr etholaeth. Felly, gallwch gynnal yr etholaeth wrth hepgor un ward. Wrth hepgor ward Llanrhymni, gallwch ddod â'r etholaeth o fewn y cwota.
- 10.4 O dan ein cynnig, byddai pob etholwr yn yr etholaeth arfaethedig yn dod o'r etholaeth bresennol, ac mae hyn yn cydymffurfio'n well â Rheol 5 (1) c na chynigion y Comisiwn.
- 10.5 Wrth gynnwys Tredelerch, rydych yn sicrhau bod cysylltiad tir rhwng wardiau'r Sblot a Trowbridge. O dan y cynigion, dim ond dŵr ac nid tir sy'n cysylltu'r Sblot a Trowbridge. Felly, maent yn rhannau datgysylltiedig ac mae hyn yn groes i baragraff 3.15 y Canllaw i'r Arolwg 2023 gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru.
- 10.6 Felly, rydym yn cynnig etholaeth fwrdeistrefol De Caerdydd a Phenarth â 70,394 o etholwyr.




YCHWANEGU Tredelerch

HEPGOR Dinas Powys

11. Gorllewin Caerdydd

- 11.1 Rydym yn cynnig etholaeth Gorllewin Caerdydd sy'n hepgor ward Riverside ac yn cynnwys ward Ystum Taf.
- 11.2 Byddem yn cynnwys ward Ystum Taf yn yr etholaeth hon. Derbyniwn nad yw wedi'i chynnwys ar hyn o bryd yng Ngorllewin Caerdydd, ond mae ward Llandaf wedi'i chynnwys. Mae'n amlwg fod cysylltiadau cryf rhwng Llandaf ac Ystum Taf er eu bod ar y naill ochr a'r llall i'r afon, felly byddem yn uno dwy ward Llandaf.
- 11.3 Credwn ei bod yn briodol cynnwys ward Pont-y-clun sydd yn Rhondda Cynon Taf gan fod cysylltiadau trafnidiaeth da ar yr M4 a Ffordd Llantrisant i mewn i Orllewin Caerdydd, ac yn arbennig, ward Creigiau/Sain Ffagan.
- 11.4 Derbyniwn nad ydym yn cynnwys yr etholaeth gyfan, ond credwn fod ein datrysiad cyffredinol yn darparu patrwm gwell o etholaethau yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg a Rhondda Cynon Taf.
- 11.5 Cynigiwn etholaeth fwrdeistrefol Gorllewin Caerdydd â 70,318 o etholwyr.




YCHWANEGU Ystum Taf

HEPGOR Riverside


12. Ceredigion Preseli

- 12.1 Cefnogwn etholaeth arfaethedig Ceredigion Preseli.
- 12.2 Nodwn, o'u cymryd gyda'i gilydd, fod gan awdurdodau lleol Ceredigion a Sir Benfro hawl i ddwy etholaeth, ac mae'n gwneud synnwyr rhesymegol i gyfuno'r ddau awdurdod hyn gan gydymffurfio â Rheol 5 (1) b.
- 12.3 Cefnogwn yn llawn y cynnig i gynnwys holl etholaeth bresennol Ceredigion sy'n gydffiniol â'r awdurdod lleol yn yr etholaeth arfaethedig hon. Mae hyn yn cydymffurfio â Rheol 5 (1) b ac c.
- 12.4 Yr ardal amlwg i'w hychwanegu at Geredigion yw wardiau gogleddol Sir Benfro. Credwn fod y Comisiwn wedi dewis 14 ward briodol ar hyd arfordir gogledd Sir Benfro. Fe'u cysylltir â'i gilydd yn dda gan ffordd yr A487.
- 12.5 Nid yw'r etholaeth yn cynnwys holl ardal y Preseli, a phe bai unrhyw enw amgen yn cael ei awgrymu a'i fod yn fwy derbyniol, ni fyddai gennym unrhyw wrthwynebiad.
- 12.6 Felly, cefnogwn gyfansoddiad etholaeth sirol arfaethedig Ceredigion Preseli â 76,269 o etholwyr.




13. Clwyd

- 13.1 Cefnogwn gyfansoddiad arfaethedig yr etholaeth, ond gan hepgor ward Llanfair Dyffryn. Byddem yn cynnig yr enw presennol, sef Gorllewin Clwyd.
- 13.2 Cefnogwn gynnwys 13 ward sydd ym Mwrdeistref Sirol Conwy ac o fewn etholaeth bresennol Gorllewin Clwyd.
- 13.3 Credwn ei bod yn gwneud synnwyr i ychwanegu at y 13 ward hyn yn Sir Ddinbych sydd ar hyn o bryd yn etholaeth Dyffryn Clwyd. Mae gan y wardiau hyn sydd wedi'u lleoli yn y Rhyl, Dinbych a Llanelwy gysylltiadau da ar hyd yr arfordir ac mae cysylltiadau cyfathrebu da ar hyd ffordd yr A55.
- 13.4 Byddem hefyd yn cynnwys dwy ward yn Sir Ddinbych sydd yng Ngorllewin Clwyd ar hyn o bryd, ond nid Llanfair Dyffryn, a byddwn yn rhoi sylw i hyn yn Adran 14, Delyn.
- 13.5 Felly, cynigiwn etholaeth sirol Gorllewin Clwyd â 74,550 o etholwyr.



14. Delyn

- 14.1 Byddem yn gwneud nifer o newidiadau i etholaeth arfaethedig Delyn.
- 14.2 Byddem yn cynnwys yn yr etholaeth hon wardiau Argoed, Coed Llai a New Brighton yn Sir y Fflint, sydd yn etholaeth bresennol Delyn ond y cynigir eu cynnwys yn etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy.
- 14.3 Mae gan y tair ward hyn gysylltiadau agos â'r Wyddgrug, a gaiff eu torri gan y cynigion a'u hadfer gan ein cynigion ni, felly mae hyn yn cydymffurfio â Rheol 5 (1) d.
- 14.4 Cefnogwn yr holl wardiau yn Sir Ddinbych y cynigir eu cynnwys yn yr etholaeth hon; sef wyth o Ddyffryn Clwyd a thair o Orllewin Clwyd.
- 14.5 Byddem hefyd yn cynnwys tair ward arall yn Sir Ddinbych, sef Llanfair Dyffryn o etholaeth bresennol Gorllewin Clwyd a Chorwen a Llandrillo o etholaeth bresennol De Clwyd. Mae'r tair ward hyn yn cysylltu'n dda â'i gilydd ac mae'r cysylltiadau'n cael eu torri wrth wahanu Rhuthun oddi wrth Lanfair Dyffryn, ac rydym ni'n adfer y cysylltiadau hyn.
- 14.6 Byddem yn hepgor pedair ward y Fflint a dwy ward Bagillt o'r etholaeth arfaethedig. Dyma ddwy dref yng Nglannau Dyfrdwy sydd â chysylltiad da â Chei Conna, ac maent yn ardaloedd mwy gwahanol ac ar wahân na'r tair ward y cynigir eu gwahanu oddi wrth yr Wyddgrug.
- 14.7 Er ein bod yn derbyn y daw cydran fwyaf yr etholaeth hon o etholaeth bresennol Delyn, rydym yn cwestiynu ai dyma'r enw priodol ar gyfer etholaeth sy'n cynnwys Prestatyn a Rhuthun, sy'n ddwy ganolfan bwysig nad ydynt yn etholaeth bresennol Delyn.
- 14.8 Ar ôl pwyso a mesur, mae'n well gennym yr enw Dwyrain Clwyd gan y bu'r etholaeth gyfan o fewn Clwyd yn flaenorol.
- 14.9 Felly, cynigiwn etholaeth sirol Dwyrain Clwyd â 74,192 o etholwyr.




YCHWANEGU Argoed, Corwen, Coed Llai, Llandrillo, Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern, New Brighton

HEPGOR Dwyrain Bagillt, Gorrlewin Bagillt, Castell Y Fflint, Coleshill Y Fflint, Oakenholt Y Fflint, Trelawny Y Fflint


15. Dwyfor Meirionnydd

- 15.1 Cefnogwn etholaeth arfaethedig Dwyfor Meirionnydd.
- 15.2 Cefnogwn gynnwys holl etholaeth bresennol Dwyfor Meirionnydd o fewn yr etholaeth arfaethedig. Mae hyn yn cydymffurfio â Rheol 5 (1) c.
- 15.3 Cefnogwn gynnwys 19 ward o etholaeth bresennol Arfon. Mae'r wardiau hyn, sydd wedi'u lleoli i raddau helaeth yng nghyffiniau Caernarfon, yn cyd-fynd yn naturiol â gweddill Dwyfor Meirionnydd.
- 15.4 Mae'r etholaeth yn gyfan gwbl o dan awdurdod lleol Gwynedd, ac mae hyn yn cydymffurfio â Rheol 5 (1) b.
- 15.5 Felly, cefnogwn etholaeth sirol arfaethedig Dwyfor Meirionnydd â 71,962 o etholwyr.




16. Islwyn

- 16.1 Cefnogwn etholaeth arfaethedig Islwyn ond gan ychwanegu ward Nelson sydd ym Mwrdeistref Sirol Caerffili.
- 16.2 Cefnogwn gynnwys 14 o wardiau Bwrdeistref Sirol Caerffili sydd yn etholaeth Islwyn ar hyn o bryd. Dyma'r etholaeth bresennol ond heb ward Aberbargoed sydd wedi'i hepgor er mwyn uno cymuned Bargoed.
- 16.3 Cefnogwn gynnwys pedair o wardiau Bwrdeistref Sirol Caerffili sydd yn etholaeth Caerffili ar hyn o bryd. Mae'r wardiau hyn yn cysylltu'n dda â wardiau Pengam a Maesycwmmmer sydd yn Islwyn ar hyn o bryd.
- 16.4 Byddem hefyd yn cynnwys pumed ward sydd ym Mwrdeistref Sirol Caerffili ac sydd yn etholaeth Caerffili ar hyn o bryd, sef Nelson.
- 16.5 Mae'r cynigion cychwynnol yn cynnig ward Nelson fel ward amddifad yn etholaeth Merthyr Tudful ac Aberdâr.
- 16.6 Wrth gynnwys y ward yn Islwyn, gellir sicrhau bod Merthyr Tudful a Rhymni yn cynnwys wardiau sydd o dan ddau awdurdod lleol yn hytrach na thri. Mae hefyd yn sicrhau bod Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi'i rhannu rhwng tair etholaeth yn hytrach na phedair. Felly, mae'n welliant amlwg o dan Reol 5 (1) b.
- 16.7 Mae ailgysylltu â phedair ward arall sydd ar hyn o bryd yn yr un etholaeth yn adfer cysylltiadau lleol, yn enwedig rhwng Nelson ac Ystrad Mynach. Felly, mae'n welliant o dan Reol 5 (1) d.
- 16.8 Felly, cynigiwn etholaeth sirol Islwyn â 74,298 o etholwyr.



17. Llanelli


- 17.1 Cefnogwn etholaeth arfaethedig Llanelli ond gan hepgor ward Llangynnwr.
- 17.2 Cefnogwn gynnwys yr holl wardiau yn Sir Gaerfyrddin sy'n rhan o etholaeth Llanelli ar hyn o bryd, mae hyn yn cydymffurfio â Rheol 5 (1) c.
- 17.3 Derbyniwn fod yn rhaid ychwanegu wardiau at yr etholaeth o etholaeth bresennol Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr.
- 17.4 Credwn mai'r wardiau gorau i'w hychwanegu yw Gorslas, Llangyndeyrn a Llanismel. Fodd bynnag, ni fyddem yn cynnwys Llangynnwr oherwydd ei chysylltiadau â Chaerfyrddin.
- 17.5 Byddai cynnwys unrhyw wardiau amgen eraill yn debygol o dorri cysylltiadau lleol.
- 17.6 Felly, cefnogwn etholaeth sirol Llanelli â 69,895 o etholwyr.



HEPGOR Llangynnwr

18. Merthyr Tudful ac Aberdâr

- 18.1 Cefnogwn etholaeth Merthyr Tudful ac Aberdâr ond byddem yn hegor ward Nelson sydd ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, o'r etholaeth hon, a ward Cwmbach sydd ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Byddem yn cynnwys wardiau Gogledd a De Aberaman sydd ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.
- 18.2 Mae'r cynigion cychwynnol ar gyfer yr etholaeth yn cynnwys tri awdurdod lleol. Credwn fod hyn yn ddiangen a byddai ein cynnig yn cynnwys dau yn unig, sy'n cydymffurfio'n well â Rheol 5 (1) b.
- 18.3 Cefnogwn gynnwys holl awdurdod lleol Merthyr Tudful, sy'n cydymffurfio â Rheol 5 (1) b.
- 18.4 Cytunwn ei bod yn synhwyrol i ychwanegu ardal Aberdâr, sydd yn etholaeth bresennol Cwm Cynon ac ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, at yr etholaeth.
- 18.5 Fodd bynnag, byddem yn cynnwys dwy ward Aberaman. Mae gan Aberaman, sydd yng Nghwm Cynon ac ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, gysylltiadau cryf iawn ag Aberdâr. Caiff y cysylltiadau hyn eu torri gan y cynigion a'u hadfer gan ein cynigion ni, gan wella'r sefyllfa o ran Rheol 5 (1) d.
- 18.6 Felly, cynigiwn etholaeth sirol Merthyr Tudful ac Aberdâr â 71,054 o etholwyr.




YCHWANEGU Gogledd Aberaman, De Aberaman

HEPGOR Cwmbach, Nelson


19. Canol a De Sir Benfro

- 19.1 Cefnogwn etholaeth arfaethedig Canol a De Sir Benfro.
- 19.2 Cefnogwn y cysyniad o gyfuno awdurdodau lleol Ceredigion a Sir Penfro a dyrannu dwy etholaeth iddynt.
- 19.3 Felly, mae Canol a De Sir Benfro yn gyfuniad rhesymegol o wardiau sydd yn gyfan gwbl o dan awdurdod lleol Sir Penfro, ac mae hyn yn cydymffurfio â rheol 5 (1) b.
- 19.4 Cefnogwn gynnwys 23 ward sydd yn etholaeth Preseli Penfro ar hyn o bryd, a phob un o'r 23 ward sydd ar hyn o bryd yn etholaeth Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro o fewn Sir Benfro.
- 19.5 Felly, cefnogwn etholaeth sirol Canol a De Sir Benfro â 74,614 o etholwyr.




20. Sir Fynwy

- 20.1 Cefnogwn etholaeth arfaethedig Sir Fynwy.
- 20.2 Mae'r etholaeth arfaethedig yn cydffynio â'r awdurdod lleol ac yn creu etholaeth resymegol iawn sy'n cydymffurfio â Rheol 5 (1) b.
- 20.3 Mae'r etholaeth yn cynnwys yr holl wardiau sydd yn etholaeth Dwyrain Casnewydd ar hyn o bryd ond sydd o dan awdurdod lleol Sir Fynwy. Felly, byddai'r awdurdod lleol yn cynnwys un etholaeth yn unig yn hytrach na dwy, sy'n gwella'r sefyllfa o ran Rheol 5 (1) b.
- 20.4 Felly, cefnogwn etholaeth Sir Fynwy â 72,681 o etholwyr.



21. Maldwyn a Glyndŵr

- 21.1 Cefnogwn y cysyniad o etholaeth Maldwyn a Glyndŵr ond byddem yn gwneud rhai newidiadau i'w chyfansoddiad ac yn awgrymu enw amgen.
- 21.2 Cefnogwn yn gryf y ffaith bod Maldwyn wedi'i chadw'n gyfan mewn un etholaeth. Mae'r holl etholaeth bresennol yn cael ei chadw'n ddi-dor gan gydymffurfio'n gryf â Rheol 5 (1) c.
- 21.3 Cytunwn y dylai'r etholaeth ehangu tua'r gogledd i ogledd-ddwyrain Cymru.
- 21.4 Nodwn fod yr etholaeth yn cynnwys tri awdurdod lleol. Er nad yw hyn yn ddelfrydol, rydym yn derbyn bod Llangollen yn cyd-fynd yn dda â Maldwyn a bod Llangollen wedi'i rhannu rhwng Sir Ddinbych a Bwrdeistref Sirol Wrecsam.
- 21.5 Ni fyddem yn cynnwys wardiau Corwen a Llandrillo sydd yn Sir Ddinbych gan y credwn eu bod yn cyd-fynd yn well â wardiau eraill yn Sir Ddinbych.
- 21.6 Byddem yn cynnwys yn yr etholaeth hon wardiau Pant a Johnstown a wardiau Gogledd Ponciau, De Ponciau a Rhos yn ward Ponciau sydd ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.
- 21.7 Felly, byddem yn rhannu ward Ponciau yn ôl cymunedau. Byddai cymuned Rhosllannerchrugog yn cael ei chynnwys â Maldwyn a byddai cymuned Esclusham yn aros yn etholaeth Wrecsam.
- 21.8 Nodwn y cysylltiadau cryf sydd gan Bant, Johnstown a Rhos â Rhiwabon, a gaiff eu torri gan y cynigion a'u hadfer yn y dewis amgen a gyflwynwn, ac mae hyn yn cydymffurfio'n well â Rheol 5 (1) d.
- 21.9 Nid ydym o'r farn mai'r enw Glyndŵr sy'n disgrifio orau'r ardal a ychwanegir at Faldwyn gan ei bod yn llawer ehangach na hynny. Felly, byddem yn cynnig yr enw Maldwyn a De Clwyd gan fod yr holl wardiau a ychwanegir at etholaeth Maldwyn yn dod o etholaeth bresennol De Clwyd.
- 21.10 Felly, cynigiwn etholaeth sirol Maldwyn a De Clwyd â 76,484 o etholwyr.




YCHWANEGU Pant, Johnstown, wardiau Gogledd Ponciau, De Ponciau a Rhos yn ward Ponciau

HEPGOR Corwen, Llandrillo

22. Dwyrain Casnewydd

- 22.1 Cefnogwn etholaeth arfaethedig Dwyrain Casnewydd.
- 22.2 Mae'r etholaeth yn gyfan gwbl o dan awdurdod lleol Dinas Casnewydd ac felly'n cydymffurfio â Rheol 5 (1) b.
- 22.3 Felly, cefnogwn y cyfuniad o wyth ward o etholaeth bresennol Dwyrain Casnewydd a chwe ward o etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd.
- 22.4 Mae'r cynnig yn creu etholaeth gydlynus, â chysylltiadau da, yn gyfan gwbl o fewn Dinas Casnewydd.
- 22.5 Felly, cefnogwn etholaeth fwrdeistrefol Dwyrain Casnewydd â 76,159 o etholwyr.



23. Gorllewin Casnewydd a Chaerffili


23.1 Cefnogwn etholaeth arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili.

23.2 Wrth gyfuno awdurdodau lleol Casnewydd, Caerffili a Blaenau Gwent, ceir hawl i bedair etholaeth, sy'n debygol o gydymffurfio â Rheol 5 (1) b. Er bod y cynigion cychwynnol yn cynnwys y cyfuniad ac eithrio un ward, sef Nelson, mae ein cynigion ni'n cyfuno'r tri awdurdod hyn yn eu cyfanwydd.

23.3 Yn y cyfuniad hwn, mae Gorllewin Casnewydd a Chaerffili yn cysylltu'n naturiol â chysylltiadau trafnidiaeth a chyfathrebu da iawn ar hyd ffordd yr A468 a bwrdd iechyd a rennir.

23.4 Felly, cefnogwn gynnwys chwech o wardiau Dinas Casnewydd a chwech o wardiau Bwrdeistref Sirol Caerffili.

23.5 Felly, cefnogwn etholaeth sirol Gorllewin Casnewydd a Chaerffili â 74,394 o etholwyr.



24. Pontypridd

24.1 Cefnogwn etholaeth Pontypridd gan ychwanegu wardiau Ffynnon Taf a Chwmbach a hepgor wardiau Gogledd Aberaman a De Aberaman.

24.2 Byddem yn cynnwys ward Ffynnon Taf sydd yn Rhondda Cynon Taf yn yr etholaeth hon. Byddai pob un o'r 2,855 o etholwyr yn dychwelyd at eu hetholaeth bresennol, a byddai hyn yn cydymffurfio'n well â Rheol 5 (1) c.

24.3 Rhennir Rhondda Cynon Taf rhwng pedair etholaeth yn hytrach na phump o dan y cynigion, ac mae hyn yn cydymffurfio'n well â Rheol 5 (1) b.


24.4 Byddai cysylltiadau rhwng wardiau Ffynnon Taf a'r Ddraenen Wen yn cael eu hadfer o dan ein cynnig ni, gan gydymffurfio'n well â Rheol 5 (1) d.

24.5 Byddem yn cynnwys ward Cwmbach sydd yn etholaeth Cwm Cynon ar hyn o bryd. Mae gan y ward hon gysylltiadau ag Aberpennar a fyddai'n cael eu hadfer o dan ein cynnigion ni, gan wella'r sefyllfa o ran Rheol 5 (1) d.

24.6 Ni fyddem yn cynnwys wardiau Aberaman gan eu bod yn cysylltu'n well ag Aberdâr.

24.7 Byddai gan ein hetholaeth arfaethedig 64.4% o'r etholwyr o Bontypridd yn hytrach na 59.9% o dan y cynigion, a byddai hyn yn welliant o dan Reol 5 (1) c.

24.8 Felly, cynigiwn etholaeth sirol Pontypridd â 70,693 o etholwyr.




YCHWANEGU Cwmbach, Ffynnon Taf

HEPGOR Gogledd Aberaman, De Aberaman


25. Rhondda

- 25.1 Cefnogwn etholaeth arfaethedig Rhondda.
- 25.2 Cefnogwn y cynigion sy'n golygu bod holl etholaeth bresennol Rhondda yn cael ei chadw'n ddi-dor yn yr un etholaeth, ac mae hyn yn cydymffurfio â Rheol 5 (1) c.
- 25.3 Cefnogwn gynnwys holl wardiau etholaeth Ogwr sydd ar hyn o bryd ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Hefyd, cefnogwn gynnwys dwy ward Tonyrefail, sydd ym Mhontypridd ar hyn o bryd.
- 25.4 Mae'r etholaeth arfaethedig yn gyfan gwbl o fewn Rhondda Cynon Taf ac mae cysylltiadau cyfathrebu da ledled sedd.
- 25.5 Felly, cefnogwn etholaeth sirol Rhondda â 71,684 o etholwyr.




26. Canol a Gogledd Abertawe

- 26.1 Cefnogwn etholaeth arfaethedig Canol a Gogledd Abertawe.
- 26.2 Fodd bynnag, byddem yn ei dynodi'n etholaeth sirol gan fod iddi elfen wledig sylweddol.
- 26.3 Cefnogwn gysylltu'r wardiau gogleddol blaenorol sydd yn etholaeth Gŵyr ar hyn o bryd â phum ward yn Nwyrain Abertawe a thair ward yng Ngorllewin Abertawe.
- 26.4 Credwn fod gan yr etholaeth arfaethedig gysylltiadau cyfathrebu da a'i bod yn gyfan gwbl o fewn ardal y cyngor sy'n golygu ei bod yn cydymffurfio â Rheol 5 (1) b.
- 26.5 Felly, cynigiwn etholaeth sirol Canol a Gogledd Abertawe â'r cyfansoddiad a gynigir gan y Comisiwn, â 76,199 o etholwyr.




27. Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd

- 27.1 Cefnogwn gyfansoddiad etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd.
- 27.2 Fodd bynnag, byddem yn rhoi iddi'r enw Castell-nedd a Dwyrain Abertawe gan fod elfen Castell-nedd yr etholaeth arfaethedig yn cyfrif am dros 50% ohoni ac elfen Dwyrain Abertawe yn cyfrif am lai na 30%.
- 27.3 Gwerthfawrogwn fod yr etholaeth arfaethedig yn cynnwys pedair etholaeth bresennol ond credwn ei bod yn etholaeth gydlynus â chysylltiadau trafndiaeth da.
- 27.4 Cefnogwn gyfuno 20 ward sydd ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (sef tair o Aberafan ac 17 o Gastell-nedd) â phedair ward sydd yn Ninas a Sir Abertawe (sef tair o Ddwyrain Abertawe ac un o Gŵyr).
- 27.5 Felly, cynigiwn etholaeth sirol Castell-nedd a Dwyrain Abertawe â'r cyfansoddiad a gynigir yn y cynigion cychwynnol, â 75,641 o etholwyr.




28. Gorllewin Abertawe a Gŵyr

- 28.1 Cefnogwn etholaeth arfaethedig Gorllewin Abertawe a Gŵyr o ran ei chyfansoddiad.
- 28.2 Fodd bynnag, byddem yn newid yr enw i Gŵyr a Gorllewin Abertawe gan fod dros 12,500 yn fwy o etholwyr yng Ngŵyr nag sydd yng Ngorllewin Abertawe. Mae Gŵyr yn llunio 58.4% o'r etholaeth o gymharu â 41.6% ar gyfer Gorllewin Abertawe.
- 28.3 Cefnogwn ychwanegu chwe ward sydd yn etholaeth bresennol Gorllewin Abertawe at y 14 ward sydd yn etholaeth bresennol Gŵyr.
- 28.4 Mae'r etholaeth yn gyfan gwbl o fewn Dinas a Sir Abertawe ac mae'n cydymffurfio â Rheol 5 (1) b. Mae ganddi gysylltiadau cyfathrebu a thrafnidiaeth da iawn a chredwn eu bod yn creu etholaeth gydlynus iawn.
- 28.5 Felly, cynigiwn etholaeth sirol Gŵyr a Gorllewin Abertawe â'r cyfansoddiad a gynigir yn y cynigion cychwynnol, â 75,214 o etholwyr.




29. Torfaen

- 29.1 Cefnogwn etholaeth arfaethedig Torfaen.
- 29.2 Cefnogwn gynnwys holl etholaeth bresennol Torfaen yn yr etholaeth arfaethedig, ac mae hyn yn cydymffurfio â Rheol 5 (1) c.
- 29.3 Cefnogwn ehangu'r etholaeth bresennol trwy gynnwys pedair o wardiau Bwrdeistref Sirol Torfaen sydd yn etholaeth Mynwy ar hyn o bryd.
- 29.4 Daw'r etholaeth yn gydffiniol â Bwrdeistref Sirol Torfaen, ac mae hyn y cydymffurfio â Rheol 5 (1) b.
- 29.5 Felly, cefnogwn etholaeth sirol arfaethedig Torfaen â 70,591 o etholwyr.




30. Bro Morgannwg

- 30.1 Cefnogwn etholaeth Bro Morgannwg ond gan ychwanegu ward Dinas Powys.
- 30.2 Nodwn mai Bro Morgannwg yw'r unig etholaeth yng Nghymru sydd â nifer yr etholwyr o fewn y cwota, fel y cydnabyddir ym mharagraff 30.3 y llyfryn cynigion cychwynnol.
- 30.3 Felly, cynigiwn na ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r etholaeth (er bod tri o'r etholwyr yn etholaeth De Caerdydd a Phenarth ar hyn o bryd) ac mae pob etholwr yn yr etholaeth ar hyn o bryd yn cael eu cynnwys yn ein hetholaeth arfaethedig. Mae 6,385 o etholwyr yn dychwelyd at eu hetholaeth bresennol, ac mae hyn yn cydymffurfio'n well â Rheol 5 (1) c na chynigion y Comisiwn.
- 30.4 Nodwn hefyd fod gan Ddinas Powys gysylltiadau cryf â Gwenfô a'r Barri a gaiff eu torri gan gynigion y Comisiwn a'u hadfer o dan ein cynnig ni, ac mae hyn yn cydymffurfio'n well â Rheol 5 (1) d.
- 30.5 Mae'r etholaeth yn gyfan gwbl o fewn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, ac mae hyn yn cydymffurfio â Rheol 5 (1) b.
- 30.6 Felly, cynigiwn etholaeth sirol Bro Morgannwg â 76,814 o etholwyr.



31. Wrecsam

- 31.1 Cynigiwn etholaeth Wrecsam sy'n cynnwys wardiau Brymbo a Mwynglawdd sydd ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam a hepgor wardiau Pant a Johnstown a wardiau Gogledd Ponciau, De Ponciau a Rhos yn ward Ponciau.
- 31.2 Credwn y dylid lleoli Brymbo a Mwynglawdd mewn sedd sy'n seiliedig ar Wrecsam. Byddai hyn yn golygu bod Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cynnwys dwy etholaeth seneddol yn hytrach na thair, sy'n cydymffurfio'n well â Rheol 5 (1) b.
- 31.3 Hefyd, mae gan y ddwy ward hyn gysylltiadau â wardiau Coedpoeth, Bryn Cefn a Gwenfro, a gaiff eu torri gan y cynigion a'u hadfer o dan ein cynnig ni, ac mae hyn yn cydymffurfio'n well â Rheol 5 (1) d.
- 31.4 Byddem yn rhannu ward Ponciau rhwng dwy etholaeth. Mae'r ward yn cynnwys rhan o ddwy gymuned sy'n hollol ar wahân oddi wrth ei gilydd. Mae man agored clir rhwng cymunedau Rhosllannerchrugog ac Esclusham
- 31.5 Felly, byddem yn cynnwys yn etholaeth Wrecsam wardiau Aberoer a Phentrebychan yng nghymuned Esclusham o fewn ward Ponciau.
- 31.6 Er nad yw'n ddelfrydol i rannu ward, mae'r rhan hwn yn un rhesymegol ac nid ydym yn rhannu cymunedau. Credwn fod yr anfantais hon yn cael ei lliniaru gan y gwelliant sylweddol mewn cysylltiadau llywodraeth leol ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.
- 31.7 Cefnogwn yn gryf gynnwys holl etholaeth bresennol Wrecsam yn yr etholaeth arfaethedig. Mae hyn yn cydymffurfio â Rheol 5 (1) c.
- 31.8 Felly, cynigiwn etholaeth sirol Wrecsam â 73,636 o etholwyr.



YCHWANEGU Brymbo, Mwynglawdd

HEPGOR Pant, Johnstown, wardiau Gogledd Ponciau, De Ponciau a Rhos yn ward Ponciau

32. Ynys Môn

32.1 Gan fod Atodlen 2 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i greu un etholaeth ar gyfer ardal Cyngor Sir Ynys Môn, nid oes dadl ynghylch cael etholaeth nad yw'n newid ac sy'n gydffiniol â'r awdurdod lleol.

32.2 Felly, cefnogwn etholaeth arfaethedig Ynys Môn â 52,415 o etholwyr.



Pennod 4: Casgliad

- 4.1 Cefnogwn ddull y Comisiwn yn fras ond credwn y gellir gwella'r cynigion cychwynol o ran y Rheolau yn Atodlen 2 Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd).
- 4.2 Mewn perthynas â Rheol 5 (1) b, rydym yn gwella'r sefyllfa o ran tri awdurdod lleol a thair etholaeth. Mae hyn wedi'i nodi yn Atodiad A.
- 4.3 O ran Rheol 5 (1) c, rydym yn gwella'r sefyllfa o ran nifer yr etholwyr sy'n symud etholaethau wrth i 12,230 yn llai o etholwyr symud o dan ein cynigion ni na chynigion y Comisiwn. Mae hyn wedi'i nodi yn Atodiad B.
- 4.4 O ran Rheol 5 (1) d, rydym yn adfer nifer o gysylltiadau lleol; er enghraifft yn Aberdâr, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Sir y Fflint, Bro Morgannwg a Wrecsam.
- 4.5 Mae ein cynigion manwl wedi'u nodi yn Atodiad C.
- 4.6 Edrychwn ymlaen at roi tystiolaeth yn y Gwrandawiadau Cyhoeddus a rhoi sylwadau ar unrhyw sylwadau a dderbynnir gan y Comisiwn. Rydym yn cadw ein hawl i addasu ein safbwynt yng ngoleuni'r sylwadau hynny.

Atodiad A:

Awdurdodau Lleol lle mae gwahaniaeth rhwng y cynigion cychwynnol a gwrthgynigion y Ceidwadwyr o ran nifer yr etholaethau sydd wedi'u cynnwys o fewn yr awdurdod.

Awdurdod Lleol	Nifer o Etholaethau yn y Cynigion Cychwynnol	Nifer o Etholaethau yng Ngwrthgynigion y Ceidwadwyr
Caerffili	4	3
Rhondda Cynon Taf	5	4
Wrecsam	3	2

Etholaethau lle mae gwahaniaeth rhwng y cynigion cychwynnol a gwrthgynigion y Ceidwadwyr o ran nifer yr awdurdodau lleol sydd wedi'u cynnwys o fewn yr etholaeth.

Etholaeth	Nifer o Awdurdodau Lleol yn y Cynigion Cychwynnol	Nifer o Awdurdodau Lleol yng Ngwrthgynigion y Ceidwadwyr
Alun a Glannau Dyfrdwy	2	1
Gogledd Caerdydd	2	1
Merthyr Tudful ac Aberdâr	3	2

Ym mhob achos arall, mae'r niferoedd yn y cynigion cychwynnol ac yng ngwrthgynigion y Ceidwadwyr yn cyfateb.

Atodiad B:**Cynnig Cychwynnol y Comisiwn: Cyfansoddiad yr etholaethau arfaethedig**

Etholaeth Arfaethedig	Nifer yr Etholwyr	Nifer yr etholwyr sy'n aros yn eu hetholaeth bresennol	
Aberafan Porthcawl	76792		
Aberafan	42763	Aberafan	42763
Pen-y-bont ar Ogwr	34029		
Aberconwy	69909		
Aberconwy	44852	Aberconwy	44852
Arfon	15279		
Gorllewin Clwyd	9778		
Alun a Glannau Dyfrdwy	74144		
Alun a Glannau Dyfrdwy	63045	Alun a Glannau Dyfrdwy	63045
De Clwyd	4891		
Delyn	6208		
Blaenau Gwent a Rhymini	71079		
Blaenau Gwent	50900	Blaenau Gwent	50900
Caerffili	5965		
Islwyn	2706		
Merthyr Tudful a Rhymini	11508		
Aberhonddu a Maesyfed	72113		
Brycheiniog a Sir Faesyfed	54854	Brycheiniog a Sir Faesyfed	54854
Castell-nedd	17259		
Pen-y-bont	74388		
Pen-y-bont ar Ogwr	29309		
Ogwr	45079	Ogwr	45079
Caerfyrddin	70606		
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr	46494	Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr	46494
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro	24112		
Canol Caerdydd	74486		
Canol Caerdydd	60192	Canol Caerdydd	60192
De Caerdydd a Phenarth	14294		
Gogledd Caerdydd	71143		
Gogledd Caerdydd	68288	Gogledd Caerdydd	68288
Pontypridd	2855		
De Caerdydd a Phenarth	70246		
De Caerdydd a Phenarth	63858	De Caerdydd a Phenarth	63858
Bro Morgannwg	6388		
Gorllewin Caerdydd	73947		
Gorllewin Caerdydd	67886	Gorllewin Caerdydd	67886
Pontypridd	6061		
Ceredigion Preseli	76269		
Ceredigion	56151	Ceredigion	56151
Preseli Penfro	20118		

Clwyd	76380		
Gorllewin Clwyd	40545	Gorllewin Clwyd	40545
Dyffryn Clwyd	35835		
Delyn	76074		
Gorllewin Clwyd	7463		
Delyn	48510	Delyn	48510
Dyffryn Clwyd	20101		
Dwyfor Meirionnydd	71962		
Arfon	27378		
Dwyfor Meirionnydd	44584	Dwyfor Meirionnydd	44584
Islwyn	70735		
Caerffili	16940		
Islwyn	53795	Islwyn	53795
Llanelli	71972		
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr	11206		
Llanelli	60766	Llanelli	60766
Merthyr Tudful ac Aberdâr	71218		
Caerffili	3563		
Cwm Cynon	22574		
Merthyr Tudful a Rhymni	45081	Merthyr Tudful a Rhymni	45081
Canol a De Sir Benfro	74614		
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro	35621		
Preseli Penfro	38993	Preseli Penfro	38993
Sir Fynwy	72681		
Mynwy	59102	Mynwy	59102
Dwyrain Casnewydd	13579		
Maldwyn a Glyndŵr	72363		
De Clwyd	23263		
Maldwyn	49100	Maldwyn	49100
Dwyrain Casnewydd	76159		
Dwyrain Casnewydd	45450	Dwyrain Casnewydd	45450
Gorllewin Casnewydd	30709		
Gorllewin Casnewydd a Chaerffili	74394		
Caerffili	38063	Caerffili	38063
Gorllewin Casnewydd	36331		
Pontypridd	71237		
Cwm Cynon	28573		
Pontypridd	42664	Pontypridd	42664
Rhondda	71684		
Ogwr	12093		
Pontypridd	9329		
Rhondda	50262	Rhondda	50262
Canol a Gogledd Abertawe	76199		
Gŵyr	12891		
Dwyrain Abertawe	36570	Dwyrain Abertawe	36570
Gorllewin Abertawe	26738		

Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd	75641		
Aberafan	8290		
Gŵyr	5821		
Castell-nedd	39518	Castell-nedd	39518
Dwyrain Abertawe	22012		
Gorllewin Abertawe a Gŵyr	75214		
Gŵyr	43907	Gŵyr	43907
Gorllewin Abertawe	31307		
Torfaen	70591		
Mynwy	7954		
Torfaen	62637	Torfaen	62637
Bro Morgannwg	70426		
Bro Morgannwg	70426	Bro Morgannwg	70426
Wrecsam	75596		
De Clwyd	25767		
Wrecsam	49829	Wrecsam	49829
Cyfanswm Terfynol	2270262		1584164
			69.78%

Gwrthgynnig y Ceidwadwyr: Cyfansoddiad yr etholaethau arfaethedig

Etholaeth Arfaethedig	Nifer yr Etholwyr	Nifer yr etholwyr sy'n aros yn eu hetholaeth bresennol	
Aberafan Maesteg	77058		
Aberafan	42763	Aberafan	42763
Ogwr	34295		
Aberconwy	69909		
Aberconwy	44852	Aberconwy	44852
Arfon	15279		
Gorllewin Clwyd	9778		
Alun a Glannau Dyfrdwy	75695		
Alun a Glannau Dyfrdwy	63045	Alun a Glannau Dyfrdwy	63045
Delyn	12650		
Blaenau Gwent a Rhymini	71079		
Blaenau Gwent	50900	Blaenau Gwent	50900
Caerffili	5965		
Islwyn	2706		
Merthyr Tudful a Rhymini	11508		
Aberhonddu a Maesyfed	72113		
Brycheiniog a Sir Faesyfed	54854	Brycheiniog a Sir Faesyfed	54854
Castell-nedd	17259		
Pen-y-bont	74122		
Pen-y-bont ar Ogwr	63338	Pen-y-bont ar Ogwr	63338
Ogwr	10784		

Caerfyrddin	72683		
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr	48571	Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr	48571
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro	24112		
Canol Caerdydd	69813		

Canol Caerdydd	60192	Canol Caerdydd	60192
Gorllewin Caerdydd	9621		
Gogledd Caerdydd	70054		
Gogledd Caerdydd	62296	Gogledd Caerdydd	62296
De Caerdydd a Phenarth	7758		
De Caerdydd a Phenarth	70394		
De Caerdydd a Phenarth	70394	De Caerdydd a Phenarth	70394
Gorllewin Caerdydd	70318		
Gogledd Caerdydd	5992		
Gorllewin Caerdydd	58265	Gorllewin Caerdydd	58265
Pontypridd	6061		
Ceredigion Preseli	76269		
Ceredigion	56151	Ceredigion	56151
Preseli Penfro	20118		
Dwyrain Clwyd	74192		
De Clwyd	2730		
Gorllewin Clwyd	9293		
Delyn	42068	Delyn	42068
Dyffryn Clwyd	20101		
Gorllewin Clwyd	74550		
Gorllewin Clwyd	38715	Gorllewin Clwyd	38715
Dyffryn Clwyd	35835		
Dwyfor Meirionnydd	71962		
Arfon	27378		
Dwyfor Meirionnydd	44584	Dwyfor Meirionnydd	44584
Gŵyr a Gorllewin Abertawe	75214		
Gŵyr	43907	Gŵyr	43907
Gorllewin Abertawe	31307		
Islwyn	74298		
Caerffili	20503		
Islwyn	53795	Islwyn	53795
Llanelli	69895		
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr	9129		
Llanelli	60766	Llanelli	60766
Merthyr Tudful ac Aberdâr	71054		
Cwm Cynon	25973		
Merthyr Tudful a Rhywni	45081	Merthyr Tudful a Rhywni	45081
Canol a De Sir Benfro	74614		
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro	35621		
Preseli Penfro	38993	Preseli Penfro	38993
Sir Fynwy	72681		

Mynwy	59102	Mynwy	59102
Dwyrain Casnewydd	13579		
Maldwyn a De Clwyd	76484		
De Clwyd	27384		
Maldwyn	49100	Maldwyn	49100

Castell-nedd a Dwyrain	75641		
Abertawe			
Aberafan	8290		
Gŵyr	5821		
Castell-nedd	39518	Castell-nedd	39518
Dwyrain Abertawe	22012		
Dwyrain Casnewydd	76159		
Dwyrain Casnewydd	45450	Dwyrain Casnewydd	45450
Gorllewin Casnewydd	30709		
Gorllewin Casnewydd a Chaerffili	74394		
Caerffili	38063	Caerffili	38063
Gorllewin Casnewydd	36331		
Pontypridd	70693		
Cwm Cynon	25174		
Pontypridd	45519	Pontypridd	45519
Rhondda	71684		
Ogwr	12093		
Pontypridd	9329		
Rhondda	50262	Rhondda	50262
Canol a Gogledd Abertawe	76199		
Gŵyr	12891		
Dwyrain Abertawe	36570	Dwyrain Abertawe	36570
Gorllewin Abertawe	26738		
Torfaen	70591		
Mynwy	7954		
Torfaen	62637	Torfaen	62637
Bro Morgannwg	76814		
Bro Morgannwg	76814	Bro Morgannwg	76814
Wrecsam	73636		
De Clwyd	23807		
Wrecsam	49829	Wrecsam	49829
Cyfanswm Terfynol	2270262		1596394
			70.32%

ATODIAD C: Rhestr fanwl o'r 32 etholaeth a gynigiwn

Etholaeth Arfaethedig	Nifer yr Etholwyr
Aberafan Maesteg	77,058
Aberconwy	69,909
Alun a Glannau Dyfrdwy	75,695
Blaenau Gwent a Rhymni	71,079
Aberhonddu a Maesyfed	72,113
Pen-y-bont	74,122
Caerfyrddin	72,683
Canol Caerdydd	69,813
Gogledd Caerdydd	70,054
De Caerdydd a Phenarth	70,394
Gorllewin Caerdydd	70,318
Ceredigion Preseli	76,269
Gorllewin Clwyd	74,550
Dwyrain Clwyd	74,192
Dwyfor Meirionnydd	71,962
Islwyn	74,298
Llanelli	69,895
Merthyr Tudful ac Aberdâr	71,054
Canol a De Sir Benfro	74,614
Sir Fynwy	72,681
Maldwyn a De Clwyd	76,484
Dwyrain Casnewydd	76,159
Gorllewin Casnewydd a Chaerffili	74,394
Pontypridd	70,693
Rhondda	71,684
Canol a Gogledd Abertawe	76,199
Castell-nedd a Dwyrain Abertawe	75,641
Gŵyr a Gorllewin Abertawe	75,214
Torfaen	70,591
Bro Morgannwg	76,814
Wrecsam	73,636
Ynys Môn	52,415

Aberafan ac Ogwr – 77,058 o etholwyr

Wardiau Etholiadol	Awdurdod Lleol	Nifer yr Etholwyr	Etholaeth Bresennol
Betws	Pen-y-bont ar Ogwr	1,595	Ogwr
Melin Ifan Ddu	Pen-y-bont ar Ogwr	1,839	Ogwr
Blaengarw	Pen-y-bont ar Ogwr	1,333	Ogwr
Bryncethin	Pen-y-bont ar Ogwr	1,261	Ogwr
Bryncoch	Pen-y-bont ar Ogwr	1,757	Ogwr
Caerau	Pen-y-bont ar Ogwr	4,795	Ogwr
Llangeinor	Pen-y-bont ar Ogwr	887	Ogwr
Llangynwyd	Pen-y-bont ar Ogwr	2,351	Ogwr
Dwyrain Maesteg	Pen-y-bont ar Ogwr	3,741	Ogwr
Gorllewin Maesteg	Pen-y-bont ar Ogwr	4,327	Ogwr
Nant-y-moel	Pen-y-bont ar Ogwr	1,745	Ogwr
Bro Ogwr	Pen-y-bont ar Ogwr	2,357	Ogwr
Pontycymer	Pen-y-bont ar Ogwr	1,773	Ogwr
Sarn	Pen-y-bont ar Ogwr	1,786	Ogwr
Ynysawdre	Pen-y-bont ar Ogwr	2,748	Ogwr
Aberafan	Castell-nedd Port Talbot	4,048	Aberafan
Baglan	Castell-nedd Port Talbot	5,383	Aberafan
Dwyrain Llansawel	Castell-nedd Port Talbot	2,148	Aberafan
Gorllewin Llansawel	Castell-nedd Port Talbot	2,033	Aberafan
Bryn a Chwmafan	Castell-nedd Port Talbot	5,220	Aberafan
Y Cymer	Castell-nedd Port Talbot	2,011	Aberafan
Glyncorrwg	Castell-nedd Port Talbot	792	Aberafan
Gwynfi	Castell-nedd Port Talbot	879	Aberafan
Margam	Castell-nedd Port Talbot	2,309	Aberafan
Port Talbot	Castell-nedd Port Talbot	4,342	Aberafan
Dwyrain Sandfields	Castell-nedd Port Talbot	5,038	Aberafan
Gorllewin Sandfields	Castell-nedd Port Talbot	4,917	Aberafan
Tai-bach	Castell-nedd Port Talbot	3,643	Aberafan

Aberconwy – 69,909 o etholwyr

Wardiau Etholiadol	Awdurdod Lleol	Nifer yr Etholwyr	Etholaeth Bresennol
Betws-y-Coed	Conwy	967	Aberconwy
Bryn	Conwy	1,390	Aberconwy
Caerhun	Conwy	1,677	Aberconwy
Capel Ulo	Conwy	1,284	Aberconwy
Conwy	Conwy	3,295	Aberconwy
Craig-y-Don	Conwy	2,685	Aberconwy
Crwst	Conwy	1,581	Aberconwy
Deganwy	Conwy	3,289	Aberconwy
Eglwysbach	Conwy	1,257	Aberconwy
Gogarth	Conwy	2,795	Aberconwy
Gower	Conwy	850	Aberconwy
Llandrillo yn Rhos	Conwy	6,110	Gorllewin Clwyd
Llangernyw	Conwy	1,104	Gorllewin Clwyd
Llansanffraid	Conwy	1,814	Aberconwy
Marl	Conwy	3,539	Aberconwy
Mochdre	Conwy	1,425	Gorllewin Clwyd
Mostyn	Conwy	2,758	Aberconwy
Pandy	Conwy	1,463	Aberconwy
Pant-yr-afon/ Penmaenan	Conwy	2,167	Aberconwy
Penrhyn	Conwy	3,874	Aberconwy
Pensarn	Conwy	2,274	Aberconwy
Trefriw	Conwy	1,026	Aberconwy
Tudno	Conwy	3,591	Aberconwy
Uwch Conwy	Conwy	1,276	Aberconwy
Uwchaled	Conwy	1,139	Gorllewin Clwyd
Arllechwedd	Gwynedd	1,091	Arfon
Deiniol	Gwynedd	920	Arfon
Dewi	Gwynedd	1,301	Arfon
Garth	Gwynedd	556	Arfon
Gerlan	Gwynedd	1,696	Arfon
Glyder	Gwynedd	1,257	Arfon
Hendre	Gwynedd	940	Arfon
Hirael	Gwynedd	1,066	Arfon
Marchog	Gwynedd	1,579	Arfon
Menai (Bangor)	Gwynedd	1,548	Arfon
Ogwen	Gwynedd	1,697	Arfon
Tregarth a Mynydd Llandygai	Gwynedd	1,628	Arfon

Alun a Glannau Dyfrdwy – 75,695 o etholwyr

Wardiau Etholiadol	Awdurdod Lleol	Nifer yr Etholwyr	Etholaeth Bresennol
Aston	Sir y Fflint	2,508	Alun a Glannau Dyfrdwy
Dwyrain Bagillt	Sir y Fflint	1,413	Delyn
Gorllewin Bagillt	Sir y Fflint	1,625	Delyn
Gogledd Ddwyrain Brychdyn	Sir y Fflint	1,723	Alun a Glannau Dyfrdwy
De Brychdyn	Sir y Fflint	3,325	Alun a Glannau Dyfrdwy
Dwyrain Bistre Bwcle	Sir y Fflint	2,653	Alun a Glannau Dyfrdwy
Gorllewin Bistre Bwcle	Sir y Fflint	3,182	Alun a Glannau Dyfrdwy
Mynydd Bwcle	Sir y Fflint	2,555	Alun a Glannau Dyfrdwy
Nid oes llinellau terfyn mewnol oddi mewn i ffiniau tref Bae Colwyn ei hun. Mae Rhos a ward gyfagos Rhiw yn cyfuno'n ddi-dor i greu un ardal adeiledig. Yn wir, mae strydoedd adeiledig Francis Avenue, Kenelm Road a Cayley Promenade yn rhannol yn Rhos ac yn rhannol yn Rhiw. Awgrymwn y byddai'n annerbyniol i gyfanwydd Bae Colwyn gael ei ddinistrio yn y ffordd sydd wedi'i chynnig.

Mae'r cysylltiadau lleol, a'r ffaith bod Rhos yn rhan gynhenid o dref Bae Colwyn, yn cael eu pwysleisio ymhellach gan sefydliadau Bae Colwyn sydd wedi'u lleoli yn ward Rhos. Mae'r rhain yn cynnwys:

Clwb Criced Bae Colwyn;
Clwb Rygbi Bae Colwyn;
Clwb Hwyllo Bae Colwyn.

At hynny, mae Clwb Rotari Bae Colwyn yn cynnal ei gyfarfodydd yn nhafarn Rhos Fynach yn Rhos, ac mae Cynghrair Cyfeillion Ysbyty Bae Colwyn wedyn yn cwrdd yng Nghanolfan Gymunedol Parkway yn Rhos.

Mae llawer o blant oed cynradd sy'n byw yn Rhos yn mynychu Ysgol Pen y Bryn yn ward Rhiw.

Mae plant oed uwchradd naill ai'n mynychu Ysgol Eirias neu Ysgol Bryn Elian, ill dwy wedi'u lleoli ym Mae Colwyn.

Mae llawer o enghreifftiau eraill tebyg sy'n dangos bod Rhos yn rhan gynhenid lawn o Fae Colwyn, ac mae ganddi'r cysylltiadau cryfaf posibl a'r dref. Awgrymwn mai gwrthnysig fyddai torri'r cysylltiadau hynny a gwthio Rhos i ardal etholaeth newydd Aberconwy, ardal nad oes ganddi lawer o gysylltiadau gwleidyddol, cymdeithasol na diwylliannol a hi.

Mae'r Gymdeithas yn ystyried bod yr effaith fyfryedig ar gyfanrwydd Bae Colwyn ac ardal Cyngor Tref Bae Colwyn yn annerbyniol ac yn galw ar y Comisiwn i ddiwygio ei gynigion cychwynnol, er mwyn sicrhau nad yw'r fath gyfanrwydd yn cael ei beryglu.

Awgrymwn y cynigion gwahanol canlynol ar gyfer etholaethau newydd Clwyd ac Aberconwy:

Clwyd

Llandrillo yn Rhos; Mochdre; Rhiw; Glyn; Eirias; Colwyn; Llysfaen; Llanddulas; Pentre Mawr; Abergele Pensarn; Towyn; Bae Cinmel; Gorllewin y Rhyl; Dwyrain y Rhyl; De-orllewin y Rhyl; De'r Rhyl; De-ddwyrain y Rhyl; Rhuddlan; Bodelwyddan; Gele; Gortlewin Llanelwy; Dwyrain Uanelwy; Trefnant; Betws yn Rhos.

Aberconwy

Bryn; Pandy; Pant yr Afon / Penmaenan; Capelulo; Conwy; Gogarth; Deganwy; Marl; Tudno; Craig-y-Don; Penrhyn; Llansanffraid; Pensarn; Caerhun; Trefriw; Eglwysbach; Betws-y-Coed; Gower; Crwst; Uwch Conwy; Llangernyw; Uwchaled; Llansannan; Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch; Efenechdyd; Dinbych Uchaf, Canol Dinbych, Dinbych Isaf; Llandyrnog.

Gofynnwn i chi gydnabod ein gwrthwynebiad. Byddwn yn falch i ohebu ymhellach a bod yn bresennol mewn unrhyw wrandawriad.

Yn gywir



Chairman, Clwyd

Cadeirydd, Cymdeithas Ceidwadwyr Gorllewin Clwyd

BCW-9817/ [REDACTED] / Sir Benfro

Rwy'n ystyried bod etholaeth arfaethedig Ceredigion Preseli yn ardal anodd iawn i unrhyw Aelod Seneddol ofalu amdani. Rwy'n adnabod yr ardal yn gymharol dda, o fod wedi gweithio yng Ngheredigion a byw yn Sir Benfro.

Mae'r ardal arfaethedig yn hir a chul. Sut gall unrhyw berson ofalu am y sefyllfa hon? Mae'r ffyrdd yn araf a throellog ac nid yw'r cysylltiadau'n dda.

Hefyd, mae'r bobl yn wahanol, ac mae hynny'n achosi problem arall. Mae'r Gymraeg yn cael ei siarad lawer yn llai aml nawr yn Sir Benfro nag yn y gorffennol, ond caiff ei defnyddio lawer yn amlach yng Ngheredigion.

BCW-9818/ [REDACTED] / Wrecsam

Mae Brymbo a Mwynglawdd yn rhannau cynhenid o Wrecsam ac ni ddylid eu gwahanu gan y newid hwn. Mae Johnstown yn bellach i ffwrdd a gellid ei adael allan o Wrecsam heb achosi problem fawr.

BCW-9819/ [REDACTED] / Caerffili

Ysgrifennaf i gefnogi'r newidiadau arfaethedig i'r ffiniau yng Nghaerffili, a fydd yn creu etholaeth newydd Caerffili a Gorllewin Casnewydd.

Mae cysylltiadau trafniadaeth gyhoeddus gwych rhwng Caerffili a Chasnewydd (llwybr bysiau aml a rheolaidd rhwng Caerffili a Chasnewydd), yn ogystal â chysylltiadau ffyrdd da – caiff y cyswllt ffordd ei defnyddio gan lawer yng Nghaerffili fel ffordd i gael i'r M4 tua'r dwyrain.

O ystyried y cysylltiadau ffyrdd gwych a pha mor agos yw Caerffili a Chasnewydd, mae creu etholaeth newydd Caerffili a Gorllewin Casnewydd yn ymddangos yn gam rhesymegol, ac yn un y byddwn i'n ei gefnogi.

BCW-9820/ Jeff Cuthbert CHT/ Hengoed

Rwy'n gyn-Aelod o Gynulliad Cymru a Llywodraeth Cymru. Cynrychiolais Etholaeth Caerffili am 13 mlynedd. Ar hyn o bryd, fi yw Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Gwent.

Credaf ei bod hi'n bwysig iawn bod nodweddion lleol, cydlyniant cymunedol a hunaniaeth a chysylltiadau hanesyddol yn cael eu cydnabod ac y darperir ar eu cyfer lle bynnag y bo'n bosibl. Nid wyf o'r farn bod y cynigion presennol yn gwneud hynny. Mae awgrymu bod hanner deheuol yr etholaeth bresennol yn cael ei uno â Chasnewydd yn mynd yn groes i'r cysylltiadau hanesyddol sydd wedi bod rhwng yr etholaeth, sy'n rhan o hen Sir Forgannwg, a threfi Caerffili a Chaerdydd erioed. O ran teithio ar y ffyrdd ac ar y rheilffyrdd, mae Etholaeth Caerffili wedi'i chysylltu â Chaerdydd, nid Casnewydd. Does dim byd yn bod ar Gasnewydd, wrth gwrs, ac rwy'n treulio cryn dipyn o amser yn gweithio yno. Fodd bynnag, y cymunedau i ddwyrain Sirhywi sy'n uniaethu'n naturiol â Chasnewydd, a hynny yn sgil y cysylltiadau trafniadaeth clir rhwng Trecelyn a Rhisga, er enghraifft, a Chasnewydd. Rwyf wedi gweld y gwrthgynnig sydd wedi'i gyflwyno gan Wayne David AS. Credaf fod y cynnig hwn yn llawer mwy realistig o ran cysylltiadau hanesyddol a diwylliannol.

Gallaf gofio'r gwaith a wnaed gan y Comisiwn Ffiniau ar ddechrau'r 2000au. Bryd hynny, cyflwynwyd cynnig i newid Etholaeth Caerffili yn sylweddol. Fodd bynnag, cafodd y cynnig hwnnw ei roi o'r neilltu o blaid y cynnig amgen a gyflwynwyd gan Wayne David a minnau (gyda chefnogaeth sawl un arall). Ni allaf weld pam bod angen rhoi'r penderfyniad hwnnw i'r neilltu pan na fu unrhyw newidiadau mawr i'r ardal leol. Gyda llaw, un newid a welwyd bryd hynny oedd symud cymuned Maesycwmer o Gaerffili i Islwyn, felly nid yw ei symud yn ôl i Gaerffili yn ddatblygiad mawr.

Rwy'n annog y Comisiwn Ffiniau i edrych ar y darlun cyffredinol unwaith eto ac ystyried y ddadl ffeithiol sy'n cael ei chyflwyno gennyf i ac eraill.

BCW-9821/ [REDACTED] / Pontypridd

Mae'r etholaethau'n llawer rhy fawr yn gyffredinol, ond y pryder pennaf yw y bydd llawer llai o gynrychiolaeth gan Gymru yn San Steffan.

Rhaid cynyddu'r nifer o Aelodau'r Senedd yng Nghaerdydd i 80 o leiaf a datganoli cyfiander a phlisma cyn newid ffiniau etholaethol San Steffan.

BCW-9822/ [REDACTED] / Aberdâr

Hoffwn awgrymu cynigion amgen ledled Cymru. Nid oes digon o le i roi'r manylion llawn yma, felly rwyf wedi cynnwys dogfennau ategol ar wahân. Isod, amlinellaf fy awgrymiadau yn gryno. Rhoddir esboniad llawnach yn y dogfennau ategol.

1. Sir Fynwy: fel y'i cynigir gan y CFfG. Nifer yr etholwyr: 72,681.
2. Torfaen: fel y'i cynigir gan y CFfG. Nifer yr etholwyr: 70,591.
3. Dwyrain Casnewydd: fel y'i cynigir gan y CFfG, ac eithrio Betws. Nifer yr etholwyr: 70,503.
4. Gorllewin Casnewydd a De Islwyn: y wardiau canlynol sydd yng Ngorllewin Casnewydd ar hyn o bryd: Allt-yr-yn, Betws, Y Gaer, Y Graig, Maerun, Tŷ-du, a Pharc Tredegar; ynghyd â'r wardiau canlynol sydd yn Islwyn ar hyn o bryd: Abercarn, Crosskeys, Maesycwmmmer, Trecelyn, Pontllanfraith, Dwyrain Rhisga, Gorllewin Rhisga, ac Ynysddu.
5. Blaenau Gwent a Gogledd Islwyn: etholaeth bresennol Blaenau Gwent; ynghyd â'r wardiau canlynol sydd yn Islwyn ar hyn o bryd: Aberbargoed, Argoed, Y Coed Duon, Cefn Fforest, Crymlyn, Pengam, a Phenmaen. Nifer yr etholwyr: 76,127.
6. Caerffili a Chwm Rhymni: etholaeth bresennol Caerffili; ynghyd â'r wardiau canlynol sydd ym Merthyr Tudful a Rhymni ar hyn o bryd: Cwm Darren, Moriah, Tredegar Newydd, Pontlotyn, a Thwyn Carno. Nifer yr etholwyr: 76,039
7. Merthyr Tudful ac Aberdâr: etholaeth Merthyr Tudful ac Aberdâr fel y'i cynigir gan y CFfG; ynghyd â Gogledd Aberaman, a De Aberaman o etholaeth arfaethedig Pontypridd; hepgor Nelson. Nifer yr etholwyr: 74,805.
8. Rhondda ac Ogwr: etholaeth Rhondda fel y'i cynigir gan y CFfG; ynghyd â Melin Ifan Ddu, Nant-y-moel, Bro Ogwr, a Phenprysg o etholaeth arfaethedig Pen-y-bont; hepgor Llanharan, a Llanhari. Nifer yr etholwyr: 74,059.
9. Pontypridd: etholaeth Pontypridd fel y'i cynigir gan y CFfG; ynghyd â Phont-y-clun o etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd; ynghyd â Llanharan, a Llanhari o etholaeth arfaethedig Rhondda; hepgor Gogledd Aberaman, a De Aberaman. Nifer yr etholwyr: 76,188.
10. Gogledd Orllewin Caerdydd: y wardiau canlynol sydd yn etholaeth bresennol Gorllewin Caerdydd: Creigiau/Sain Ffagan, Y Tyllgoed, Llandaf, Pentyrch, Radyr, a Riverside; ynghyd â'r wardiau canlynol sydd yn etholaeth bresennol Gogledd Caerdydd: Ystum Taf, Rhiwbeina, a'r Eglwys Newydd a Thongwynlais; ynghyd â ward Ffynnon Taf sydd yn etholaeth bresennol Pontypridd ac ardal cyngor Rhondda Cynon Taf. Nifer yr etholwyr: 70,123.

11. Gogledd Ddwyrain Caerdydd: y wardiau canlynol sydd yn etholaeth bresennol Gogledd Caerdydd: Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Llysfaen, Llanisien, a Phontpennau/Yr Hen Laneirwg; ynghyd â'r wardiau canlynol sydd yn etholaeth bresennol Canol Caerdydd: Cathays, Cyncoed, a Phentwyn. Nifer yr etholwyr: 72,371.

12. De Ddwyrain Caerdydd: y wardiau canlynol sydd yn etholaeth bresennol Canol Caerdydd: Adamsdown, Penylan, a Phlasnewydd; ynghyd â'r wardiau canlynol sydd yn etholaeth bresennol De Caerdydd a Phenarth: Butetown, Llanrhymni, Tredelerch, Y Sblot a Trowbridge. Nifer yr etholwyr: 70,120.

13. De Orllewin Caerdydd a Phenarth: y wardiau canlynol sydd yn etholaeth bresennol Gorllewin Caerdydd: Caerau, Treganna, a Threlai; ynghyd â ward Grangetown sydd yn etholaeth bresennol De Caerdydd a Phenarth; ynghyd â'r wardiau canlynol sydd yn etholaeth bresennol De Caerdydd a Phenarth: Cornerswell, Llandochoau, Plymouth, St. Augustine's, Stanwell, ac Y Sili yn ardal cyngor Bro Morgannwg; ynghyd â ward Dinas Powys sydd yn etholaeth bresennol Bro Morgannwg ac ardal cyngor Bro Morgannwg. Nifer yr etholwyr: 71,147.

14. Bro Morgannwg: fel y'i cynigir gan y CFfG. Nifer yr etholwyr: 70,426.

15. Pen-y-bont: etholaeth Pen-y-bont fel y'i cynigir gan y CFfG; ynghyd â Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr; Cefn Glas; a Llangewydd and Brynhyfryd o etholaeth arfaethedig Aberafan Porthcawl; hepgor Melin Ifan Ddu, Nant-y-moel, Bro Ogwr, a Phenprysg. Nifer yr etholwyr: 75,785.

16. Aberafan Porthcawl: etholaeth Aberafan Porthcawl fel y'i cynigir gan y CFfG; ynghyd â Choed-ffranc Ganol, a Gorllewin Coed-ffranc o etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd; hepgor Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr; Cefn Glas; a Llangewydd and Brynhyfryd. Nifer yr etholwyr: 73,459.

17. Castell-nedd a Dwyrain Abertawe: etholaeth Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd fel y'i cynigir gan y CFfG; ynghyd â'r Allt-wen, Godre'r graig, Pontardawe, Rhos, Trebannws ac Ystalyfera o etholaeth arfaethedig Aberhonddu a Maesyfed; hepgor Coed-ffranc Ganol, Gorllewin Coed-ffranc, a St. Thomas. Nifer yr etholwyr: 76,726.

18. Canol Abertawe: etholaeth Canol a Gogledd Abertawe fel y'i cynigir gan y CFfG; ynghyd â St. Thomas o etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd; hepgor Pontarddulais. Nifer yr etholwyr: 76,759.

19. Gorllewin Abertawe: etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr fel y'i cynigir gan y CFfG, ond gan ollwng 'Gŵyr' o'r enw gan fod yr etholaeth wedi'i ffurfio yn gyfan gwbl o wardiau yn ran orllewinol ardal cyngor Abertawe. Nifer yr etholwyr: 75,214

20. Llanelli Dyffryn Aman: etholaeth bresennol Llanelli (ac eithrio wardiau Porth Tywyn, Cydweli, Pembre, Pontyberem, a Thrimsaran); ynghyd â'r wardiau canlynol yn etholaeth bresennol Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr: Rhydaman, Betws, Garnant, Glanaman, Llandybie, Penygroes, Pontaman, Cwarter Bach a Saron; ynghyd â'r wardiau canlynol yn etholaeth bresennol Castell-nedd:

Cwmllynfell, Gwauncaegurwen, a Brynaman Isaf yn ardal cyngor Castell-nedd Port Talbot; ynghyd â ward Pontarddulais yn etholaeth bresennol Gŵyr ac ardal cyngor Abertawe. Nifer yr etholwyr: 76,803.

21. Caerfyrddin: wardiau Sir Gaerfyrddin yn etholaeth bresennol Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro; ynghyd ag etholaeth bresennol Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr (ac eithrio wardiau Rhydaman, Betws, Garnant, Glanaman, Llandybie, Penygroes, Pontaman, Cwarter Bach a Saron); ynghyd â'r wardiau canlynol yn etholaeth bresennol Llanelli: Porth Tywyn, Cydweli, Pembre, Pontyberem, a Thrimaran. Nifer yr etholwyr: 74,910.

22. Canol a De Sir Benfro: fel y'i cynigir gan y CFfG, ond â'r enw Cleddau, o bosibl. Nifer yr etholwyr: 74,614.

23. Ceredigion Preseli: etholaeth Ceredigion Preseli fel y'i cynigir gan y CFfG. Nifer yr etholwyr: 76,269.

24. Canol a De Powys: etholaeth bresennol Brycheiniog a Sir Faesyfed; ynghyd â'r wardiau canlynol yn etholaeth bresennol Maldwyn: Blaen Hafren, Yr Ystog, Ceri, Llandinam, Llanidloes, Canol y Drenewydd, Dwyrain y Drenewydd, Y Drenewydd Gogledd Llanllwchaearn, Y Drenewydd Gorllewin Llanllwchaearn, a De y Drenewydd. Nifer yr etholwyr: 70,914.

25. Maldwyn Meirionydd Nant Conwy: etholaeth bresennol Maldwyn (ac eithrio wardiau Blaen Hafren, Yr Ystog, Ceri, Llandinam, Llanidloes, Canol y Drenewydd, Dwyrain y Drenewydd, Y Drenewydd Gogledd Llanllwchaearn, Y Drenewydd Gorllewin Llanllwchaearn, a De y Drenewydd); ynghyd â'r wardiau canlynol yn etholaeth bresennol Dwyfor Meirionydd: Aberdovey, Abermaw, Bala, Bowydd a Rhiw, Brithdir a Llanfachreth/Ganllwyd/Llanelltyd, Bryn-crug/Llanfihangel, Corris/Mawddwy, Diffwys a Maenofferen, Gogledd Dolgellau, De Dolgellau, Dyffryn Ardudwy, Harlech, Llanbedr, Llandderfel, Llangelynin, Llanuwchllyn, Penrhyndeudraeth, Dwyrain Porthmadog, Porthmadog-Tremadog, Gorllewin Porthmadog, Teigl, a Thrawsfynydd yn ardal cyngor Gwynedd; ynghyd â'r wardiau canlynol yn etholaeth bresennol Aberconwy: Betws-y-Coed, Crwst, Eglwysbach, Gower, Trefriw, ac Uwch Conwy yn ardal cyngor Conwy; ynghyd â wardiau Llangernyw ac Uwchaled yn etholaeth bresennol Gorllewin Clwyd ac ardal cyngor Conwy. Nifer yr etholwyr: 70,201.

26. Wrecsam: etholaeth bresennol Wrecsam (ac eithrio wardiau Dwyrain a Gorllewin Gresffordd; Dwyrain a De Gwersyllt; Gogledd Gwersyllt; Gorllewin Gwersyllt; Llai; Marford a Hoseley; ac Yr Orsedd); ynghyd ag etholaeth bresennol De Clwyd (ac eithrio wardiau Brymbo, Bryn Cefn, Corwen, Gwenfro, Llandrillo, Llangollen, a Brychdwn Newydd). Nifer yr etholwyr: 70,919.

27. Alun: y wardiau canlynol yn etholaeth bresennol Alun a Glannau Dyfrdwy: Dwyrain Bistre Bwcle, Gorllewin Bistre Bwcle, Mynydd Bwcle, Pentrobin Bwcle, Caergwrle, Higher Kinnerton, Yr Hôb, Llanfynydd, Penyffordd, a Threuddyn yn ardal cyngor Sir y Fflint; ynghyd â'r wardiau canlynol yn etholaeth bresennol Delyn: Argoed, Caerwys, Cilcain, Gwernaffield, Gwernymynydd, Coed Llai, Broncoed Yr Wyddgrug, Dwyrain Yr Wyddgrug, De Yr Wyddgrug, Gorllewin Yr

Wyddgrug, a New Brighton yn ardal cyngor Sir y Fflint; ynghyd â'r wardiau canlynol yn etholaeth bresennol Wrecsam: Dwyrain a Gorllewin Gresffordd; Dwyrain a De Gwersyllt; Gogledd Gwersyllt; Gorllewin Gwersyllt; Llai; Marford a Hoseley; ac Yr Orsedd yn ardal cyngor Wrecsam; ynghyd â'r wardiau canlynol yn etholaeth bresennol De Clwyd: Brymbo, Bryn Cefn, Gwenfro, a Brychdwn Newydd yn ardal cyngor Wrecsam. Nifer yr etholwyr: 71,051.

28. Glannau Dyfrdwy: etholaeth bresennol Alun a Glannau Dyfrdwy (ac eithrio wardiau Dwyrain Bistre Bwcle, Gorllewin Bistre Bwcle, Mynydd Bwcle, Pentrobin Bwcle, Caergwrle, Higher Kinnerton, Yr Hôb, Llanfynydd, Penyffordd, a Threuddyn); ynghyd ag etholaeth bresennol Delyn (ac eithrio wardiau Argoed, Caerwys, Cilcain, Gwernaffield, Gwernymynydd, Coed Llai, Broncoed Yr Wyddgrug, Dwyrain Yr Wyddgrug, De Yr Wyddgrug, Gorllewin Yr Wyddgrug, a New Brighton). Nifer yr etholwyr: 73,511.

29. Sir Ddinbych: ardal awdurdod lleol presennol Sir Ddinbych. Nifer yr etholwyr: 74,078.

30. Llandudno a Bae Colwyn: etholaeth bresennol Gorllewin Clwyd (ac eithrio'r wardiau hynny yn ardal cyngor Sir Ddinbych a wardiau Llangernyw ac Uwchaled yn ardal cyngor Conwy); ynghyd â'r wardiau canlynol yn etholaeth bresennol Aberconwy: Craig-y-Don, Deganwy, Gogarth, Llansanffraid, Marl, Mostyn, Penrhyn, Pensarn, a Thudno. Nifer yr etholwyr: 70,052.

31. Arfon Dwyfor: etholaeth bresennol Arfon; ynghyd â'r wardiau canlynol yn etholaeth bresennol Dwyfor Meirionnydd: Aberdaron, Abererch, Abersoch, Botwnnog, Clynnog, Criccieth, Dolbenmaen, Efail Newydd/Buan, Llanaelhaearn, Llanbedrog, Llanengan, Llanystumdwy, Morfa Nefyn, Nefyn, Gogledd Pwllheli, De Pwllheli, a Thudweiliog yn ardal cyngor Gwynedd; ynghyd â'r wardiau canlynol yn etholaeth bresennol Aberconwy: Bryn, Caerhun, Capel Ulo, Conwy, Pandy, a Phant-yr-Afon/Penmaenan yn ardal cyngor Conwy. Nifer yr etholwyr: 70,556.

32. Ynys Môn: fel y'i cynigir gan y CFFG. Nifer yr etholwyr: 52,415.

Cynigion Amgen ar gyfer Etholaethau – Cymru Gyfan

Hoffwn gynnig awgrymiadau amgen ar gyfer rhai o'r etholaethau a gynigiwyd yn adroddiad cychwynnol y CFFG. Cytunaf yn llwyr â rhai etholaethau arfaethedig, e.e. Torfaen, Canol a De Sir Benfro; mewn achosion eraill, byddwn yn gwneud mân newidiadau; ac mewn rhai ardaloedd, hoffwn gynnig awgrymiadau hollol wahanol. Gan fod fy awgrymiadau yn effeithio ar lawer o ardaloedd yng Nghymru, a byddent yn cael sgil-ffeithiau ar etholaethau eraill, hoffwn gyflwyno cynllun amgen ar gyfer Cymru gyfan yn hytrach na chanolbwyntio ar un ardal yn unig. Yn flaenorol, cyflwynais gynnig amgen (BCW-9647) yn ymwneud â Merthyr ac Aberdâr, Islwyn, Pontypridd a Chaerdydd, ond hoffwn fynd â hyn ymhellach.

Rwy'n rhestru'r etholaethau a awgrymaf, gan ddechrau yn y de ddwyrain a gorffen yn y gogledd orllewin, a lle mae'r rhain yn wahanol i gynigion y CFFG, ceisiaf roi rhesymau dros y newidiadau a awgrymir. Byddaf yn anfon dadansoddiadau manylach o'r etholaethau a gynigiaf, gan gynnwys mapiau, mewn dogfennau cysylltiedig.

1. Sir Fynwy

Cytunaf â chynnig y CFFG, h.y. etholaeth wedi'i ffurfio yn gyfan gwbl o ardal awdurdod lleol Sir Fynwy.

Nifer yr etholwyr: 72,681.

2. Torfaen

Cytunaf â chynnig y CFFG, h.y. etholaeth wedi'i ffurfio yn gyfan gwbl o ardal awdurdod lleol Torfaen.

Nifer yr etholwyr: 70,591.

3. Dwyrain Casnewydd

Nid oes unrhyw beth o'i le â chynnig y CFFG, ond hoffwn awgrymu cynnig amgen ar gyfer Gorllewin Casnewydd sy'n cynnwys ward Betws. Gan fod Betws yn etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd, nid wyf yn rhagweld y byddai hyn yn achosi unrhyw broblemau.

Felly, byddai fy etholaeth Dwyrain Casnewydd yn cynnwys Dwyrain Casnewydd fel y'i cynigir gan y CFFG, ac eithrio Betws.

Nifer yr etholwyr: 70,503.

4. Gorllewin Casnewydd a De Islwyn

Mae'r CFFG wedi cynnig etholaeth Gorllewin Casnewydd a Chaerffili, ond credaf fod gan Orllewin Casnewydd gysylltiadau hanesyddol a chymunedol cryfach ag ardal ddeheuol etholaeth bresennol Islwyn, e.e. Rhisga, Trecelyn. Ceir cysylltiadau ffordd da, ond hefyd, yn bwysig, ceir cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da ar fws a thrên. Hefyd, ceir cysylltiadau addysgol oherwydd Coleg Gwent. Byddwn yn dadlau bod Caerffili, ac eithrio Bedwas a Machen o bosibl, yn edrych tuag at Gaerdydd ac ardaloedd eraill o Forgannwg hanesyddol yn hytrach na Chasnewydd. Yn draddodiadol, wrth gwrs, roedd ardal de Islwyn, fel Casnewydd, yn rhan o Sir Fynwy, ond roedd y rhan fwyaf o Gaerffili ym Morgannwg.

Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys y wardiau canlynol yn etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd: Allt-yr-yn, Betws, Y Gaer, Y Graig, Maerun, Tŷ-du, a Pharc Tredegar;

ynghyd â'r:

wardiau canlynol yn etholaeth bresennol Islwyn: Abercarn, Crosskeys, Maesycwmmmer, Trecelyn, Pontllanfraith, Dwyrain Rhisga, Gorllewin Rhisga, ac Ynysddu yn ardal cyngor Caerffili.

Nifer yr etholwyr: 73,261.

5. Blaenau Gwent a Gogledd Islwyn

Yn yr un modd, gellid uno hanner gogleddol etholaeth bresennol Islwyn ag etholaeth bresennol Blaenau Gwent. Unwaith eto, ceir cysylltiadau cymunedol a hanesyddol da a byddai'r etholaeth hon yn dilyn daearyddiaeth naturiol cymoedd Sirhowi ac Ebwy.

Byddai'r etholaeth hon yn cael ei ffurfio o etholaeth bresennol Blaenau Gwent;

ynghyd â'r:

wardiau canlynol yn etholaeth bresennol Islwyn: Aberbargoed, Argoed, Y Coed Duon, Cefn Fforest, Crymlyn, Pengam, a Phenmaen yn ardal cyngor Caerffili.

Nifer yr etholwyr: 76,127.

6. Caerffili a Chwm Rhymni

Credaf y dylid uno etholaeth bresennol Caerffili gyfan â wardiau Cwm Rhymni yn etholaeth bresennol Merthyr Tudful a Rhymni. Byddai hyn yn ffurfio etholaeth sy'n gydlynus yn ddaearyddol ac sydd hefyd yn rhannu llawer o gysylltiadau hanesyddol a chymunedol. Ac eithrio dwy ward, byddai'r etholaeth hon yn cwmpasu'r un ardal â hen gyngor Cwm Rhymni. Yn ogystal â chysylltiadau ffordd da, ceir gwasanaeth trên rheolaidd o'r de i'r gogledd sy'n cysylltu'r rhan fwyaf o'r cymunedau hyn. Byddai'r etholaeth hon hefyd yn cynnwys Nelson; mae'r CFFG wedi cynnig cynnwys Nelson ym Merthyr Tudful ac Aberdâr fel yr unig

ward yn sir Gaerffili. Caerffili a Chwm Rhymni yw'r enw y byddwn yn ei roi ar gyfer yr etholaeth hon, er bod posibiladau eraill yn bodoli, e.e. Cwm Rhymni; Caerffili a Rhymni; Caerffili.

Byddai'r etholaeth hon yn cael ei ffurfio o etholaeth bresennol Caerffili;

ynghyd â'r:

wardiau canlynol yn etholaeth bresennol Merthyr Tudful a Rhymni: Cwm Darren, Moriah, Tredegar Newydd, Pontlotyn, a Thwyn Carno.

Nifer yr etholwyr: 76, 039

7. Merthyr Tudful ac Aberdâr

Cytunaf â'r cynnig i ffurfio etholaeth Merthyr Tudful ac Aberdâr, ond byddwn yn dadlau y dylai etholaeth o'r fath gynnwys wardiau Gogledd Aberaman a De Aberaman. Mae'r ddwy ward hyn yn ffurfio rhan o ardal Aberdâr, ar ôl bod yn rhan o hen Ddosbarth Trefol Aberdâr yn hanesyddol. Mae ffin ward Gogledd Aberaman ychydig gannoedd o lathenni o ganol tref Aberdâr ac mae'n gwahanu tai yn yr un stryd. Yn ogystal â chysylltiadau cymunedol a hanesyddol, ceir llawer o gysylltiadau eraill, e.e. addysg – mae bron pob disgybl ysgol uwchradd yn y ddwy ward yn mynychu ysgolion yn etholaeth arfaethedig Merthyr Tudful ac Aberdâr, naill ai Ysgol Gymunedol Aberdâr, Ysgol Rhydywaun neu Ysgol Gatholig Esgob Hedley. Byddai ychwanegu'r ddwy ward hyn i Ferthyr ac Aberdâr yn rhoi'r sedd y tu allan i'r amrediad etholiadol, ond gellir datrys hyn wrth symud Nelson i sedd gyda wardiau eraill yn sir Gaerffili lle mae'n perthyn yn fwy naturiol (gweler 6. Caerffili a Chwm Rhymni).

Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys etholaeth Merthyr Tudful ac Aberdâr fel y'i cynigiwyd gan y CFFG;

ynghyd â:

Gogledd Aberaman, a De Aberaman, o etholaeth arfaethedig Pontypridd;

hepgor:

Nelson.

Nifer yr etholwyr: 74,805.

8. Rhondda ac Ogwr

Mae diffyg yn sedd Rhondda fel y cynigiwyd gan y CFFG, gan nad oes cysylltiadau ffordd uniongyrchol rhwng y tair ward fwyaf deheuol (Brynna, Llanharan, a Llanhari) a gweddill yr etholaeth. Mae'r Comisiwn yn hawlio bod y rhain yn bodoli ond ymddengys bod yr unig gysylltiadau ffordd yn golygu croesi etholaethau cyfagos, er rhaid cyfaddef y gallai hynny fod am bellter byr yn unig. Byddwn yn cynnig symud wardiau Llanharan a Llanhari i etholaeth

Pontypridd lle mae ganddynt gysylltiadau agos â chymunedau cyfagos fel Tonysguboriau. Byddwn hefyd yn cynnig symud pedair o wardiau sir Pen-y-bont ar Ogwr sy'n ffurfio rhan o etholaeth Ogwr i etholaeth estynedig Rhondda ac Ogwr. Byddai hyn yn galluogi ffurfio etholaeth Pen-y-bont fwy synhwyrol nad yw'n hepgor wardiau sy'n agos at ganol y dref (e.e. Cefn Glas, a Llangewydd and Brynhyfryd) fel y gwelir yng nghynigion presennol y CFFG ar gyfer Pen-y-bont. Yn ogystal, byddai hyn yn sicrhau cyswllt ffordd rhwng Brynna a gweddill yr etholaeth trwy ward Penprysg.

Byddai'r etholaeth yn cynnwys etholaeth Rhondda fel y'i cynigir gan y CFFG;

yng hyd â:

Melin Ifan Ddu, Nant-y-moel, Bro Ogwr, a Phenprysg o etholaeth arfaethedig Pen-y-

bont;

hepgor:

Llanharan, a Llanhari.

Nifer yr etholwyr: 74,059.

9. Pontypridd

Mae eithrio Gogledd Aberaman a De Aberaman o'r etholaeth arfaethedig hon (fel yr esbonnir uchod yn 7. Merthyr Tudful ac Aberdâr) yn dod â nifer yr etholwyr o dan yr amrediad etholiadol, ond gellir datrys hyn wrth ychwanegu Pont-y-clun o etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd, a wardiau Llanharan a Llanhari o etholaeth arfaethedig Rhondda. Mae Pont-y-clun eisoes yn rhan o etholaeth bresennol Pontypridd, â chysylltiadau cymunedol, hanesyddol, trafniadaeth ac addysgol agos â wardiau cyfagos fel Tonysguboriau a Thref Llantrisant.

Yn yr un modd, mae gan Lanharan a Llanhari gysylltiadau agos â chymunedau fel Pont-y-clun a Thonysguboriau.

Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys etholaeth Pontypridd fel y'i cynigir gan y CFFG;

yng hyd â:

Phont-y-clun o etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd;

yng hyd â:

Llanharan, a Llanhari o etholaeth arfaethedig Rhondda;

hepgor:

Gogledd Aberaman, a De Aberaman.

Nifer yr etholwyr: 76,188.

10. Gogledd Orllewin Caerdydd

Mae ychwanegu Pont-y-clun at etholaeth Pontypridd (fel yr esbonnir uchod) yn golygu bod etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd bellach islaw'r amrediad etholiadol. Fodd bynnag, gellir ad-drefnu gweddill sedd arfaethedig Gorllewin Caerdydd ynghyd â seddi arfaethedig eraill Caerdydd (a Phenarth) i ffurfio pedair etholaeth sy'n dod o fewn yr amrediad gofynnol. Mae'n ymddangos bod awydd ar ran y CFFG i geisio, cymaint â phosibl, i gadw seddi presennol hyd yn oed pan nad yw hyn bob amser yn briodol. Mae'n debyg mai'r enghraifft orau yn yr achos hwn yw sedd arfaethedig De Caerdydd a Phenarth, sydd mewn gwirionedd yn cynnwys, i bob pwrpas, ward ddatgysylltiedig ar ffurf Trowbridge.

Gellir ad-drefnu Caerdydd (a Phenarth), wrth hepgor Pont-y-clun, mewn sawl ffordd gydlynus sy'n well na'r cynigion presennol, ac nid oes unrhyw reswm i hyn beidio â bod yn wir hyd yn oed lle gallai olygu newid enwau etholaethau. Mae'r ateb a awgrymaf yn un yn unig ymhlith llawer.

Byddwn yn cynnig sedd newydd Gogledd Orllewin Caerdydd sy'n cynnwys y wardiau canlynol yn etholaeth bresennol Gorllewin Caerdydd: Creigiau/Sain Ffagan, Y Tyllgoed, Llandaf, Pentyrch, Radyr a Riverside;

ynghyd â'r:

wardiau canlynol yn etholaeth bresennol Gogledd Caerdydd: Ystum Taf, Rhiwbeina, a'r Eglwys Newydd a Thongwynlais;

ynghyd â:

ward Ffynnon Taf yn etholaeth bresennol Pontypridd yn ardal cyngor Rhondda Cynon Taf.

Er y lleolir Ffynnon Taf yn Rhondda Cynon Taf mewn gwirionedd, mae gan y pentref lawer o gysylltiadau â maestrefi gogledd a gorllewin Caerdydd, yn ogystal â chysylltiadau trafniadaeth da iawn trwy brif linell reilffordd y cymoedd a gwasanaethau bysiau Dinas Caerdydd.

Nifer yr etholwyr: 70,123.

11. Gogledd Ddwyrain Caerdydd

Byddwn yn cynnig sedd newydd Gogledd Ddwyrain Caerdydd, wedi'i ffurfio o wardiau canlynol etholaeth bresennol Gogledd Caerdydd: Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Llysfaen, Llanisien, a Phontpennau/Yr Hen Laneirwg;

ynghyd â:

wardiau Cathays, Cyncoed a Phentwyn yn etholaeth bresennol Canol Caerdydd.

Nifer yr etholwyr: 72,371.

12. De Ddwyrain Caerdydd

Mae etholaeth bresennol De Caerdydd a Phenarth wedi ymddangos ychydig yn rhyfedd erioed, yn ymestyn o faestrefi dwyreiniol eithaf Caerdydd yr holl ffordd ar hyd yr arfordir i'r Sili. Rwyf wedi clywed yr awgrym y cafodd, yn ôl pob tebyg, ei ffurfio o ddarnau nad oeddent yn perthyn yn unman arall. Cymhlethwyd hyn ymhellach gan benderfyniad y Comisiwn i symud Llanrhymni a Thredelerch o'r etholaeth ond i gadw Trowbridge, a wahanwyd bellach i bob pwrpas oddi wrth weddill yr etholaeth. Er bod cysylltiad (yn dechnegol) rhwng Trowbridge a'r Sblot ar fap, mae'n ymddangos nad oes cysylltiadau ffordd uniongyrchol â gweddill yr etholaeth, a'r unig ffordd i deithio rhwng y ddwy ran yn uniongyrchol fyddai cerdded ar hyd lan y môr, gan osgoi llanw uchel yn ddelfrydol. Hyd yn oed heb y broblem hon, byddai'n ymddangos yn amlwg i mi y byddai'r rhannau o'r sedd sydd yn y dwyrain yn gweddu'n well ag ardaloedd yng nghanol Caerdydd fel Adamsdown, a byddai Penarth yn gweddu'n well ag ardaloedd yn ne orllewin Caerdydd fel Treganna.

Fel y cyfryw, byddwn yn cynnig etholaeth newydd De Ddwyrain Caerdydd, wedi'i ffurfio o wardiau Adamsdown, Penylan a Phlasnewydd yn etholaeth bresennol Canol Caerdydd;

ynghyd â:

wardiau Butetown, Llanrhymni, Tredelerch, Y Sblot a Trowbridge yn etholaeth bresennol De Caerdydd a Phenarth.

Nifer yr etholwyr: 70,120.

13. De Orllewin Caerdydd a Phenarth

Fel y nodir uchod, byddwn yn awgrymu bod Penarth a'r cymunedau cyfagos yn cysylltu'n well â de orllewin Caerdydd nag y maent â'r dwyrain.

Rwy'n cynnig etholaeth newydd De Orllewin Caerdydd a Phenarth sy'n cynnwys wardiau Caerau, Treganna a Threlai yn etholaeth bresennol Gorllewin Caerdydd;

ynghyd â:

ward Grangetown yn etholaeth bresennol De Caerdydd a Phenarth;

ynghyd â'r:

wardiau canlynol yn etholaeth bresennol De Caerdydd a Phenarth: Cornerswell, Llandochau, Plymouth, St Augustine's, Stanwell, ac Y Sili yn ardal cyngor Bro Morgannwg;

ynghyd â:

ward Dinas Powys yn etholaeth bresennol Bro Morgannwg ac yn ardal cyngor Bro Morgannwg.

Nifer yr etholwyr: 71,147

14. Bro Morgannwg

Cytunaf â'r etholaeth Bro Morgannwg fel y'i cynigir gan y CFFG.

Nifer yr etholwyr: 70,426

15. Pen-y-bont

Mae etholaeth Pen-y-bont fel y cynigiwyd gan y CFFG wedi methu â chynnwys nifer o wardiau sy'n agos at ganol y dref, gan gynnwys ardaloedd y mae pobl yn eu hystyried yn gyffredinol "ym Mhen-y-bont ar Ogwr", h.y. Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr; Cefn Glas; a Llangewydd and Brynhyfryd. Byddai trosglwyddo pedair o wardiau presennol Ogwr i etholaeth Rhondda (ac Ogwr) yn golygu y gellid cynnwys y wardiau hyn ym Mhen-y-bont.

Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys etholaeth Pen-y-bont fel y'i cynigir gan y CFFG;

ynghyd â:

Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr; Cefn Glas; a Llangewydd and Brynhyfryd o etholaeth arfaethedig Aberafan Porthcawl;

hepgor:

Melin Ifan Ddu, Nant-y-moel, Bro Ogwr, a Phenprysg.

Nifer yr etholwyr: 75,785.

16. Aberafan Porthcawl

Cytunaf â'r etholaeth hon ond byddwn yn hepgor wardiau Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr; Cefn Glas; a Llangewydd and Brynhyfryd, gan y teimlaf y gellir eu gwasanaethu yn well wrth eu cynnwys yn etholaeth Pen-y-bont (fel y nodir uchod). Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i wardiau Coed-ffranc Ganol a Gorllewin Coed-ffranc yn etholaeth bresennol Aberafan gael eu cynnwys yn etholaeth Aberafan Porthcawl.

Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys etholaeth Aberafan Porthcawl fel y'i cynigir gan y CFFG;

ynghyd â:

Chanol Coed-ffranc, a Gorllewin Coed-ffranc o etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd;

hepgor:

Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr; Cefn Glas; a Llangewydd and Brynhyfryd.

Nifer yr etholwyr: 73,459.

17. Castell-nedd a Dwyrain Abertawe

Nid yw etholaeth Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd fel y'i cynigiwyd gan y CFFG yn cynnwys wardiau yng nghwm Tawe/dyffryn Aman, gan eu cynnwys yn lle hynny yn etholaeth Aberhonddu a Maesyfed. Rwy'n deall y ddadl bod tebygrwydd rhwng y wardiau hyn a wardiau yn ardal cwm Tawe uchaf o amgylch Ystradgynlais, ond rwyf hefyd o'r farn, mewn byd delfrydol, y byddai hyn yn cyfiawnhau trosglwyddo'r olaf i etholaeth newydd yn hytrach na'r cyntaf. Fel y cyfryw, byddwn yn cadw'r mwyafrif o'r wardiau hyn mewn etholaeth Castell-nedd a Dwyrain Abertawe. Credaf hefyd y byddai tair ward yng nghwm Tawe/dyffryn Aman sy'n ffinio â Sir Gaerfyrddin (h.y. Cwmllynfell, Gwauncaegurwen, a Brynaman Isaf) yn addas i'w cynnwys mewn etholaeth sy'n cwmpasu gweddill dyffryn Aman oherwydd y cysylltiadau agos sydd rhyngddynt.

Byddai'r etholaeth a gynigaf yn hepgor wardiau Coed-ffranc Ganol a Gorllewin Coed-ffranc yn etholaeth bresennol Aberafan (fel yr esbonnir yn 16. Aberafan Porthcawl uchod) a ward St. Thomas yn etholaeth bresennol Dwyrain Abertawe. Gan fod y mwyafrif o'r etholaeth hon ar hyn o bryd yn etholaeth bresennol Castell-nedd, byddwn yn defnyddio'r enw Castell-nedd a Dwyrain Abertawe.

Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys etholaeth Castell-nedd a Dwyrain Abertawe fel y'i cynigir gan y CFFG;

yng hyd â:

wardiau Yr Allt-wen, Godre'r graig, Pontardawe, Rhos, Trebannws ac Ystalyfera o etholaeth arfaethedig Aberhonddu a Maesyfed;

hepgor:

Coed-ffranc Ganol, Gorllewin Coed-ffranc, a St. Thomas.

Nifer yr etholwyr: 76,726.

18. Canol Abertawe

Byddai'r etholaeth hon yn debyg iawn i etholaeth Canol a Gogledd Abertawe a gynigiwyd gan y CFFG, ond byddai'n cynnwys St. Thomas ond yn hepgor Pontarddulais, a fyddai, yn fy marn i, yn addas ar gyfer sedd sy'n cwmpasu Llanelli a dyffryn Aman. Mae cynnwys 'Gogledd' yn yr enw hefyd yn ymddangos braidd yn ddiangen.

Byddai'r etholaeth hon yn cael ei ffurfio o etholaeth Canol a Gogledd Abertawe fel y'i cynigir gan y CFFG;

yng hyd â:

St. Thomas o etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd;

hepgor:

Pontarddulais.

Nifer yr etholwyr: 76,759.

19. Gorllewin Abertawe

Cytunaf ag etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr fel y cynigiwyd gan y CFFG, er bod cynnwys 'Gŵyr' yn yr enw yn ymddangos yn ddiangen ar gyfer etholaeth a ffurfiwyd yn gyfan gwbl o wardiau o ran orllewinol ardal cyngor Abertawe.

Nifer yr etholwyr: 75,214

20. Llanelli Dyffryn Aman

Mae cynnig presennol y CFFG ar gyfer Llanelli yn gwthio'r etholaeth yn agos iawn at Gaerfyrddin er mwyn bodloni'r cwota angenrheidiol o ran nifer yr etholwyr. Mewn gwirionedd, byddai gorsaf reilffordd Caerfyrddin, sydd ond ar draws yr afon o ganol y dref, wedi'i lleoli yn etholaeth Llanelli. Rwy'n credu mai ateb gwell fyddai ehangu sedd Llanelli i'r gogledd-ddwyrain i gynnwys dyffryn Aman, sy'n ardal lled-ddiwydiannol sydd â llawer yn gyffredin â Llanelli. Byddai'r sedd hon hefyd yn cynnwys tair ward yng Nghastell-nedd Port Talbot, sef Cwmllynfell, Gwauncaegurwen, a Brynaman Isaf, sydd mewn ardal lle mae'r briffordd drwodd yn croesi'r ffin nifer o weithiau rhwng Sir Gaerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot. Byddai'r etholaeth hefyd yn cynnwys ward Pontarddulais yn ardal Abertawe, sydd â chysylltiadau agos â wardiau cyfagos yn Sir Gaerfyrddin. Yn gyfnewid, byddai'r etholaeth yn colli wardiau yn y gorllewin a'r gogledd orllewin a fyddai â chysylltiad mwy priodol â Chaerfyrddin.

Byddai'r etholaeth hon yn cael ei ffurfio o etholaeth bresennol Llanelli (gan hepgor wardiau Porth Tywyn, Cydweli, Pembre, Pontyberem, a Thrimsaran);

ynghyd â'r:

wardiau canlynol yn etholaeth bresennol Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr: Rhydaman, Betws, Garnant, Glanaman, Llandybie, Penygroes, Pontaman, Cwarter Bach a Saron;

ynghyd â:

wardiau Cwmllynfell, Gwauncaegurwen a Brynaman Isaf yn etholaeth bresennol Castell-nedd;

ynghyd â:

ward Pontarddulais yn etholaeth bresennol Gŵyr.

Nifer yr etholwyr: 76,803.

21. Caerfyrddin

Credaf y gwellir gwella'r sedd hon wrth ychwanegu wardiau o orllewin a gogledd orllewin etholaeth arfaethedig Llanelli ar draul wardiau o ddyffryn Aman.

Byddai'r etholaeth hon yn cael ei ffurfio o wardiau Sir Gaerfyrddin yn etholaeth bresennol Sir Gaerfyrddin a De Sir Benfro;

ynghyd ag:

etholaeth bresennol Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr (gan hepgor wardiau Rhydaman, Betws, Garnant, Glanaman, Llandybie, Penygroes, Pontaman, Cwarter Bach a Saron);

ynghyd â:

wardiau Porth Tywyn, Cydweli, Pembre, Pontyberem, a Thrimsaran yn etholaeth bresennol Llanelli.

Nifer yr etholwyr: 74,910.

22. Canol a De Sir Benfro

Cytunaf â'r etholaeth arfaethedig Canol a De Sir Benfro fel y'i cynigir gan y CFfG, ond â'r enw Cleddau, o bosibl.

Nifer yr etholwyr: 74,614.

23. Ceredigion Preseli

Cytunaf â'r etholaeth Ceredigion Preseli fel y'i cynigir gan y CFfG.

Nifer yr etholwyr: 76,269.

24. Canol a De Powys

Mae'r CFfG wedi cynnig etholaeth estynedig Aberhonddu a Maesyfed sy'n cynnwys wardiau yng nghymoedd ardal Castell-nedd Port Talbot. Teimlaf fod hyn yn amhriodol a byddai'n well ehangu'r etholaeth i'r gogledd i gynnwys wardiau o dde Sir Drefaldwyn sy'n debyg o ran cymeriad.

Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys etholaeth bresennol Brycheiniog a Sir Faesyfed;

ynghyd â'r:

wardiau canlynol yn etholaeth bresennol Maldwyn: Blaen Hafren, Yr Ystog, Ceri, Llandinam, Llanidloes, Canol y Drenewydd, Dwyrain y Drenewydd, Y Drenewydd Gogledd Llanllwchaearn, Y Drenewydd Gorllewin Llanllwchaearn, a De y Drenewydd.

Nifer yr etholwyr: 70,914.

25. Maldwyn Meirionydd Nant Conwy

Rwy'n cynnig gosod gweddill etholaeth bresennol Maldwyn gydag ardaloedd deheuol awdurdodau lleol Gwynedd a Chonwy. Roedd y rhan fwyaf o'r ardaloedd hyn yng Ngwynedd a Chonwy yn rhan o etholaeth flaenorol Meirionydd Nant Conwy a fu'n bodoli tan 2010.

Byddai'r etholaeth hon yn cael ei ffurfio o etholaeth bresennol Maldwyn (ac eithrio wardiau Blaen Hafren, Yr Ystog, Ceri, Llandinam, Llanidloes, Canol y Drenewydd, Dwyrain y Drenewydd, Y Drenewydd Gogledd Llanllwchaearn, Y Drenewydd Gorllewin Llanllwchaearn, a De y Drenewydd);

ynghyd â'r:

wardiau canlynol yn etholaeth bresennol Dwyfor Meirionnydd: Aberdovey, Abermaw, Bala, Bowydd a Rhiw, Brithdir a Llanfachreth/Ganllwyd/Llanelltyd, Bryn-crug/Llanfihangel, Corris/Mawddwy, Diffwys a Maenofferen, Gogledd Dolgellau, De Dolgellau, Dyffryn Ardudwy, Harlech, Llanbedr, Llandderfel, Llangelynin, Llanuwchllyn, Penrhyndeudraeth, Dwyrain Porthmadog, Porthmadog-Tremadog, Gorllewin Porthmadog, Teigl, a Thrawsfynydd, yn ardal cyngor Gwynedd;

ynghyd â'r:

wardiau canlynol yn etholaeth bresennol Aberconwy: Betws-y-Coed, Crwst, Eglwysbach, Gower, Trefriw, ac Uwch Conwy yn ardal cyngor Conwy;

ynghyd â'r:

wardiau canlynol yn etholaeth bresennol Gorllewin Clwyd: Llangernyw, ac Uwchaled yn ardal cyngor Conwy.

Nifer yr etholwyr: 70,201.

26. Wrecsam

Mewn manau eraill, mewn sefyllfaoedd lle mae nifer yr etholwyr o fewn ardal awdurdod lleol yn cyfateb i'r amrediad etholiadol, mae'r CFfG wedi cynnig y dylid ffurfio etholaeth o'r awdurdod lleol hwnnw, h.y. Mynwy a Thorfaen. Credaf fod hwn yn ddull synhwyrol a byddwn yn cefnogi'r un dull ar gyfer Sir Ddinbych. Mae hyn yn gadael dau awdurdod lleol yng ngogledd ddwyrain Cymru y gellir eu rhannu rhwng tair etholaeth, h.y. Wrecsam a Sir y Fflint.

Rwy'n cynnig ffurfio etholaeth Wrecsam o etholaeth bresennol Wrecsam (ac eithrio wardiau Dwyrain a Gorllewin Gresffordd; Dwyrain a De Gwersyllt; Gogledd Gwersyllt; Gorllewin Gwersyllt; Llai; Marford a Hoseley; ac Yr Orsedd);

ynghyd ag:

etholaeth bresennol De Clwyd (ac eithrio wardiau Brymbo, Bryn Cefn, Corwen, Gwenfro, Llandrillo, Llangollen, a Brychdwn Newydd).

Nifer yr etholwyr: 70,919.

27. Alun

Rwy'n cynnig etholaeth sy'n seiliedig ar ddyffryn Alun ac sy'n cynnwys wardiau o rannau deheuol a gorllewinol Sir y Fflint a rhan ogleddol Wrecsam.

Byddai'r etholaeth hon wedi'i ffurfio o'r wardiau canlynol yn etholaeth bresennol Alun a Glannau Dyfrdwy: Dwyrain Bistre Bwcle, Gorllewin Bistre Bwcle, Mynydd Bwcle, Pentrobin Bwcle, Caergwrle, Higher Kinnerton, Yr Hôb, Llanfynydd, Penyffordd, a Threuddyn yn ardal cyngor Sir y Fflint;

ynghyd â'r:

wardiau canlynol yn etholaeth bresennol Delyn: Argoed, Caerwys, Cilcain, Gwernaffield, Gwernymynydd, Coed Llai, Broncoed Yr Wyddgrug, Dwyrain Yr Wyddgrug, De Yr Wyddgrug, Gorllewin Yr Wyddgrug, a New Brighton yn ardal cyngor Sir y Fflint;

ynghyd â'r:

wardiau canlynol yn etholaeth bresennol Wrecsam: Dwyrain a Gorllewin Gresffordd; Dwyrain a De Gwersyllt; Gogledd Gwersyllt; Gorllewin Gwersyllt; Llai; Marford a Hoseley; ac Yr Orsedd yn ardal cyngor Wrecsam;

ynghyd â'r:

wardiau canlynol yn etholaeth bresennol De Clwyd: Brymbo, Bryn Cefn, Gwenfro, a Brychdwn Newydd yn ardal cyngor Wrecsam.

Nifer yr etholwyr: 71,051.

28. Glannau Dyfrdwy

Rwy'n cynnig etholaeth sy'n seiliedig ar rannau gogleddol a dwyreiniol ardal cyngor Sir y Fflint.

Byddai'r etholaeth hon wedi'i ffurfio o etholaeth bresennol Alun a Glannau Dyfrdwy (ac eithrio wardiau Dwyrain Bistre Bwcle, Gorllewin Bistre Bwcle, Mynydd Bwcle, Pentrobin Bwcle, Caergwrle, Higher Kinnerton, Yr Hôb, Llanfynydd, Penyffordd, a Threuddyn);

ynghyd ag:

etholaeth bresennol Delyn (ac eithrio wardiau Argoed, Caerwys, Cilcain, Gwernaffield, Gwernymynydd, Coed Llai, Broncoed Yr Wyddgrug, Dwyrain Yr Wyddgrug, De Yr Wyddgrug, Gorllewin Yr Wyddgrug, a New Brighton).

Nifer yr etholwyr: 73,511.

29. Sir Ddinbych

Fel yr esbonnir uchod (26. Wrecsam) credaf y dylid ffurfio un etholaeth ar gyfer holl ardal awdurdod lleol Sir Ddinbych gan fod hyn yn unol â'r amrediad etholiadol statudol.

Nifer yr etholwyr: 74,078.

30. Llandudno a Bae Colwyn

Rwy'n cynnig etholaeth wedi'i ffurfio o ran ogledd orllewinol ardal cyngor Conwy yn seiliedig ar drefi Llandudno a Bae Colwyn, gan barhau ar hyd yr arfordir i gynnwys Abergele, Tywyn a Bae Cinmel. Mae cysylltiadau trafniadaeth da yn bodoli yma gyda ffordd yr A55 a phrif reilffordd gogledd Cymru yn rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin ar draws yr etholaeth hon.

Byddai'r etholaeth hon wedi'i ffurfio o etholaeth bresennol Gorllewin Clwyd (ac eithrio'r wardiau hynny yn ardal cyngor Sir Ddinbych a wardiau Llangernyw ac Uwchaled yn ardal cyngor Conwy);

ynghyd â'r:

wardiau canlynol yn etholaeth bresennol Aberconwy: Craig-y-Don, Deganwy, Gogarth, Llansanffraid, Marl, Mostyn, Penrhyn, Pensarn, a Thudno.

Nifer yr etholwyr: 70,052.

31. Arfon Dwyfor

Rwy'n cynnig y dylid ffurfio etholaeth o ran ogledd orllewinol Gwynedd a rhan ogledd-orllewinol gyfagos ardal cyngor Conwy. Mae gan y wardiau yn rhan Conwy'r etholaeth hon gysylltiadau ffordd a rheilffordd da â Bangor, sef y dref fwyaf yng Ngwynedd. Mae'r etholaeth hon yn cynnwys y rhan fwyaf o hen Sir Gaernarfon a gellid defnyddio'r enw fel enw amgen, er y byddwn i'n ffafrio'r Arfon Dwyfor, sy'n ddwyieithog.

Byddai'r etholaeth hon yn cael ei ffurfio o etholaeth bresennol Arfon;

ynghyd â'r:

wardiau canlynol yn etholaeth bresennol Dwyfor Meirionnydd: Aberdaron, Abererch, Abersoch, Botwnnog, Clynnog, Criccieth, Dolbenmaen, Efail Newydd/Buan, Llanaelhaearn,

Llanbedrog, Llanengan, Llanystumdwy, Morfa Nefyn, Nefyn, Gogledd Pwllheli, De Pwllheli, a Thudweiliog, yn ardal cyngor Gwynedd;

ynghyd â'r

wardiau canlynol yn etholaeth bresennol Aberconwy: Bryn, Caerhun, Capel Ulo, Conwy, Pandy, a Phant-yr-afon/Penmaenan yn ardal cyngor Conwy.


Nifer yr etholwyr: 70,556.

32. Ynys Môn


Fel y'i cynigiwyd gan y CFFG, h.y. etholaeth bresennol Ynys Môn.

Nifer yr etholwyr: 52,415.

SIR FYNWY		Cod ONS	Nifer Etholwyr y Ward Etholiadol 2020	Awdurdod Lleol	Etholaethau Presennol Seneddol
Enw Ward Etholiadol					
Caer-went	W05000791	1,699	Sir Fynwy	Mynwy CC	
Cantref	W05000793	1,668	Sir Fynwy	Mynwy CC	
Y Castell	W05000794	1,611	Sir Fynwy	Mynwy CC	
Croesonnen	W05000795	1,609	Sir Fynwy	Mynwy CC	
Crucornau Fawr	W05000796	1,773	Sir Fynwy	Mynwy CC	
Devauden	W05000797	1,228	Sir Fynwy	Mynwy CC	
Dixton gydag Osbaston	W05000799	1,968	Sir Fynwy	Mynwy CC	
Drybridge	W05000800	3,034	Sir Fynwy	Mynwy CC	
Goetre Fawr	W05000801	2,045	Sir Fynwy	Mynwy CC	
Grofield	W05000803	1,308	Sir Fynwy	Mynwy CC	
Lansdown	W05000804	1,644	Sir Fynwy	Mynwy CC	
Larkfield	W05000805	1,484	Sir Fynwy	Mynwy CC	
Llanbadoc	W05000806	1,099	Sir Fynwy	Mynwy CC	
Bryn Llanelli	W05000807	3,286	Sir Fynwy	Mynwy CC	
Llan-ffwyst Fawr	W05000808	1,971	Sir Fynwy	Mynwy CC	
Llangybi Fawr	W05000809	1,477	Sir Fynwy	Mynwy CC	
Llanofer	W05000810	1,781	Sir Fynwy	Mynwy CC	
Llandeilo Gresynni	W05000811	1,527	Sir Fynwy	Mynwy CC	
Llanwenarth Tu Draw	W05000812	1,128	Sir Fynwy	Mynwy CC	
Y Maerdy	W05000813	1,430	Sir Fynwy	Mynwy CC	
Llanfihangel Troddi	W05000815	985	Sir Fynwy	Mynwy CC	
Overmonnow	W05000816	1,662	Sir Fynwy	Mynwy CC	
Porth Sgiwed	W05000817	1,885	Sir Fynwy	Mynwy CC	
Y Priordy	W05000818	1,546	Sir Fynwy	Mynwy CC	
Rhaglan	W05000819	1,618	Sir Fynwy	Mynwy CC	
St.Arvals	W05000821	1,304	Sir Fynwy	Mynwy CC	
St.Christopher s	W05000822	1,756	Sir Fynwy	Mynwy CC	
St.Kingsmark	W05000823	2,346	Sir Fynwy	Mynwy CC	
St.Mary s	W05000824	1,539	Sir Fynwy	Mynwy CC	
Drenewydd Gelli-farch	W05000826	1,850	Sir Fynwy	Mynwy CC	
Thornwell	W05000828	1,961	Sir Fynwy	Mynwy CC	
Tryleg Unedig	W05000829	2,249	Sir Fynwy	Mynwy CC	
Brynbuga	W05000830	1,930	Sir Fynwy	Mynwy CC	
Wyesham	W05000832	1,701	Sir Fynwy	Mynwy CC	
Castell Caldicot	W05000792	1,768	Sir Fynwy	Dwyrain Casnewydd CC	
Dewstow	W05000798	1,404	Sir Fynwy	Dwyrain Casnewydd CC	
Green Lane	W05000802	1,482	Sir Fynwy	Dwyrain Casnewydd CC	
Mill	W05000814	2,256	Sir Fynwy	Dwyrain Casnewydd CC	
Rogiet	W05000820	1,365	Sir Fynwy	Dwyrain Casnewydd CC	
Hafren	W05000825	1,325	Sir Fynwy	Dwyrain Casnewydd CC	
The Elms	W05000827	2,523	Sir Fynwy	Dwyrain Casnewydd CC	
West End	W05000831	1,456	Sir Fynwy	Dwyrain Casnewydd CC	
Sir Fynwy		72,681	100.0% Awdurdod Lleol		
Mynwy CC		59,102	81.3% Etholaeth Seneddol		
Dwyrain Casnewydd CC		13,579	18.7% Etholaeth Seneddol		




TORFAEN				
Enw Ward Etholiadol	Cod ONS	Nifer Etholwyr y Ward Etholiadol 2020	Awdurdod Lleol	Etholaethau Presennol Seneddol
		70,591		
Abersychan	W05000767	5,044	Torfaen	Torfaen CC
Blaenavon	W05000768	4,575	Torfaen	Torfaen CC
Bryn-wern	W05000769	1,295	Torfaen	Torfaen CC
Coed Efa	W05000770	1,859	Torfaen	Torfaen CC
Gogledd Croesyceiliog	W05000993	81	Torfaen	Torfaen CC
Cwmynysgoi	W05000773	987	Torfaen	Torfaen CC
Fairwater	W05000774	3,918	Torfaen	Torfaen CC
Greenmeadow	W05000775	2,028	Torfaen	Torfaen CC
Llantarnam	W05000776	4,864	Torfaen	Torfaen CC
New Inn	W05000779	4,777	Torfaen	Torfaen CC
Panteg	W05000780	5,828	Torfaen	Torfaen CC
Pontnewydd	W05000781	5,186	Torfaen	Torfaen CC
Pontnewynydd	W05000782	1,129	Torfaen	Torfaen CC
Pont-y-pwl	W05000783	1,438	Torfaen	Torfaen CC
St.Cadocs a Phen-y-garn	W05000784	1,341	Torfaen	Torfaen CC
Llanfihangel Llantarnam	W05000785	3,317	Torfaen	Torfaen CC
Snatchwood	W05000786	1,819	Torfaen	Torfaen CC
Trefddyn	W05000787	2,463	Torfaen	Torfaen CC
Two Locks	W05000788	4,715	Torfaen	Torfaen CC
Cwmbran	W05000789	4,207	Torfaen	Torfaen CC
Waunfelin	W05000790	1,847	Torfaen	Torfaen CC
Gogledd Croesyceiliog	W05000771	2,664	Torfaen	Mynwy CC
De Croesyceiliog	W05000772	1,460	Torfaen	Mynwy CC
Gogledd Llanyrafon	W05000777	1,803	Torfaen	Mynwy CC
De Llanyrafon	W05000778	1,946	Torfaen	Mynwy CC
Torfaen		70,591		100 0% Awdurdod Lleol
Torfaen CC		62,718		88.8% Etholaeth Seneddol
Mynwy CC		7,873		11.2% Etholaeth Seneddol




**DWYRAIN
CASNEWYDD**

Enw Ward Etholiadol	Cod ONS	Nifer Etholwyr y Ward Etholiadol 2020	Awdurdod Lleol	Etholaethau Presennol Seneddol
		70,503		
Alway	W05000834	5,931	Casnewydd	Dwyrain Casnewydd CC
Beechwood	W05000835	5,611	Casnewydd	Dwyrain Casnewydd CC
Langstone	W05000840	3,878	Casnewydd	Dwyrain Casnewydd CC
Liswerry	W05000841	9,110	Casnewydd	Dwyrain Casnewydd CC
Llan-wern	W05000842	3,544	Casnewydd	Dwyrain Casnewydd CC
Ringland	W05000846	5,968	Casnewydd	Dwyrain Casnewydd CC
Sain Silian	W05000848	6,287	Casnewydd	Dwyrain Casnewydd CC
Victoria	W05000852	5,121	Casnewydd	Dwyrain Casnewydd CC
Caerllion	W05000837	6,603	Casnewydd	Gorllewin Casnewydd CC
Malpas	W05000843	6,114	Casnewydd	Gorllewin Casnewydd CC
Pillgwenlly	W05000845	5,174	Casnewydd	Gorllewin Casnewydd CC
Shaftesbury	W05000849	3,778	Casnewydd	Gorllewin Casnewydd CC
Stow Hill	W05000850	3,384	Casnewydd	Gorllewin Casnewydd CC
Casnewydd		70,503		100.0% Awdurdod Lleol
Dwyrain Casnewydd CC		45,450		64.5% Etholaeth Seneddol
Gorllewin Casnewydd CC		25,053		35.5% Etholaeth Seneddol



GORLLEWIN CASNEWYDD A DE ISLWYN

Enw Ward Etholiadol	Cod ONS	Nifer Etholwyr y Ward Etholiadol 2020	Awdurdod Lleol	Etholaethau Presennol Seneddol
		73,261		
Allt-yr-yn	W05000833	7,088	Casnewydd	Gorllewin Casnewydd CC
Betws	W05000836	5,656	Casnewydd	Gorllewin Casnewydd CC
Y Gaer	W05000838	6,543	Casnewydd	Gorllewin Casnewydd CC
Y Graig	W05000839	5,053	Casnewydd	Gorllewin Casnewydd CC
Maerun	W05000844	4,897	Casnewydd	Gorllewin Casnewydd CC
Tŷ-du	W05000847	9,421	Casnewydd	Gorllewin Casnewydd CC
Parc Tredegar	W05000851	3,329	Casnewydd	Gorllewin Casnewydd CC
Abercarn	W05000719	4,139	Caerffili	Islwyn CC
Crosskeys	W05000726	2,527	Caerffili	Islwyn CC
Maescwmmmer	W05000922	1,811	Caerffili	Islwyn CC
Trecelyn	W05000736	4,892	Caerffili	Islwyn CC
Pontllanfraith	W05000927	6,343	Caerffili	Islwyn CC
Dwyrain Rhisga	W05000928	4,611	Caerffili	Islwyn CC
Gorllewin Rhisga	W05000929	3,973	Caerffili	Islwyn CC
Ynysddu	W05000749	2,978	Caerffili	Islwyn CC
Casnewydd		41,987	57.3% Awdurdod Lleol	
Caerffili		31,274	42.7% Awdurdod Lleol	
Gorllewin Casnewydd CC		41,987	57.3% Etholaeth Seneddol	
Islwyn CC		31,274	42.7% Etholaeth Seneddol	



BLAENAU GWENT A GOGLEDD ISLWYN

Enw Ward Etholiadol Cod ONS


Penrhyn	W05000916	3,874	Conwy	Aberconwy CC
Pensarn	W05000917	2,274	Conwy	Aberconwy CC
Tudno	W05000918	3,591	Conwy	Aberconwy CC
Conwy		70,052	100.0% Awdurdod Lleol	
Gorllewin Clwyd CC		43,433	62.0% Etholaeth Seneddol	
Aberconwy CC		26,619	38.0% Etholaeth Seneddol	



ARFON DWYFOR Enw Ward Etholiadol	Cod ONS	Nifer Etholwyr y Ward Etholiadol 2020	Awdurdod Lleol	Etholaethau Presenol Seneddol
		70,556		
Arllechwedd	W05000046	1,091	Gwynedd	Arfon CC
Bethel	W05000048	1,025	Gwynedd	Arfon CC
Bontnewydd	W05000049	865	Gwynedd	Arfon CC
Cadnant	W05000054	1,514	Gwynedd	Arfon CC
Cwm-y-Glo	W05000058	753	Gwynedd	Arfon CC
Deiniol	W05000059	920	Gwynedd	Arfon CC
Deiniolen	W05000060	1,463	Gwynedd	Arfon CC
Dewi	W05000061	1,301	Gwynedd	Arfon CC
Garth	W05000068	556	Gwynedd	Arfon CC
Gerlan	W05000069	1,696	Gwynedd	Arfon CC
Glyder	W05000070	1,257	Gwynedd	Arfon CC
Y Groeslon	W05000071	1,374	Gwynedd	Arfon CC
Hendre	W05000073	940	Gwynedd	Arfon CC
Hirael	W05000074	1,066	Gwynedd	Arfon CC
Llanberis	W05000078	1,613	Gwynedd	Arfon CC
Llanllyfni	W05000082	915	Gwynedd	Arfon CC
Llanrug	W05000083	1,396	Gwynedd	Arfon CC
Llanwnda	W05000085	1,507	Gwynedd	Arfon CC
Marchog	W05000087	1,579	Gwynedd	Arfon CC
Menai (Bangor)	W05000088	1,548	Gwynedd	Arfon CC
Menai (Caernarfon)	W05000089	1,724	Gwynedd	Arfon CC
Ogwen	W05000092	1,697	Gwynedd	Arfon CC
Peblig (Caernarfon)	W05000093	1,603	Gwynedd	Arfon CC
Penisrwaun	W05000094	1,365	Gwynedd	Arfon CC
Pentir	W05000096	2,159	Gwynedd	Arfon CC
Penygroes	W05000097	1,369	Gwynedd	Arfon CC
Seiont	W05000103	2,233	Gwynedd	Arfon CC
Tal-y-sarn	W05000104	1,399	Gwynedd	Arfon CC
Tregarth a Mynydd Llandygai	W05000107	1,628	Gwynedd	Arfon CC
Waunfawr	W05000110	1,298	Gwynedd	Arfon CC
Y Felinheli	W05000111	1,803	Gwynedd	Arfon CC
Aberdaron	W05000041	698	Gwynedd	Dwyfor Meirionnydd CC
Abererch	W05000043	986	Gwynedd	Dwyfor Meirionnydd CC
Abersoch	W05000045	519	Gwynedd	Dwyfor Meirionnydd CC
Botwnnog	W05000050	734	Gwynedd	Dwyfor Meirionnydd CC
Clynnog	W05000055	736	Gwynedd	Dwyfor Meirionnydd CC
Criccieth	W05000057	1,280	Gwynedd	Dwyfor Meirionnydd CC
Dolbenmaen	W05000063	900	Gwynedd	Dwyfor Meirionnydd CC
Efail-newydd/Buan	W05000067	1,026	Gwynedd	Dwyfor Meirionnydd CC
Llanaelhaearn	W05000075	1,187	Gwynedd	Dwyfor Meirionnydd CC
Llanbedrog	W05000077	709	Gwynedd	Dwyfor Meirionnydd CC
Llanengan	W05000080	847	Gwynedd	Dwyfor Meirionnydd CC
Llanystumdwy	W05000086	1,547	Gwynedd	Dwyfor Meirionnydd CC
Morfa Nefyn	W05000090	945	Gwynedd	Dwyfor Meirionnydd CC
Nefyn	W05000091	1,003	Gwynedd	Dwyfor Meirionnydd CC
Gogledd Pwllheli	W05000101	1,528	Gwynedd	Dwyfor Meirionnydd CC
De Pwllheli	W05000102	1,310	Gwynedd	Dwyfor Meirionnydd CC
Tudweiliog	W05000108	668	Gwynedd	Dwyfor Meirionnydd CC
Bryn	W05000115	1,390	Conwy	Aberconwy CC
Caerhun	W05000116	1,677	Conwy	Aberconwy CC
Capel Ulo	W05000117	1,284	Conwy	Aberconwy CC
Conwy	W05000119	3,295	Conwy	Aberconwy CC
Pandy	W05000139	1,463	Conwy	Aberconwy CC
Pant-yr-afon/Penmaenan	W05000140	2,167	Conwy	Aberconwy CC
Gwynedd		59,280		84.0% Awdurdod Lleol
Conwy		11,276		16.0% Awdurdod Lleol
Arfon CC		42,657		60.5% Etholaeth Seneddol
Dwyfor Meirionnydd CC		16,623		23.6% Etholaeth Seneddol
Aberconwy CC		11,276		16.0% Etholaeth Seneddol





YNYS MÔN


Enw Ward Etholiadol	Cod ONS	Nifer Etholwyr y Ward Etholiadol 2020	Awdurdod Lleol	Etholaethau Presennol Seneddol
		52,415		
Aethwy	W05000981	5,175	Ynys Môn	Ynys Môn CC
Bro Aberffraw	W05000982	3,023	Ynys Môn	Ynys Môn CC
Bro Rhosyr	W05000983	3,919	Ynys Môn	Ynys Môn CC
Caergybi	W05000984	5,504	Ynys Môn	Ynys Môn CC
Canolbarth Môn	W05000985	6,537	Ynys Môn	Ynys Môn CC
Lliffon	W05000986	4,104	Ynys Môn	Ynys Môn CC
Lligwy	W05000987	4,810	Ynys Môn	Ynys Môn CC
Seiriol	W05000988	4,650	Ynys Môn	Ynys Môn CC
Talybolion	W05000989	4,762	Ynys Môn	Ynys Môn CC
Twrcelyn	W05000990	5,497	Ynys Môn	Ynys Môn CC
Ynys Gybi	W05000991	4,434	Ynys Môn	Ynys Môn CC
Ynys Môn		52415	100.0% Awdurdod Lleol	
Ynys Môn CC		52,415	100.0% Etholaeth Seneddol	




Awdurdodau Leol





Etholaethau Presennol




Cynigion Cychwynnol




Awdurdodau Lleol





Etholaethau Presennol




Cynigion Cychwynnol




Awdurdodau Lleol



Etholaethau Presennol



Cynigion Cychwynnol



BCW-9823/ [REDACTED] / Llanilltud Fawr

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 01 Tachwedd 2021 15:54

I: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Fy adborth

Foneddigion,

Roeddwn wedi fy synnu o glywed am y newidiadau arfaethedig i Ddinas Powys yn yr ystyriaethau newid sydd ar ddod.

Sut yn y byd y gallai'r newid arfaethedig hwn fod yn rhesymegol?

Rwy'n cofio cydweithiwr i fy nhad yn symud i Ddinas Powys ac ni allai ei gydweithwyr yng Nghaerdydd gredu ei fod 'yn symud yr holl ffordd mas fan'na – mor bell o Gaerdydd'.

Ni all Dinas Powys fyth fod yng Nghaerdydd, felly pam symud y ffin?

Yn gywir

[REDACTED]

[REDACTED]

[REDACTED]

[REDACTED]

BCW-9824/ [REDACTED] / Bro Morgannwg

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 01 Tachwedd 2021 16:00

I: BCW <bcw@boundaries.wales>

Testun: Mae Dinas Powys yn perthyn i Fro Morgannwg.

Nid yw Dinas Powys erioed wedi bod yn gysylltiedig â Chaerdydd ac ni ddylai hynny byth ddigwydd. Ym Mro Morgannwg y mae, ac felly y bu hi erioed. Ni fydd trigolion yn gweld unrhyw fanteision yn sgil newid y ffiniau. Mae bryn mawr hyd yn oed rhwng Caerdydd a Dinas sy'n awgrymu ble y dylai'r ffin hon fod. Nid wyf am fod yn un o ddinasyddion Caerdydd, rwyf am barhau i fod yn un o ddinasyddion y Fro.

Rwy'n anfodlon iawn.

[REDACTED]

BCW-9826/ [REDACTED] / Anhysbys

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 01 Tachwedd 2021 16:26

I: BCW <bcw@boundaries.wales>

Testun: Ffin Dinas Powys

Rwy'n gwrthwynebu'r newid arfaethedig yn llwyr. Mae Dinas Powys mor agos i'r Barri, byddai'n wallgof hyd yn oed ystyried newid o'r fath. Pwy yw'r twpsod hyn sy'n eistedd o amgylch bwrdd ac yn ceisio meddwl am wariant diangen na ellir ei gyfiawnhau mewn unrhyw ffordd. Gadewch bethau fel y maen nhw a pheidiwch ag ymyrryd!!!!

BCW-9827/ [REDACTED] / Abertawe

Mae'n ymddangos bod hwn yn gam synhwyrol tuag at gydbwyso'r targed o ran nifer y boblogaeth â ffiniau ystyrion. Doedd hi byth yn gwneud synnwyr i gysylltu'r Gŵyr ag unrhyw le heblaw am Orllewin Abertawe ac, ychwaith, i gysylltu Dwyrain Abertawe ag unrhyw le heblaw am Gastell-nedd. Mae'r ffordd y mae cymunedau'r cwm wedi'u grwpio yn edrych yn well hefyd. O ystyried dulliau cyfathrebu modern, mae angen llai o gynghorwyr ac Aelodau o'r Senedd / MRS ac ati.

BCW-9828/ [REDACTED] / Bangor

Mae'r cynnig i ddiddymu etholaeth Arfon a chynnwys Bangor yn etholaeth Aberconwy yn dangos diffyg dealltwriaeth clir o hanes a chysylltiadau cymunedol unigryw yr ardal.

Y cyfieithiad llythrennol o etholaeth Arfon yw "Gyferbyn ag Ynys Môn"; byddai diddymu'r etholaeth hon a chaniatáu i Fangor, ynghyd â threfi llai fel Bethesda, Tregarth a Llandegai, gael eu cynnwys yn etholaeth Aberconwy, yn anwybyddu hunaniaeth a hanes lleol yr ardal unigryw hon yn llwyr. Ers tro, mae Arfon wedi bod yn gadarnle i'r Gymraeg, ac mae ystyriaeth o'r Gymraeg yn ofyniad cyfreithiol o dan Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol 2015, a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol a gyflwynwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru. Mae'n debygol iawn na fyddai pryderon siaradwyr Cymraeg yn cael eu mynegi cystal gan AS a etholir gan etholaeth lle mae'r mwyafrif yn siarad Saesneg.

Yn hanesyddol, mae'r cysylltiadau rhwng Bangor a threfi llechi fel Bethesda, Llanberis, Dinorwig a Blaenau Ffestiniog yn gryf iawn gan eu bod yn rhannu diwylliant a hunaniaeth sy'n seiliedig ar eu treftadaeth ddiwydiannol. Mae hyn yn creu hunaniaeth a rennir sy'n wahanol iawn i'r un yn etholaeth Aberconwy. Gellir olrhain tarddiad Prifysgol Bangor yn ôl i weithwyr o'r trefi hyn, a oedd yn rhagweld bywyd gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Nid yw demograffeg Aberconwy, lle ceir oedran cyfartalog sylweddol uwch yn ystadegol, yn cyfateb yn dda â Bangor a Gwynedd yn ei chyfanrwydd, sydd â phoblogaeth llawer iau. Mae'r ddwy ran hyn o gymdeithas yn haeddu cynrychiolaeth sy'n ystyried yr hyn sydd o fudd iddynt.

Yr hyn sy'n achosi mwy o ofid yw y byddai Ysbyty Gwynedd, prif gyflogwr Bangor, yn cael ei symud allan o'r ward etholiadol ar gyfer Bangor. Byddai hyn, o bosibl, yn arwain at wrthdaro buddiannau mawr – ni fyddai gan Fangor, dinas "ymylol" ar gyrion etholaeth Aberconwy, unrhyw aelod etholedig yn ei chynrychioli yn San Steffan ar gyfer ei phrif gyflogwr. At hynny, byddai'r newid arfaethedig mewn ffiniau etholiadol yn rhannu'r ardal a ystyrir yn Fangor gan ei thrigolion yn ddwy. Ni fyddai aelwydydd sy'n byw milltir a hanner i ffwrdd oddi wrth eu stryd fawr yn cael eu cynrychioli o gwbl. Mae hwn yn mynd yn gwbl groes i ffocws presennol llywodraeth San Steffan ar hunanbenderfyniaeth lleol, Codi'r Gwastad ac adfywio canol trefi.

Byddai hefyd yn gadael sedd arfaethedig Dwyfor-Meirionnydd heb un ddinas, gan wanhau safle'r ardal fel etholaeth.

Mae gwahaniaethau daearyddol ac economaidd-gymdeithasol y ddwy etholaeth hyn yn ormod o gyfrifoldeb i un AS. Byddai hyn yn gadael Bangor, ardal sy'n cynnwys pocedi mawr o amddifadedd, ar y cyrion heb gynrychiolaeth.

Rwy'n erfyn arnoch i ailystyried y cynnig hwn, er budd yr holl gymunedau dan sylw.

BCW-9829/ [REDACTED] / Caersŵs

Rwy'n llwyr gefnogi'r cynigion i uno Sir Drefaldwyn i gyd â De Clwyd, a elwir nawr yn Glyndŵr. Mae hyn yn amlwg yn bodloni'r gofyniad o ran y boblogaeth o dan friff y Comisiwn Ffiniau ac yn cadw ffiniau presennol etholaeth bresennol Sir Drefaldwyn, gan ei huno â chymuned wledig debyg Clwyd, sy'n wynebu materion tebyg o ran trafndiaeth, amaethyddiaeth, addysg wledig a thai. Yn gyffredinol, bydd yr ardaloedd gyda'i gilydd yn creu un etholaeth wledig fawr, ond un lle y bydd un aelod yn gyfarwydd iawn ag anghenion yr etholwyr.

BCW-9830/ [REDACTED] / Conwy

Rwy'n cefnogi ffiniau newydd Aberconwy gan eu bod yn cynrychioli ardal naturiol o gysylltiadau lleol a chymunedol sy'n dwyn ynghyd Gonwy, Llandudno, Llanrwst, Betws-y-coed a Bethesda.

BCW-9831/ [REDACTED] / Y Fenni

Fi yw Cynghorydd ward Bryn Llanelli ac rwy'n aelod o Gabinet Cyngor Sir Fynwy. Rwy'n llwyr gefnogi'r cynnig i gysoni ffin Cyngor Sir Fynwy â ffin yr Etholaeth Seneddol arfaethedig. Mae'n gyfleus ac yn rhesymegol iawn bod ganddynt yr un ffiniau.

Rwyf hefyd wedi bod yn ymgeisydd dros Etholaeth Caerffili deirgwaith. Rwy'n cefnogi etholaeth arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili. Mae gan Gaerffili a wardiau gorllewinol Casnewydd gysylltiadau da ar hyd yr A468. Gellir teithio'n hwylus drwy ward Bedwas, Trethomas a Machen, ac yna ymlaen i ward Graig, ac oddi yno i wardiau eraill Gorllewin Casnewydd.

Rwy'n gwerthfawrogi bod yn rhaid i etholaeth Caerffili golli rhai wardiau gogleddol wedyn er mwyn sicrhau bod Islwyn y maint cywir. Mae cysylltiadau da rhwng wardiau Hengoed, Llanbradach, St Catwg ac Ystrad Mynach a wardiau fel Maesycwmer yn Islwyn. Fodd bynnag, nid wyf yn deall pam nad yw ward Nelson wedi'i chynnwys gydag Islwyn hefyd, gan fod ganddi gysylltiadau cryf â'r pedair ward arall, yn enwedig Ystrad Mynach. Nodaf y byddai cynnwys y ward hon yn Islwyn yn agosach at y cwota etholiadol na'r etholaeth arfaethedig.

Rwy'n gobeithio y bydd y sylwadau hyn yn ddefnyddiol i'r Comisiwn wrth iddo benderfynu ar ei gynigion cychwynnol.

BCW-9832/ [REDACTED] / Wrecsam

Rwy'n cytuno â'r cynigion presennol

BCW-9833/ [REDACTED] / Bangor

Mae'r cynnig i ddiddymu etholaeth Arfon a chynnwys Bangor yn etholaeth Aberconwy yn dangos diffyg dealltwriaeth clir o hanes a chysylltiadau cymunedol unigryw yr ardal.

Y cyfieithiad llythrennol o etholaeth Arfon yw "Gyferbyn ag Ynys Môn"; byddai diddymu'r etholaeth hon a chaniatáu i Fangor, ynghyd â threfi llai fel Bethesda, Tregarth a Llandegai, gael eu cynnwys yn etholaeth Aberconwy, yn anwybyddu hunaniaeth a hanes lleol yr ardal unigryw hon yn llwyr. Ers tro, mae Arfon wedi bod yn gadarnle i'r Gymraeg, ac mae ystyriaeth o'r Gymraeg yn ofyniad cyfreithiol o dan Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol 2015, a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol a gyflwynwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru. Mae'n debygol iawn na fyddai pryderon siaradwyr Cymraeg yn cael eu mynegi cystal gan AS a etholir gan etholaeth lle mae'r mwyafrif yn siarad Saesneg.

Yn hanesyddol, mae'r cysylltiadau rhwng Bangor a threfi llechi fel Bethesda, Llanberis, Dinorwig a Blaenau Ffestiniog yn gryf iawn gan eu bod yn rhannu diwylliant a hunaniaeth sy'n seiliedig ar eu treftadaeth ddiwydiannol. Mae hyn yn creu hunaniaeth a rennir sy'n wahanol iawn i'r un yn etholaeth Aberconwy. Gellir olrhain tarddiad Prifysgol Bangor yn ôl i weithwyr o'r trefi hyn, a oedd yn rhagweld bywyd gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Nid yw demograffeg Aberconwy, lle ceir oedran cyfartalog sylweddol uwch yn ystadegol, yn cyfateb yn dda â Bangor a Gwynedd yn ei chyfanrwydd, sydd â phoblogaeth llawer iau. Mae'r ddwy ran hyn o gymdeithas yn haeddu cynrychiolaeth sy'n ystyried yr hyn sydd o fudd iddynt.

Yr hyn sy'n achosi mwy o ofid yw y byddai Ysbyty Gwynedd, prif gyflogwr Bangor, yn cael ei symud allan o'r ward etholiadol ar gyfer Bangor. Byddai hyn, o bosibl, yn arwain at wrthdaro buddiannau mawr – ni fyddai gan Fangor, dinas "ymylol" ar gyrion etholaeth Aberconwy, unrhyw aelod etholedig yn ei chynrychioli yn San Steffan ar gyfer ei phrif gyflogwr. At hynny, byddai'r newid arfaethedig mewn ffiniau etholiadol yn rhannu'r ardal a ystyrir yn Fangor gan ei thrigolion yn ddwy. Ni fyddai aelwydydd sy'n byw milltir a hanner i ffwrdd oddi wrth eu stryd fawr yn cael eu cynrychioli o gwbl. Mae hwn yn mynd yn gwbl groes i ffocws presennol llywodraeth San Steffan ar hunanbenderfyniaeth lleol, Codi'r Gwastad ac adfywio canol trefi.

Byddai hefyd yn gadael sedd arfaethedig Dwyfor-Meirionnydd heb un ddinas, gan wanhau safle'r ardal fel etholaeth.

Mae gwahaniaethau daearyddol ac economaidd-gymdeithasol y ddwy etholaeth hyn yn ormod o gyfrifoldeb i un AS. Byddai hyn yn gadael Bangor, ardal sy'n cynnwys pocedi mawr o amddifadedd, ar y cyrion heb gynrychiolaeth.

Rwy'n erfyn arnoch i ailystyried y cynnig hwn, er budd yr holl gymunedau dan sylw.

BCW-9834/ [REDACTED] / Yr Wyddgrug

Mwy o newid er mwyn newid. Ni fyddai'n gwneud unrhyw wahaniaeth i drigolion a byddai unrhyw arbedion cost yn rhithiol ac yn cael eu llyncu gan gostau ategol cudd. Rwyf wedi gweld llawer o newidiadau, gan gynnwys enwau'r sir rwyf yn byw ynddi, heb unrhyw fantais ganfyddadwy. Yn hytrach, mae angen buddsoddi mewn gwelliannau go iawn a fyddai'n arwain at newidiadau cadarnhaol, er enghraifft tyllau mewn ffyrdd, gwella gofal i'r henoed a mwy o fuddsoddiad mewn addysg.

BCW-9835/ [REDACTED] / Casnewydd

Bûm yn byw ym Mhilogwenlli ers 10 mlynedd ac rwyf nawr yn byw ar gyrion Maendy yn Ward Llyswry.

Mae Pilgwenlli a Maendy fel gefeilliaid, ond wedi'u gwahanu gan afon Wysg. Mae gan y ddwy ardal gymuned amrywiol o ran ethnigrwydd.

Mae Pilgwenlli a Maendy yn wynebu'r un materion sy'n effeithio ar ardaloedd canol dinas ac mae asiantaethau statudol a gwirfoddol yn cytuno hefyd fod y cymunedau yr un peth.

Mae'n gwneud synnwyr perffaith i gynnwys holl wardiau canol dinas Casnewydd mewn un etholaeth, felly rwy'n cefnogi'r cynnig hwn i newid y ffin.

BCW-9836/ [REDACTED] / Deganwy

Rwyf o blaid y newidiadau i etholaeth Aberconwy. Mae'r cynigion yn gwneud synnwyr gan fod cysylltiadau hanesyddol rhwng cymunedau Llandudno a Bangor ac maent yn debyg iawn. Arferai'r ddwy ardal hyn gael eu cynnwys yn etholaeth Bangor gynt.

BCW-9837/ [REDACTED] / Wrecsam

Credaf y dylai wardiau Brymbo a Minera gael eu cynnwys ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam, gan fod ganddynt gysylltiadau hanesyddol â'r dref. Dylai Johnstown, Pant a De Ponciau fod yn rhan o etholaeth newydd Sir Drefaldwyn a Glyndŵr.

BCW-9838/ [REDACTED] / Caerffili

Annwyl Syr/Madam,

Cyfeiriaf at y cynigion cychwynnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer ad-drefnu ffiniau etholaethau, a hoffwn wneud y sylwadau canlynol i'w hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori gychwynnol.

Fel un o drigolion Llanbradach, rwy'n siomedig ynghylch y cynnig cychwynnol i rannu etholaeth bresennol Caerffili yn bedair etholaeth newydd, yn enwedig yr awgrym y dylai rhan isaf etholaeth bresennol Caerffili gael ei chysylltu â rhan orllewinol etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd i greu etholaeth newydd Gorllewin Casnewydd a Chaerffili.

Cefais fy magu ym Medwas ac nid wyf erioed wedi teimlo bod yna gysylltiad â Chasnewydd o ran unrhyw weithgareddau hamdden na busnes – i Gaerdydd y byddaf yn mynd i'r perwyl hwnnw. Un o'r prif resymau dros hyn yw bod cysylltiadau teithio llawer gwell rhwng fy nghartref a Chaerdydd, boed mewn car neu ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r cysylltiadau ffyrdd i Gaerdydd yn llawer gwell na'r rhai i Gasnewydd, a phetawn i'n teithio ar y trê, byddai'n rhaid i mi fynd i Gaerdydd gyntaf.

Mae pob un o'm cymdogion rwyf wedi siarad â nhw o'r un farn nad yw ceisio cysylltu ein cymuned ni â Chasnewydd yn hytrach na Chaerdydd yn gwneud unrhyw synnwyr o gwbl ac ni fyddai'n cael ei groesawu.

Credaf fod nifer o ardaloedd sy'n rhan o etholaeth Islwyn ar hyn o bryd a fyddai'n uniaethu'n fwy â Chasnewydd o gymharu â fy nghymuned i, ac mae gan lawer o'r cymunedau hynny yn Islwyn gysylltiadau trafndiaeth llawer gwell â Dinas Casnewydd.

I orffen, hoffwn ofyn i'r Comisiwn ailystyried y cynigion ar gyfer Caerffili a'r ardal gyfagos, a newid y cynigion hynny er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'n well deimladau a dymuniadau trigolion fel fi sy'n byw yn Llanbradach

Rwyf ar ddeall bod Wayne David, yr AS dros Gaerffili, wedi gwneud gwrthgynnig manwl a hyfyw.

BCW-9839/ [REDACTED] / Bangor

Mae'r cynnig i ddiddymu etholaeth Arfon a chynnwys Bangor yn etholaeth Aberconwy yn dangos diffyg dealltwriaeth clir o hanes a chysylltiadau cymunedol unigryw yr ardal.

Y cyfieithiad llythrennol o etholaeth Arfon yw "Gyferbyn ag Ynys Môn"; byddai diddymu'r etholaeth hon a chaniatáu i Fangor, ynghyd â threfi llai fel Bethesda, Tregarth a Llandegai, gael eu cynnwys yn etholaeth Aberconwy, yn anwybyddu hunaniaeth a hanes lleol yr ardal unigryw hon yn llwyr. Ers tro, mae Arfon wedi bod yn gadarnle i'r Gymraeg, ac mae ystyriaeth o'r Gymraeg yn ofyniad cyfreithiol o dan Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol 2015, a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol a gyflwynwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru. Mae'n debygol iawn na fyddai pryderon siaradwyr Cymraeg yn cael eu mynegi cystal gan AS a etholir gan etholaeth lle mae'r mwyafrif yn siarad Saesneg.

Yn hanesyddol, mae'r cysylltiadau rhwng Bangor a threfi llechi fel Bethesda, Llanberis, Dinorwig a Blaenau Ffestiniog yn gryf iawn gan eu bod yn rhannu diwylliant a hunaniaeth sy'n seiliedig ar eu treftadaeth ddiwydiannol. Mae hyn yn creu hunaniaeth a rennir sy'n wahanol iawn i'r un yn etholaeth Aberconwy. Gellir olrhain tarddiad Prifysgol Bangor yn ôl i weithwyr o'r trefi hyn, a oedd yn rhagweld bywyd gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Nid yw demograffeg Aberconwy, lle ceir oedran cyfartalog sylweddol uwch yn ystadegol, yn cyfateb yn dda â Bangor a Gwynedd yn ei chyfanrwydd, sydd â phoblogaeth llawer iau. Mae'r ddwy ran hyn o gymdeithas yn haeddu cynrychiolaeth sy'n ystyried yr hyn sydd o fudd iddynt.

Yr hyn sy'n achosi mwy o ofid yw y byddai Ysbyty Gwynedd, prif gyflogwr Bangor, yn cael ei symud allan o'r ward etholiadol ar gyfer Bangor. Byddai hyn, o bosibl, yn arwain at wrthdaro buddiannau mawr – ni fyddai gan Fangor, dinas "ymylol" ar gyrion etholaeth Aberconwy, unrhyw aelod etholedig yn ei chynrychioli yn San Steffan ar gyfer ei phrif gyflogwr. At hynny, byddai'r newid arfaethedig mewn ffiniau etholiadol yn rhannu'r ardal a ystyrir yn Fangor gan ei thrigolion yn ddwy. Ni fyddai aelwydydd sy'n byw milltir a hanner i ffwrdd oddi wrth eu stryd fawr yn cael eu cynrychioli o gwbl. Mae hwn yn mynd yn gwbl groes i ffocws presennol llywodraeth San Steffan ar hunanbenderfyniaeth lleol, Codi'r Gwastad ac adfywio canol trefi.

Byddai hefyd yn gadael sedd arfaethedig Dwyfor-Meirionnydd heb un ddinas, gan wanhau safle'r ardal fel etholaeth.

Mae gwahaniaethau daearyddol ac economaidd-gymdeithasol y ddwy etholaeth hyn yn ormod o gyfrifoldeb i un AS. Byddai hyn yn gadael Bangor, ardal sy'n cynnwys pocedi mawr o amddifadedd, ar y cyrion heb gynrychiolaeth.

Rwy'n erfyn arnoch i ailystyried y cynnig hwn, er budd yr holl gymunedau dan sylw.

BCW-9840/ [REDACTED] / Penmaenmawr

Mae'r cynnig ar gyfer etholaeth newydd Aberconwy yn ymddangos yn un synhwyrol iawn i mi ac rwy'n ei gefnogi.

BCW-9841/ [REDACTED] / Caerffili

Annwyl Syr/Madam,

Cyfeiriai at y cynigion cychwynnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer ad-drefnu ffiniau etholaethau, a hoffwn wneud y sylwadau canlynol i'w hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori gychwynnol.

Fel un o drigolion Caerffili, rwy'n siomedig ynghylch y cynnig cychwynnol i rannu etholaeth bresennol Caerffili yn bedair etholaeth newydd, yn enwedig yr awgrym y dylai rhan isaf etholaeth bresennol Caerffili gael ei chysylltu â rhan orllewinol etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd i greu etholaeth newydd Gorllewin Casnewydd a Chaerffili.

Rwyf yn byw yng Nghaerffili ac nid wyf erioed wedi teimlo bod yna gysylltiad â Chasnewydd o ran unrhyw weithgareddau hamdden na busnes – i Gaerdydd y byddaf yn mynd i'r perwyl hwnnw. Un o'r prif resymau dros hyn yw bod cysylltiadau teithio llawer gwell rhwng fy nghartref a Chaerdydd, boed mewn car neu ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r cysylltiadau ffyrdd i Gaerdydd yn llawer gwell na'r rhai i Gasnewydd, a phetawn i'n teithio ar y trê, byddai'n rhaid i mi fynd i Gaerdydd gyntaf.

Mae pob un o'm cymdogion rwyf wedi siarad â nhw o'r un farn nad yw ceisio cysylltu ein cymuned ni â Chasnewydd yn hytrach na Chaerdydd yn gwneud unrhyw synnwyr o gwbl ac ni fyddai'n cael ei groesawu.

Credaf fod nifer o ardaloedd sy'n rhan o etholaeth Islwyn ar hyn o bryd a fyddai'n uniaethu'n fwy â Chasnewydd o gymharu â fy nghymuned i, ac mae gan lawer o'r cymunedau hynny yn Islwyn gysylltiadau trafndiaeth llawer gwell â Dinas Casnewydd.

I orffen, hoffwn ofyn i'r Comisiwn ailystyried y cynigion ar gyfer Caerffili a'r ardal gyfagos, a newid y cynigion hynny er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'n well deimladau a dymuniadau trigolion fel fi sy'n byw yng Nghaerffili.

Rwyf ar ddeall bod Wayne David, yr AS dros Gaerffili, wedi gwneud gwrthgynnig manwl a hyfyw.

Rwy'n gobeithio na fydd awgrym y Comisiwn i newid y ffin yn dwyn ffrwyth.

Diolch.

BCW-9842/ [REDACTED] / Caerffili

Cyfeiriaf at y cynigion cychwynnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer ad-drefnu ffiniau etholaethau, a hoffwn wneud y sylwadau canlynol i'w hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori gychwynnol.

Fel un o drigolion Mountain View, rwy'n siomedig ynghylch y cynnig cychwynnol i rannu etholaeth bresennol Caerffili yn bedair etholaeth newydd, yn enwedig yr awgrym y dylai rhan isaf etholaeth bresennol Caerffili gael ei chysylltu â rhan orllewinol etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd i greu etholaeth newydd Gorllewin Casnewydd a Chaerffili.

Rwyf yn byw yng Nghaerffili ac nid wyf erioed wedi teimlo bod yna gysylltiad â Chasnewydd o ran unrhyw weithgareddau hamdden na busnes – i Gaerdydd y byddaf yn mynd i'r perwyl hwnnw. Un o'r prif resymau dros hyn yw bod cysylltiadau teithio llawer gwell rhwng fy nghartref a Chaerdydd, boed mewn car neu ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r cysylltiadau ffyrdd i Gaerdydd yn llawer gwell na'r rhai i Gasnewydd, a phetawn i'n teithio ar y trê, byddai'n rhaid i mi fynd i Gaerdydd gyntaf.

Mae'n ddigon gwael cael eich atgyfeirio at ysbyty Gwent pan fydd angen triniaeth arnoch, gorfod gyrru heibio i Ysbyty Athrofaol Cymru a mynd milltiroedd a milltiroedd allan o'ch ffordd! Sut yn y byd y mae hyn yn gwneud unrhyw synnwyr o gwbl?

Mae pob un o'm cymdogion rwyf wedi siarad â nhw o'r un farn nad yw ceisio cysylltu ein cymuned ni â Chasnewydd yn hytrach na Chaerdydd yn gwneud unrhyw synnwyr o gwbl ac ni fyddai'n cael ei groesawu.

Credaf fod nifer o ardaloedd sy'n rhan o etholaeth Islwyn ar hyn o bryd a fyddai'n uniaethu'n fwy â Chasnewydd o gymharu â fy nghymuned i, ac mae gan lawer o'r cymunedau hynny yn Islwyn gysylltiadau trafndiaeth llawer gwell â Dinas Casnewydd.

I orffen, hoffwn ofyn i'r Comisiwn ailystyried y cynigion ar gyfer Caerffili a'r ardal gyfagos, a newid y cynigion hynny er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'n well deimladau a dymuniadau trigolion fel fi sy'n byw yn Mountain View.

Rwyf ar ddeall bod Wayne David, yr AS dros Gaerffili, wedi gwneud gwrthgynnig manwl a hyfyw.

BCW-9843/ [REDACTED] / Merthyr Tudful

Dyma'r penderfyniad cywir, ac mae'n cryfhau'r achos dros waith mwy cydgysylltiedig, hyd yn oed uno ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful â Chyngor Rhondda Cynon Taf.

Mae cysylltiad agosach rhwng Merthyr ac Aberdâr na Merthyr a Rhymni.

BCW-9844/ [REDACTED] / Wreccsam

Rwy'n gwrthwynebu'r cynnig am y rhesymau canlynol

Nid oes gan Fwlchgwyn unrhyw gysylltiad â'r ardal arfaethedig.

Nid oes unrhyw gysylltiadau trafndiaeth, nid oes unrhyw gysylltiadau ffordd.

Mae Bwlchgwyn yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam.

Mae plant trigolion lleol yn mynd i ysgolion yn Wreccsam.

Bydd cymuned Bwlchgwyn yn mynd yn angof

Mae'r Cyngorwyr Lleol yn Gyngorwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam ac ni fyddant yn cefnogi Bwlchgwyn nawr os mai dyma'r ardal arfaethedig.

BCW-9845/ [REDACTED] / Wreccsam

Pam yn y byd y bydden i eisiau i'n pentref gael ei gysylltu â'r Fflint a Bwcle! Rydym 5 milltir o ganol tref Wreccsam...syniad gwirion eto!

BCW-9846/ [REDACTED] / Wreccsam

Rwy'n teimlo bod rhannau o etholaeth Wreccsam yn cael eu symud i ardaloedd lle nad oes unrhyw fudd diwylliannol na hanesyddol. Byddai'n well gennyf weld y canlynol yn cael ei ystyried

- Cynnwys wardiau Brymbo a Minera yn etholaeth newydd Wreccsam, gan gynnal cysylltiadau'r wardiau hyn â thref Wreccsam a'r gymuned. Ar hyn o bryd, cynigir y dylai'r wardiau hyn fod yn rhan o etholaeth newydd Alun a Glannau Dyfrdwy.

- Er mwyn sicrhau bod yr etholaeth yn aros o fewn y terfynau poblogaeth, byddai hyn yn golygu y byddai Johnstown, Pant a De Ponciau yn dod yn rhan o etholaeth newydd Sir Drefaldwyn a Glyndŵr, gan gynnal y cysylltiadau rhyngddynt a wardiau eraill o etholaeth bresennol De Clwyd a fyddai'n symud i'r etholaeth newydd.

Diolch

BCW-9847/ [REDACTED] / Caerffili

Annwyl Syr/Madam,

Cyfeiriaf at y cynigion cychwynnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer ad-drefnu ffiniau etholaethau, a hoffwn wneud y sylwadau canlynol i'w hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori gychwynnol.

Fel un o drigolion Trethomas, rwy'n siomedig ynghylch y cynnig cychwynnol i rannu etholaeth bresennol Caerffili yn bedair etholaeth newydd, yn enwedig yr awgrym y dylai rhan isaf etholaeth bresennol Caerffili gael ei chysylltu â rhan orllewinol etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd i greu etholaeth newydd Gorllewin Casnewydd a Chaerffili.

Rwyf yn byw yn Trethomas ac nid wyf erioed wedi teimlo bod yna gysylltiad â Chasnewydd o ran unrhyw weithgareddau hamdden na busnes – i Gaerdydd y byddaf yn mynd i'r perwyl hwnnw. Un o'r prif resymau dros hyn yw bod cysylltiadau teithio llawer gwell rhwng fy nghartref a Chaerdydd, boed mewn car neu ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r cysylltiadau ffyrdd i Gaerdydd yn llawer gwell na'r rhai i Gasnewydd, a phetawn i'n teithio ar y trê, byddai'n rhaid i mi fynd i Gaerdydd gyntaf.

Mae pob un o'm cymdogion rwyf wedi siarad â nhw o'r un farn nad yw ceisio cysylltu ein cymuned ni â Chasnewydd yn hytrach na Chaerdydd yn gwneud unrhyw synnwyr o gwbl ac ni fyddai'n cael ei groesawu.

Credaf fod nifer o ardaloedd sy'n rhan o etholaeth Islwyn ar hyn o bryd a fyddai'n uniaethu'n fwy â Chasnewydd o gymharu â fy nghymuned i, ac mae gan lawer o'r cymunedau hynny yn Islwyn gysylltiadau trafnidiaeth llawer gwell â Dinas Casnewydd.

I orffen, hoffwn ofyn i'r Comisiwn ailystyried y cynigion ar gyfer Caerffili a'r ardal gyfagos, a newid y cynigion hynny er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'n well deimladau a dymuniadau trigolion fel fi sy'n byw yn Trethomas.

Rwyf ar ddeall bod Wayne David, yr AS dros Gaerffili, wedi gwneud gwrthgynnig manwl a hyfyw.

BCW-9848/ [REDACTED] / Wrecsam

Rwy'n teimlo, gan y byddai'n ariannu ardal wledig enfawr, na fyddai'r cyngor yn gallu cefnogi'r ardal fawr lle y byddai angen i'r gyllideb gael ei gwario. Does dim mwy o gyllid ar gael i gynnal y ffiniau presennol a byddai cost ailstrwythuro tirwedd mor eang yn wariant diangen.

Oherwydd daearyddiaeth yr ardal, ni fyddai'r rhan fwyaf o'r wyth ardal mwyaf dwys eu poblogaeth yn cael eu cynrychioli'n gywir drwy uno'r ddwy dirwedd wahanol iawn hyn

BCW-9849/ [REDACTED] / Llandeilo

Wna'i ddweud o'r cychwyn cyntaf nad wyf yn cytuno gyda'r syniad o gael gwared ar 8 allan o 40 o'r aelodau sy'n cynrychiolu Cymru yn San Steffan oherwydd natur daearyddol a thirwedd ein gwlad sydd yn golygu bod rhai etholiaethau yn anferth o ran eu maint daearyddol. Nid yw hwn yn deg ar yr Aelodau Seneddol na'r etholwyr chwaith.

Mae'r awgrym ar gyfer etholaeth Caerfyrddin yn creu etholaeth sy'n ymestyn o'r ochr draw i Lanymddyfri yn y dwyrain bron i Narberth yn y gorllewin - tua 60 milltir o un pen i'r llall. Rwy'n deall eich bod wedi penderfynnu eisoes bod angen rhyw fath o gyfartaledd o ran y nifer o etholwyr ond 'does bosib na ddyle maint daearyddol yr etholaeth gael pwyslais priodol hefyd? Cymharwch maint etholaeth Caerfyrddin gydag un yn Abertawe neu Caerdydd lle mae'r un nifer o bobl yn byw o fewn ychydig iawn o filltiroedd i'w gilydd. Mae'r gwahaniaeth o ran teithio o fewn yr etholaeth i gwrdd ag etholwyr yn y ddau scenario yn drawiadol ac yn annheg i drigolion ardaloedd gwledig.

Mae eich awgrymiadau chi hefyd yn effeithio ar y gymuned o Gorslas lle ges i fy ngeni a magu. Eich awgrym yw i roi Gorslas i fewn i etholaeth Llanelli. Dwi ddim yn gwybod am unrhyw gysylltiadau rhwng Gorslas a Llanelli o ran etholaeth erioed o'r blaen. Mae Gorslas rhyw 10 milltir o Gaerfyrddin, yr un pellter ag o Lanelli, ond mae'r gymuned wastad wedi bod o dan adain Caerfyrddin, fel ran o Gyngor Dosbarth Caerfyrddin ac yna Cyngor Sir Gaerfyrddin. Petaech yn rhoi etholwyr Gorslas yn ôl yn eu priod le o dan Sir Gaerfyrddin bydde'r nifer dal o dan y mwyafswm arfaethedig. A bydde etholaeth Llanelli yn agos iawn i'r isafswm arfaethedig hefyd. Chi eisoes wedi derbyn yr egwyddor o gael llai na'r isafswm mewn etholaethau eraill. Bydde'r awgrym hwn ddim yn effeithio ar faint ddaearol etholaeth Caerfyrddin oherwydd eich bod wedi rhoi Gorslas fel rhyw pimple enfawr ar drwyn o fewn etholaeth Llanelli beth bynnag.

Gofynnaf yn daer i chi ail-ystyried y ffin yr ydych wedi'i lunio ar gyfer etholaeth Caerfyrddin, yn enwedig o ran cymuned Gorslas.

BCW-9850 / [REDACTED] / Caerffili

Mae cysoni etholaethau â darparwr lleol amwynderau dinesig, gweithgareddau'r cyngor a chynrychiolwyr Senedd Cymru yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod pob parti yn cydweithio er budd y boblogaeth.

Yn benodol i Gaerffili mae'r penderfyniad i gynnwys Tŷ-du a Gorllewin Casnewydd mewn ardal lle nad oes unrhyw gysondeb cymdeithasol, hanesyddol na ffisegol ar wahân i'r hyn a allai edrych yn bert ar fap.

Yr hyn nad yw map yn ei ddangos yw dosbarthiad y boblogaeth a'r gwir bellteroedd ar gyfer cyfathrebu sydd wrth gwrs yn ne Cymru yn cynnwys ffyrdd serth sy'n anodd iawn teithio arnynt. Mae cefnwledydd yn fwy na chipolwg ar fap wrth geisio cydbwysu poblogaethau i sicrhau ansawdd rhifol etholaethau. Bydd eich cynigion yn niweidiol iawn i'r mandad democrataidd simsan y mae Cymru yn gyffredinol wedi'i ddioddef, ac yn enwedig i ardaloedd i'r gogledd o'r M4 lle nad oes fawr ddim buddsoddiad wedi'i wneud gan y llywodraeth yn San Steffan na'r llywodraeth yng Nghaerdydd.

Gofynnais i chi ailystyried eich cynigion ac edrych ar faterion sy'n fwy pwysig na chydbwysu rhifau yn unig.

BCW-9851/ [REDACTED] / Hengoed

Parthed y cynnig i uno rhan o Gaerffili â Gorllewin Casnewydd. Rwyf wedi byw a gweithio yn y ddwy etholaeth bresennol am gyfnodau sylweddol o amser, felly gallaf siarad o brofiad.

Nid wyf yn derbyn y cynnig bod cydraddoli rhifau etholwyr yn cyfiawnhau'r broses uno hon. Mae yna ffactorau sylweddol eraill nad yw'n ymddangos fel pe baent yn cael fawr ddim ystyriaeth, os o gwbl, yn y cynnig hwn.

1 Mae cyfansoddiad economaidd-gymdeithasol y ddwy ardal yn hollol wahanol

2 Ni ellir cymharu topograffi'r ardaloedd

3 Mae'r sefyllfa bresennol yn gweithio'n dda - pam bod angen newid hynny?

4 Bydd etholaethau mwy o faint yn golygu bod mwy o bellter rhwng etholwyr a'u cynrychiolwyr

5 Mae etholaethau mwy o faint yn lleihau'r amser sydd gan gynrychiolwyr etholedig ar gyfer unigolion

A oes wir angen y newid hwn? Mae problemau llawer mwy o faint y mae angen rhoi sylw iddynt yn ein system o gynrychiolaeth ddemocrataidd. Ychydig iawn a gyflawnir drwy ail-greu llinellau ar fapiau.

BCW-9852/ [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

Mae cynnwys maestrefi gorllewinol tref Pen-y-bont ar Ogwr yn etholaeth Aberafan yn afresymol ac yn dangos diffyg parch mawr tuag at gymunedau sefydledig. Yn hanesyddol, mae dadl dros gysylltu Cefn Cribwr, Mynydd Cynffig, y Pîl, Corneli a Phorthcawl ag Aberafan, oherwydd roeddent yno cyn i etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr gael ei chreu drwy gysylltu tref Pen-y-bont ar Ogwr â Phorthcawl. Cyn hynny, roedd tref Pen-y-bont ar Ogwr yn ei chyfanrwydd, a'i phlwyfi cyfagos, yn rhan o etholaeth hanesyddol Ogwr. Y cynnig nawr, yn ei hanfod, yw cael dwy etholaeth yn lle tair. Er mwyn cydnabod hanes yr etholaethau a'r realiti sy'n gysylltiedig â chymunedau lleol modern, dylai wardiau sirol Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr, Cefn Glas, Llangewydd a Brynhyfryd a Phen-y-fai gael eu cynnwys yn etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr.

BCW-9853 / [REDACTED] / Aberystwyth

Mae Ceredigion yn etholaeth anodd ymgyrchu ynddi eisoes, heb sôn am fod yn etholaeth anodd i'r ymgeisydd buddugol ei gwasanaethu'n effeithiol. Hyd yn oed pe bai cyfarfodydd pleidiau yn cael eu cynnal yng nghanol daearyddol yr etholaeth arfaethedig, byddai'n rhaid i aelodau o'r naill ben a'r llall orfod teithio dros 80 milltir. Yn amlwg, drwy roi pobl o dan y fath anfantais, bydd llai ohonynt yn cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd. Byddai'n well pe bai Aberdaugleddau a Thyddewi yn aros gyda Hwlfordd, ac Aberystwyth a Machynlleth yn echelau ar gyfer Canol Gorllewin Cymru.

BCW-9854/ [REDACTED] / Llangollen

Unwaith eto, mae Llangollen yn ôl-ystyriaeth. Dylem gael ein cynnwys yn etholaeth Clwyd, ynghyd â gweddill Sir Ddinbych. Does gan Langollen ddim byd yn gyffredin â'r Trallwng ac ati, a does dim cysylltiadau sefydledig ganddi â'r ardal honno o ganolbarth Cymru. Os na chaiff ei chynnwys yn etholaeth Clwyd, yna Wrecsam fyddai'r dewis amgen synhwyrol nesaf, yn seiliedig ar ffiniau cynghorau sir.

BCW-9855 / [REDACTED] / Caerffili

Annwyl Syr/Madam

Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ystyried fy safbwyntiau isod ynghylch cynigion ar gyfer ail-lunio ffiniau etholaeth Caerffili yn ystod y broses ymgynghori gychwynnol.

Fel un o drigolion Caerffili, rydw i'n hynod siomedig â'r cynnig cychwynnol i rannu etholaeth bresennol Caerffili rhwng pedair etholaeth newydd, ac yn benodol yr awgrym y dylid cysylltu rhan isaf etholaeth bresennol Caerffili, lle rydw i'n byw, â rhan orllewinol etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd i greu etholaeth newydd Gorllewin Casnewydd a Chaerffili. Nid yw'n gwneud dim synnwyr o gwbl – a dw i'n credu y byddech chi'n sylweddoli hynny pe byddech chi wedi byw yn y rhan yma o etholaeth Caerffili ers bron i 63 mlynedd, fel rydw i.

Galla i ddweud yn bendant mai ychydig iawn o bobl yma, ac eithrio pobl yn y rhan fwyaf ddwyreiniol o ward Sant Iago efallai, sydd erioed wedi uniaethu â Chasnewydd neu wedi dewis defnyddio Casnewydd ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol, siopa, gwaith, addysg neu unrhyw beth arall. Mae ein cysylltiadau a'n hunaniaeth gyda Chaerdydd a Chwm Rhymni, a hefyd i ryw raddau â Ffynnon Taf/Nantgarw/Pontypridd – nid Casnewydd. Ac felly fuodd hi erioed. Ac mae hyn wedi cael ei adlewyrchu'n glir erioed yn y gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, er enghraifft roedd y gwasanaeth bws i Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd yn llawer gwell – ac mae'n dal i fod – na'r un sydd i fod i wasanaethu Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd. Duw a wŷr sut mae pobl sy'n byw ymhellach lan yng Nghwm Rhymni yn ymdopi! Mae'r cysylltiadau trafnidiaeth â Chaerdydd i gyd yn llawer gwell na gyda Chasnewydd.

A dweud y gwir, yr unig reswm pam mae mwyafrif llethol pobl ardal tref Caerffili – a byddwn yn tybio bod hyn yn wir am lawer o bobl Cwm Rhymni hefyd – yn mynd yn agos at Gasnewydd yw oherwydd i ni gael ein gorfodi i fod yn rhan o ardal Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn 2009, ac felly'n gorfod mynd i Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd yn hytrach na'r Ysbyty Athrofaol Cymru sy'n llawer agosach/mwy cyfleus yng Nghaerdydd. Mae pobl ardal tref Caerffili yn dal i deimlo dicter am hyn 12 mlynedd yn ddiweddarach, ac erbyn hyn mae pethau hyd yn oed yn waeth gydag Ysbyty'r Graig, nad oes ganddon ni gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus uniongyrchol ag ef o gwbl. Dw i ddim yn adnabod neb yma sy'n hapus am ddim o hyn. Nac am neb sy'n cysylltu'n amlach â Chasnewydd/Gwent o ganlyniad.

Felly dw i bron yn sicr, pe bai'r newid ffin arfaethedig yma'n mynd i bleidlais, y byddai'r rhan fwyaf yn pleidleisio yn ei erbyn, a phan fydd mwy o bobl yn dod i wybod am y peth, pan fydd hi o bosib yn rhy hwyr, bydd llawer o'r trigolion yn methu deall y peth ac yn anfodlon iawn. Yn ogystal â chael ein gorfodi i fod yn ardal Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a cholli Ysbyty'r Glowyr Caerffili yn y broses, mae Ysbyty Ystrad Fawr yn eilradd o ran gwasanaethau, rydyn ni nawr ar fin colli ein Haelod

Seneddol ein hunain hefyd a chael ein rhwygo oddi wrth weddill Cwm Rhymni! Ac oddi wrth holl wasanaethau ein cyngor lleol hefyd o bosib?? Nid rhifau manwl gywir yw'r peth pwysicaf bob amser lle mae ffiniau etholaeth yn y cwestiwn.

Unwaith eto, o'r bobl rydw i wedi siarad â nhw am hyn, does neb yn credu ei fod yn dderbyniol, heb sôn am fod yn syniad da – ac mae hyn yn cynnwys ffrindiau ac aelodau teulu o bob ochr wleidyddol. Rydyn ni i gyd yn wirioneddol ddig am y peth – ac wedi ein syfrdanu'n llwyr hefyd. Beth ar y ddaear sydd gan Gaerffili i'w wneud â Maerun er mwyn popeth – do'n i erioed wedi clywed am y lle nes i fi edrych ar y map! Hen dref y cymoedd glo yw tref Caerffili, sydd hanner ffordd rhwng Caerdydd a gweddill Cwm Rhymni, a dyna fuodd hi erioed – beth sydd a wnelo hi ag ardal o wlyptir gwastad sy'n ffinio ag Aber Hafren?!


Neu â Chasnewydd, hyd yn oed, o ran hynny – yr ysbytai yw'r unig lefydd dw i wedi ymweld â nhw yno fy hunan erioed, ond dw i'n nabod llawer o Gaerdydd fel cefn fy llaw. Rydw i wedi gweithio yng Nghaerdydd, wedi dysgu yno, wedi cymdeithasu yno, wedi siopa yno, wedi cael diwrnodau allan yno, wedi bod yn rhan o glybiau/grwpiau ffitrwydd a grwpiau eraill yno, wedi bod i'r Brifysgol yno, wedi mynd i fy nosbarth myfyrdod cyntaf yno, wedi bod i arddangosiadau yno, wedi bod i'r Ysbyty Athrofaol ac Ysbyty Deintyddol Caerdydd sawl gwaith, wedi defnyddio gorsafoedd trenau a bysiau Canol Caerdydd sawl gwaith, wedi bod allan am fwyd yno sawl gwaith, wedi bod â nifer o ffrindiau a phobl dw i'n eu hadnabod yno, ac ati, ac ati. Gallwn i restru enghreifftiau tebyg ar gyfer Llanbradach, Ystrad Mynach ac amryw o rannau eraill 'i fyny'r cwm' rydych chi'n bwriadu eu gwahanu oddi wrth dref Caerffili. Ond Casnewydd? Wel..... fel ddywedais i, mae'n rhaid i fi fynd i'r ysbytai yno.

Dw i'n credu fy mod i'n eithaf nodweddiadol, yn sicr o ran rhan isaf etholaeth Caerffili. Ar y llaw arall, dw i'n deall fod nifer o ardaloedd, yn etholaeth Islwyn ar hyn o bryd, a fyddai'n uniaethu'n haws o lawer â Chasnewydd na fy ardal fy hun, ac mae gan lawer o'r trefi yna yn Islwyn gysylltiadau trafndiaeth llawer gwell â Chasnewydd nag sydd ganddon ni. Dw i'n cymryd mai'r rheswm am hynny yw oherwydd eu bod yn draddodiadol wedi bwydo mewn i borthladd Casnewydd, gan ein bod ni yng Nghaerffili a Chwm Rhymni wedi bod yn bwydo i borthladd Caerdydd erioed.

I gloi, hoffwn annog y Comisiwn yn gryf i ailedrych ar y cynigion ar gyfer Caerffili er mwyn adlewyrchu teimladau a dymuniadau ei thrigolion yn gywir. Rydw i bron yn sicr y byddai'r mwyafrif helaeth ohonon ni am gadw ein hetholaeth yn gyfan a chadw ein Haelod Seneddol ein hunain. Ac rydw i bron yn sicr y byddai'r mwyafrif ohonon ni sydd ar fin cael ein huno â Gorllewin Casnewydd yn gwrthwynebu hynny'n llwyr. Rydyn ni wedi cael llond bol ar gael ein gwthio heb ddewis i mewn i ardal bwrdd iechyd nad oedd a wnelon nhw ddim â ni, a chyda diffyg trafndiaeth gyhoeddus i gyd-fynd â hynny – rwy'n eich annog yn gryf i beidio â'n gwthio ymhellach i'r ardal honno ac i ffwrdd o'n cysylltiadau, rhwydweithiau a'n gwasanaethau traddodiadol yma.

Diolch yn fawr am ystyried fy marn i a rhai trigolion Caerffili yn gyffredinol dybiwn i.

Yn gywir,



BCW-9856 / [REDACTED] / Casnewydd

Mae Sir Benfro yn rhan hollbwysig o'n hunaniaeth yng Ngogledd Sir Benfro. Yma mae gennym y parc cenedlaethol (a fyddai hwnnw wedyn yn cael ei ailenwi?) a llawer o dwristiaeth sy'n cael ei hadnabod yn benodol am fod yn "Sir Benfro". Mae gennym fusnesau lleol sy'n marchnata eu hunain fel busnesau o Sir Benfro (gan gynnwys fy musnes i), felly mae hyn yn golygu newid o ran marchnata, newid o ran cynhyrchion, arian o'm poced fy hun. Mae hefyd yn golygu y byddwn nawr yn rhan o sir nad oes unrhyw un eisiau bod yn rhan ohoni, rydym yn hoffi ein sir ni. Rwy'n deall bod yn rhaid i bethau newid, ond pam mai ardaloedd llai sy'n gorfod aberthu eu hunaniaethau bob amser?

Mae ardal Gogledd Sir Benfro yn rhan allweddol o Sir Benfro, a dylai gael ei thrin felly.

BCW-9857 / [REDACTED] / Ystrad Mynach

Mae'n ymddangos nad oes unrhyw resymeg dros chwalu etholaeth Caerffili yn y ffordd hon. Mae gan Gwm Rhymni gysylltiadau seilwaith clir â Chaerdydd ond, drwy symud Ystrad Mynach i Islwyn a thref Caerffili i Gasnewydd, mae cysylltiadau cymdeithasol, economaidd a hanesyddol yn cael eu hanwybyddu.

Mae gen i bryderon am y broses gyfan hon a'r diffyg gwybodaeth glir ac ymgynghori â'r cyhoedd.

BCW-9858 / [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

Nid wyf yn hapus bod Pen-y-bont ar Ogwr yn cael ei rhannu yn y ffordd hon. Bydd rhannau o Ben-y-bont ar Ogwr yn dod yn rhan o etholaeth Castell-nedd Port Talbot. Bydd hyn yn golygu y bydd AS yn cynrychioli pobl o ddau awdurdod lleol a dau fwrdd iechyd gwahanol. Yn gyffredinol, mae Pen-y-bont ar Ogwr yn edrych tua'r dwyrain yn hytrach na thua'r gorllewin o ran gwasanaethau.

Mae gan etholaeth Ogwr anghenion gwahanol iawn i Ben-y-bont ar Ogwr yn gyffredinol; mae yno lefelau uwch o dlodi ac anghenion cymdeithasol, ac mae llai o wasanaethau yn cael eu darparu, e.e. trafndiaeth gyhoeddus. Rwy'n teimlo bod ein Haelodau Seneddol wastad wedi deall hyn. Nid wyf yn hyderus y bydd gan AS, y bydd ei brif swyddfa etholaethol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yr un ymrwymiad i'n hardal na'i hanghenion.

BCW-9859 / [REDACTED] / Llanfairfechan

Mae'r cynigion hyn yn gwaethygu'r broblem tangynrychiolaeth sy'n wynebu cymunedau gwledig dwysedd isel. Mae'n annheg nad oes mwy o bwys yn cael ei roi i ardal ddaearyddol etholaethau drwy ganolbwyntio'n llwyr ar nifer y boblogaeth.

BCW-9860 / [REDACTED] / Prestatyn

Os yw'n gwbl angenrheidiol diddymu Dyffryn Clwyd fel etholaeth yn ei rhinwedd ei hun, yna byddwn i'n cefnogi cynigion y Comisiwn yn gyffredinol i'w rhannu rhwng etholaethau 'newydd' Clwyd a Delyn, ond gyda'r eithriad canlynol.

Mae gan yr ardal sy'n ymestyn o Brestatyn i Dalacre economi sy'n dibynnu i raddau helaeth ar dwristiaeth, lle mae economi'r trefi hynny i'r dwyrain o Dalacre, ar Lannau Dyfrdwy, yn dibynnu'n fwy ar ddiwydiant cymharol drwm.

Felly, byddwn i'n awgrymu y byddai'r ardal olaf yn cael ei gwasanaethu'n well drwy ymuno ag Alun a Dyfrdwy, oherwydd y buddiant cyffredin hwn mewn economi fwy diwydiannol.

Pe bai hyn yn cael ei wneud, mae'n bosibl y gallai unrhyw anghydbwysedd annerbyniol o ran y boblogaeth a allai gael ei greu gael ei unioni drwy wneud addasiadau i'r ffin mewn ardaloedd mwy gwledig, lle mae economïau amaethyddol yn bennaf yn dominyddu ar y ddwy ochr.

BCW-9861 / [REDACTED] / Llandysul

Cefais fy ngeni a'm magu ym Mhort Talbot ac mae'n rhaid imi ddweud bod y cynnig i greu etholaeth Port Talbot a Phorthcawl yn hollol hurt. Nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr yn ddaearyddol, yn gymdeithasol nac yn logistaidd. Does gan y ddwy dref ddim byd yn gyffredin – sut gallai swyddog etholedig gynrychioli'r ddwy gymuned mewn ffordd deg?

BCW-9862 / [REDACTED] / Dinas Powys

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 01 Tachwedd 2021 20:24

I: BCW <bcw@boundaries.wales>

Testun: Gwrthwynebiad

At y rhai perthnasol,

Rwy'n ysgrifennu i nodi fy ngwrthwynebiad i'r adolygiad o ffiniau a'r cynnig i symud Ward Dinas Powys, sydd ym Mro Morgannwg ar hyn o bryd.

Mae trigolion Dinas yn teithio i'r Barri i weld yr optegydd a defnyddio gwasanaethau cymorth eraill ac, er bod meddygfa newydd yn Ninas Powys, mae'r gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau yn cael eu darparu yn y Barri.

Mae Ysbyty'r Barri yn bwysig i drigolion lleol. Mae ei Uned Mân Anafiadau yn golygu nad oes angen teithio i'r Uned Damweiniau ac Achosion Brys yng Nghaerdydd yn aml. Mae'r ysbyty hefyd yn darparu gofal canolraddol i drigolion lleol yn dilyn llawdriniaeth a chyn bod pecyn gofal yn cael ei gadarnhau.

Y Barri a Gwenfô yw'r ffocws ar gyfer pob un o wasanaethau allweddol y Cyngor fel casglu gwastraff, materion cynllunio, gwasanaethau cymdeithasol a materion sy'n ymwneud â'r briffordd.

Pan gafwyd llifogydd yn Ninas Powys y llynedd, daeth yr holl wasanaethau cymorth o'r Barri a Gwenfô ac roeddwn i'n aelod o'r criw gwirfoddol a roddodd gymorth.

Mae llawer o sefydliadau gwirfoddol yn Ninas ac mae gan bob un ohonynt gysylltiadau agos â Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg, sydd wedi'u lleoli yn y Barri.

Mae Saint Andras yn ardal wledig ac yn rhan annatod o Ward Dinas Powys. Mae'n bont naturiol ag ardal wledig y Fro a Gwenfô.

Mae Bro Radio, yr orsaf radio leol, wedi'i lleoli yn y Barri a Llanilltud Fawr. Mae'n chwarae rhan allweddol drwy rannu gwybodaeth gyhoeddus â thrigolion Dinas Powys. Mae hyn yn hollbwysig ar adegau allweddol pan geir eira, llifogydd, tywydd poeth ac ati.

A fyddech cystal ag ystyried fy sylwadau.
Diolch ymlaen llaw.

Yn gywir,

[REDACTED]

BCW-9863 / [REDACTED] / Traeth Poppit

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 01 Tachwedd 2021 22:36

I: BCW <bcw@boundaries.wales>

Testun: Ffin Ceredigion/Preseli

Rwy'n llwyr wrthwynebu'r cynnig i gynnwys Traeth Poppit, Trewyddel, Trefdraeth, Aberdaugleddau a'r holl bentrefi a threfi eraill ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro o dan ffin arfaethedig Ceredigion a Phreseli.

Bydd y newid arfaethedig, yr wyf yn gobeithio na fydd yn digwydd, yn cael effaith ar y bobl sy'n byw yn y Parc Cenedlaethol.

Mae'r ffin newydd arfaethedig yn llawer rhy fawr a bydd, fwy na thebyg, yn achosi nifer o broblemau o ran rheoli ardal o'r fath.

Rwy'n tybio mai er mwyn dylanwadu ar bleidleisiau yng Nghymru y mae hyn wedi cael ei awgrymu. Dim ystyriaeth i'r cymunedau yn yr ardaloedd hyn.

[REDACTED]

Traeth Poppit



Cyngor Sir
CEREDIGION
 County Council

Y Cyngorydd / Councillor Ellen ap Gwynn

Arweinydd y Cyngor /
 Leader of the Council



At: COMISIWN FFINIAU I GYMRU

Anfonwyd drwy e-bost yn unig i
cfq@ffiniau.cymru

Oyddiad
 Date 01/11/2021

Gofynnwch am
 Please ask for

[Redacted]

Linell uniongyrchol
 Direct line

[Redacted]

Fy nghyf
 My ref

EaG/LSE

Eich cyf
 Your ref

Ebost
 Email

[Redacted]

Annwyl Syr / Fadam,

Ynghylch: Arolwg 2023 o Etholaethau Seneddol - Cynigion Cychwynnol

Diolch o galon i chi am y cyfle i roi ein barn ar Gynigion Cychwynnol Arolwg 2023 o Etholaethau Seneddol.

Rhodddwyd ystyriaeth i'ch Cynigion Cychwynnol ac rydym yn cydnabod fod etholaeth sir Ceredigion yn sylweddol brin o'r amrediad etholiadol statudol. Serch hynny, nid ydym yn credu mai'r cynnig hwn fyddai'r un mwyaf ffafriol a hynny am sawl rheswm. Mae'r etholaeth a gynigir gan y Comisiwn yn fawr yn ddaearyddol, yn siwrnai o tua 2 awr 15 munud rhwng y gogledd a'r de ac yn 85 milltir o bellter. Gwelwn hefyd mai ychydig iawn o gyswllt naturiol sydd rhwng llawer o'r wardiau etholiadol hyn a Cheredigion, a byddai'r pellter yn arwain at leihau'r ymgysylltiad rhwng etholwyr a'u Haelod Seneddol o bosib.


Yn ogystal, o brofiad blaenorol pan gafwyd etholaeth seneddol Ceredigion a Gogledd Penfro, roedd consensws cyffredinol nad oedd y trefniant yn gweithio i neb - roedd yn rhy fawr yn ddaearyddol i'r AS mewn swydd ac roedd yn cwtogi ar y mynediad i'r AS hwnnw.

Cynnig amgen

1. Y wardiau etholiadol canlynol yn Sir Ceredigion (sydd ar hyn o bryd yn ffurfio etholaeth bresennol Ceredigion):

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ateb Saesneg i bob gohebiaeth Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh and English. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and correspondence in English will be answered in English. Corresponding in Welsh will not involve any delay.



Aberaeron (1,088), Aberporth (1,839), Aberteifi-Mwldan (1,522), Aberteifi-Rhyd-y-Fuwch (895), Aberteifi-Teifi (824), Aberystwyth Bronglais (936), Aberystwyth Canol (1,358), Aberystwyth Gogledd (1,478), Aberystwyth Penparcau (2,084), Aberystwyth Rheidol (1,776), Beulah (1,413), Borth (1,677), Capel Dewi (1,068), Ceulanamaesmawr (1,551), Ciliau Aeron (1,613), Faenor (1,985), Llanbedr Pont Steffan (1,660), Llanarth (1,222), Llanbadarn Fawr – Padarn (767), Llanbadarn Fawr – Sulien (973), Llandyfriog (1,466), Llandysilio-gogo (1,653), Tref Llandysul (1,067), Llanfarian (1,193), Llanfihangel Ystrad (1,666), Llangeitho (1,168), Llangybi (1,186), Llanrhystud (1,255), Llansantffraid (1,935), Llanwenog (1,419), Lledrod (1,812), Melindwr (1,578), Ceinewydd (810), Penbryn (1,762), Pen-parc (1,933), Tirymynach (1,403), Trefeurig (1,382), Tregaron (951), Troedyrur (1,110) ac Ystwyth (1,673).

2. Y wardiau etholiadol canlynol yn Sir Benfro (sydd ar hyn o bryd yn rhan o etholaeth bresennol Preseli Penfro):
Cilgerran (1,594), Clydau (1,189), Crymych (2,099) a Llandudoch (1,775).
3. Y wardiau etholiadol canlynol yn Sir Gaerfyrddin (sydd ar hyn o bryd yn rhan o etholaeth bresennol Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):
Cenarth (1,669), Cynwyl Gaeo (1,351), Llanfihangel-ar-Arth (2,196), Llangeler (2,772) a Llanybydder (2,027)

Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,823 o etholwyr a byddai o fewn yr amrediad etholiadol statudol.

Yn y cynnig hwn, gellid galw'r etholaeth hon yn 'Ceredigion a Dyffryn Teifi'.

Mae ein cynnig yn cyfuno wardiau etholiadol sydd â nodweddion tebyg i Geredigion yn ogystal â manteision eraill:

- Mae nodweddion ieithyddol a diwylliannol y wardiau etholiadol hyn yn debyg o ran eu natur, gyda chyfran uchel o'r etholwyr yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf;
- Mae cyswllt naturiol rhwng y wardiau etholiadol hyn ac maent yn ffurfio cymunedau naturiol sydd â chysylltiadau cymdeithasol ac economaidd ar hyd afon Teifi;

Mae'r cynnig hwn yn atgyfnerthu'r ddolen gyswllt rhwng cymunedau naturiol Dyffryn Teifi, gan gynnwys y cefnwlod ger trefi marchnad Aberteifi, Castellnewydd Emlyn, Llandysul, Llanybydder a Llanbedr Pont Steffan;

- Mae'r wardiau etholiadol yn ardal Dyffryn Teifi yn defnyddio gwasanaethau trawsffiniol a ddarperir o fewn etholaeth Ceredigion h.y. yn Llanbedr Pont Steffan, Llandysul ac Aberteifi. Mae'r rhain yn cynnwys:
 - Addysg – yn enwedig Ysgol Bro Pedr (Llanbedr Pont Steffan), Ysgol Bro Teifi (Llandysul) ac Ysgol Uwchradd Aberteifi, ond gan gynnwys hefyd y rheiny sydd mewn ysgolion cynradd eraill. Mae 581 o ddisgyblion o Sir Gaerfyrddin yn mynychu ysgolion yng Ngheredigion a 219 o ddisgyblion o Sir Benfro (*ffynhonnell: Awdurdod Addysg Lleol Ceredigion, 13 Hydref 2021*);

Hefyd mae llawer o ddisgyblion o Geredigion sy'n mynychu ysgolion yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, yn benodol Ysgol y Preseli (Crymych) ac Ysgol Gyfun Emlyn (Castellnewydd Emlyn) yn ogystal â rhai ysgolion cynradd.


 - Gwasanaethau Gofal Sylfaenol megis meddyg teulu a'r deintydd. Ar hyn o bryd mae 13,166 o gleifion wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu o Sir Gaerfyrddin a 3,072 wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu o Sir Benfro (*ffynhonnell: Canolbarth a Gorllewin Cymru, Abertawe a Gogledd Cymru, 13 Hydref 2021*);

- Hamdden, gan gynnwys y defnydd a wneir o lyfrgelloedd a chanolfannau hamdden yn Llanbedr Pont Steffan, Llandysul ac Aberteifi ond hefyd timau rygbi, pêl-droed, pêl-rwyd, hoci yn ogystal â gweithgareddau hamdden eraill megis canwio, y Ffermwyr Ifanc, yr Urdd ac ati;
 - Lletygarwch a gweithgareddau diwylliannol – mae'r trefi ar y ffin yn cynnig lletygarwch a gweithgareddau diwylliannol ar gyfer y rhai sy'n byw mewn wardiau etholiadol yn Nyffryn Teifi, ar yr ochr draw i'r ffin yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro;
 - Cyflogaeth – mae'r trefi ar y ffin yn darparu swyddi i nifer o drigolion wardiau etholiadol Dyffryn Teifi;
 - Cysylltiadau teithio – mae yna seilwaith ffyrdd yn ogystal â chysylltiadau trafnidiaeth sy'n caniatáu i bobl deithio'n hwylus rhwng y wardiau etholiadol hyn yn Nyffryn Teifi.
- Bydd hyd yr etholaeth Preseli Ceredigion a gynigir gan y Comisiwn Ffiniau yn cael ei gwtogi'n sylweddol a hynny o 85 milltir i 60 milltir yn achos etholaeth Ceredigion a Dyffryn Teifi. Mae uchafswm yr amser teithio o fewn yr etholaeth yn disgyn o 2 awr 15 munud i 1 awr 35 munud;
 - Mae'n cadw cyfran uwch o Sir Benfro o fewn un etholaeth gan adlewyrchu'r cyswllt rhwng Abergwaun a gogledd Sir Benfro gyda chanolfan gwasanaethau trefol Hwlfordd.

Yn amgaeëdig, at eich sylw, mae dogfen sy'n nodi sut y byddai ein cynnig yn effeithio ar etholaethau'r siroedd eraill. Fe welwch y byddai'r hyn yr ydym yn ei gynnig yn lleihau sut y mae'r tair etholaeth yn amrywio oddi wrth gwota etholiadol y DU (o +3.93% / -3.80% i +1.30% / +0.78%) a hefyd yn lleihau'r amser teithio ym mhob un.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth neu am drafod hyn ymhellach, mae pob croeso i chi gysylltu â Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd.

Yn gywir,



Y Cyngorydd Ellen ap Gwynn
Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion

Amgaeëdig



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Y Cyngorydd / Councillor Ellen ap Gwynn

Arweinydd y Cyngor /
Leader of the Council

CYNNIG AMGEN A CHYNNIGION DIWYGIEDIG CYNGOR SIR CEREDIGION AR GYFER SIR GAERFYRDDIN A SIR BENFRO

Etholaeth a gynigir gan y Comisiwn Ffiniau	Etholwyr (amrediad statudol = 69,724 - 77,062)	Etholaeth amgen a gynigir gan Gyngor Sir Ceredigion	Etholwyr (amrediad statudol = 69,724 - 77,062)	Wardiau a <u>ychwanegir</u> o gymharu a chynnig y Comisiwn Ffiniau	Wardiau a dynnir ymaith o gymharu a chynnig y Comisiwn Ffiniau
Ceredigion Preseli	76,269	Ceredigion a Dyffryn Teifi	72,823	Cenarth (1669), Llangeler (2772), Llanfihangel-yr-Arth (2196), Llanybydder (2027), Cynwyl Gaeo (1351) [o etholaeth Caerfyrddin]	Ty-ddewi (1521), Solfach (1274), Llanrhian (1232), Treletert (1873), Scleddau (1158), Gogledd-ddwyrain Abergwaun (1495), Gogledd- orllewin Abergwaun (1208), Wdig (1509), Dinas Cross (1313), Trefdraeth (878) [i Sir Benfro]
Canol a De Sir Benfro	74,614	Sir Benfro	74,348	Ty-Ddewi (1521), Solfach (1274), Llanrhian (1232), Treletert (1873), Scleddau (1158),	Arberth (1704), Arberth Wledig (1293), Llanbedr Felfre (1284), Cilgeti/Begeli (1830), Amroth (992),

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ateb Saesneg i bob gohebiaeth Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh and English. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and correspondence in English will be answered in English. Corresponding in Welsh will not involve any delay.



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Y Cyngorydd / Councillor Ellen ap Gwynn

Arweinydd y Cyngor /
Leader of the Council

Etholaeth a gynigir gan y Comisiwn Ffiniau	Etholwyr (amrediad statudol = 69,724 - 77,062)	Etholaeth amgen a gynigir gan Gyngor Sir Ceredigion	Etholwyr (amrediad statudol = 69,724 - 77,062)	Wardiau a ychwanegir o gymharu a chynnig y Comisiwn Ffiniau	Wardiau a dynnir ymaith o gymharu a chynnig y Comisiwn Ffiniau
				Gogledd-ddwyrain Abergwaun (1495), Gogledd-orllewin Abergwaun (1208), Wdig (1509), Dinas Cross (1313), Trefdraeth (878) [o Ceredigion Preseli]	Saundersfoot (1904), Penalun (1398), Dinbych-y-Pysgod: Gogledd (1658), Dinbych-y-Pysgod: De (1664) [i Caerfyrddin a Dinbych-y-Pysgod]
Caerfyrddin	70,606	Caerfyrddin a Dinbych-y-Pysgod	74,318	Arberth (1704), Arberth Wledig (1293), Llanbedr Felfre (1284), Cilgeti/Begeli (1830), Amroth (992), Saundersfoot (1904), Penalun (1398), Dinbych-y-Pysgod: Gogledd (1658), Dinbych-y-Pysgod: De (1664) {o Cano/ a De Sir BenfroJ	Cenarth (1669), Llangeler (2772), Llanfihangel-yr-Arth (2196), Llanybydder (2027), Cynwyl Gaeo (1351) [i Ceredigion a Dyffryn Teifi]

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ateb Saesneg i bob gohebiaeth Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh and English. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and correspondence in English will be answered in English. Corresponding in Welsh will not involve any delay.

BCW-9865 / [REDACTED] / Hengoed

Gallwn ni ddim pwysleisio digon yr anghrediniaeth a'r pryder a fynegwyd gan lawer o'r etholwyr ynghylch cynigion cychwynnol y Comisiwn Ffiniau.

Yn ddiau, mae llawer o'r etholwyr yn teimlo'n ddig ynghylch cynnig cychwynnol y Comisiwn i rannu etholaeth bresennol Caerffili yn bedair etholaeth newydd. Ond roedd yr ymateb mwyaf ac, mae'n rhaid dweud, y drwgdeimlad mwyaf, yn ymwneud â'r awgrym y dylai rhan isaf etholaeth bresennol Caerffili gael ei chysylltu â rhan orllewinol etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd i greu etholaeth newydd, sef Gorllewin Casnewydd a Chaerffili.

Gellir crynhoi'r prif ddadleuon yn erbyn y cynigion cychwynnol hyn fel a ganlyn:

1. Daearyddiaeth, hanes, trafnidiaeth a chysylltiadau lleol. Rhwng cymunedau Machen (ar ben dwyreiniol etholaeth Caerffili) a phentref Rhiwderyn (ar ben gorllewinol Gorllewin Casnewydd), mae ardal fawr o gefn gwlad agored lle ceir ychydig iawn o drigolion. Mae'r 5.3 cilomedr (3.3 milltir) rhwng Machen a Rhiwderyn yn cynnig rhaniad naturiol rhwng y ddwy ardal ac yn helpu i wahaniaethu rhwng ardal Casnewydd ac etholaeth Caerffili o Fachen tua'r gorllewin.

Mae'r rhaniad naturiol hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod tref Caerffili wedi datblygu gyntaf fel tref farchnad cyn i Gwm Rhymni yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys Caerffili, gael ei ddominyddu gan y diwydiant glo. Ar y llaw arall, mae Casnewydd wedi tyfu fel porthladd ac yn cael ei datblygu erbyn hyn yn ddinas fodern. Mae cyfeiriadedd daearyddol a hanesyddol basn Caerffili (a chymunedau Bedwas, Trethomas a Machen (BTM) a Chwm Aber sy'n gysylltiedig ag ef) tuag at ran isaf Cwm Rhymni o Lanbradach, gan gynnwys y pentref, tua'r gogledd. Ond mae'r cynigion cychwynnol yn gwahanu Caerffili oddi wrth ei chefnwlad naturiol ac yn creu rhaniad cwbl artiffisial rhwng pentref Llanbradach a thref Caerffili. Mae'r gymuned fuddiant naturiol hon rhwng Caerffili, BTM a Chwm Aber yn gysylltiedig â rhan isaf Cwm Rhymni, ac yn bendant nid dinas Casnewydd.

Heddiw, patrymau teithio i'r gwaith o'r gogledd i'r de a welir gan fwyaf yn hytrach nag o'r dwyrain i'r gorllewin. Mae pobl o Gwm Rhymni, gan gynnwys Caerffili, yn teithio yn ôl ac ymlaen i Gaerdydd ac nid Casnewydd. Yn yr un modd, i Gaerdydd ac nid i Gasnewydd y mae pobl o Gwm Rhymni, gan gynnwys Caerffili, yn mynd i gymdeithasu a 'siopa'. Mae'r seilwaith trafnidiaeth yn golygu bod y patrymau teithio amlwg hyn yn rhai cymharol hawdd – mae'r A469 yn gwasanaethu rhannau canol ac isaf Cwm Rhymni (yn cysylltu tref Caerffili â'i chefnwlad) ac mae llinell reilffordd Cwm Rhymni yn cysylltu pob rhan o Gwm Rhymni, gan gynnwys Caerffili, â Chaerdydd. Yn fuan, bydd llinell Cwm Rhymni yn rhan o'r system 'Metro' ehangach.

Felly, gellir gweld bod cysylltiadau ardderchog rhwng Caerffili a'i chefnwlad, yn wahanol iawn i'r cysylltiadau dinod rhwng etholaeth Caerffili a Gorllewin Casnewydd. Er bod cysylltiadau ffordd da rhwng Machen a Rhiwderyn, dim ond rhywfaint o ddefnydd a wneir o'r ffordd hon ac nid oes unrhyw gyswllt rheilffordd rhwng Caerffili a Chasnewydd.

2. Y gwrthgynnig. Caiff y gwrthgynnig amgen a gyflwynir gennym ei nodi ar y ddau fap atodedig. Byddai hyn yn creu etholaeth Caerffili, ac etholaeth Gorllewin Casnewydd a Threcelyn. Rhan ganolog o'r gwrthgynnig yw'r gydnabyddiaeth mai'r cyswllt amlwg a naturiol yw'r un rhwng Caerffili a'i chefnwlad, nid Gorllewin Casnewydd. Felly, rydym yn cynnig bod Caerffili, BTM a Chwm Aber yn cael eu cysylltu â chymunedau ymhellach i fyny Cwm Rhymni, a bod rhan orllewinol Gorllewin Casnewydd yn cael ei chysylltu â rhannau dwyreiniol etholaeth bresennol Islwyn. Nodir yn fanylach isod pam mae'r cynnig hwn yn fwy rhesymegol a pham ei fod yn debygol iawn o gael mwy o gefnogaeth gan y cyhoedd o gymharu â chynnig cychwynnol y Comisiwn.

Hoffem bwysleisio bod y ddwy etholaeth yn y gwrthgynnig hwn o fewn y cwota etholiadol.

- i) Fel y nodir uchod, mae'n llawer mwy priodol i fasn Caerffili, BTM a Chwm Aber gael eu cysylltu â rhannau isaf a chanol Cwm Rhymni. Unwaith eto, dyma gefnwlad naturiol tref Caerffili.
- ii) Mae ein gwrthgynnig hefyd yn cynnwys cymunedau sy'n rhan o etholaeth Seneddol Islwyn ar hyn o bryd, fel Pontllanfraith a Choed-duon. Mae'n bwysig nodi bod y cymoedd hollbwysig yn llai amlwg yn y rhan hon o dde Cymru, ac mae'r cysylltiadau rhwng Coed-duon, Pontllanfraith ac Ystrad Mynach (gan gynnwys ysbyty Ystrad Fawr) yn ardderchog. Yr A472 yw'r ffordd brifwythiennol sy'n cysylltu'r ardaloedd hyn yng nghanol y cymoedd. Mae'n wir dweud hefyd fod gan y cymunedau ym masn Caerffili a'r ardal o'i amgylch lawer mwy yn gyffredin â'r cymunedau hyn nag sydd ganddynt â Dinas Casnewydd. Yn wir, mae'r gydberthynas economaidd-gymdeithasol rhwng y cymunedau yn y rhan ganolog hon o'r cymoedd yn gryf iawn. Roedd ward Maesycwmer hefyd yn rhan o etholaeth Seneddol Caerffili tan yn ddiweddar iawn.
- iii) Yn yr un modd, mae'r gydberthynas rhwng cymunedau yn Nwyrain Islwyn, fel Trecelyn a Chrymlyn, a Chasnewydd yr un mor gryf â'r gydberthynas sydd ganddynt â chymunedau ymhellach i'r gorllewin fel Ystrad Mynach a Llanbradach. Hefyd, caiff Rhisga ei chysylltu â rhan orllewinol Casnewydd gan yr A467. Mae'r ffordd hon yn cynnig mynediad rhagorol i bentrefi i'r gogledd-orllewin o Gasnewydd, yng nghwm Sirhywi, yn ogystal â thref Rhisga, a gwneir defnydd da ohoni. Yn wir, mae cyfeiriadedd economaidd-gymdeithasol y cymunedau hyn yng nghymoedd Dwyrain Gwent tuag at Gasnewydd yn hytrach na Chaerffili.

Casgliad

I grynhoi, credwn fod ein gwrthgynnig yn llawer mwy rhesymegol. Mae'n rhoi llawer mwy o gydnabyddiaeth i'r realiti o ran daearyddiaeth, trafndiaeth a ffactorau economaidd-gymdeithasol o gymharu â chynnig cychwynnol y Comisiwn Ffiniau. Yn hanfodol, credwn yn gryf fod ein gwrthgynnig yn llawer mwy tebygol o gael ei dderbyn gan y cyhoedd a chael ei gefnogi gan y cyhoedd o gymharu â chynnig cychwynnol y Comisiwn Ffiniau.

O ran eglurder, rydym yn nodi'r wardiau a fyddai'n rhan o etholaeth newydd Caerffili ac yna etholaeth Gorllewin Casnewydd a Threcelyn.

Y gwrthgynnig – etholaeth 'Caerffili'

- St James (4,267)
- Bedwas, Trethomas a Machen (7,902)
- Morgan Jones (5,636)
- St. Martins (6,582)
- Penyrheol (9,021)
- Cwm Aber (4,655)
- Llanbradach (3,239)
- Ystrad Mynach (4,067)
- Maesycwmer (1,811)
- Hengoed (4,055)
- St Catwg (5,579)
- Pengam (2,760)
- Cefn Fforest (2,845)
- Coed-duon (6,330)
- Pontllanfraith (6,343)

Cyfanswm: 75,092



Y gwrthgynnig – etholaeth 'Casnewydd a Threcelyn'

- Maerun (4,897)
- Parc Tredegar (3,329)
- Gaer (6,543)
- Graig (5,053)
- Allt-yr-Ynn (7,088)
- Tŷ-du (9,421)
- Dwyrain Rhisga (4,611)
- Gorllewin Rhisga (3,973)
- Crosskeys (2,527)
- Ynysddu (2,978)
- Abercarn (4,139)
- Trecelyn (4,892)
- Crymlyn (4,332)
- Penmaen (4,219)
- Argoed (2,035)

Cyfanswm: 70,037

Islwyn

1 : 25,028




- 1 - Risca East (4,611)
- 2 - Cefn Fforest (2,845)
- 3 - Risca West (3,973)
- 4 - Pengam (2,760)
- 5 - Hengoed (4,055)

© Crown copyright and database rights [2021] OS [100047875]



Newport West and Caerphilly (Gorllewin Casnewydd a Chaerffili)



- 1 - Tredegar Park (3,329)
- 2 - Morgan Jones (5,636)

© Crown copyright and database rights [2021] OS [100047875]





2 Tachwedd 2021

Comisiwn Ffiniau i Gymru,
Tŷ Hastings,
Llys Fitzalan,
Caerdydd,
CF39 0BL

Annwyl Syr/Fadam

Parthed: Adolygiad o Etholaethau Seneddol 2023

Rwy'n ysgrifennu i gyflwyno ymateb ffurfiol Aelodau Etholedig i'ch ymgynghoriad cychwynnol mewn perthynas â'r Adolygiad o Etholaethau Seneddol yng Nghymru yn 2023. Cafodd yr ymateb yma ei gytuno gan Aelodau'r Cyngor mewn cyfarfod diweddar o'r Cyngor llawn, a hynny yn dilyn ystyriaeth drawsbleidiol fanwl o'ch cynigion gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cyngor.

Cafodd y mater ei drafod gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ei gyfarfod ar 12 Hydref 2021, lle roedd gwahoddiad agored i'r holl Aelodau Etholedig. Yn y cyfarfod yma, nododd yr Aelodau gymhlethdodau'r dasg y bu'n ofynnol i chi ei chyflawni, yn unol â'r gymhareb ragnodedig ar gyfer niferoedd yr etholwyr fesul etholaeth, fel y'i diffinnir gan Lywodraeth y DU. Mae'r Aelodau'n cydnabod nad oes llawer o le i chi fel Comisiwn wyro oddi wrth eich cynigion cychwynnol mewn ymateb i sylwadau a phryderon Aelodau Etholedig yn Rhondda Cynon Taf yn unig, o gofio bod yr effaith ar y pedair etholaeth seneddol sy'n cynrychioli'r Fwrdeistref Sirol hon ar hyn o bryd yn rhan fach o fap seneddol cyfredol ac arfaethedig Cymru, y mae'n ofynnol i chi ei adolygu yn unol â gofynion deddfwriaethol. Ar y sail honno nododd yr Aelodau'r angen i gyfyngu eu sylwadau er mwyn canolbwyntio ar egwyddorion eang a meysydd pryder penodol, gan ragweld y byddai modd i chi ystyried sylwadau o'r fath wrth lunio cam nesaf eich cynigion.

Lle bo modd, roedd yr Aelodau'n awyddus i osgoi unrhyw ddryswch y byddai'r cynigion newydd yma'n eu hachosi i'r cyhoedd wrth iddyn nhw geisio cynrychiolaeth leol yn Senedd Cymru a'r Cyngor. Mynegodd yr Aelodau bryder ei bod yn ymddangos bod ffurf bresennol etholaethau cyfagos, megis Gogledd Caerdydd a Gorllewin Caerdydd yn cael eu cadw'r un fath yn eich cynigion, er bod wardiau unigol o Ronda Cynon Taf yn cael eu hychwanegu i 'gydbwysu' lefel y gynrychiolaeth o fewn y ddwy etholaeth dan sylw. Mynegodd yr Aelodau

sy'n cynrychioli wardiau etholiadol Pont-y-clun a Ffynnon Taf a Nantgarw, bryderon ynghylch symud y ddwy adran etholiadol ddeheuol yma i etholaethau newydd arfaethedig Gorllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd yn y drefn honno. Nodwyd fod fawr ddim cysylltiad lleol rhwng y cymunedau hynny nac unrhyw gysylltiad uniongyrchol amlwg o ran ffiniau gweinyddiaeth yr awdurdodau lleol. Yn ogystal â hynny, mae'r ddwy gymuned wedi'u gwahanu'n ddaearyddol, o ran trafniadaeth a chysylltiadau cymunedol, gan draffordd yr M4. Roedd yr Aelodau o'r farn y byddai'r cynnig yma'n cyfyngu ar allu Aelodau Seneddol y dyfodol i gynrychioli'r etholaethau diwygiedig yma yn effeithiol, gan sôn yn benodol am gymunedau Pont-y-clun, a Ffynnon Taf a Nantgarw. Wrth drafod y mater yma, roedd yr holl Aelodau o'r farn bod modd i'r cyhoedd deimlo bod pedair etholaeth Rhondda Cynon Taf wedi'u torri'n ddarnau gan fod hyn yn 'opsiwn haws' na chynnig ailgynllunio ffiniau Seneddol y brifddinas.

Wrth drafod cynrychiolaeth effeithiol yn y dyfodol, mynegodd yr Aelodau bryderon tebyg mewn perthynas â chynigion o ran cymunedau Llanharan a Brynna yn dod yn rhan o etholaeth seneddol 'Rhondda' yn y dyfodol. Unwaith eto, mynegwyd pryder ar y sail nad oes cysylltiad rhwng y cymunedau dan sylw, naill ai'n hanesyddol nac o ran y ffordd mae preswylwyr yn byw eu bywydau beunyddiol. Mae hefyd yn peri pryder ei bod hi'n amhosibl teithio rhwng Cymoedd y Rhondda a'r cymunedau sy'n rhedeg ar hyd coridor yr M4 yn ne'r Fwrdeistref Sirol, sydd wedi'u cynnig i fod yn rhan o'r etholaeth seneddol newydd. Bydd hyn i bob pwrpas yn golygu y byddai'r ardaloedd a restrir wedi'u gwahanu'n ddaearyddol o brif ran drefol etholaeth newydd y Rhondda yn rhan o'r cynigion yma. Os yw'n ofynnol i'r trefniadau cynrychiolaeth cymunedau hyn gael eu newid yn rhan o'ch cynigion, aeth yr Aelodau ati i gydnabod bod llawer mwy o gyswllt rhwng y cymunedau yma ac etholaethau seneddol newydd Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg, neu'r etholaeth newydd sydd wedi'i chynnig ym Mhontypridd. Cymeradwyodd yr Aelodau'r penderfyniad i ddal ati i ddefnyddio enw'r Rhondda o fewn unrhyw drefniadau etholaethol yn y dyfodol o ganlyniad i'w arwyddocâd hanesyddol yn hanes Cymru fodern ac o fewn y Fwrdeistref Sirol ehangach.


Holodd yr Aelodau pam nad yw'r cynigion yn mynd i'r afael ag anghysondeb cynnwys Evanstown yn etholaeth Ogwr, er bod y gymuned wedi'i chysylltu'n uniongyrchol â Gilfach-goch, sydd i fod yn rhan o etholaeth newydd y Rhondda.

Roedd yr Aelodau'n unfrydol eu barn bod rhannu etholaethau Cwm Cynon yn fwy o 'ymarfer cyfleustra' a chyfeiriwyd at sylwadau'r Comisiwn 'nad yw'r etholaeth a ffurfiwyd o'r ardaloedd yma'n dilyn daearyddiaeth y cymoedd o'r gogledd i'r de'. Nodwyd y byddai gan lawer o breswylwyr Aberdâr fwy o gysylltiad â Merthyr Tudful na Pontypridd er enghraifft, ond tynnodd yr Aelodau sylw at y ffaith y byddai hyn yn wir yn achos trigolion Aberaman hefyd. Gan fod Aberaman ar un adeg wedi bod yn rhan o Gyngor Dosbarth Trefol Aberdâr, roedd yr Aelodau'n teimlo'n gryf bod perthynas hanesyddol Aberaman (Gogledd a De) yn fwy cysylltiedig ag Aberdâr, yn hytrach na'r wardiau etholiadol o etholaeth gyfagos Cwm Cynon sydd wedi'u cynnig ar gyfer eu cyfuno â Phontypridd.

Nododd yr Aelodau ei bod hi'n bwysig i gynigion yn y dyfodol ystyried trefniadau etholiadol Rhondda Cynon Taf ar gyfer y dyfodol. Cafodd y rhain eu cyflwyno'n ddiweddar gan Lywodraeth Cymru, a byddan nhw mewn grym o fis Mai 2022.

Yn ogystal â'r ateb ffurfiol yma, rwy'n effro i'r ffaith y bydd Aelodau unigol yn cyflwyno sylwadau ar ran eu wardiau etholiadol, a bydd y pleidiau gwleidyddol a gynrychiolir ar y Cyngor hefyd yn gwneud hynny.

Yn gywir,



Llywydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

BCW-9867 / [REDACTED] / Hengoed

Annwyl Syr/Madam,

Cyfeiriaf at y cynigion cychwynnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer ad-drefnu ffiniau etholaethau, a hoffwn wneud y sylwadau canlynol i'w hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori gychwynnol.

Fel un o drigolion Sir Caerffili, rwy'n siomedig ynghylch y cynnig cychwynnol i rannu etholaeth bresennol Caerffili yn bedair etholaeth newydd, yn enwedig yr awgrym y dylai rhan isaf etholaeth bresennol Caerffili gael ei chysylltu â rhan orllewinol etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd i greu etholaeth newydd Gorllewin Casnewydd a Chaerffili.

Rwyf yn byw yn Hengoed, Sir Caerffili ac nid wyf erioed wedi teimlo bod yna gysylltiad â Chasnewydd o ran unrhyw weithgareddau hamdden na busnes – i Gaerdydd y byddaf yn mynd i'r perwyl hwnnw. Un o'r prif resymau dros hyn yw bod cysylltiadau teithio llawer gwell rhwng fy nghartref a Chaerdydd, boed mewn car neu ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r cysylltiadau ffyrdd i Gaerdydd yn llawer gwell na'r rhai i Gasnewydd, a phetawn i'n teithio ar y trê'n, byddai'n rhaid i mi fynd i Gaerdydd gyntaf.

Mae pob un o'm cymdogion rwyf wedi siarad â nhw o'r un farn nad yw ceisio cysylltu ein cymuned ni â Chasnewydd yn hytrach na Chaerdydd yn gwneud unrhyw synnwyr o gwbl ac ni fyddai'n cael ei groesawu.

Credaf fod nifer o ardaloedd sy'n rhan o etholaeth Islwyn ar hyn o bryd a fyddai'n uniaethu'n fwy â Chasnewydd o gymharu â fy nghymuned i, ac mae gan lawer o'r cymunedau hynny yn Islwyn gysylltiadau trafnidiaeth llawer gwell â Dinas Casnewydd.

I orffen, hoffwn ofyn i'r Comisiwn ailystyried y cynigion ar gyfer Caerffili a'r ardal gyfagos, a newid y cynigion hynny er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'n well deimladau a dymuniadau trigolion fel fi sy'n byw yn Hengoed, Sir Caerffili.

Rwyf ar ddeall bod Wayne David, yr AS dros Gaerffili, wedi gwneud gwrthgynnig manwl a hyfyw.

BCW-9868 / [REDACTED] / Hengoed

Annwyl Syr/Madam,

Cyfeiriaf at y cynigion cychwynnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer ad-drefnu ffiniau etholaethau, a hoffwn wneud y sylwadau canlynol i'w hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori gychwynnol.

Fel un o drigolion Sir Caerffili, rwy'n siomedig ynghylch y cynnig cychwynnol i rannu etholaeth bresennol Caerffili yn bedair etholaeth newydd, yn enwedig yr awgrym y dylai rhan isaf etholaeth bresennol Caerffili gael ei chysylltu â rhan orllewinol etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd i greu etholaeth newydd Gorllewin Casnewydd a Chaerffili.

Rwyf yn byw yn Hengoed, Sir Caerffili ac nid wyf erioed wedi teimlo bod yna gysylltiad â Chasnewydd o ran unrhyw weithgareddau hamdden na busnes – i Gaerdydd y byddaf yn mynd i'r perwyl hwnnw. Un o'r prif resymau dros hyn yw bod cysylltiadau teithio llawer gwell rhwng fy nghartref a Chaerdydd, boed mewn car neu ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r cysylltiadau ffyrdd i Gaerdydd yn llawer gwell na'r rhai i Gasnewydd, a phetawn i'n teithio ar y trê'n, byddai'n rhaid i mi fynd i Gaerdydd gyntaf.

Mae pob un o'm cymdogion rwyf wedi siarad â nhw o'r un farn nad yw ceisio cysylltu ein cymuned ni â Chasnewydd yn hytrach na Chaerdydd yn gwneud unrhyw synnwyr o gwbl ac ni fyddai'n cael ei groesawu.

Credaf fod nifer o ardaloedd sy'n rhan o etholaeth Islwyn ar hyn o bryd a fyddai'n uniaethu'n fwy â Chasnewydd o gymharu â fy nghymuned i, ac mae gan lawer o'r cymunedau hynny yn Islwyn gysylltiadau trafndiaeth llawer gwell â Dinas Casnewydd.

I orffen, hoffwn ofyn i'r Comisiwn ailystyried y cynigion ar gyfer Caerffili a'r ardal gyfagos, a newid y cynigion hynny er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'n well deimladau a dymuniadau trigolion fel fi sy'n byw yn Hengoed, Sir Caerffili.

Rwyf ar ddeall bod Wayne David, yr AS dros Gaerffili, wedi gwneud gwrthgynnig manwl a hyfyw.

BCW-9869 / [REDACTED] / Hengoed

Annwyl Syr/Madam,

Cyfeiriaf at y cynigion cychwynnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer ad-drefnu ffiniau etholaethau, a hoffwn wneud y sylwadau canlynol i'w hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori gychwynnol.

Fel un o drigolion Sir Caerffili, rwy'n siomedig ynghylch y cynnig cychwynnol i rannu etholaeth bresennol Caerffili yn bedair etholaeth newydd, yn enwedig yr awgrym y dylai rhan isaf etholaeth bresennol Caerffili gael ei chysylltu â rhan orllewinol etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd i greu etholaeth newydd Gorllewin Casnewydd a Chaerffili.

Rwyf yn byw yn Hengoed, Sir Caerffili ac nid wyf erioed wedi teimlo bod yna gysylltiad â Chasnewydd o ran unrhyw weithgareddau hamdden na busnes – i Gaerdydd y byddaf yn mynd i'r perwyl hwnnw. Un o'r prif resymau dros hyn yw bod cysylltiadau teithio llawer gwell rhwng fy nghartref a Chaerdydd, boed mewn car neu ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r cysylltiadau ffyrdd i Gaerdydd yn llawer gwell na'r rhai i Gasnewydd, a phetawn i'n teithio ar y trê'n, byddai'n rhaid i mi fynd i Gaerdydd gyntaf.

Mae pob un o'm cymdogion rwyf wedi siarad â nhw o'r un farn nad yw ceisio cysylltu ein cymuned ni â Chasnewydd yn hytrach na Chaerdydd yn gwneud unrhyw synnwyr o gwbl ac ni fyddai'n cael ei groesawu.

Credaf fod nifer o ardaloedd sy'n rhan o etholaeth Islwyn ar hyn o bryd a fyddai'n uniaethu'n fwy â Chasnewydd o gymharu â fy nghymuned i, ac mae gan lawer o'r cymunedau hynny yn Islwyn gysylltiadau trafnidiaeth llawer gwell â Dinas Casnewydd.

I orffen, hoffwn ofyn i'r Comisiwn ailystyried y cynigion ar gyfer Caerffili a'r ardal gyfagos, a newid y cynigion hynny er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'n well deimladau a dymuniadau trigolion fel fi sy'n byw yn Hengoed, Sir Caerffili.

Rwyf ar ddeall bod Wayne David, yr AS dros Gaerffili, wedi gwneud gwrthgynnig manwl a hyfyw.

BCW-9870 / [REDACTED] / Castell-nedd

Rwy'n cyflwyno ymateb ar ran Plaid Lafur Etholaeth Castell-nedd, ac a gymeradwywyd yn llawn gan Christina Rees AS dros Gastell-nedd, Jeremy Miles AS dros Gastell-nedd, Gwenda Thomas (cyn AC Castell-nedd), a'r Arglwydd Hain (cyn AS Castell-nedd).

Plaid Lafur Etholaeth Castell-neddAdolygiad Seneddol Comisiwn Ffiniau i Gymru 2023 – Ymateb i'r Ymgynghoriad Tachwedd 2021**Cyflwyniad**

Lluniwyd y papur hwn ar ran Plaid Lafur Etholaeth Castell-nedd fel ymateb ffurfiol i ymgynghoriad y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar ei gynigion cychwynnol ar gyfer Adolygiad Seneddol 2023. Mae wedi'i gymeradwyo'n llawn gan Christina Rees AS, Jeremy Miles AS, y cyn Aelod Cynulliad Gwenda Thomas, a'r cyn Aelod Seneddol, yr Arglwydd Hain. Cytunir na allwn dderbyn y newidiadau yn y cynigion cychwynnol gan nad ydynt yn ystyried daearyddiaeth, hanes, cysylltiadau cymunedol, a demograffeg economaidd-gymdeithasol ein hetholaeth a'n hetholwyr.

Mae'r cynigion yn gweld gostyngiad yn nifer cyffredinol seddi Senedd Cymru o 40 i 32. O fewn yr etholaethau agos o amgylch Castell-nedd, mae'n golygu aiddosbarthu etholwyr o'r etholaethau presennol canlynol:

Castell-nedd – 58,032
 Dwyrain Abertawe – 60,726
 Gorllewin Abertawe – 59,419
 Gŵyr – 62,763
 Brycheiniog a Maesyfed – 55,124

Mae aiddosbarthu etholwyr o'r pum etholaeth bresennol uchod yn golygu y byddai Cynigion Cychwynnol y Comisiwn Ffiniau yn creu'r pedair etholaeth newydd ganlynol:

Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd – 75,641
 Canol a Gogledd Abertawe – 76,199
 Gorllewin Abertawe a Gŵyr – 75,214
 Brycheiniog a Maesyfed – 72,113

Mae'r effaith ar etholaeth bresennol Castell-nedd yn golygu y bydd 9 ward yn cael eu trosglwyddo i etholaeth newydd Brycheiniog a Maesyfed, a bydd etholaeth newydd dwyrain Abertawe a Chastell-nedd (75,641) yn cael ei chreu o'r rhannau sy'n weddill o Gastell-nedd (39,518), tair ward o Ddwyrain Abertawe bresennol (Bôn-y-maen 539, Llansamlet 11107, St Thomas 5514 – Cyfanswm 22,012), un ward o Gŵyr presennol (Clydach 5821), a thair ward o Aberafan bresennol (Canol Coed-ffranc 2892, Gogledd Coed-ffranc 181, Gorllewin Coed-ffranc 3587 – Cyfanswm 8,290).

Mae sawl rheswm pam mae hyn yn annerbyniol, gan gynnwys materion daearyddiaeth, hanes, cysylltiadau cymunedol, demograffeg, ac economi leol, ac archwilir pob un ohonynt yn fanylach isod. Mae gan etholaeth Castell-nedd hanes balch sy'n rhychwantu 103 o flynyddoedd, ac yn ystod y cyfnod hwnnw dim ond 6 Aelod Seneddol sydd wedi gwasanaethu ers amser maith. Ers bron i 40 mlynedd (ers y newidiadau diwethaf i'r ffin), mae cymunedau etholaeth Castell-nedd wedi rhannu hanes parhaus, gan gefnogi ei gilydd drwy adegau anodd fel Streic y Glowyr, a

effeithiodd ar bobl ym mhob cwr o'r etholaeth.

Ar y gorau, nid yw'r cynigion yn gwneud unrhyw synnwyr ac ar eu gwaethaf, pe baent yn cael eu mabwysiadu byddent yn creu anghyfleustra enfawr i'r unigolion a'r cymunedau dan sylw. Byddai anawsterau daearyddol sylweddol yn cael eu creu pe bai cynrychiolaeth Seneddol yn cael ei rhoi o fewn ardal Brycheiniog a Maesyfed sydd eisoes yn enfawr a thirgaeedig. Byddai hawl yr unigolyn i gael mynediad cyfleus i gynrychiolaeth Seneddol yn cael ei wanhau'n ddifrifol. Dylai Cwm Tawe Uchaf a Dyffryn Aman aros lle maen nhw'n perthyn, yn Etholaeth Castell-nedd.

Byddai'r cynigion yn torri pob cysylltiad hir â chymunedau eraill y cymoedd yng Nghastell-nedd. Mae'r cymunedau hyn yn y cymoedd yn rhannu hanes o ffyrdd cyfarwydd o fyw, cysylltiadau diwylliannol, treftadaeth ddiwydiannol a thraddodiadau. Mae treftadaeth a diwylliant diwydiannol Cwm Tawe a Dyffryn Aman yn gwbl groes i sylfaen amaethyddol wledig etholaeth Brycheiniog a Maesyfed.

Byddai'r cynigion hefyd yn rhoi cynrychiolaeth Seneddol y tu allan i ffiniau Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a'r holl Gynghorau Tref a Chymuned sy'n gwasanaethu'r wardiau hyn. Unwaith eto, gan greu rhwystr i hwyluso mynediad a chyfarwydd.

Byddai dileu'r wardiau hyn yn achosi dryswch i bobl sy'n byw yno gan y byddent yn gwbl y tu allan i etholaeth Castell-nedd, lle byddant yn aros at ddibenion cynrychiolaeth Senedd Cymru.

Byddai'r newidiadau'n torri cysylltiadau â llawer o bartneriaethau rhanbarthol Gorllewin Morgannwg o fewn y sectorau statudol a gwirfoddol. Mae'r partneriaethau hyn yn gwasanaethu'r wardiau hyn yn dda ac yn hyrwyddo cydlynid cymunedol a darpariaeth integredig.

Byddai cysylltiadau â sir gadwedig Gorllewin Morgannwg, sy'n dyddio'n ôl i sir hynafol Morgannwg, yn cael eu torri. Mae Gorllewin Morgannwg yn parhau i fod yn Sir gadwedig ar gyfer yr Is-gapteiniaeth a'r Siryddiaeth. Mae'r swyddogaethau hyn yn amlwg ym mywyd dinesig y cymunedau hyn yn y cymoedd ac maen nhw'n hyrwyddo ac yn annog y sector gwirfoddol a gwirfoddoli unigol.

I grynhoi, byddai'r cynigion yn gwanhau hawl sylfaenol ac elfennol pobl Cwm Tawe Uchaf a Dyffryn Aman i gael mynediad hawdd a chyfleus i ddemocratiaeth a'i phrosesau.

Etholaeth Castell-nedd

Roedd yr etholaeth a grëwyd ym 1918 yn cynnwys mwy o ardal na'r etholaeth bresennol. Roedd yn ymestyn i'r gorllewin i Fawr, i'r de i Jersey Marine ac i'r dwyrain i'r Rhigos. Roedd yr etholaethau wedi'u seilio ar y strwythur sirol a llywodraeth leol hanesyddol cyn 1974. Roedd Castell-nedd yn rhan o Forgannwg ar y pryd. Ym 1950 newidiwyd y ffiniau yn y cyntaf o'r adolygiadau rheolaidd o ffiniau etholaethau a grëwyd ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Trosglwyddwyd ardaloedd Mawr a Phontardawe i etholaeth Gŵyr. Roedd etholaeth

Castell-nedd a grëwyd ym 1950 yn cynnwys ardal Llansawel.

Gweithredwyd y ffiniau presennol yn 2010 o ganlyniad i'r Pumed Adolygiad Cyfnodol, lle nad oedd fawr ddim wedi newid i'r rhai a weithredwyd ym 1992. Adolygiad 2010 oedd y cyntaf i fod wedi'i seilio ar strwythur llywodraeth leol ar ôl pasio Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994. Gwnaed mân addasiad, gan effeithio ar 11 o etholwyr, a ddeilliodd o newid ffin adran etholiadol rhwng Clydach (Abertawe) a Threbannws (Castell-nedd Port Talbot).

Mae Castell-nedd yn etholaeth gytbwys o ran cymysgedd gwych o gymoedd a phentrefi, gydag anheddau gwledig a threfol sydd â chysylltiadau cryf â'r dref. Mae pobl pentrefi fel Brynman a Banwen, Blaengwrach a Bryncoch i gyd yn edrych i dref Castell-nedd ar gyfer siopa, cymdeithasu a gwasanaethau. Mae gan Gwm Tawe, Cwm Dulais a Chwm Nedd ganolbwynt naturiol ar y dref, ac maen nhw'n gartref i gymunedau clos sydd â llawer yn gyffredin â'i gilydd.

Etholaeth Arfaethedig Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd

Er ein bod yn deall bod y broses adolygu yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru leihau nifer yr etholaethau yng Nghymru ac ail-lunio nifer o ffiniau, nid ydym yn cytuno mai'r cynnig cychwynnol yw'r un gorau. Byddai'r cynnig i fynd â wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman allan o etholaeth Castell-nedd yn torri'r cysylltiadau daearyddol, hanesyddol, diwylliannol a chymunedol sy'n bodoli ac sy'n ffurfio cymeriad cyn ac ôl-ddiwydiannol etholaeth Castell-nedd. Nid oes gan Gwm Tawe a Dyffryn Aman gysylltiadau daearyddol na lleol ag etholaeth Brycheiniog a Sir Faesyfed, ac ni fu ganddynt erioed. Felly cynigir y dylid dychwelyd wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman yn ôl i Etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd.

Mae ystyriaethau daearyddol y rhan hon o'r etholaeth bresennol yn ffurfio darluniad naturiol bryniau, mynyddoedd, llynnoedd ac afonydd etholaeth Castell-nedd ac nid etholaeth Brycheiniog a Sir Faesyfed sy'n bell oddi wrtho.

Mae cysylltiadau lleol diwylliant, hanes ac economeg gymdeithasol o'r pwys mwyaf yn y modd y mae wardiau Cwm Tawe a Dyffryn Aman wedi ffurfio rhannau hanfodol o etholaeth Castell-nedd. Ni ddylid torri'r cysylltiadau lleol hyn.

Byddai cynnig bod ardaloedd Cwm Tawe Uchaf a Dyffryn Aman yn rhan o etholaeth Brycheiniog a Maesyfed - etholaeth sydd, gellid dadlau, eisoes yn rhy fawr yn ddaearyddol - yn arwain at etholaeth seneddol fwy byth, na fyddai'n gwasanaethu'r etholwyr na'r cynrychiolydd etholedig yn dda. Yn wir, yn ôl cynllunydd taith yr RAC, y pellter rhwng Trebannws yn ne'r etholaeth newydd arfaethedig, i Fugeildy yn y gogledd, ychydig dros 79 milltir, ac mae'n 1 awr 58 munud o daith. Y Cyngor a fydd yn gyfrifol am weinyddu etholiadau fydd Cyngor Sir Powys. Y pellter o Drebanws i Neuadd y Sir yn Llandrindod yw 60.46 milltir, ac mae'n 1 awr 28 munud o daith. Mae'r pellteroedd a'r amseroedd teithio hyn yn seiliedig ar deithio mewn car preifat. Mae teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus, ar y gorau, yn anodd iawn, ar y gwaethaf, bron yn amhosibl.

Yn amlwg, felly, mae'r cynnig hwn yn gwbl annemocrataidd ac yn anymarferol, ac mae'n mynd yn gwbl groes i Reol 5 yn Atodlen 2 i Ddeddf 1986, sy'n cyfeirio at "ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol maint, ffurf a hygyrchedd etholaeth," "unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau mewn etholaethau," a "yr anghyfleustra sy'n gysylltiedig â'r cyfryw newidiadau."

Yn ogystal, nid yw'r cynnig cychwynnol yn rhoi unrhyw ystyriaeth i deneurwydd y boblogaeth, amddifadedd neu unigedd daearyddol – ystyriaethau a fyddai'n cael effaith andwyol ar allu cynrychiolwyr etholedig i ymgymryd â'r gwaith a ddisgwylir ganddynt gan eu hetholwyr.

Dylid cefnogi'r cynnig i ddod â wardiau Canol, Gogledd a Gorllewin Coed-ffranc yn Aberafan i etholaeth newydd Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd oherwydd bod y ffin bresennol yn artiffisial, yn anodd ei dirnad, ac nid yw'n cydymffurfio â ffin cyngor Castell-nedd Port Talbot. Mae llawer o bobl sy'n byw yn wardiau Coed-ffranc sydd naill ai eisoes yn credu eu bod yn byw yn etholaeth Castell-nedd neu wedi mynegi'r dymuniad i gael ailymuno â hi oherwydd y cysylltiadau lleol cydfuddiannol.

Mae rhesymeg o ran alinio ward Clydach yn y Gŵyr â ward Trebannws yng Nghastell-nedd, lle mae'r ffin rhwng y ddau yn ddi-dor. Er nad oes gan ward Llansamlet yn Nwyrain Abertawe unrhyw gysylltiadau daearyddol na lleol ag etholaeth bresennol Castell-nedd, mae ganddo gysylltiadau â wardiau presennol Coed-ffranc yn Aberafan, sy'n cael eu hadleoli i Etholaeth newydd Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn Ffiniau.

Yn yr un modd, mae ward St Thomas, Dwyrain Abertawe, yn estyniad naturiol i'r gorllewin o ward Gorllewin Coed-ffranc yn Aberafan ac yn cynnal y cysylltiadau daearyddol a lleol â Champws Bae Prifysgol Abertawe, sydd o fewn ffin Cyngor Castell-nedd Port Talbot a dyfrffordd camlas Port Tennant.

Mae gan ward Bôn-y-maen, Dwyrain Abertawe, gysylltiad naturiol â wardiau Canol Coed-ffranc a Gogledd Coed-ffranc, er enghraifft agosrwydd daearyddol Bwrdeistrefi Crymlyn, ac mae ganddi lefelau economaidd-gymdeithasol, cyflogaeth, amddifadedd a ffyniant tebyg.

Gwrthgynnig – Castell-nedd a Dwyrain Abertawe

Byddai Castell-nedd a Dwyrain Abertawe (enw sy'n adlewyrchu'n well y rhan amlycaf o unrhyw etholaeth newydd sy'n cynnwys y rhan fwyaf o etholwyr o etholaeth bresennol Castell-nedd) yn cynnwys etholaeth bresennol Castell-nedd yn ei chyfanrwydd, ynghyd â'r 3 ward arfaethedig o etholaeth bresennol Dwyrain Abertawe, 1 ward o etholaeth bresennol Gŵyr a 3 ward o etholaeth bresennol Aberafan. Byddai'r cynnig hwn yn golygu ail-gynnwys wardiau presennol Rhos (1,997), Pontardawe (4,283), Brynaman Isaf (1,040), Alltwn (2,023), Godre'r Graig (1,514), Trebannws (1,092), Gwauncaegurwen (2,220), Ystalyfera (2,169), Cwmllynfell (921) yng Nghastell-nedd, am gyfanswm o 17,259 o etholwyr. Byddai hyn yn arwain at etholaeth newydd Castell-nedd a Dwyrain Abertawe, gyda 92,900 o etholwyr.

Byddai dileu'r etholwyr hyn o'r Brycheiniog a Maesyfed newydd arfaethedig yn gadael etholaeth o 54,854. Fodd bynnag, dylai etholaeth Brycheiniog a Maesyfed ymuno ag Ynys Môn drwy beidio â dod o dan Gwota Etholiadol y DU, oherwydd er y byddai ganddi'r nifer lleiaf o etholwyr, hon yw'r etholaeth fwyaf o ran maint a mwyaf daearyddol wledig yng Nghymru. Mae Ynys Môn yn ynys sydd â chysylltiadau daearyddol a lleol penodol, tra bod Brycheiniog a Maesyfed yn ehangder gwledig tirgaeedig, sydd â chysylltiadau daearyddol a lleol penodol.

Yn yr un modd, ni ddylai Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd "weithredu Cwota Etholiadol y DU", o ystyried ei gysylltiadau diwylliannol a daearyddol â Thref Castell-nedd a Chanol Dinas Abertawe. Gellir cyfiawnhau hyn o ystyried nodweddiad unigryw pob etholaeth.

Crynodeb

Er ei bod yn anodd adlinio etholwyr yng nghyd-destun gostyngiad yn nifer cyffredinol seddi seneddol Cymru, mae'n amlwg bod torri rhan ogleddol etholaeth bresennol Castell-nedd yn annerbyniol. Nid yw lleoli cymunedau sydd yng Nghwm Tawe a Dyffryn Aman yn etholaeth Brycheiniog a Maesyfed yn gwneud unrhyw synnwyr yn ddaearyddol – byddai'n creu pellter enfawr o ffin i ffin, ni fyddai'n cysylltu â ffiniau llywodraeth leol perthnasol, ac nid yw'n parhau cysylltiadau cymunedol lleol. Yn ogystal, nid oes gan Gwm Tawe a Dyffryn Aman unrhyw gysylltiadau diwylliannol na hanesyddol â Brycheiniog a Maesyfed; mae gan bobl y cymunedau hyn dreftadaeth ddiwydiannol a'r diwylliant sy'n cyd-fynd â'r hanes hwnnw. Mae ei fudiadau a'i sefydliadau megis neuaddau lles glowyr, corau a chlybiau rygbi yn adlewyrchu'r rhai ym mhob rhan arall o Gastell-nedd, ac yn wrthgyferbyniad llwyr â natur wledig, annhebyg, ffermio Brycheiniog a Maesyfed.

Mae'r gwahaniaethau economaidd-gymdeithasol yn amlwg hefyd. Mae wardiau yng Nghwm Tawe a Dyffryn Aman wedi eu cydnabod yn flaenorol fel ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf oherwydd eu hamddifadu cymharol a'u diffyg gwasanaethau, yn gwbl wahanol i'r cymunedau mwy cyfoethog yn Aberhonddu a Maesyfed.

Yn olaf, mae enwau'r etholaethau newydd arfaethedig yn rhanbarth Abertawe i gyd yn dechrau gydag Abertawe. Fodd bynnag, mae gan Gastell-nedd fwyafrif helaeth y wardiau yn etholaeth newydd Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd gyda 17 – mae gan Ddwyrain Abertawe 3, mae gan Gŵyr 1, ac mae gan Aberafan 3. Byddai gan Gastell-nedd hefyd y mwyafrif helaeth o wardiau pe bai ein cynnig diwygiedig yn cael ei dderbyn gan y Comisiwn Ffiniau, gyda 26 yn dod o'r etholaeth bresennol, 3 o Ddwyrain Abertawe presennol, 1 o Gŵyr presennol, a 3 o'r Aberafan presennol. Felly, dylid newid yr enw i Gastell-nedd a Dwyrain Abertawe.

BCW-9871 / [REDACTED] / Bangor

Mae Bangor yn cael ei rhannu'n ddwy etholaeth wahanol! Mae hynny'n syniad ofnadwy! Pam ddylai Ysbyty Gwynedd Bangor fod mewn un etholaeth a gweddill Bangor fod mewn un arall? Dylai barhau i fod yn rhan o Arfon.

BCW-9872 / [REDACTED] / Bangor

Nid wyf o'r farn y dylai dinas fel Bangor gael ei rhannu'n ddwy

Cadwch Fangor o dan un ardal!

BCW-9873 / [REDACTED] / Wrecsam

Er ei fod yn cydnabod y cyfyngiadau o ran lleihau nifer y cynrychiolwyr a maint etholaethau, nid yw'r Cyngor Cymuned yn cefnogi'r cynnig i drosglwyddo'r cymunedau hynny yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i etholaeth Sir Drefaldwyn a Glyndŵr. Mae'r Cyngor Cymuned o'r farn y caiff y cynnig effaith andwyol ar wasanaethau cyhoeddus lleol a chydffiniant.

BCW-9874 / [REDACTED] / Bangor

Nid oes gan yr ardal hon unrhyw gysylltiadau sylweddol ag Aberconwy. Mae hyd yn oed enw'r etholaeth yn gynhennus gan mai yng Ngwynedd ydym, nid Aberconwy.

Mae'r ddadl ynghylch cysylltiadau teithio yn annidwyll. Daearyddiaeth yw'r rheswm dros y cysylltiadau hyn, nid rhesymau gwleidyddol-gymdeithasol. Mae'r unig ddwy briffordd a'r rheilffordd tua'r dwyrain i Loegr yn pasio drwy Aberconwy. A phasio drwyddi rydym yn ei wneud, rydym braidd byth yn stopio, os o gwbl.

Mae gan yr ardal hon gysylltiadau llawer cryfach â gweddill Bangor a Chaernarfon. Byddai'r cyngor lleol a'r ysbyty nawr yn rhan o etholaeth wahanol. Byddai gan AS Aberconwy lai o awydd i ymladd drosom a byddai ganddo fwy o ddiddordeb yng Nghyngor Conwy ac Ysbyty Glan Clwyd a fyddai'n gwasanaethu'r mwyafrif o'i etholwyr.

Sut bynnag y daethpwyd i'r penderfyniad hwn, mae rhannu cadarnle Plaid Cymru yn ymddangos fel achos o gyffindwylo. Mae hefyd yn gwanhau'n sylweddol y dylanwad cyfyngedig sydd ganddi ar wleidyddiaeth yng Nghymru ar lefel y DU.

BCW-9875/ [REDACTED] / Caerdydd

Rydw i'n cynnwys map o'r etholaethau arfaethedig.

Rydw i wedi cadw'r ffin rhwng Powys a chymoedd y de gan fod hon yn ffin naturiol a hanesyddol.

Rydw i wedi cadw etholaethau'r cymoedd o fewn yr ystod ddaearyddol o Orllewin Abertawe a Gŵyr i Sir Fynwy.

Mae'r rhan fwyaf o seddi'r cymoedd fwy neu lai yr un peth â'r cynigion cychwynnol, ond mae newidiadau i seddi'r gogledd er mwyn ystyried cysylltiadau hanesyddol a chymunedol.

Rydw i wedi ceisio cadw at ffiniau'r awdurdodau lleol mor agos â phosib fel nad oes yr un etholaeth yn cynnwys mwy na dau awdurdod lleol gydag ychydig iawn o eithriadau, yn fwyaf nodedig sedd Meirionnydd Nant Conwy a De Sir Ddinbych.

Mae'r sedd yma'n cynnwys tri awdurdod lleol oherwydd rhesymau hanesyddol a diwylliannol.

Rydw i wedi cynnwys Penrhyndeudraeth yn etholaeth Arfon Dwyfor gan fod cysylltiad cymunedol agos rhwng y ward yma a wardiau Porthmadog.

Am resymau cysylltiadau cymunedol, rydw i wedi symud un ward o Geredigion Preseli i Sir Benfro ac un ward o Lanelli i Gaerfyrddin.

Dydw i ddim wedi eu henwi ond byddai'r rhan fwyaf ohonyn nhw'n weddol syml i'w henwi.

Rydw i'n edrych ymlaen at weld fersiwn nesaf y cynigion.

Plan Builder 2020 x How To Take A Screenshot On A x +

boundaryassistant.org/PlanBuilder/index.html?v=1.66

Plan Builder New Open Save Export Settings Tools

WalesPlan 1

Seats	31
Electorate	2270262
Quota	73234
Minimum	69724
Maximum	77062
Unassigned Avg	0
Assigned Avg	73234

Unassigned 0

1	<input type="radio"/>	Wales 001	70850	Yes
2	<input checked="" type="radio"/>	Wales 002	71028	Yes
3	<input type="radio"/>	Wales 003	70229	Yes
4	<input type="radio"/>	Wales 004	73364	Yes
5	<input type="radio"/>	Wales 005	73644	Yes
6	<input type="radio"/>	Wales 006	70817	Yes
7	<input type="radio"/>	Wales 007	70436	Yes
8	<input type="radio"/>	Wales 008	70914	Yes
9	<input type="radio"/>	Wales 009	74396	Yes
10	<input type="radio"/>	Wales 010	76487	Yes
11	<input type="radio"/>	Wales 011	72683	Yes
12	<input type="radio"/>	Wales 012	69895	Yes

Denbighshire / Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch
Electorate: 1496

Active Ward

Name	Llanarmon-yn-Ial / 2033	
	Llandegla	
Local Auth	Denbighshire	74078 (1.01 Quotas) +
Current Const	Clwyd West	57786 +

Active Plan Consistency

Name	Wales 002
Electorate	71028
Up to 1304 may be removed.	
Up to 6034 may be added.	
Colour	<input type="color"/>
Opacity	0.75
<input type="button" value="Update"/>	

Oxt	W05000042	Aberdovey	907
	W05000109	Tywyn	2476
	W05000053	Bryn-crug / Llanfihangel	772
	W05000081	Llangelynin	1625
	W05000056	Corris / Mawddwy	1023
	W05000064	Dolgellau North	953
	W05000065	Dolgellau South	1072

Design © 2020 Kevin Larkin. Contact: [Email] [Twitter] To help keep this website available and up to date please consider making a contribution.

Type here to search Desktop Rain coming 12:08 01/11/2021

BCW-9876/ [REDACTED] / Bangor

Dydw i ddim yn cytuno bod Dinas Bangor yn cael ei rhannu rhwng dwy etholaeth – mae'n hurt. Dydy Bangor ddim yn lle mawr – gyda phoblogaeth o rhwng 10,000 a 15,000 heb boblogaeth y myfyrwyr. Ar hyn o bryd mae Bangor yn etholaeth Arfon a dylai aros yno yn llwyr.

Byddai'n gwneud llawer mwy o synnwyr rhoi'r ffin ar ffin y Sir rhwng Gwynedd a Chonwy, nid hanner ffordd drwy Fangor. Mae'n amlwg mai ychydig iawn o ymwybyddiaeth ddaearyddol sydd gan bwy bynnag a ddyluniodd y ffin yma. Dydy hon ddim yn gytrif fawr – mae'n ardal wledig ac mae yna ddigon o ardaloedd synhwyrol heb ddim eiddo lle gellid tynnu ffin.

Mae'n anymarferol ac mae'n atgyfnerthu pa mor ddi-glem yw'r Llywodraeth wrth wneud newidiadau o'r fath.

Mae angen ail-lunio'r ffin yma yn fwy i'r dwyrain fel bod Dinas Bangor gyfan yn aros yn Arfon.

BCW-9877/ Nick Smith AS/ Brynmawr

Ysgrifennaf i gefnogi cynigion y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar gyfer etholaeth Blaenau Gwent a Rhymni am y rhesymau canlynol:

- O ystyried bod poblogaeth etholaeth bresennol Blaenau Gwent islaw'r gofyniad statudol ar gyfer nifer yr etholwyr sy'n angenrheidiol, y datrysiad mwyaf cydlynol i gynnwys digon o etholwyr ar gyfer etholaeth yn yr ardal hon yw'r cynnig i ychwanegu wardiau o Gwm Rhymni.
- Mae'r cynigion yn creu etholaeth gywasgedig a hygyrch sydd â chysylltiadau trafndiaeth cryf. Mae'r A465 (a adwaenir fel Ffordd Blaenau'r Cymoedd) yn cysylltu trefi a phentrefi gogleddol yr etholaeth, sef trefi Brynmawr, Glynebwy, Tredegar (sydd oll ym Mlaenau Gwent) a Rhymni yn bennaf. Mae cyfres o ffyrdd dosbarth A yn cysylltu trefi eraill yn yr etholaeth arfaethedig â'r ffordd hon, er enghraifft yr A469 i Dredegar Newydd a Bargoed a'r A467 i Flaenau, Abertyleri a Llanhilleth.
- Yn ogystal, mae gan etholaeth bresennol Blaenau Gwent, a'r ychwanegiadau arfaethedig iddi yn Rhymni, wasanaethau trên rheolaidd ar gyfer cymudo i Gaerdydd. Mae gorsafoedd Tref Glynebwy, Parcfordd Glynebwy a Llanhilleth yn cael eu gwasanaethu gan Reilffordd Cwm Ebwy. Mae Llinell Rhymni yn gwasanaethu gorsafoedd Rhymni, Pontlotyn, Tir-phil, Brithdir, Bargoed a Gilfach Fargoed yn yr etholaeth arfaethedig trwy Llinell Rhymni, sydd hefyd yn cael ei defnyddio'n helaeth gan etholwyr yng ngorllewin Blaenau Gwent, felly mae cysylltiadau trafndiaeth sefydledig drwyddi draw.
- Mae llawer o'r etholaeth arfaethedig yn rhannu treftadaeth ddiwydiannol gyffredin trwy lo, dur a haearn. Mae diwydiant glofaol de Cymru wedi cael effaith fawr ar yr etholaeth arfaethedig gyfan ac felly byddai'r pentrefi a'r trefi sy'n cynnwys Blaenau Gwent a Rhymni, o Dredegar Newydd i Gwm, wedi'u cysylltu gan ymdeimlad o gymeriad. Yn wir, yn hanesyddol, roedd etholaeth seneddol Glynebwy yn cynnwys Tredegar a Rhymni.
- Roedd plwyfi sifil Abertyleri, Brynmawr, Glynebwy, Llanhilleth, Rhymni a Thredegar oll wedi'u cynnwys yn Nosbarth Cofrestru Bedwellte tan i lywodraeth leol gael ei had-drefnu ym 1974. Felly, mae llawer o'r ardaloedd hyn wedi bod yn gysylltiedig o'r blaen mewn sefydliad dinesig. At hynny, mae cysylltiad rhwng eglwysi ar draws yr etholaeth arfaethedig hefyd, fel Eglwysi Catholig Tredegar, Rhymni a Glynebwy sydd wedi'u huno o dan un ardal fugeiliol.
- Mae cysylltiadau chwaraeon cryf yn yr etholaeth arfaethedig hefyd. Er enghraifft, mae llawer o'r timau Rygbi'r Undeb lleol yn chwarae yng Nghynghrair 3(E) A Cymru, fel RTB (Glynebwy), Llanhilleth, Rhymni, Blaenau, Tredegar Ironsides, ac RFC Abertyleri / Blaenau Gwent. Mae cysylltiadau pêl-droed cryf ar draws yr etholaeth arfaethedig ar lefel iau hefyd. Mae cyfleusterau a ddefnyddir yn helaeth gan

gymunedau ar draws Blaenau Gwent a Rhymni yn cynnwys Clwb Golff Tredegar a Rhymni a Pharc Bryn Bach, sy'n rhannol yn Nhredegar a Rhymni.

- Mae'r etholaeth arfaethedig yn cadw etholaeth gyfan Blaenau Gwent, sy'n cydffinio ag ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ac yn cynnwys wardiau mwyaf gogleddol ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'r ymagwedd hon ymhell o fewn ffordd y Comisiwn Ffiniau i Gymru o gyfrif am ffiniau llywodraeth leol. Yn ogystal, trwy gynnwys wardiau yn y ddwy ardal awdurdod lleol hyn yn unig yn hytrach na chynnwys wardiau o drydedd ardal, er enghraifft Merthyr Tudful, bydd hyn yn sicrhau rhywfaint o gydlynad ac yn ei gwneud yn symlach i'r Aelod Seneddol gydweithredu â strwythurau llywodraeth leol.
- Cryfheir y ddadl hon gan y ffaith y byddai'r etholaeth gyfan o fewn ardal Heddlu Gwent ac ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Gan fod Merthyr Tudful mewn ardal heddlu ac ardal bwrdd iechyd wahanol, byddai'r etholaeth arfaethedig yn arwain at gysylltiadau cryfach â sefydliadau lleol.
- Fel y trafodwyd yn y ddogfen Cynigion Cychwynnol, bydd cynnwys wardiau Aberbargoed, Bargoed a Gilfach yn dod â chymuned Bargoed at ei gilydd mewn un etholaeth, a fydd yn helpu i gryfhau'r cysylltiadau cymunedol hyn.
- Mae'r enw Blaenau Gwent a Rhymni yn adlewyrchu'r ardal yn dda hefyd, gan gadw elfennau o'r ddwy brif etholaeth ragflaenol. Mae bwrdeistref Blaenau Gwent yn cynrychioli oddeutu dwy ran o dair o'r etholaeth newydd, ac mae elfen Rhymni yn dod o etholaeth 'Merthyr Tudful a Rhymni', lle mae Rhymni wedi'i hadlewyrchu yn yr enw. Er bod tref Bargoed a phentref Aberbargoed yn dod o etholaethau Caerffili ac Islwyn, yn y drefn honno, mae'r ddwy o fewn y Cwm Rhymni daearyddol ac felly wedi'u cynnwys a'u hadlewyrchu yn yr enw.

BCW-9878/ Jamie Wallis AS/ Pen-y-bont ar Ogwr

A minnau'n AS ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, hoffwn ddatgan fy ngwrthwynebiad i'r newidiadau a gynigir i ffiniau etholaeth Seneddol Pen-y-bont ar Ogwr.

Er y sylweddolaf ba mor anodd ydyw i'r Comisiwn gydbwyso gofynion wrth geisio cyrraedd y poblogaethau targed sy'n angenrheidiol ar gyfer yr etholaethau newydd, mae dwy brif broblem:

1) Bydd prif ganolfan boblogaeth tref Pen-y-bont ar Ogwr yn cael ei rhannu'n ddwy, gan rannu tref breswyl, fasnachol, wasanaeth a manwerthu gyffiniol sydd wedi'i chysylltu ag ardaloedd siopa, canolfannau cyflogaeth, gorsafoedd trafnidiaeth, timau chwaraeon a grwpiau cymunedol cyffredin. Credaf yn gwbl bendant y dylai hyn gael ei osgoi os oes modd.

2) Mae cymunedau Trelales a Phorthcawl yn credu'n gryf bod eu cysylltiadau â Phen-y-bont ar Ogwr yn gryfach o lawer ac nid ydynt eisiau cael eu huno â Phort Talbot yn lle hynny yn etholaeth arfaethedig "Aberafan a Phorthcawl".

Er eich bod yn cadw'r enw Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer yr etholaeth newydd rydych yn ei chynnig, Ogwr fwy o faint ydyw yn y bôn, gyda rhannau o Ben-y-bont ar Ogwr wedi'u hychwanegu. Mae mwyafrif helaeth etholaeth Ogwr yn cael ei chadw yn ei chyfanrwydd a, heblaw am golli ei henw, mae'n parhau i fod yn endid adnabyddadwy. Ar y llaw arall, mae Pen-y-bont ar Ogwr yn cael ei holli'n ddwy gyda hanner gorllewinol yr etholaeth yn cael ei gwaredu i Aberafan, sydd hefyd wedi cadw'r rhan fwyaf o'i thiriogaeth bresennol yn ogystal â chadw ei henw yn rhan o etholaeth newydd Aberafan a Phorthcawl.

Yn ei hanfod, mae Aberafan yn cael ei hymestyn i gyfeiriad dwyreiniol trwy ymgorffori Porthcawl, Corneli, Mynyddcynffig a'r Pîl, yn ogystal â Threlales a rhannau o'r hyn sy'n Ben-y-bont ar Ogwr fwyaf - cymunedau Bryntirion a Broadlands sydd ar gyrion y dref ac yn rhan o'r dref i bob pwrpas.

Mewn sawl ffordd, mae'r cynigion hyn yn ein dychwelyd i'r sefyllfa cyn 1983 pan nad oedd Etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn bodoli o gwbl a phan oedd yr ardal wedi'i rhannu rhwng Ogwr ac Aberafan.

Ond nid yw'ch cynllun newydd yn ystyried y newidiadau demograffig ac economaidd niferus sydd wedi digwydd yn y 40 mlynedd ers hynny. Mae poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr wedi cynyddu'n sylweddol ac mae cynlluniau i'w chynyddu ymhellach, yn enwedig ym Mhorthcawl, er enghraifft, lle mae cynigion yn y Cynllun Datblygu Lleol i adeiladu 1100 o gartrefi eraill yn y dref a fyddai'n ychwanegu 3,000 i 4,000 o breswylwyr i'r dref.

Nid oes gan Borthcawl, Mynyddcynffig, Corneli a'r Pîl unrhyw ddiddordebau cyffredin o gwbl ag Aberafan. Beth sydd gan Nottage neu'r Drenewydd yn Notais yn gyffredin â chymunedau fel Abergwynfi a Glyncorwg yn hen ardaloedd glofaol Cwm Afan

uchaf, sydd yn Aberafan?

Beth sydd gan Gorneli neu Drelales yn gyffredin â chymunedau sydd wedi'u lleoli ar gyrion Abertawe fel Jersey Marine a Sgiwen, sydd hefyd yn rhan o Aberafan? Mae mwy na deng milltir rhyngddynt ac mae ganddynt gefndiroedd hanesyddol a phrofiadau diwydiannol hollol wahanol.

Mae Porthcawl a'r cymunedau eraill i gyd yn rhan o Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ynghyd â Phen-y-bont ar Ogwr ei hun. Mae pobl yn ystyried tref Pen-y-bont ar Ogwr yn ganolfan ddinesig a gweinyddol ar gyfer yr holl faterion sy'n ymwneud â'r Cyngor a gwasanaethau Llywodraeth y Deyrnas Unedig fel DWP a HMRC. Dyma'r ganolfan lle mae'r holl wasanaethau o'r fath wedi'u lleoli. Mae'r dref hefyd yn ganolfan siopa ranbarthol bwysig sy'n gwasanaethu'r holl gymunedau o'i hamgylch.

Mae etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr hefyd wedi'i lleoli'n gyfan gwbl o fewn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, tra bod Aberafan yn dod o dan ardal Bwrdd Iechyd Bae Abertawe, felly byddai etholaeth newydd Aberafan/Porthcawl wedi'i rhannu rhwng dwy ardal bwrdd iechyd sydd â gwahanol flaenoriaethau a ffyrdd o weithredu.

Mae'r cam yn cefnu ar hanes hefyd. Datblygodd Pen-y-bont ar Ogwr o gyfnod y Normaniaid ac yn ystod y Canol Oesoedd fel tref farchnad a oedd yn canolbwyntio ar ei chastell a'i heglwys yn y Castellnewydd ac yna'n lledaenu allan tuag at Goety a chreu'r hyn a adwaenir fel ardal Oldcastle y dref. Ymhellach i'r gorllewin, roedd gennym "ddinas" Cynffig, gyda'i siarter a'i chorfforaeth ganoloesol sydd bellach wedi'u claddu o dan y twyni tywod o amgylch Pwll Cynffig.

Mae cymunedau Mynyddcynffig, y Pîl a Chorneli yn olrhain eu bodolaeth i'r cyfnod hwn, gyda'r eglwysi hynafol ym Mawdlam a'r Pîl yn gweithredu fel canolfannau. Datblygodd Porthcawl ei hun o bentrefi gwreiddiol y Drenewydd yn Notais a Nottage, sydd ill dwy'n tarddu o'r Canol Oesoedd, a gysylltwyd â'i gilydd yn nhref Porthcawl sy'n dyddio o'r 1820au pan ddatblygwyd yr harbwr i fynd â'r cynhyrchion haearn o'r ddau waith haearn ym Maesteg trwy dramffordd geffylau. Nid oes unrhyw gysylltiadau hanesyddol o gwbl ag Aberafan heblaw am Abaty Margam.

Mae'r holl gysylltiadau trafniadaeth yn yr ardal yn canolbwyntio ar gysylltu cymunedau Porthcawl, Mynyddcynffig, Corneli a'r Pîl â Phen-y-bont ar Ogwr. Mae'n anodd teithio i Bort Talbot, sef y ganolfan ar gyfer etholaeth bresennol Aberafan, ac mae gwasanaethau'n wael iawn gyda gwasanaethau bws anfynych mewn rhai achosion a dim gwasanaethau bws o gwbl yn y gweddill.

Mae'r cynnig i gymryd rhannau o Ben-y-bont ar Ogwr fwyaf, gan gynnwys Broadlands a Bryntirion, yn ogystal â phentref Trelales, a'u gwahanu oddi wrth weddill y dref trwy ei gosod yn Aberafan yn gwbl ddigyfiawnhad yn fy marn i.

Mae'r ardaloedd hyn o fewn milltir neu ddwy o ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr, ac eto cynigir iddynt fod yn rhan o etholaeth y mae ei phrif dref fwy na deng milltir i ffwrdd.

Byddai eich cynlluniau'n dinoethi etholaeth newydd arfaethedig Pen-y-bont ar Ogwr o dair cymuned bwysig ar ei hymyl gorllewinol a byddai wedi'i lleihau i'r ardal yn union o amgylch canol y dref ynghyd â Braclá. Yna, byddai'r ardaloedd hyn yn cael eu llyncu gan etholaeth fwy o lawer Ogwr i greu ffug etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr - Pen-y-bont ar Ogwr mewn enw yn unig ond gyda chyfran yn unig o'r etholaeth wreiddiol yn parhau.

Fe'ch anogaf i ailystyried eich cynigion yn llwyr a llunio cynllun newydd sy'n caniatáu i Ben-y-bont ar Ogwr aros ar ei ffurf bresennol gan ychwanegu rhai cymunedau o etholaethau cyfagos.

Awgrymaf ychwanegu pum ward Penprysg, Hendre, Felindre, Abercynffig a Chefn Cribwr i etholaeth bresennol Pen-y-bont ar Ogwr, a fyddai'n dod â'i nifer etholwyr o fewn terfynau derbyniol. Byddwn yn enwi'r etholaeth hon yn "Ben-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl" neu'n "Ben-y-bont ar Ogwr" yn syml pe na byddai hynny'n dderbyniol.

At hynny, gallai'r wardiau sy'n weddill yn yr etholaeth "Pen-y-bont ar Ogwr" newydd a gynigir ar hyn o bryd gyfuno ag Aberafan i ffurfio etholaeth "Aberafan ac Ogwr" newydd, a fyddai o fewn terfynau nifer yr etholwyr hefyd.

Bydd tair sedd Pen-y-bont ar Ogwr, Ogwr ac Aberafan yn lleihau i ddwy o hyd, ond mewn ffordd nad yw'n rhannu canolfan boblogaeth fawr ac achosi gofid i gymunedau Trelales a Phorthcawl.

BCW-9879/ [REDACTED] / Abergele

Sylwadau ar ffiniau arfaethedig etholaeth newydd Clwyd sydd hefyd yn effeithio ac yn berthnasol i etholaethau arfaethedig Delyn ac Aberconwy

Yn y gogledd, mae gan Llanelwy a Rhuddlan gysylltiad llawer iawn mwy naturiol yn ieithyddol a diwylliannol ynghyd â demograffeg poblogaeth efo Diserth, Gallt Melyd a Phrestatyn, felly symud wardiau Dwyrain Llanelwy (1480), Gorllewin Llanelwy (1319), a Rhuddlan (2928) i sedd newydd Delyn.

Yn agosach i'r de, mae gwahaniaeth mawr rhwng Rhuthun ynghyd â chymunedau Llandyrnog a Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal a gweddiill sedd newydd Delyn yn ieithyddol ac o'r herwydd, yn ddiwylliannol . Mae bryniau Clwyd hefyd wedi bod yn ffin ddaearyddol naturiol a hanesyddol sy'n parhau hyd y dydd heddiw. Felly awgrymwn y dylid symud wardiau tref Rhuthun (4457), Llandyrnog (1761) a chymuned Llanbedr Dyffryn Clwyd (727) a Llangynhafal (544) i sedd newydd Clwyd. I ategu hyn, yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol, mae gan Rhuthun gysylltiadau naturiol ac yn ymdebygu i gymunedau Efenechtyd a Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern gyda thros 40% o boblogaeth yr ardaloedd hyn yn siarad Cymraeg.

Yn ne etholaeth arfaethedig Delyn, mae cymuned Bryneglwys â chysylltiad llawer iawn mwy naturiol efo Llandegla, Llanarmon-yn-Ial a Graianrhyd felly symud cymuned Bryneglwys (307) i etholaeth newydd Delyn.

Yng ngogledd orllewin 'Clwyd', y cyfan o ward ddiwygiedig (yn yr adolygiad ffiniau wardiau diweddaraf) Llandrillo yn Rhos, sef y rhan hynny o'r pentref sydd wedi bod o fewn ward Rhiw, i'w chynnwys yn etholaeth Aberconwy.

Cytunwn y dylid cynnwys y cyfan o ward newydd Eglwysbach-Llangernyw yn etholaeth Aberconwy gan fod Llangernyw yn naturiol yn edrych tua thref Llanrwst yn hanesyddol, ieithyddol a diwylliannol.

Os nad yw'r ffigyrau etholwyr/poblogaeth o fewn trothwyon gosodedig y Comisiwn, awgrymwn y dylid ailystyried y ffiniau ar hyd y cymunedau arfordirol, yn benodol y ffin rhwng Clwyd a Delyn yn y Rhyl.

BCW-9880/ [REDACTED] / Bangor

Dw i'n meddwl ei bod yn hurt rhannu Bangor yn ei hanner. Dw i'n credu y bydd hyn yn achosi problemau yn nes ymlaen o ran pethau fel biliau treth gyngor ac ati. Os oes rhaid i bethau newid yna dylech chi o leiaf gadw Bangor yn gyfan.

BCW-9881/ [REDACTED] / Benllech

Hoffwn ddatgan fy nghefnogaeth i gynnwys dinas Bangor o fewn ffin Aberconwy gan mai hyn sy'n adlewyrchu natur arfordirol y ddinas orau, ac yn ddiwylliannol byddai cysylltiad gwell â'r ward yma na ffin bresennol y ward. O ran trafndiaeth a hygyrchedd, mae'r ffaith bod Bangor i'r gogledd o'r A55 – sy'n gweithredu fel rhaniad amlwg – hefyd yn cyfiawnhau ymhellach y dylai'r ddinas fod yn rhan o Aberconwy.

BCW-9882/ [REDACTED] / Bangor

Dydw i ddim am fod yn rhan o etholaeth Aberconwy! Maen nhw fel arfer yn dychwelyd aelod Seneddol Ceidwadol ac nid dyna dw i eisiau ar gyfer fy nghymuned leol. Hefyd byddai Bangor yn cael ei anghofio unwaith eto gan Aelod Seneddol o'r fath, fyddai â mwy o ddi-ddordeb yng Nghonwy a Llandudno.

Stopiwch y nonsens yma am newid ffiniau rŵan, a stopiwch Gymru rhag colli ei Haelodau Seneddol!

BCW-9883/ [REDACTED] / Bangor

Sut mae rhannu ardal Bangor yn mynd i helpu'r ddinas? Mae hi eisoes ar ei gliniau ac mae'r broblem yn cael ei hanwybyddu. Bydd hanner y ddinas yn Aberconwy a fydd â pholisi ysgolion Cymraeg gwahanol i Meirion Dwyfor. Felly...sut mae hynny'n mynd i weithio? Ymddengys mai Bangor ydy'r ddinas anghofiedig nad oes neb ei heisiau.

BCW-9884 / [REDACTED] / Caerffili

Rydw i'n cyfeirio at y cynigion cychwynnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer ail-lunio ffiniau etholaethau, a byddwn yn gwneud y sylwadau canlynol i'w hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori gychwynnol.

Fel un o drigolion Caerffili, rydw i'n siomedig â'r cynnig cychwynnol i rannu etholaeth bresennol Caerffili rhwng pedair etholaeth newydd, ond rydw i'n benodol o siomedig â'r awgrym y dylid cysylltu rhan isaf etholaeth bresennol Caerffili â rhan orllewinol etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd i greu etholaeth newydd Gorllewin Casnewydd a Chaerffili.

Fel rhywun sy'n byw yng Nghaerffili, anaml iawn fydda i'n cysylltu â Chasnewydd ar gyfer fy ngweithgareddau hamdden neu fusnes, mae fy ymgysylltiad â Chaerdydd. Un o'r prif resymau am hyn yw bod gen i deulu a ffrindiau yng Nghaerdydd. Mae'n hawdd cyrraedd Caerdydd oherwydd y cysylltiadau teithio gwell rhwng fy nghartref a Chaerdydd, boed hynny mewn car neu drafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r rhain yn ei gwneud hi'n llawer cyflymach i fi weld y bobl yma'n amlach. Mae'r cysylltiadau ffordd i Gaerdydd yn well nag i Gasnewydd, ac er mwyn teithio ar y trê'n i Gasnewydd byddai'n rhaid i fi fynd i Gaerdydd yn gyntaf.

Mae llawer o bobl rydw i wedi siarad â nhw o'r un farn â fi nad yw ceisio cysylltu ein cymuned â Chasnewydd yn hytrach na Chaerdydd yn gwneud dim synnwyr o gwbl ac na fyddai hynny'n cael ei groesawu o gwbl.

Rydw i'n credu bod nifer o ardaloedd, yn etholaeth Islwyn ar hyn o bryd, a fyddai'n uniaethu'n haws o lawer â Chasnewydd na fy nghymuned leol, ac mae gan lawer o gymunedau Islwyn gysylltiadau trafndiaeth llawer gwell â Dinas Casnewydd.

I gloi, hoffwn ofyn i'r Comisiwn ailedrych ar y cynigion ar gyfer Caerffili a'r ardal gyfagos, a newid y cynigion er mwyn adlewyrchu teimladau a dymuniadau trigolion fel fi sy'n byw ynyn gywir.

BCW-9885/ [REDACTED] / **Prestatyn**

Gan: [REDACTED]

Anfonwyd: 02 Tachwedd 2021 10:09

At: CFfiG <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Etholaeth Dyffryn Clwyd

Annwyl Syr neu Fadam,

Mae'n amlwg y bydd angen torri Etholaeth Dyffryn Clwyd yn gareiau i wneud etholaethau yn y gogledd o'r maint priodol. Fel preswlydd ym Mhrestatyn dw i'n falch o weld y cynnig na fyddwn bellach ynghlwm wrth y Rhyl yn wleidyddol, ac y gallai fod yn bosib cael ein cyfuno â threfi a phentrefi yn syth i'r Dwyrain, sef rhai rydyn ni wedi bod yn gysylltiedig â nhw o'r blaen a rhai y mae ein siopau a'n busnesau yn elwa ohonyn nhw. Fodd bynnag, dydy hyn ddim yn berthnasol i Fflint a Bagillt lle mae ganddyn nhw gysylltiad mwy â threfi yn etholaeth bresennol Alyn a Glannau Dyfrdwy does bosib. Dylai Rhuthun a phentrefi cyfagos eraill, ac o bosib Corwen, ddarparu nifer y pleidleiswyr a fyddai'n cael eu colli, mae'r ddwy dref yn Sir Ddinbych.

Yn gywir,

[REDACTED]

BCW-9886/ [REDACTED] / Dinbych

Gan: [REDACTED]
Anfonwy [REDACTED] ac wedd 2021 10:59
At: CFFiG <bcw@boundaries.wales>
Pwnc: Newidiadau Ffiniau Arfaethedig

Bore da

Mae wedi cymryd peth amser i fi ddeall cynigion y Comisiwn Ffiniau a'r rhesymeg y tu 61 iddyn nhw.

Fodd bynnag, ar 61 i fi argraffu'r mapiau arfaethedig ar gyfer ardaloedd Clwyd (ynghlwm), roedd hi'n gwneud llawer mwy o synnwyr rhesymegol symud y ffiniau ynunol ag awgrymiadau'r Blaid Geidwadol.


Mae cymaint o resymau hunan-amlwg dros newid y ffiniau fel hyn - y cysylltiadau cymunedol, daearyddiaeth, teithio, cyflogaeth, addysg, siopa, amaethyddiaeth, plismona, codau post, codau ardal ff6n, ffiniau cyfredol a hanesyddol sy'n ymwneud a chynghorau, etholaethau a phlismona.

Hyderaf y bydd y Comisiwn Ffiniau yn ystyried yr hall ffeithiau yma ac yn diwygio eucynigion i alluogi cadw cysylltiadau cyffiniol yn y cymunedau yr effeithir arnyn nhw.

Yn gywir

[REDACTED]

[REDACTED]



BCW-9887/ [REDACTED] / Bangor

Dw i'n poeni am y ffiniau newydd arfaethedig. Mae'n ymddangos bod gan Fangor ac ardaloedd eraill yng Ngwynedd y cynigiwyd y dylent fod yn rhan o Aberconwy gysylltiadau diwylliannol llawer mwy â gweddill Gwynedd na llefydd fel Conwy neu Landudno. Fodd bynnag, o ystyried bod dwysedd y boblogaeth yn fwy ymhellach i'r Dwyrain ar hyd yr arfordir, gallai'r pleidleisiau yn fannu effeithio ar ddymuniadau pobl ym Mangor a Bethesda. Gallai'r rhan fwyaf o bobl yn yr ardaloedd hynny gael eu cynrychioli gan Aelod Seneddol nad yw'n cynrychioli eu dymuniadau neu bryderon.

BCW-9888/ Y Cynghorydd Andrew Robertson/ Dinas Powys

Gan: [REDACTED]

Anfonwyd: 02 Tachwedd 2021 11:16

At: CFFiG <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Newidiadau ffiniau arfaethedig i Etholaeth Bro Morgannwg

Annwyl y Comisiwn Ffiniau i Gymru,

Fel Cynghorydd ym Mro Morgannwg, rydw i'n bryderus iawn am y cynnig i wneud Dinas Powys yn rhan o etholaeth Seneddol De Caerdydd a Phenarth. Ers i'r cynnig gael ei gyhoeddi rydw i wedi bod yn canfasio'r farn yn fy Ward Cyngor, sef Dinas Powys, ac wedi darganfod bod y rhan fwyaf o'r preswylwyr rydw i wedi siarad â nhw yn gwrthwynebu'r cynnig. Y farn sy'n cael ei mynegi yn aml ar garreg y drws ac yn ein cymorthfeydd yw bod y preswylwyr yn teimlo, i raddau helaeth, yn rhan o Fro Morgannwg yn hytrach nag yn rhan o Gaerdydd. Maen nhw'n dweud wrtha i fod ganddyn nhw bryderon difrifol ynghylch gorddatblygiad parhaus y Fro (yn enwedig Dwyrain y Fro) i ddarparu tai ar gyfer ehangu gweithlu Caerdydd ac maen nhw'n ofni ymgripiad araf tuag at ddod yn un o gytrefi Caerdydd. Mae gan Ddinas Powys ei phersonoliaeth unigryw ei hunan ac mae'r preswylwyr yn ofni y bydd cael eu hamsugno i etholaeth De Caerdydd a Phenarth yn niweidiol i'r cymeriad yna. Pwynt perthnasol arall, sy'n cael ei wneud yn aml gan breswylwyr, yw eu bod yn teimlo bod ganddyn nhw Aelod Seneddol poblogaidd a gweithgar iawn y maen nhw'n teimlo sydd "ar eu hochr nhw" mewn materion sy'n ymwneud â Dinas Powys.

Rydw i'n gobeithio bod y sylwadau didwyll yma o gymorth i chi wrth wneud penderfyniad.

Yn gywir,

Y Cynghorydd Andrew Robertson, Aelod Ward Dinas Powys, Cyngor Bro Morgannwg ac Aelod Ward Cyngor Cymuned Dinas Powys

BCW-9889/ [REDACTED] / Aberdâr

Dw i'n bryderus iawn ynghylch y cynnig i gael gwared ar etholaeth Cwm Cynon. Dyma un o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, os nad y Deyrnas Unedig.

Bydd y cynnig yn lleihau cynrychiolaeth a hygyrchedd i'n Haelod Seneddol.

Alla i ddim gweld dim manteision posib.

BCW-9890 / Karen Jones / Port Talbot

Annwyl Mrs. Williams,

Mewn ymateb i ymgynghoriad y Comisiwn Ffiniau i Gymru a chyhoeddiad y cynigion cychwynnol ar gyfer Arolwg Ffiniau Seneddol 2023, cyflwynir y sylwadau canlynol i'w hystyried, ar ran Cyngor Castell-nedd Port Talbot.

Cafodd y sylwadau a amlinellir isod mewn perthynas ag etholaethau newydd arfaethedig Aberafan Porthcawl, Aberhonddu a Maesyfed, a Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd, eu mynegi gan yr Aelodau yn ystod cyfarfod y cyngor llawn a gynhaliwyd ddydd Mercher 27 Hydref 2021, ac fe'u cefnogwyd yn unfrydol.

O ystyried natur radical y cynigion, roedd yn amlwg i'r cyngor na roddwyd unrhyw ystyriaeth i gymunedau naturiol, nac i gysylltiadau economaidd, treftadaeth a diwylliannol lleol, nac i ffiniau hawdd eu hadnabod, ac roedd y Comisiwn wedi rhoi uchafiaeth lwyr i gyflawni'r amrediad etholwyr statudol ar draul pob mater arall.

Mae hyn wedi arwain at wneud y broses yn ymarfer rhifyddeg syml, gan aildrefnu blociau adeiladu'r wardiau etholiadol lleol i gyflawni'r canlyniad a ddymunir, heb fawr o ystyriaeth i ansawdd na'r effaith ar lywodraethu lleol, ac mae hyn wedi creu etholaethau nad ydynt bellach yn hawdd i etholwyr eu hadnabod.

Yn ogystal, gellid dadlau bod y cynigion yn effeithio'n anghymesur ar etholaethau yng Nghymru, gyda gostyngiad o 20% yn nifer yr etholaethau. Mae hyn yn newid llawer mwy sylweddol o gymharu â'r cynigion ar gyfer cenhedloedd eraill y Deyrnas Unedig.

Wrth adolygu'r cynigion yn fanwl, roedd y Cyngor yn teimlo na roddwyd unrhyw bwys i brinder poblogaeth, amddifadedd, ynysu daearyddol nac amrywiaeth ddiwylliannol a chymdeithasol, sydd oll yn effeithio ar lwyth gwaith cynrychiolwyr etholedig.

Ar ben hynny, nododd y Cyngor nad yw'r cynigion yn ystyried daearyddiaeth yr ardal na'r ffiniau naturiol rhwng cymunedau lleol sydd wedi datblygu dros bron i ganrif. Enghraifft glir o hyn yw'r argymhellid i gynnwys holl ardaloedd Cwm Aman a Chwm Tawe Uchaf o fewn etholaeth arfaethedig Aberhonddu a Maesyfed.

Mewn gwirionedd, byddai hyn yn gosod anfantais ddemocrataidd ar gymunedau preswyl wardiau'r cymoedd hyn sydd eisoes dan anfantais economaidd a chymdeithasol, ac mae ganddynt gysylltiadau cymunedol a thrafnidiaeth llawer mwy sylweddol ag ardal weinyddol Castell-nedd, yn hytrach nag ardal weinyddol Aberhonddu. Teimlai'r Cyngor yn gryf fod y newid hwn yn y ffiniau yn annemocrataidd, yn anymarferol, a bod angen eu hail-lunio. Codwyd pryderon tebyg hefyd ynghylch datgysylltu cymunedau pellennig yn y cymoedd megis y Cymer, Gwynfi a Glyncorrwg, o fewn etholaeth arfaethedig Aberafan Porthcawl.

Wrth geisio sicrhau cyflawni'r amrediad etholwyr statudol, mae'n amlwg y bydd ardaloedd preswyl, masnachol a diwydiannol sy'n bodoli yn etholaethau presennol Aberafan a Chastell-nedd yn cael eu dyrannu a'u hailosod i greu etholaethau newydd lle bydd niferoedd mawr o etholwyr heb unrhyw gysylltiad cryf â'r etholaethau hynny. Mae'n anochel y bydd hyn yn erydu ymgysylltiad â'r broses ddemocrataidd.

Cyfeiriodd yr aelodau hefyd yn benodol at yr enw 'Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd' a ddewiswyd, ac roeddent yn teimlo'n gryf ei fod yn 'sarhad' ar gymunedau ardal Castell-nedd sy'n ffurfio mwyafrif helaeth yr etholaeth newydd arfaethedig, a'i fod yn adlewyrchu awydd i israddio'r dref farchnad fywiog a'i chyfuno'n rhan o ardal Abertawe 'fwyaf'.

Yn dilyn y cynnydd amlwg yng nghofrestriadau pleidleiswyr cyn yr etholiadau gohiriedig a gynhaliwyd ym mis Mai 2021, nododd yr Aelodau fod y broses bresennol o ddefnyddio niferoedd yr etholwyr (ar 2 Mawrth 2020) i fodelu'r cynigion cychwynnol yn arwain yn anochel at ddefnyddio ystadegau sydd wedi dyddio, hyd yn oed cyn dechrau'r broses arolygu.

Serch hynny, derbyniodd y Cyngor, i ryw raddau, ei bod yn ofynnol i'r Comisiwn gadw at y rheolau perthnasol a osodwyd gan Lywodraeth y DU, ond roedd eisiau nodi ei bod yn anochel y bydd y modelu yn achosi anghysondebau sylweddol o ran ffurf a maint etholaethau seneddol Cymru, gan arwain at ddiffyg democrataidd na ellir ei unioni ar ôl gweithredu.

Ynghyd â'r pryder hwn, ceir gofid hefyd am y cymhlethdod ychwanegol a achosir wrth greu etholaethau seneddol newydd ar gyfer haenau gwahanol o lywodraeth yng Nghymru.

Bydd cynigion cychwynnol y Comisiwn, os cânt eu mabwysiadu, yn methu ag adlewyrchu ffiniau etholaethau presennol Senedd Cymru mwyach, wrth ail-lunio

etholaethau Aberafan a Castell-nedd i'r fath raddau helaeth ac arwain at orgyffwrdd trawsffiniol sylweddol â'r etholaethau cyfagos presennol yn y gogledd, y dwyrain a'r gorllewin.

Yn ogystal, mae'r cynigion cychwynnol yn croesi ffiniau prif awdurdodau er mwyn bodloni'r cwota etholiadol statudol fel y'i gosodwyd gan Lywodraeth y DU.

Mae'r newidiadau hyn mor sylweddol, fel y byddant yn arwain at erydiad graddol, gorgyffwrdd a chymhlethdod ychwanegol o ran atebolrwydd cynrychiolwyr etholedig (Aelodau o'r Senedd, Aelodau Seneddol, ac Aelodau Etholedig) yn enwedig wrth ymdrin â materion hanfodol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, adfywio economaidd neu fuddsoddi mewn seilwaith ar lefel Llywodraeth Cymru a lefel Llywodraeth y DU.

Heb os, bydd y cynigion hefyd yn arwain at ddryswch a chamddealltwriaeth sylweddol i etholwyr lleol, na fyddant bellach yn gallu adnabod na sefydlu yn hawdd pwy sy'n eu cynrychioli ar bob haen o lywodraeth, ac fel y soniwyd yn flaenorol, gallai hyn leihau ymgysylltiad â'r broses ddemocrataidd yn sylweddol.

Yn ei dro, bydd hyn yn arwain yn anochel at anawsterau wrth weinyddu digwyddiadau etholiadol, gan achosi problemau trawsffiniol gor-gymhleth lluosog, a'r risg uchel bosibl o fethiant gweinyddol pe ceir unrhyw ddigwyddiadau etholiadol cyfun yn y dyfodol lle bydd gwahanol fathau o ffiniau mewn grym; ac mae'r Cyngor yn gofyn i'r Comisiwn roi ystyriaeth lawn yr effaith atodol hanfodol hon.

Yn gyffredinol, mae'r Cyngor yn credu'n gryf y dylai unrhyw gynigion i amrywio ffiniau arwain at newid sy'n ddymunol, yn effeithiol ac yn gyfleus i gymunedau lleol. Ar y sail honno, cefnogir yr argymhelliad i gadw ardal Sgiwen yn etholaeth arfaethedig 'Dwyrain Abertawe a Castell-nedd', a fyddai'n welliant amlwg, ond ar y cyfan, teimlir y byddai'r cynigion yn lleihau cynrychiolaeth etholedig mewn gwirionedd, byddant yn anghyfleus i'r etholwyr, ac yn cynyddu cymhlethdod a'r perygl o wallau gweinyddol wrth gynnal etholiadau.

Yr eiddoch yn gywir

Karen Jones

Prif Weithredwr

CBS Castell-nedd Port Talbot

BCW-9891/ [REDACTED] / Dinas Powys

Gan: [REDACTED]

Anfonwyd: 02 Tachwedd 2021 11:53

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Dinas Powys

Annwyl syr

Hoffwn wrthwynebu'n gryf eich cynnig i symud Dinas Powys o Fro Morgannwg i etholaeth De Caerdydd a Phenarth.

Ar ôl byw yn Ninas Powys ar hyd fy oes mae gen i gysylltiad cryf â'r Fro, anaml iawn rydw i'n mentro i Gaerdydd neu Benarth.

Fel teulu rydyn ni'n defnyddio'r Barri i siopa, i ymweld â deintyddion, optegwyr, canolfannau hamdden, campfeydd a llawer o gyfleusterau eraill. Bydden ni'n defnyddio'r gwasanaethau brys y tu allan i oriau ac ysbyty damweiniau ac achosion brys y Barri. Mae ein plant lleol yn chwarae pêl-droed yng nghynghreiriau'r Barri. Does dim gwasanaeth trên uniongyrchol i Benarth.

Er bod Dinas Powys yn bentref mawr, dw i'n teimlo bod ganddon ni lawer mwy yn gyffredin â Bro Morgannwg nag sydd ganddon ni gyda Sblot, Glanyrafon, Grangetown ac ati.

Rydw i'n gofyn i chi ystyried y wybodaeth yma wrth wneud eich penderfyniad terfynol.

Cofion

[REDACTED]

BCW-9892 / [REDACTED] / Caerffili


Mae'r rhain yn gynigion cwbl annerbyniol. Mae angen i ni ymuno gyda'n gilydd yn hytrach na rhannu ein Sir hyd yn oed yn fwy. Mae pedair ardal ar draws y fwrdeistref yn gwbl afrealistig. Fel preswlydd lleol a Chynghorydd Sir, rydw i'n gwrthwynebu'r newidiadau hyn. Dylech ystyried ein hanes, daearyddiaeth a safbwyntiau preswylwyr yn yr adolygiad yma.

BCW-9893/ [REDACTED] / Sir Fynwy



monmouthshire
sir fynwy

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Gwaelod
Ty Hastings
Llys Fitzalan
Caerdydd
CF24 OBL



Annwyl Syr / Fadam

Adolygiad Ffiniau Seneddol 2023 - Cynigion Trefynwy

Ysgrifennwn fel arweinwyr grwpiau gwleidyddol Cyngor Sir Fynwy mewn ymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru ynglyn a'r Etholaethau Seneddol newydd arfaethedig i Gymru.

Cytunodd y Cyngor hwn ar gynnig mewn cyfarfod diweddar o'r Cyngor sy'n darllen fel a ganlyn:

'Mae'r cyngor hwn yn croesawu'r newidiadau aifaethedig i'r newidiadau i Ffiniau Seneddol a gynigir gan y Comisiwn Ffiniau ar gyfer etholaeth Trefynwy. Mae'n bwriadu ysgrifennu i gefnogi'r newid symmryr cyffredin sy'n effeithio ar Sir Fynwy i greu sedd newydd sy'n dilyn ffiniau'r cyngor hwn.'

Hoffai'r Cyngor gyflwyno'r cynnig hwn i'r Comisiwn mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

Yn gywir

Richard John

Arweinydd y Grwp Ceidwadol

Dimitri Batrouni

Arweinydd y Grwp Llafur

Simon Howarth

Arweinydd y grwp Annibynnol

Jo Watkins

Arweinydd grwp y Democratiaid
Rhyddfrydol

BCW-9894 / [REDACTED] / Bangor

Byddai'n well gen i aros fel un o drigolion Gwynedd a bod yn onest! Dw i'n byw yma erioed a dydw i ddim yn deall pam mae'r ffiniau'n symud. Rydyn ni'n etholaeth Arllechwedd ers pedair blynedd a phrin fod ganddon ni gynghorydd o gwbl, dim ond pan fydd hi'n dod at amser pleidleisio rydyn ni'n gweld Dafydd Meurig!! Rydyn ni'n gobeithio dychwelyd i Fethesda yn fuan ond yn dal yn ansicr ynghylch symud y ffiniau.

BCW-9895 / [REDACTED] / Dinbych

Gan: [REDACTED]

Anfonwyd: 02 Tachwedd 2021 12:51

At: CFfiG <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Newidiadau i'r Ffiniau

Annwyl Syr,

Gweler yn amgaeedig fy nghyflwyniad.

[REDACTED]

Newidiadau Ffiniau Clwyd

Annwyl Syr,

Mae gen i'r arsylwadau canlynol i'w gwneud am y cynigion i ail-lunio ffiniau'r Etholaeth yng Nghlwyd.

Mae Sir y Fflint a Sir Ddinbych yn wahanol iawn. Mae gan Sir y Fflint economi leol ddiwydiannol gydag Airbus yn brif gyflogwr. Mae hyn yn dod â swyddi i Saeson a Chymry fel ei gilydd ac mae yna ddylanwad Seisnig gan fod Sir y Fflint ar y ffin. Mae'n anochel bod y ffactorau yma'n siapio diwylliant, dyheadau ac amcanion y boblogaeth.

Ar y llaw arall, mae Sir Ddinbych yn sir amaethyddol yn bennaf, ar wahân i'r Rhyl. Mae'r prif drefi Dinbych, Rhuthun a Chorwen yn gwasanaethu'r gymuned wledig yn dda iawn. Mae'r diwylliant yn wahanol iawn i Sir y Fflint gyda'r Gymraeg yn cael ei siarad yn y marchnadoedd a hi yw'r famiaith mewn llawer o gartrefi, yn enwedig teuluoedd amaeth.

Dw i felly'n credu na fyddai Etholaeth â rhaniad o'r Dwyrain i'r Gorllewin yn gweithio'n rhy dda efo diddordebau mor amrywiol. Yn hytrach, Etholaeth â gogwydd Gogledd i'r De fel Sir Ddinbych yn ei chyfanrwydd.

Pan fydd Aelod Seneddol o ba bynnag liw gwleidyddol yn cael eu hethol, rhaid iddyn nhw gynrychioli'r holl bobl. Does bosib ei bod yn well cael Etholaeth gyda'i diwylliant, ei gobeithion a'i dyheadau yn rhedeg drwyddi'r holl ffordd. Bydd gan y cynghorau lleol amcanion tebyg hefyd.

Yn y refferendwm, pleidleisiodd yr ardaloedd yna sy'n agos at Loegr dros aros yr un peth, ond pleidleisiodd y rhai pellach i'r Gorllewin dros ddatganoli.

Mae'r un duedd yn berthnasol yma, telly dw i'n falch o weld bod y cynigion cyfredol ar gyfer Clwyd i'w gweld yn cyd-fynd a'r rhan fwyaf o'r ffactorau a amlinellwyd. Mae dwy ward ychwanegol y gellid eu hychwanegu o Orllewin Clwyd sydd yn Sir Ddinbych.

Yn gywir,



BCW-9896 / [REDACTED] / Llandrillo-yn-Rhos, Bae Colwyn

Rydych chi'n gofyn am adborth ar y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau heb roi dim syniad o'r hyn y bydd y newidiadau yma'n ei olygu i'r etholwyr mewn gwirionedd.

Y tro cyntaf i fi glywed am hyn oedd ar Facebook – Facebook!!! Pam ar y ddaear nad ydych chi wedi cysylltu â'r preswylwyr drwy'r post?

Does gen i ddim syniad beth mae hyn yn ei olygu i fy mhentref, Llandrillo-yn-Rhos, a pha effaith y bydd hyn yn ei chael yn y dyfodol. Oherwydd mai dim ond dydd Mawrth 2 Tachwedd y gweles i'r neges ar Facebook a'r dyddiad cau ar gyfer adborth oedd dydd Mercher 3 Tachwedd, dydw i ddim yn gweld llawer o bwynt ceisio darganfod hynny rŵan.

Mae hyn mor rhwystredig ac yn nodweddiadol o fiwrocratiaeth leol. Rydych chi'n dweud eich bod chi eisiau barn pobl ond rydych chi'n gofyn amdani yn y fath fodd fel ei bod hi'n anodd i'r preswylwyr ymateb.

Ymarfer ticio blwch yn unig yw hyn i chi fel bod modd i chi ddweud eich bod chi wedi gofyn ac na chawsoch ddim adborth negyddol mawr.

Does gen i ddim byd arall cadarnhaol i'w ddweud felly mi ro i'r gorau iddi rŵan.

BCW-9897 / [REDACTED] Plaid Werdd Cymru / Llanrhystud

Mae Plaid Werdd Cymru yn dymuno cynnig tair etholaeth sy'n cwmpasu ardal cyngor Conwy.

Arfordir Conwy, sy'n cynnwys wardiau Abergele Pensarn, Colwyn, Craig-y-Don, Eirias, Glyn, Gogarth, Bae Cinmel, Llanddulas, Llandrillo-yn-Rhos, Llysfaen, Marl, Mochdre, Mostyn, Penrhyn, Pentre Mawr, Rhiw, Tywyn a Thudno yn ardal cyngor Conwy, ynghyd â wardiau Dwyrain Y Rhyl, De Ddwyrain Y Rhyl, De Orllewin Y Rhyl a Gorllewin Y Rhyl yn ardal cyngor Sir Ddinbych. Nifer yr etholwyr: 72,521 (98.81% o gwota etholiadol y DU)

Gogledd Sir Ddinbych, sy'n cynnwys wardiau Betws yn Rhos, Gele, Llangernyw, Llansannan ac Uwchaled yn ardal cyngor Conwy, Bodelwyddan, Canol Dinbych, Dinbych Isaf, Dinbych Uchaf/Henllan, Disserth, Efenechdyd, Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal, Llandyrnog, Llaenrhaeadr-yng-Nghinmeirch, Canol Prestatyn, Dwyrain Prestatyn, Prestatyn Allt Melyd, Gogledd Prestatyn, De Orllewin Prestatyn, Rhuddlan, De Y Rhyl, Rhuthun, Dwyrain Llanelwy, Gorllewin Llanelwy, Trefnant a Thremeirchion yn Sir Ddinbych, a wardiau Caerwys, Cilcain, Ffynnongroyw, Gronant, Gwernaffield, Gwernymynydd, De Yr Wyddgrug, Gorllewin yr Wyddgrug, a Threlawnyd and Gwaenysgor yn Sir y Fflint. Nifer yr etholwyr: 71,578 (97.53%)

Mae Eifionydd yn cynnwys wardiau Betws-y-Coed, Bryn, Caerhun, Capel Ulo, Conwy, Crwst, Deganwy, Eglwysbach, Gower, Llansanffraid, Pandy, Pant-yr-afon/Penmaenan, Pensarn, Trefriw ac Uwch Conwy yng Nghonwy, ac Arllechwedd, Bethel, Bontnewydd, Cadnant, Cwm-y-Glo, Deiniol, Deiniolen, Dewi, Dolbenmaen, Garth, Gerlan, Glyder, Y Groeslon, Hendre, Hirael, Llanberis, Llanllyfni, Llanrug, Llanwnda, Marchog, Menai (Bangor), Menai (Caernarfon) , Ogwen, Peblig (Caernarfon), Penisarwaun, Pentir, Penygroes, Porthmadog-Tremadog, Seiont, Tal-y-sarn, Tregarth a Mynydd Llandygai, Waunfawr, Y Felinheli, a Chlynnog yng Ngwynedd. Nifer yr etholwyr: 71,289 (97.13% o gwota etholiadol y DU).

Arfordir Conwy

Nifer yr Etholwyr: 72,521 (98.81% o gwotaetholiadol y DU)



Gogledd Sir Ddinbych

³⁶¹
Nifer yr Etholwyr 71,578 (97.53% o gwota etholiadol y DU)



Google Earth

Image © 2021 CNES / Airbus
Image © 2021 Getmapping plc
Image Landsat / Copernicus

Eifionydd


Nifer yr Etholwyr: 71,289 (97.13% o gwota etholiadol y DU)



Google Earth

© 2008 Google. All rights reserved. Imagery © 2008 SIO, NOAA, U.S. Navy, NGA, GEBCO

Map data © OpenStreetMap contributors, Imagery © Mapbox



BCW-9898 / [REDACTED] Plaid Werdd Cymru / Llanrhystud


Yn ogystal â chynnig etholaeth Eifionydd ar gyfer rhannau o Wynedd, rydym hefyd dymuno cynnig etholaeth Eryri a Gogledd Sir Drefaldwyn, a elwir yn ffurfiol yn Eryri a Gogledd Maldwyn, i gydnabod presenoldeb cryf y Gymraeg yn yr ardal.

Mae'r etholaeth arfaethedig yn cynnwys wardiau Aberdaron, Aberdovey, Abererch, Abermaw, Abersoch, Bala, Botwnnog, Bowydd a Rhiw, Brithdir a Llanfachreth/Ganllwyd/Llanelltyd, Bryn-crug/Llanfihangel, Corris/Mawddwy, Criccieth, Diffwys a Maenofferen, Gogledd Dolgellau, De Dolgellau, Dyffryn Ardudwy, Efail Newydd/Buan, Harlech, Llanaelhaearn, Llanbedr, Llanbedrog, Llandderfel, Llanengan, Llangelynin, Llanuwchllyn, Llanystumdwy, Morfa Nefyn, Nefyn, Penrhyndeudraeth, Dwyrain Porthmadog, Gorllewin Porthmadog, Gogledd Pwllheli, De Pwllheli, Teigl, Trawsfynydd, Tudweiliog a Thywyn yng Ngwynedd, yn ogystal â wardiau Banwy, Aberriw, Caersws, Dolforwyn, Ffordun, Glantwymyn, Cegidfa, Llanbrynmair, Llandrinio, Llandysilio, Llanfair Caereinion, Llanfihangel, Llanfyllin, Llansanffraid, Llanwddyn, Machynlleth, Meifod, Trefaldwyn, Rhiwcynon, Trewern, Castell y Trallwng, Y Trallwng Gungrog, ac Y Trallwng Llannerch Hudol ym Mhowys. Byddai hyn yn rhoi 73,240 o etholwyr (99.79% o gwota etholiadol y DU).

Eryri a Gogledd Maldwyn

364

Nifer yr Etholwyr 72,133 (98.28% o gwota etholiadol y DU)



Google Earth

Image Landsat / Copernicus
Data SIO, NOAA, U.S. Navy


BCW-9899 / [REDACTED] Plaid Werdd Cymru / Llanrhystud

Rydym yn cytuno'n gyffredinol â'r Comisiwn ynghylch etholaeth arfaethedig Sir Fynwy, ond â thri eithriad.

Credwn y dylid cynnwys, yn yr etholaeth Sir Fynwy a gynigiwyd yn ffurfiol, ward Caerllion a ward Langstone yn ardal cyngor Casnewydd (y bwriedir eu gosod yn Nwyrain Casnewydd) a ward New Inn yn ardal cyngor Torfaen (y bwriedir ei gosod yn Nhorfaen).

Wardiau Caer-went, Castell Caldicot, Y Castell, Croesonnen, Devauden, Dewstow, Dixton gydag Osbaston, Drybridge, Goetre Fawr, Green Lane, Grofield, Lansdown, Larkfield, Llanbadoc, Llanybi Fawr, Llanofor, Llandeilo Gresynni, Mill, Llanfihangel Troddi, Overmonnow, Porth Sgiwed, Y Priordy, Rhaglan, Rogiet, Hafren, Drenewydd Gelli-farch, St. Arvans, St. Christopher's, St. Kingsmark, St. Mary's, The Elms, Thornwell, Tryleg Unedig, Brynbuga, West End a Wyesham yn ardal cyngor Sir Fynwy, yn ogystal â wardiau Caerllion a Langstone yn ardal cyngor Casnewydd a New Inn yn ardal cyngor Torfaen. Nifer yr etholwyr: 76,683 (104.48% o gwota etholiadol y DU)

Sir Fynwy
366
Nifer yr Etholwyr 76,683 (104.48% o gwota etholiadol y DU)



Google Earth

Image Landsat / Copernicus
Data SIO, NOAA, U.S. Navy, NGA, GEBCO



**Comisiwn Ffiniau
i Gymru**

**Boundary Commission
for Wales**

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth, e-byst a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.
Er mwyn cysylltu gyda'r Comisiwn, ysgrifennwch i:

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Gwaelod, Ty Hastings, Llys Fitzalan
Caerdydd, CF24 0BL

Rhif Ffon: +44 (0)29 20464819
Rhif Ffon: +44 (0)29 21055521
E-bost: bcw@ffiniau.cymru

© Hawlfraint y Goron 2021